# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 7 MAWRTH 2022 am 1:00 y. p. | | MONDAY, 7 MARCH, 2022 at 1:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Gary Pritchard, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
*Gwag/Vacant* (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH3 2021/22** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**3** **CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2022/23** (Tudalennau 13 - 68)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

**4** **STRATEGAETH RHAGLEN GRANT CYMORTH TAI 2022-26** (Tudalennau 69 - 212)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 7 Mawrth 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3 (2021/22) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Aled M Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Dafydd Rhys Thomas |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. – Argymhelliad/ion**

**1.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 ar olaf o'r weinyddiaeth bresennol. Caiff ei ystyried o fewn y cyd-destun sydd yn cydnabod yr heriau ehangach oedd ar ofyn y Cyngor yn Ch3 yn sgil effaith y pandemig.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch4.

**1.3.2** Yn draddodiadol, cynhelir gweithdy ym mis Mehefin bob blwyddyn rhwng y Gwasanaethau, yr UDRh a'r holl Aelodau er mwyn cytuno'r dangosyddion ar gyfer eu monitro yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, gan fod hon yn flwyddyn etholiad, ac na fydd yn bosibl cyfarfod ym mis Mehefin, bydd cytundeb ar y ffordd ymlaen ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn cael ei gytuno yn Ch4.

**1.4** Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor yn flynyddol gan fod y dangosyddion wedi'i cyd-blethu gydag amcanion llesiant y gorfforaeth.

| 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:<br>• y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>• y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)<br>• y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 4.1 I ba raddau mae Covid-19 yn parhau i gael effaith ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor?<br><br>4.2 Pa brif heriau a risgiau perfformiad sy'n wynebu'r Cyngor Newydd? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| 5.1 Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.<br><br>5.2 Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod ar y cyd â'n Dogfen Gyflawni Flynyddol 2020-22.<br><br>5.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef |

cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd.

5.4 Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer y Cyngor etholedig hwn cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

5.5 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 3 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth 2022.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Amherthnasol

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Amherthnasol

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Amherthnasol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch3.

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 3

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2021/22 – Chwarter 2 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2021 ac a dderbyniwyd ganddo.)

Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23

Cynllun y Cyngor 2017-2022

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2021/22)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion llesiant ar gyfer y cyfnod ar y cyd â'n Dogfen Gyflawni Flynyddol 2020-22, ac yn fwy diweddar, ein Cynllun Trosiannol a fydd yn ein harwain allan o'r pandemig i mewn i 2022.

1.2 Defnyddir yr adroddiad monitro chwarterol hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i sbarduno a diogelu gwelliannau.

1.3 Cytunwyd ar y dangosyddion sydd yn y cerdyn sgorio eleni yn ystod gweithdy a gynhaliwyd ar gyfer yr Aelodau Etholedig a'r Uwch Reolwyr ar 13eg Gorffennaf 2021. Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf i gael ei ystyried gan gyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 3 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2 Ni fu modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (tymhorol) (Ch3).

2.3 Ailgychwynnodd y gwaith o gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol Mesurau Atebolrwydd Perfformiad yn ystod 2021/22 ar ôl cael eu gohirio yn ystod dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r Mesurau Atebolrwydd Perfformiad ar gael ar ddechrau'r flwyddyn i helpu gyda'r broses o osod targedau. Felly cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol a hefyd yn seiliedig ar sut yr effeithiwyd arnynt o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (85%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes yr adroddir arno'n fewnol bob mis ac fe'i dadansoddir yn derbyn disgwyliadau o ran polisi i sicrhau gwelliant. Ar gyfer eleni cytunwyd ar darged heriol o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn dilyn colli 6.68 diwrnod oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr CALl yn 2020/21. Mae'r targed hwn yn 1 diwrnod a gollwyd i absenoldeb fesul CALl yn **is** na'r targed blaenorol o 9.75 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb fesul CALl.

3.3 Ar ddiwedd Ch3 mae'r Cyngor yn AMBR yn erbyn ei darged o 6.67 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl yn ystod y cyfnod, yn erbyn targed o 6.19 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl. Mae'r perfformiad hwn fymryn yn well na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig yn Ch3 2019/20 lle'r oedd 6.72 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb fesul CALl. **Er cyd-destun, roedd y targed ar gyfer Ch3 am y ddwy flynedd ddiwethaf yn 6.98 diwrnod a gollwyd i absenoldeb fesul CALl, a heb y newid yn y targed eleni byddai'r perfformiad wedi bod yn Wyrdd.**

3.4 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd o fewn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon, ac ar y cyfan, mae'r dangosyddion yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn ei darged yw dangosydd 04b - cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) - gyda pherfformiad o 56% yn erbyn targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaeth ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'n galonogol bod 33 allan o'r 35 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod, ac roedd 6 o'r 11 ymateb ysgrifenedig a anfonwyd yn hwyr wedi'u cytuno â'r achwynydd cyn canfod eu bod yn hwyr, fel y nodwyd yn y protocol cwynion.

3.5 Mae gwaith wedi parhau o ran gwella'r wybodaeth am fodlonrwydd cwsmeriaid yng nghyswllt galwadau ffôn. O ran y cynllun i ddarparu adborth i ddefnyddwyr ffôn, ni fu'n bosibl gwneud hyn oherwydd diweddariad i'r system sydd wedi cyfyngu'r modd y gellir defnyddio'r cyfleuster adborth. Mae camau ar waith ar hyn o bryd i ganfod dull amgen o gael adborth tebyg.

3.6 Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid wedi cyflwyno dyfais bodlonrwydd cwsmeriaid ddigyffwrdd o fewn Cyswllt Môn, a phan fydd y 'Sgwrsfot' yn fyw, sefydlir adran adborth i sicrhau bod opsiynau ar gael i gwsmeriaid allu mynd ati i gofnodi cyfraddau bodlonrwydd yn rheolaidd. Credir y bydd hwn, ynghyd â'r gwaith o ran y wybodaeth am fodlonrwydd cwsmeriaid yng nghyswllt galwadau ffôn, yn darparu dull cadarn a llawn gwybodaeth o gael rhagor o gyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid.

3.7 Mae'r adran rheoli cyllid yn darogan tanwariant o £3.528m ar hyn o bryd, ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.

3.8 Mae tanwariant o £2.315m wedi'i ddarogan yng nghyllidebau gwasanaethau, a rhagwelir tanwariant o £0.591m o ran cyllid corfforaethol. Disgwylir gorgyflawniad o £0.113m ar y Dreth Gyngor safonol. Rhagwelir incwm dros ben o £0.509m ar Bremiwm y Dreth Gyngor.

3.9 Mae lefel y tanwariant a ragwelir yn gwella safle ariannol y Cyngor yn sylweddol, ac mae'n caniatáu i'r Cyngor ariannu risgiau eraill sy'n dod i'r amlwg. Yn ogystal, mae'n caniatáu defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2022/23 yn rhannol. Bydd lefel Balansau Cyffredinol y Cyngor yn cael eu hadolygu fel yr ydym yn symud tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, i sicrhau bod y lefel yn mynd y tu hwnt i 5% y gyllideb refeniw net.

3.10 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £26.170m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosibl, i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2022/23, a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23.

3.11 Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 3 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r rhaglen gyfalaf yn gwneud cynnydd. Er y rhagwelir y bydd tanwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda 44% o'r gyllideb gyffredinol heb ei gwario. Mae'r rhesymau dros danwario yn amrywio o brosiect i brosiect a gellir eu priodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys targedau rhy uchelgeisiol o ran cyllidebau, materion o ran caffael, gan gynnwys diffyg marchnad gystadleuol, materion o ran cynllunio, cyllid a diffyg capasiti mewnol. Mae cyflwr presennol y sector adeiladu wedi gwaethygu'r problemau, gyda chynnydd sylweddol mewn prisiau, prinder deunyddiau a Covid yn ei gwneud yn anoddach bwrw ymlaen â phrosiectau yn ôl y bwriad. Er y lefel uchel o lithriant, nid oes disgwyl y bydd y Cyngor yn colli unrhyw gyllid allanol o ganlynol i'r oediadau.

3.12 Mae rhai o'r rhesymau pam fod y rhaglenni cyfalaf wedi tanwario yn cynnwys:

- Effeithiau'r pandemig coronafeirws ar raglenni a phrosiectau
- Y cynnydd presennol yn y farchnad dai ynghyd â chynnydd mewn costau deunyddiau,
- Prosiectau a chynlluniau yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.

3.13 Mae'r cyfrifon refeniw a chyfalaf yn cael eu trafod gan y Panel Sgriwtini Cyllid lle mae unrhyw danwariant yn cael ei graffu'n drylwyr cyn cyflwyno adroddiad ar y cynnydd I'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol.

3.14 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch3' a'r 'Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch3' a drafodir gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 3ydd Mawrth.

3.15 Unwaith eto, mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid. Mae'n

galonogol hefyd nodi bod staff yr Awdurdod, yn ystod cyfnod llawn heriau, yn cyflawni yn erbyn eu disgwyliadau, a hynny i safon briodol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Ch3 mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y dangosyddion perfformiad (82%) yn perfformio'n uwch na'u targed neu o fewn 5% i'w targed. Mae hyn unwaith eto'n cymharu'n ffafriol â'r perfformiad a welwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, yn ogystal ag yn Ch3 yn 2020/21.

4.2 Fodd bynnag, nodir bod pum dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau, ac fe'u hamlygir yn Goch neu Ambr ar y Cerdyn Sgorio.

4.3 Mae'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn ystod Ch2 yn erbyn **Amcan Llesiant 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir, yn perfformio'n dda ac yn uwch na'r targed ac yn Wyrdd ar gyfer y cyfnod.

4.4 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.4.1 Dangosydd 10 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff – a chanddo lefel berfformiad o 92% yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn gadarnhaol iawn gan y cafodd y cynllun ei atal y llynedd o ganlyniad i'r pandemig, a dyma'r tro cyntaf i gleientiaid gwblhau'r rhaglen ers ei hailddechrau.

4.4.2 Indicator 11 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u hadfer i ddefnydd - sydd bellach yn gyfanswm o 73 eiddo sydd wedi'u hadfer i ddefnydd yn erbyn targed blynyddol o 50. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi profi i fod yn fuddiol yma, ac mae'n gadarnhaol bod 73 yn llai o eiddo gwag o fewn ein cymunedau.

4.5 Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl, yn dangos perfformiad da unwaith eto. Dim ond dau ddangosydd (13%) sydd yn Felyn tra bo 12 dangosydd (80%) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.6 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.6.1 Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) yn Wyrdd yn erbyn eu targed, ac wedi gwella yn ystod y chwarter. Ar adeg pan fu'r Gwasanaeth o dan bwysau o ganlyniad i'r pandemig, mae hyn yn galonogol ac yn argoeli'n dda ar gyfer yr adeg y byddwn yn symud i mewn i'r cyfnod endemig.

4.6.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 + 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi dangos perfformiad da hefyd, gyda'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targed ac yn gwella yn ystod y chwarter. Bu defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru'n hanfodol o ran caniatáu i hyn ddigwydd, yn

ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau bod ein pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.

4.7 Fodd bynnag, nodir gennym fod un dangosydd wedi dirywio mymryn o gymharu â'r perfformiad a welwyd yn ystod y ddau chwarter cyntaf.

4.7.1 Mae dangosydd 23 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn – yn AMBR gyda pherfformiad o 321 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Mae'r perfformiad wedi dirywio yn erbyn y 253 diwrnod a welwyd yn Ch3 2020/21 a'r 232 diwrnod a adroddwyd cyn y pandemig yn Ch3 2019/20.

Mae 21 o blant (o gyfanswm o 47 ar y gofrestr) sydd wedi bod ar y gofrestr am fwy na 7 mis. Mae'r achosion hyn yn gymhleth o ran eu natur ac mae llawer o'r plant hyn yn destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, tra bo'r gweddill yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd Porth Cyfreithiol. O ran pob achos sy'n cyflawni'r meini prawf llym ar gyfer eu tynnu oddi ar y gofrestr, fe gawsant eu tynnu o oddi ar y gofrestr, neu bydd hynny'n digwydd pan fo'n briodol i wneud hynny.

4.8 Cymysg fu perfformiad cyffredinol y dangosyddion o fewn **Amcan Llesiant 3** gyda 57% o'r rheiny â thargedau yn tanberfformio.

4.9 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.10 Dau ddangosydd rheoli gwastraff (Dangosydd 31 a 33) sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter. Roedd 96% o'n strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân rhag unrhyw wastraff, ac mae'n galonogol cael nodi bod digwyddiadau o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 0.3 diwrnod.

4.11 Nodwn fodd bynnag bod pedwar dangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi'u hamlygu'n Goch neu'n Ambr ar y Cerdyn Sgorio.

4.11.1 Dangosydd 32 - Canran y gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio - sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 61.2% yn erbyn targed o 70% ar gyfer y chwarter. Mae'r perfformiad hwn yn is na'r 66.93% a welwyd yn Ch3 2020/21 a'r 68.02% a welwyd yn Ch3 2019/20.

Mae'r perfformiad hwn yn welliant ar y 60.8% a adroddwyd ar ddiwedd adroddiad Ch2. Fodd bynnag, nodir bod hyn yn ostyngiad mewn perfformiad o gymharu ag adroddiadau Ch3 blaenorol ac mae llawer o resymau am hyn o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gellir nodi'r rhesymau dros y dirywiad hwn fel a ganlyn –

- Gostyngiad yn y defnydd a wneir o'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig, o ganlyniad i system archebu sy'n dal i fod ar waith (oherwydd Covid-19 yn y lle cyntaf), ond y canfuwyd ei fod yn fesur rheoli Iechyd a Diogelwch i leihau'r risg o ran traffig oherwydd bod cerbydau'n ciwio ar y briffordd.

- Cynnydd mewn gwastraff bin du wrth i bobl barhau i weithio gartref (nodwch fod y tunelledd bin du a gasglwyd yn bron i 640 tunnell yn uwch ar gyfer Ch3 o gymharu â lefelau cyn-covid yn 2019/20).
- Cynnydd mewn gwastraff biniau duon o gartrefi yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r Ynys, gyda llawer yn dod o ardaloedd lle mae eu cyfraddau ailgylchu yn is.
- Mae rhywfaint o wastraff gwyrdd hefyd yn cael ei roi yn y biniau du, er bod nifer y tanysgrifiadau a gofnodwyd yn uchel, roedd y tunelledd gwastraff gwyrdd cyffredinol a gasglwyd yn 185 tunnell yn llai ar gyfer Ch3 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21.

Mae ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar y perfformiad yn cynnwys cael mannau ailgylchu addas i ailgylchu'r coed a gesglir yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig. I liniaru'r broblem hon, canfuwyd marchnadoedd amgen gennym ar gyfer ailgylchu gwastraff coed, yn hytrach na'i anfon i safle biomas (llosgi) **nad yw'n** darparu unrhyw gynnyrch sydd wedi'i ailgylchu.

Mae'r materion hyn yn rhai sy'n cael eu goruchwylio gan y grŵp llywio, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o WRAP Cymru, CLILC ac aelod etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Bydd WRAP Cymru yn ymweld â'r Ynys i ymgymryd ag asesiad ymarferol yn ystod Ch1 2022/23. Mae'r gwaith sydd i'w wneud gan WRAP Cymru yn gymhleth ac oherwydd hyn disgwylir y bydd canlyniadau'r dadansoddiad ar gael yn ystod Ch2 o 2022/23.

**Blaenoriaeth uniongyrchol y Cyngor yw cyrraedd y targed ailgylchu statudol cyfredol o 64% ar gyfer 2021/22,** ond mae'n bwysig nodi y bydd cymariaethau ag amlinelliad perfformiad y flwyddyn flaenorol yn her sylweddol yn ystod Ch4.

Wrth edrych ymlaen, y gofyniad tymor hwy fydd cyrraedd y targed ailgylchu 70% statudol erbyn 2024/25.

4.11.2 Dangosydd 34 - Y cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person - sydd yn AMBR gyda pherfformiad o 193 cilogram yn erbyn targed o 180 cilogram.

Yn debyg i'r materion a nodwyd uchod, mae'r pandemig wedi effeithio ar y dangosydd hwn gan fod mwy o bobl yn gweithio gartref, ac yn rhannol oherwydd bod rhywfaint o wastraff gwyrdd yn cael ei roi yn y bin du gan rheiny sydd wedi dewis peidio â thalu'r ffi gwastraff gwyrdd.

**Mae'r mesurau lliniarol a nodwyd ar gyfer dangosydd 32 hefyd yn berthnasol i'r dangosydd hwn.**

4.11.3 Dangosydd 35 – Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser – sydd yn AMBR gyda 76% yn erbyn targed o 82%.

Mae'r perfformiad o ran penderfynu ceisiadau cynllunio wedi gwella yn ystod y cyfnod o Hydref i Ragfyr (Ch3), gyda 80% o geisiadau'n cael eu

penderfynu o fewn y cyfnodau amser disgwyliedig. Mae hyn yn gynnydd o'r 73% a benderfynwyd yn ystod y cyfnod o Orffennaf i Fedi (Ch2), sy'n dod â'r ffigur cronnol i fyny i'r 76% a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn.

O fewn y perfformiad sydd wedi gwella yn ystod y chwarter, dangosir mwy o gapasiti i ddelio â cheisiadau ynghyd â mwy o bwyslais ac ymwybyddiaeth o faterion o ran rheoli perfformiad. Mae oediadau o ran derbyn ymateb i ymgynghoriadau (mewnol ac allanol) yn parhau i effeithio perfformiad. Mae hyn yn fater y bydd y swyddogaeth gynllunio yn ei flaenoriaethu yn ystod Ch4.

4.11.4 Dangosydd 36 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 43% yn erbyn targed o 65%.

Ni chafwyd unrhyw benderfyniadau newydd o ran apeliadau a dderbyniwyd yn ystod y chwarter, ac felly ni chafwyd unrhyw newid yn y dangosydd hwn, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ers adroddiad Ch2.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â niferoedd bychan iawn, ac mae'r tanberfformiad o ganlyniad i gadarnhau 3 allan o 7 apêl cynllunio. Dylid nodi nad yw penderfyniadau apêl yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.

Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl yn ymwneud â cheisiadau tebyg i geisio canfod unrhyw batrymau sy'n datblygu lle dylem ailedrych ar ein dehongliad o'n polisïau cynllunio lleol.

**Bydd aelodau a etholwyd o'r newydd a ddewiswyd ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a fydd yn gweithredu o fis Mai 2022 yn ymgymryd â sesiynau hyfforddi cefnogol a fydd yn darparu dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau.** Bydd hefyd yn rhoi sylw i'r broses benderfyniadau cynllunio, gan sicrhau bod proses benderfyniadau gadarn yn glir wrth wneud penderfyniadau sy'n groes i gyngor proffesiynol swyddogion.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

5.2 Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.2.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch4.

5.2.2 Yn draddodiadol, cynhelir gweithdy ym mis Mehefin bob blwyddyn rhwng y Gwasanaethau, yr UDRh a'r holl Aelodau er mwyn cytuno'r dangosyddion ar gyfer eu monitro yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, gan fod hon yn flwyddyn etholiad, ac na fydd yn bosibl cyfarfod ym mis Mehefin, bydd cytundeb ar y ffordd ymlaen ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn cael ei gytuno yn Ch4.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed BI / Year Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | - | 94.60% | - | 94.90% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | - | - | - | - | 94.40% | - | 93.90% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 3% | 4.2% | 2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | 87.50% |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | - | - | 65.01% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | - | - | - | - | 75% | - | 75% |
| 7) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff (Ch3) | Melyn / Yellow | - | 46% | 50% | 50% | - | 75% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff (Ch3) | Gwyrdd / Green | - | 92% | 80% | 80% | - | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 73 | 38 | 50 | 94 | 104 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 1 | 1 | 3 | 9 | 7 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 13.78 | 18 | 18 | 8.1 | 16.44 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | - | - | - | - | - | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch3) | - | - | - | - | 3 | - | 6.88 |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.83% | 90% | 90% | 92.31% | 91.30% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 65.17% | 62% | 62% | 60.36% | 63.08% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 15.09 | 19 | 19 | 15.36 | 17.57 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.40% | 93% | 93% | 98.20% | 98.00% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↓ | 90% | 90% | 90% | 86.87% | 89.62% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 3.62% | 5% | 10% | 12.34% | 8.39% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 7.89% | 15% | 15% | 32.00% | 12.75% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↓ | 321 | 270 | 270 | 258 | 224 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↓ | 99.12% | 95% | 95% | 99.56% | 98.88% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↓ | 86.38% | 90% | 90% | 87.74% | 86.30% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 82.69% | 70% | 70% | 74.74% | 74.91% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 85% | 70% | 70% | 75.47% | 77.70% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | ↓ | 188 | 170 | 170 | 169 | 159.58 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↑ | 27.9 | 40 | 40 | 45.6 | 21.9 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | ↑ | 1.66% | 2.00% | - | 1.98% | 1.42% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 96% | 95% | 95% | 92.00% | 93.79% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Coch / Red | ↑ | 61.2% | 70% | 70% | 62.96% | 67.26% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.31 | 1 | 1 | 0.95 | 0.96 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Ambr / Amber | ↓ | 193 | 180 | 240kg | 214kg | 206.17kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Ambr / Amber | ↑ | 76% | 90% | 90% | 79% | 90% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | → | 43% | 65% | 65% | 58% | 78% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 84% | 80% | 80% | 74% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 3% | 2.90% | 4.60% | 4% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 4% | 3.80% | 3.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | - | - | - | 9% | 8.70% | 8.50% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | - | - | 354.72 | | | - | |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | - | - | 1,117,610 | | | 1,254,419 | 1,969,871 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | - | - | 579,484 | | | - | |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | - | - | - | | | | |

Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn wahanol

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2021/22

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 43 | 50 | 43 | 67 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 8 | - | 6 | - |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 13 | - | 8 | - |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 81% | 80% | 88% | 94% |
| 04b) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 56% | 80% | 75% | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 43 | - | 24 | - |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | 119 | - | 104 | 136 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | | | 286 | - | 662 | 618 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↑ | 79% | 80% | 79.4% | 82% |
| 09) Boddhad Cwsmeriad i'r wasanaeth ffôn - I'w gadarnhau (Ch4) | | | | | - | - |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↓ | 47k | - | 33.5k | 15k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↓ | 45k | - | 58k | 10.8k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↓ | 18k | - | 18.5k | 13k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↑ | 9.6k | - | 7k | 6.5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | → | 92k | - | 42k | 33k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cygor | | ↓ | 563k | - | 1.03M | 783k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 20/21 Result | Canlyniad 19/20 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2235 | - | 2180 | 2181 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↑ | 6.67 | 6.19 | 6.68 | 9.4 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 2.69 | - | 1.94 | 4.2 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.98 | - | 4.74 | 5.2 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 6% | 9% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | ↑ | £100,750,000 | £99,241,000 | -1.50% | - | - |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £147,120,000 | - | - | £144,214,000 | -1.98% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | - | ↑ | £37,387,000 | - | - | £23,386,000 | -37.45% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↑ | -£9,818,594 | -£10,415,875 | 6.08% | - | - |
| 05) Swm a fenthycwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | £7,188,000 | - | - | £5,240,000 | -27.10% |
| 06) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | ↑ | £4,550,756 | - | - | £4,106,818 | -9.76% |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 98.54% | - | - | - |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↓ | - | 96.47% | - | - | - |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | - | - | 100.6% | - | - | - |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | 101.1% | - | - | - |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 07/03/2022 |
| **Pwnc:** | Cynllun Busnes y Cynllun Refeniw Tai |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cynllun Refeniw Tai ar gyfer 2022-23 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Aelodau lleol:** | |

**1 – Argymhelliad/ion**

**Gofynnir i'r Pwyllgor:**

**A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell Cynllun Busnes Drafft y Cyfrif Refeniw Tai 2022-2052 i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae'n cyfrannu'n bennaf at y themâu sy'n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol ar gyfer Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio

- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effaith bosib y penderfyniad ar:

- y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020
- rheiny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- cyfleodd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg **[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. I ba raddau ym mae'r Cynllun Busnes yn gynllun hyfyw sy'n caniatáu i'r Cyngor fuddsoddi'n ddigonol yn ei stoc dai bresennol yn ogystal â datblygu ychwaneg o dai fforddiadwy ar hyd a lled Ynys Môn?

2. I ba raddau mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn darparu llety digonol i bobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd amrywiol a grwpiau cleientiaid eraill?

3. Caiff codiadau rhent eu trafod, sut y cytunwyd ar y cynnydd hwn ac a yw'n dderbyniol yn yr hinsawdd bresennol?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

**1.0** Cefndir

**1.1** Mae'r Cynllun Busnes a gyflwynir yn dal i fod ar ffurf drafft a bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei diwygio a'i golygu ymhellach cyn ei chyflwyno'n derfynol i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Mae'r Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn wedi cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid. Y Cynllun Busnes yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn nodi:-

- sut bydd y Cyngor yn dod â'r cyfan o'i stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) – mae rhai eiddo'n parhau i gael eu categoreiddio fel 'methiannau derbyniol';
- sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal safonau SATC a rhagori arnynt a gweithio tuag at ddatgarboneiddio ei stoc dai;
- y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynyddu'r stoc dai a darparu tai fforddiadwy drwy ddeiliadaethau amrywiol mewn ardaloedd lle gellir profi bod gwir angen am dai fforddiadwy.

Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi trosolwg o'r holl weithgareddau a ymgymerwyd â hwy drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

**1.2** Mae’r Cyngor, drwy'r CRT, yn berchen ar, ac yn rheoli 3,886 o eiddo ac ychydig dros 700 o garejys, ar hyd a lled yr Ynys.

Dros gyfnod y Cynllun Busnes hwn fe fyddwn yn gweld y nifer stoc yn cynyddu i dros 5000 o unedau.

**1.3** Mae’r Cynllun Busnes CRT yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae’n cyfrannu yn bennaf at y themâu sy’n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu’r Economi.

**1.4** Fel rhan o'r Cytundeb Gwirfoddol a lofnododd Awdurdodau Lleol gyda Llywodraeth Cymru, trafodwyd a chytunwyd ar hyblygrwydd i fenthyca sydd yn caniatáu ar gyfer adeiladu tai Cyngor o’r newydd a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru.

**1.5** Mae’r CRT yn parhau i gael ei glustnodi’n benodol ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy’n gysylltiedig â stoc dai’r Cyngor. Mae hyn yn golygu na chaiff y Cyngor roi cymhorthdal i dai Cyngor o’r gronfa gyffredinol.

**1.6 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â SATC ers 2012, yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon ar y pryd.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

Mewn cyflwr da.
Yn ddiogel.
Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
Wedi eu rheoli'n dda.
Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i’r graddau y mae hynny’n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

1.7 Mae swm dros dro o £59.5m wedi ei gynnwys yn y Cynllun Busnes ar gyfer datgarboneiddio’r stoc dai erbyn 2030.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| |
| **6.1 Yr effeithiau posib ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |

| **6.2 Yr effeithiau posib ar y rheiny sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| --- |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posib ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| --- |
| Mae’r CRT wedi’i glustnodi ac mae’r holl incwm a gwariant ar wahân i Gronfa Gyffredinol y Cyngor.<br><br>Mae’r Cynllun Busnes ynghlwm yn ariannol hyfyw drwy gydol cyfnod Cynllun Busnes, cyfnod o 30 mlynedd, a chaiff cronfeydd wrth gefn eu cynnal ar lefel dderbyniol drwy gydol cyfnod y cynllun. |

| **8 – Atodiadau** |
| --- |
| Cynllun Busnes Drafft CRT 2022-2052 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| |



# CYNLLUN BUSNES

# Y CYFRIF REFENIW TAI

2022-2052

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Llywodraeth Cymru Welsh Government

| | Cynnwys | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad<br>Gweledigaeth y Gwasanaeth<br>Amcanion Strategol<br>Amcanion y Cynllun Busnes<br>Cyd-destyn lleol a cenedlaethol | |
| 2. | **Effaith Covid ar ein gwasanaethau** | |
| 3. | **Ein Gwasanaethau Landlord / Tai Cymunedol**<br>Diweddariad ar weithrediadau gwasanaeth Tai Cymunedol | |
| 4. | **Taclo tlodi**<br>Diweddariad ar weithrediadau gwasanaethau a phrosiectau taclo tlodi | |
| 5 | **Cynnal a Chadw**<br>Diweddariad ar weithrediadau gwasanaeth cynnal a chadw a datblygiadau newydd | |
| 6 | **Ein Staff**<br>Diweddariad ar gyflawniadau, proffil ein staff, datblygiadau staff | |
| 7 | **Dangosyddion Perfformiad** | |


Draft

## 1.0 Cyflwyniad

Nod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, y cyfeirir ato yn y ddogfen fel y CRT, yw cynllunio ymlaen llaw i sicrhau bod cynllun ariannol hyfyw ar waith ar gyfer ein stoc o Dai Cyngor.

Mae'r CRT yn ariannu holl weithrediadau'r Cyngor yn ei rôl fel landlord y stoc dai. Mae hyn yn cynnwys cynnal y stoc dai, gwaith cyfalaf a gwelliannau amgylcheddol, sicrhau cymaint o incwm rhent ag sy’n bosibl, rheoli stadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sicrhau bod tenantiad yn cyfranogi ar y lefel uchaf bosib er mwyn dylanwadu ar ein blaenoriaethau, ynghyd â chynyddu ein stoc tai er mwyn cyfrannu at ddiwallu'r angen am dai cymdeithasol ar yr Ynys.

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal Cyfrif Refeniw Tai statudol wedi’i glustnodi’n benodol ac yn cofnodi incwm a gwariant ar dai cyngor ar wahân i incwm a gwariant Cronfa'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Busnes yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i

- gynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru a mynd i'r afael â “methiannau derbyniol” yn ogystal a symud tuag at ddi-garboneiddio ein stoc tai,
- mynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella perfformiad a chanlyniadau gwasanaethau, gan ysgogi gwelliant pellach o ran y gwasanaethau y mae ein tenantiaid yn eu derbyn,
- darparu gwasanaethau i'n tenantiaid sy'n cynnig gwerth am arian a hynny yn ystod cyfnod o ostyngiadau cynyddol mewn gwariant cyhoeddus,
- cynyddu atebolrwydd drwy ymgysylltu mwy â staff, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid allweddol,
- sicrhau bod darpariaeth ddigonol i liniaru rai o effeithiau posibl Diwygio Lles ar gymunedau lleol, drwy roi'r adnoddau iddynt helpu eu hunain yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth, a
- cyflawni ein rhaglen ddatblygu ar gyfer adeiladu tai Cyngor newydd.

Drwy ddarllen y Cynllun, byddwch yn cael sicrwydd bod y CRT yn cael ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Draft

### 1.1 Gweledigaeth y Gwasanaeth

Ein Gweledigaeth yw:

***Cartrefi o safon : cymunedau cynaliadwy***

ac mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar y gwerthoedd sylfaenol sydd wrth wraidd ein gwaith ac sy'n llywio'r modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, sef:-

♣canolbwyntio ar y cwsmer a bod yn atebol

♣darparu gwerth am arian

♣ymrwymo i weithio mewn partneriaeth

♣bod yn arloesol yn ein dull gweithredu

### 1.2 Ein Blaenoriaethau fydd:

- Adfywio stadau;
- Adeiladu tai newydd, gan gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a'r nifer o wahanol ddeiliadaethau sydd ar gael hyn yn seiliedig ar asesiad anghenion tai yn y gwahanol ardaloedd;
- Llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd.

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i gyrff sy'n ein hariannu, tenantiaid ac Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y cynllun hwn ar gael gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn,
LL77 7TW. Housing@anglesey.gov.uk e-bost

### 1.3 Amcanion Strategol

Mae tai yn chwarae rhan bwysig iawn yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at lawer o'i amcanion.

- Drwy adeiladu tai newydd a gwella ein stoc bresennol, byddwn yn cael effaith yn lleol ac yn sicrhau buddion cymunedol.

- Byddwn yn darparu cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan yn y broses o wella gwasanaethau ac yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl allu cymryd rhan yn eu cymunedau drwy sefydlu grwpiau cyfranogiad tenantiaid.

Mae cynllun Corfforaethol y Cyngor wrthi'n cael ei adolygu yn barod ar gyfer lansio ein cynllun 5 mlynedd newydd yn 2023.

https://www.anglesey.gov.uk/en/Get-involved/Consultations/Current-consultations/Anglesey-priorities-your-views.aspx

Draft

Draft

### 1.4 Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

- Wrth i ni aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2021, cofnodwyd yn rhagamcan poblogaeth Canol Blwyddyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Ynys Môn fod 70,440 o bobl yn byw yma, gyda 11,921 (16.9%) rhwng 0 a 15 oed, 39,880 (56.6%) rhwng 16 a 64 oed a 18,639 (26.5%) yn 65+ oed.
- Yn seiliedig ar ragamcan canol blwyddyn Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19, rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn gostwng i 69,609 erbyn 2031 ac yn gostwng ymhellach i 69,476 erbyn 2035.
- Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio gyda 18,639 (26.5%) yn 65 oed neu'n hŷn. Rhagwelir y bydd y garfan oedran 65+ yn cynyddu i 21,089 (30.3%) erbyn 2031 a 21,984 (31.6%) erbyn 2035. Disgwyliad oes dynion a menywod sy'n byw ar Ynys Môn yw 78.5 ac 83 o flynyddoedd yn y drefn honno.
- Cofnodwyd bod cyfanswm o 35,036 o anheddau yn Ynys Môn yn 2020 ac roedd 26,017 (74.3%) ohonynt yn eiddo i berchen-feddianwyr, 4,089 (11.7%) yn cael eu rhentu'n breifat, 3,831 (10.9%) yn rhan o stoc yr Awdurdod Lleol a 1,099 (3.1%), yn eiddo i Gymdeithasau Tai.
- Ar gyfartaledd, roedd maint aelwydydd Ynys Môn yn 2020 yn 2.20, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 2.26.
- Yn ôl data 2020, person sengl oedd yn byw mewn 10,856 o aelwydydd ac roedd 10,352 arall yn cynnwys 2 berson a dim plant.
- Amcangyfrifwyd nad oedd plant yn ffurfio rhan o'r aelwyd mewn 69% o'r holl eiddo ar yr Ynys.
- Nid oes gan 15.8% o'r holl aelwydydd ar Ynys Môn fynediad i'w cludiant eu hunain.
- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 wedi rhestru bod Llangefni o fewn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran incwm ledled Cymru. Wedi ystyried pob elfen o amddifadedd, mae'r dref hefyd ymhlith y 10-20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn gyffredinol.
- O ran amddifadedd sy'n gysylltiedig â thai, mae Bodorgan a Niwbwrch ymhlith y 10% uchaf yn genedlaethol.
- Nid oes gan Ynys Môn unrhyw ardaloedd sydd o fewn y 10% mwyaf difreintiedig o ran yr amgylchedd ffisegol ac iechyd fel meysydd ar gyfer mesur amddifadedd.
- Amcangyfrifir bod gan tua 9,400 o ddinasyddion ar Ynys Môn anghenion sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl.
- Yn ôl GIG Cymru (2019), mae gan 25,430 (39%) o gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu ar Ynys Môn gyflwr/salwch cronig.
- Mae 16.7% o ddinasyddion Ynys Môn yn derbyn budd-dal lles, sy'n cymharu â chyfartaledd o 17.4% ledled Cymru.
- Nid oes gan 24.2% o boblogaeth Ynys Môn unrhyw gymwysterau o'i gymharu â 25.98% ledled Cymru.
- Yn 2020, roedd y gyfradd ddiweithdra ymysg gweithlu Ynys Môn yn 4.40%.

### 1.5 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn ym mis Gorffennaf 2017. Mae hon yn strategaeth ddatblygu am gyfnod o 15 mlynedd ar gyfer defnydd tir sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn llywio'r gwaith o ddatblygu tai newydd ar yr Ynys, yn ogystal â defnydd arall o dir. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

### 1.6 Strategaeth Ynys Môn ar gyfer Hybu'r Gymraeg

Y weledigaeth ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg yw:

- Bod trigolion yn gallu fforddio byw a sefydlu cartrefi yn eu cymunedau lleol
- Bod ymdeimlad cyffredin o ymgysylltiad a balchder ymhlith trigolion yn ein cymuned fywiog, wirioneddol ddwyieithog
- Bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol

### 1.7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio tai fel conglfaen lles unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant ym mhopeth a wnânt.

### 1.8 Datgarboneiddio

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar Lywodraethau i leihau allyriadau carbon ac yng Nghymru, disgwylir i'r lleihad hwn fod o leiaf 80% erbyn 2050.  Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn 2019 sef Cartrefi Gwell, Cymru Gwell, Byd Gwell (Gorffennaf, 2019) yn cyflwyno 7 argymhelliad i Lywodraeth Cymru arwain arnynt ac yn datgan

'Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf effeithlon yn y DU ac Ewrop. Adeiladwyd 32% o stoc dai Cymru cyn 1919 cyn bodolaeth unrhyw safonau adeiladu mewn perthynas â pherfformiad thermol. Dim ond 10% o gartrefi Cymru gafodd eu hadeiladu yn ystod y 18 mlynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r gofynion o ran perfformiad ynni wedi newid yn ddramatig.'

Mae Cynllun diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel" yn cynnwys pennod gyfan ar adeiladau o bob math o ddeiliadaethau a nodir mai adeiladau preswyl ar y cyfan yw prif ffynhonnell allyriadau yng Nghymru.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan argyfwng hinsawdd a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn rhan o'r ymgyrch i ddatgarboneiddio.

### 1.9 Ail-ddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru: Strategaeth Dulliau adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020

Strategaeth sy'n nodi'r disgwyliadau mewn perthynas â chynhyrchu cartrefi sy'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern sy'n annog defnyddio technolegau a dulliau newydd ochr yn ochr â dulliau adeiladu traddodiadol.

### 1.10 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Draft

Nod y Ddeddf hon yw ei gwneud yn symlach i rentu cartref a diogelu hawliau tenantiaid. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn disodli'r holl denantiaethau a thrwyddedau presennol gydag ond dau fath o gontract meddiannaeth, sef diogel neu safonol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen ailgyhoeddi pob cytundeb tenantiaeth - rhai newydd a rhai cyfredol. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu hawliau newydd i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig, pobl mewn tai a rennir a thenantiaid sydd angen cael gwneud gwaith atgyweirio yn eu tai.

### 1.11 Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen gweithredu ar frys i hyrwyddo gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae pawb yn cael eu trin fel dinasyddion cyfartal ac fel Cyngor, rydym wedi cyfrannu at y ddogfen ymgynghori a fydd yn arwain at weithredu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Bydd ein Strategaeth Dai yn hyrwyddo'r nod cyffredinol o 'sicrhau bod pob aelod o'n cymdeithas yn gallu byw mewn cartrefi gweddus a fforddiadwy sy'n diwallu'r amryfal anghenion sydd gan bobl'.

### 1.12 Yr Angen a'r Galw am Dai a'r Blaenoriaethau Cysylltiedig

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon yn nodi'r data sy'n ymwneud â'r angen am dai ar gyfer yr Ynys, ac mae'n gywir ym mis Chwefror 2022.

### 1.13 Gwybodaeth o'r gofrestr tai cymdeithasol


Yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ym mis Ionawr 2022, roedd 715 o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cymdeithasol gyda'r mwyafrif yn gofyn am eiddo anghenion cyffredinol 1 a 2 ystafell wely ac eiddo ar gyfer pobl hŷn.

| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4 + ystafell wely | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anghenion Cyffredinol** | 269 | 166 | 77 | 54 | 566 |
| **Llety i Bobl Hŷn** | 120 | 27 | 1 | 1 | 149 |
| **CYFANSWM** | 389 | 193 | 78 | 55 | 715 |
| **%** | 54% | 27% | 11% | 8% | |

*Rhestr Aros y Gofrestr Tai Cymdeithasol yn ôl math a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen*

Gellir gweld natur y galw am dai cymdeithasol ar y map isod, gyda'r galw ar ei uchaf yng Nghaergybi , Llangefni, Porthaethwy, Llanfairpwll, Amlwch, Y Fali, Llanfair ME, Llanfihangel Ysgeifiog a Biwmares. Noder bod rhai ymgeiswyr ar y rhestrau aros ar gyfer mwy nag un ardal.

Draft




Gellir gweld natur y galw am lety rhent cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ar y map isod ac mai ardaloedd Caergybi, Llangefni, Llanfairpwll a Phorthaethwy yw'r dewisiadau mwyaf poblogaidd.

### 1.14 Ein Tenantiaid - Ein stoc a phroffil ein tenantiaid - Proffil y Stoc Dai


| | **Nifer yr eiddo** |
|---|---|
| Adeiladwyd mewn dull traddodiadol cyn 1945 | 319 |
| Adeiladwyd mewn dull traddodiadol 1945 - 1964 | 1221 |
| Adeiladwyd mewn dull traddodiadol ar ôl 1965 | 1326 |
| Adeiladwyd yn ôl dull systematig (ac nid mewn modd traddodiadol) | 176 |
| Tai a godwyd o'r newydd neu dai a gaffaelwyd ers Ebrill 2015 | 83 |
| *Cyfanswm Tai a Byngalos* | 3125 |
| Fflatiau lefel isel cyn 1945 (1-2 lawr) | 15 |
| Fflatiau lefel isel ar ôl 1945 a'r holl fflatiau lefel canolig | 623 |
| Fflatiau lefel uchel (6 llawr +) | 91 |
| Tai a godwyd o'r newydd neu dai a gaffaelwyd ers Ebrill 2015 | 232 |
| *Cyfanswm Fflatiau a Fflatiau Deulawr ('Maisonettes')* | 761 |
| ***Cyfanswm Tai a Fflatiau*** | 3886 |

Draft

Adeiladwyd 40% o'n stoc rhwng 1945 a 1964.

| Math o Eiddo | Nifer Eiddo | % y Stoc |
|---|---|---|
| Tai | 2067 | 53% |
| Byngalos | 709 | 18% |
| Fflatiau | 641 | 17% |
| Llety Gwarchod | 469 | 12% |
| **Cyfanswm** | **3886** | **100%** |

**1.15 Proffil ein tenantiaid yn seiliedig ar ddata 2021**




Draft

## 1.16 Canlyniadau Arolwg STAR

Yn 2021, comisiynodd Tai Môn wasanaethau partner ymchwil allanol i gynnal arolwg STAR. ARP Research fu'n llwyddiannus yn yr ymarfer caffael ar gyfer y darn hwn o waith a bydd y canlyniadau'n cael eu lansio yn 2022-23.

Pan ysgrifennwyd ein cynllun busnes, roedd canlyniadau arolwg STAR 2021 yn cael eu prosesu a'u dadansoddi.

Bydd ARP Research yn darparu dau fath o adroddiad. Un adroddiad ar gyfer ein tenantiaid a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag adroddiad mwy manwl i'w ystyried.

Gan fod arolwg STAR 2021 wedi'i arwain gan gwmni ymchwil allanol, derbyniwyd y nifer uchaf o holiaduron wedi'u cwblhau nag mewn unrhyw arolwg blaenorol.

Roedd arolwg 2019 yn ddogfen 15 tudalen, a oedd yn cynnwys nifer o gwestiynau cymdeithasol-demograffig mwy manwl. Roedd holiadur 2021, yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru, wedi'i grynhoi i un dudalen ac yn cynnwys set o 12 cwestiwn craidd.

Yn 2019, ymatebodd 19% o'n tenantiaid drwy'r post yn unig ac roedd canran uwch o ymatebwyr yn y proffil oedran dros 55 mlwydd oed. Derbyniwyd tua 650 o ymatebion i'r arolwg yn 2019. Yn 2021, ymatebodd 1511 tenant i'n harolwg gyda 65% yn ymateb drwy'r post a 35% yn ymateb gan ddefnyddio dulliau eraill, yn cynnwys arolwg ar-lein a neges destun. Mae 44% o'r tenantiaid a ymatebodd o dan 55 oed.

Bydd cael cynulleidfa ehangach sy'n cynnwys oedrannau amrywiol yn golygu y bydd yn heriol gwneud cymhariaeth debyg wrth debyg rhwng y ddau arolwg STAR, ond, rydym yn gallu meincnodi ein canlyniadau yn erbyn awdurdodau eraill sydd wedi cadw eu stoc dai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ledled y DU.

Mae'r canlyniadau cychwynnol yn galonogol. Mae'r mwyafrif o feysydd wedi derbyn sgôr boddhad o 80% ac uwch.

Bydd y canlyniadau terfynol yn cael eu cyhoeddi'n fewnol ac yn allanol a bydd ein Tîm Rheoli, mewn partneriaeth a'n tenantiaid sy'n cynrychioli fforymau cyfranogiad, yn ystyried unrhyw gamau gweithredu neu feysydd y mae angen eu gwella.

Draft

## 2.0 Effaith Covid ar ein Gwasanaethau

### 2.1 Gwasanaethau Technegol

Er ein bod wedi cael ei llesteirio gan brinder deunyddiau, gweithredwyr yn cymryd gwyliau blynyddol sydd wedi cronni, argaeloedd cefnogaeth gan is-gontractwyr oherwydd bod cymaint o waith yn y sector preifat, staff yn ynysu oherwydd symptomau Covid, mae gwahanol elfennau'r cynllun adfer ar y trywydd iawn ac mae bron i 80% ohono wedi'i gwblhau hyd yma.

Mae eitemau mawr fel cyfnewid boeleri, systemau gwresogi, toeau, ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd wedi'u cwblhau. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar nenfydau sydd wedi'u difrodi gan ddŵr, teils sy'n gollwng o amgylch baddonau, yn ogystal â chwblhau archwiliadau dilyn i fyny ar systemau nwy a gwiriadau dilyn i fyny mewn perthynas â diogelwch trydanol.

Mae'r cyfan oll o’r uchod wedi bod yn heriol o ystyried fod tenantiaid wedi dal yn ôl rhag cael gwneud gwaith ar eu cartrefi drwy gydol Covid, ac mae ymchwydd o waith wedi parhau i ddod i mewn ar ganol y cynllun adfer. Ein huchelgais yw cwblhau'r cynllun adfer erbyn gwyliau'r Nadolig.

Mae'r holl waith a godwyd yn ystod dau fis cyntaf 2022 wedi bod yn gysylltiedig â’r blaenoriaethau arferol sydd yn rhan o’r polisi trwsio yn hytrach na’r cynllun adfer. Mae'r gwaith sydd wedi'i ohirio ar hyn o bryd wedi'i gyfyngu i faterion amgylcheddol allanol, e.e. paneli ffensio, giatiau a rhai materion toi.

### 2.2 Gwasanaeth Tai Cymunedol

Yn anffodus, rydym yn gweld mwy o bwysau ar ein gwasanaethau oherwydd cynnydd yn yr heriau sy’n wynebu aelwydydd. Mae heriau iechyd meddwl yn cynyddu ac mae staff yn delio â llu o gymhlethdodau ar aelwydydd; yn aml mae angen ymyrraeth a chymorth statudol arnynt ar sail aml-asiantaethol. Rydym yn symud ymlaen gyda phecyn hyfforddiant hanfodol ar gyfer iechyd meddwl er mwyn sicrhau bod swyddogion rheng flaen â’r adnoddau a’r gefnogaeth i ddelio ag achosion anodd.

Draft

## 3.0 GWASANAETH LANDLORD - TAI CYMUNEDOL

### 3.1 Nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag cyn eu hail-osod

Gwelwyd gwelliant dramatig drwy gydol y flwyddyn o ran nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag rhwng tenantiaethau.

Ar 4 Ebrill 2021, ein perfformiad cychwynnol ar gyfer ail-osod eiddo oedd 54.4 diwrnod yn cynnwys eiddo anodd eu gosod (DTL) a 45.6 diwrnod heb gynnwys eiddo DTL.

Erbyn mis Tachwedd 2021, roedd ein perfformiad yn 42.1 diwrnod yn cynnwys DTL a 29.1 diwrnod heb gynnwys eiddo DTL, gyda hynny'n welliant o 12.3 diwrnod yn cynnwys eiddo DTL a 16.5 diwrnod heb gynnwys eiddo DTL.

### 3.2 Incwm rhent

Mae'r Gwasanaethau Tai yn dibynnu ar incwm rhent i sicrhau parhad busnes drwy gadw'r ffrydiau refeniw. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig sicrhau ein bod yn casglu cymaint o incwm rhent ag sy'n bosibl er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i denantiaid a thrigolion Ynys Môn.

Ar hyn o bryd, mae'r Adran Gwasanaethau Tai yn rheoli 3886 o anheddau sy'n cyfateb i incwm rhent tybiedig o £19.7m a 722 o garejys sy'n cyfateb i incwm o £324,000.

Gan fod y CPI ar gyfer Mis Medi 2021 y tu allan i'r ystod o 0% i 3%, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ystod mis Rhagfyr 2021 y byddai'r Gweinidog â chyfrifoldeb am Dai yn penderfynu ar y newid priodol i Renti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2022/23.

Penderfynodd y Gweinidog y dylai pob Awdurdod Lleol ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) yn unig a gwerth y CPI ym mis Medi 2021 oedd 3.1% ar gyfer codiadau rhenti 2022/23. Drwy weithredu'r cynnydd hwn, byddwn yn cynhyrchu tua £574k o incwm rhent blynyddol ychwanegol.

Ar hyn o bryd, ni fydd 2765 (72%) o denantiaid y Cyngor yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd arfaethedig mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth, a hynny oherwydd eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu rannol neu'n derbyn Credyd Cynhwysol.

Yn seiliedig ar y system o gasglu rhenti 51 wythnos y flwyddyn, bydd y cynnydd arfaethedig mewn rhent ar gyfer 2022/23 yn £2.99 yr wythnos ar gyfartaledd. Bydd hyn yn golygu bod y rhent wythnosol cyfartalog yn codi o £96.51 i £99.50.

### 3.3 Proffil y Stoc Dai

| Mathau o Anheddau | Cyfanswm | Canran y Stoc | Rhent Cyfartalog 2022/23 |
|---|---|---|---|
| 1 ystafell wely | 741 | 19% | £86.57 |
| 2 ystafell wely | 1386 | 36% | £96.76 |
| 3 ystafell wely | 1672 | 43% | £106.71 |
| 4/5 ystafell wely | 87 | 2% | £114.84 |
| **Cyfanswm** | 3886 | 100% | |

### 3.4 Ôl-ddyledion Rhent

Ar 31 Ionawr 2021, roedd cyfanswm y rhent a gasglwyd fel canran o'r cyfanswm y gellid ei gasglu yn 100.38% a chyfanswm ôl-ddyledion ein tenantiaid cyfredol yw £537k (2.86%) gydag ôl-ddyledion cyn-denantiaid yn cyfateb i £258k (1.38%).

Draft

Ar 31 Ionawr 2021, roedd canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo’n wag cyn cael ei ail-osod yn 2.05% (£315k).

Ers y cyfnod clo cyntaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn lefel yr ôl-ddyledion rhent lle'r oeddent yn uwch na’r 3% a dyma fyddai’r duedd ar draws Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

O ystyried effaith y feirws, roedd yn anochel y byddai hyn yn cael effaith ar ôl-ddyledion oherwydd fod pobl yn cael llai o incwm neu ddim incwm o gwbl oherwydd eu bod wedi colli eu gwaith, yn gorfod hawlio Credyd Cynhwysol ac yn poeni am y modd y byddent yn ymdopi'n ariannol. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 1059 o’n tenantiaid yn hawlio Credyd Cynhwysol sy'n ganran uchel o fewn ein stoc ac mae’r tenantiaid hyn yn parhau i gael eu cefnogi gan ein Swyddogion Rheoli Tai.

- O ran lefel ein hôl-ddyledion, rydym yn parhau i fod ymysg y 3 uchaf o’r awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi dal gafael yn eu stoc tai.
- Mae effaith meddalwedd Mobysoft a'r newid yn y ffordd y caiff Taliadau Amgen (APA) CC eu talu i ALl er mwyn mynd i’r afael ag ôl-ddyledion rhent wedi cael effaith gadarnhaol oherwydd gall swyddogion ymyrryd yn gynt o lawer mewn achosion er mwyn osgoi cynnydd yn nifer yr achosion o ôl-ddyled a sicrhau bod taliadau'n cael eu derbyn yn rheolaidd.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rheolwyr i drafod achosion ble mae swm yr ôl-ddyled yn fawr ac achosion cymhleth.
- Yn anffodus, gyda’r cyfyngiadau a osodwyd ar bob Awdurdod Lleol mewn perthynas ag eiddo a throi pobl o’u cartrefi a’r penderfyniad i atal camau gweithredu rhwng Mawrth 2020 – 20 Medi 2020 a’u hailgyflwyno wedyn rhwng Rhagfyr 2020 – Mehefin 2021, roedd pwysau ychwanegol ar y swyddogion gyda hynny’n ei gwneud yn anodd iddynt fedru delio â rhai achosion a hynny yn ei dro yn arwain at gynnydd anochel yn nifer yr achosion.
- Rydym yn mynychu ac yn cyfrannu at y cyfarfodydd a gynhelir pob dau fis gydag Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru ar ôl-ddyledion rhent. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan Lywodraeth Cymru lle darperir dangosyddion perfformiad gan bob ALl i gymharu a thrafod arferion da neu godi unrhyw bryderon.

### 3.5 Prif heriau'r Tîm Rheoli Ôl-ddyledion

**a.** Mae'r cyfnodau rhybudd o 6 mis yn parhau i fod ar waith ac os nad yw tenantiaid yn talu neu'n ymgysylltu, mae'n peri risg i'r adran o safbwynt casglu incwm. Ni all swyddogion gychwyn achos tan ar ôl i'r cyfnod rhybudd ddod i ben. Er bod hyn yn peri risg, gellir ei ystyried hefyd fel peth cadarnhaol oherwydd gall peidio bygwth camau meddiant olygu bod cyfle i adeilau perthynas gyda’r tenantiaid a rhoi mwy o amser hefyd i sefydlu cynlluniau talu a rhoi’r cymorth cywir ar waith.

**b.** Oedi posibl cyn i achosion meddiant gael gwrandawiad yn y dyfodol oherwydd y cynnydd posib yn y nifer a gyflwynir i’r llys.

**c.** Mewn perthynas ag achosion meddiant, cyflwynwyd trefn sy’n golygu y cynhelir gwrandawiad adolygu ymhen 28 diwrnod gyda’r prif wrandawiad yn cael ei gynnal 28 diwrnod yn ddiweddarach – felly cynhelir gwrandawiadau meddiant o leiaf 2 fis o'r dyddiad cyhoeddi yn hytrach nag o fewn 28 diwrnod.

**d.** Cafodd y rhybudd ar gyfer troi pobl allan o’u cartrefi ei ymestyn o wythnos i bythefnos a gellir ei ganslo os oes covid ar unrhyw unrhyw aelod o'r aelwyd.

**e.** Mae'n anodd i swyddogion fabwysiadu dull 'cytbwys' o fynd i'r afael ag ôl-ddyledion lle mae angen penderfyniad un ai i gychwyn achos cyfreithiol neu fabwysiadu'r egwyddor o beidio â throi Tenantiaid Cymdeithasol allan o’u cartrefi i wynebu digartrefedd.

Draft

**f.** Mae’r ffaith bod ffyrlo a’r taliad CC ychwanegol yn dod i ben, llai o gyfleoedd o ran cyflogaeth a’r cynnydd diweddar mewn biliau cyfleustodau wedi cael effaith andwyol ar incwm aelwydydd ac wedi ei gwneud yn anodd i denantiaid reoli eu harian.

**g.** Mae llai o ymweliadau gan y swyddogion â chartrefi tenantiaid wedi ei gwneud yn anodd nodi tenantiaid bregus sydd angen cymorth.

### 3.6 Meysydd i'w gwella

- Er bod ôl-ddyledion cyn-denantiaid yn ddyledion anodd i'w casglu, rydym yn ceisio sicrhau’r incwm mwyaf posib yn hyn o beth hwn drwy weithredu modiwl newydd gan Mobysoft. Mae'r modiwl hwn yn galluogi'r swyddog i ganolbwyntio ar achosion y mae’r system yn eu hamlygu fel achosion blaenoriaeth er mwyn sicrhau gostyngiad yn nifer y tenantiaid cyfredol sy'n gadael gydag ôl-ddyledion. Mae'r system yn tynnu sylw at achosion yn seiliedig ar dueddiadau talu ac yn galluogi dull mwy rhagweithiol o fynd i'r afael ag ôl-ddyledion cyn-denantiaid.
- Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal ymarfer caffael ar gyfer darparu Yswiriant Cynnwys Tŷ i’n tenantiaid. Mae'r broses dendro wedi sicrhau gwell lefel o yswiriant a gwerth am arian.
- Mae cynlluniau ar waith i ailfodelu'r tîm Cynhwysiant Ariannol i gynnwys Uwch Swyddog i ganolbwyntio ar, a darparu'r gwasanaeth Cyngor Dyledion i'n tenantiaid. Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion i ddarparu cymorth mwy cyfannol.
- Yn ddiweddar, rydym wedi ailfodelu'r Tîm Cyngor Lles i gynnwys Uwch Swyddog sy’n canolbwyntio ar arwain y tîm a hyfforddi/mentora staff newydd. Mae hyn wedi cryfhau'r tîm yn ogystal â rhoi cyfle i'r Rheolwr ganolbwyntio ar brosiectau sy'n ymwneud â thlodi, ac ati.

### 3.7 Cynhwysiant Ariannol

Ar hyn o bryd, mae gennym ddau Swyddog Cynhwysiant Ariannol parhaol sy'n gweithio yn y maes Tai ac sy’n darparu cymorth ariannol, cyngor ar drin arian a chyngor ynghylch fforddiadwyedd i denantiaid y Cyngor a thenantiaid preifat er mwyn datblygu eu gallu ariannol. Eu nod yw gwneud tenantiad yn fwy abl i drin eu harian yn llwyddiannus, lleihau risg ariannol a darparu mynediad at wasanaethau ariannol fforddiadwy i'w helpu i gynnal eu tenantiaethau. Tra'n gweithio yn y cymunedau, mae'r swyddogion yn achub ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth o effeithiau Credyd Cynhwysol.

Mae gennym hefyd Uwch Swyddog Cynhwysiant Ariannol a benodwyd yn ddiweddar i’r swydd. Bydd y rôl hon yn gyfrifol am ddatblygu gwasanaeth cynghori newydd ar ddyledion domestig, er mwyn sicrhau y cynigir cymaint o gymorth ag sy’n bosibl i aelwydydd sy'n cael eu herio'n ariannol a / neu sy'n byw mewn tlodi. Yn ogystal, bydd y swyddog yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gleientiaid ynghylch materion cynhwysiant ariannol a digidol gan ganolbwyntio'n gryf ar gynyddu gallu ariannol a digidol a sicrhau bod tenantiaid yn cael yr incwm mwyaf posibl, gwella sgiliau cyllidebu a sgiliau TG aelwydydd bregus i'w helpu i reoli effaith diwygio lles, osgoi troi at fenthycwyr arian diegwyddor/benthycwyr stepen drws ac yn gyffredinol i wella eu canlyniadau bywyd a chynnal eu tai.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r tîm Cynhwysiant Ariannol wedi parhau i roi cymorth i denantiaid tra’n gweithio o’u cartrefi ac wedi cyfathrebu dros y ffôn, drwy e-byst a thrwy Teams neu Zoom. Ymwelwyd â'r rhai mwyaf bregus yn eu cartrefi wedi codi’r cyfnodau clo neu mewn argyfwng.

Mae'r pandemig yn golygu bod aelwydydd yn derbyn llai o incwm a bod costau’r aelwyd yn cynyddu ar yr un pryd, yn enwedig yr aelwydydd hynny ble mae’r plant gartref oherwydd ar fwyd ac ynni y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn gwariant.

Draft

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Tîm Cynhwysiant Ariannol wedi sylwi ar gynnydd yn y galw mewn perthynas â thlodi tanwydd, yn enwedig ers y cynnydd ym mhrisiau ynni.

Mae atgyfeiriadau'n parhau i gael eu derbyn gan aelwydydd mewn perthynas ag ymholiadau'n ymwneud â'r dreth gyngor ac mae'r tîm bellach yn gweithio'n agosach gyda thîm adennill y Dreth Gyngor i osgoi cymryd unrhyw gamau adfer a chefnogi'r cleientiaid i gael canlyniad llwyddiannus.

### 3.8 Porth Digidol ar gyfer Tenantiaid Tai Môn (DTS)

Oherwydd Covid-19 ac ail-flaenoriaethu prosiectau, bu oedi o ran cyflwyno ein porth tenantiaid. Byddwn yn ceisio ailsefydlu'r ffrwd waith hon yn ystod 2022-23 gyda'r bwriad o fynd yn fyw ar borth hunanwasanaeth y tenantiaid.

**Bydd tenantiaid yn gallu cyflawni'r isod ar sail hunanwasanaeth:**

- Dadansoddi a rhoi gwybod am waith atgyweirio
- Cyflwyno cais am y Gwasanaeth Tasgmon
- Rhoi gwybod am faterion/problemau yn yr ardal leol
- Siecio balans rhent
- Gwneud taliad rhent ar-lein
- Gweld ac argraffu datganiad rhent
- Diweddaru gwybodaeth bersonol
- Anfon a derbyn negeseuon

Ein nod yw sicrhau bod 70% o'n tenantiaid yn rhyngweithio ac yn gallu rheoli eu tenantiaethau drwy eu porth digidol o fewn dwy flynedd i'w lansio.
**Cyfranogiad Tenantiaid**

### 3.9 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ym mis Ionawr 2016. Dyma'r newid mwyaf i gyfraith tai ers degawdau, a'i nod yw ei gwneud yn symlach ac yn haws rhentu cartref yng Nghymru, a gwneud hawliau tenantiaid yn gliriach ac yn haws eu deall.

Disgwylir i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym ym mis Gorffennaf 2022.

Mae'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid wedi dechrau trafodaethau gyda thenantiaid ynghylch y newidiadau a fydd yn digwydd. Mae llawer o newidiadau ar droed, ond un o'r newidiadau allweddol sy'n bwysig i'w rhannu â thenantiaid yw na fyddant mwyach yn cael eu cyfeirio atynt fel **'Tenantiaid**' ac ni fydd ganddynt **'Gytundeb Tenantiaeth'**. Yn hytrach, cyfeirir atynt fel **'Deiliaid Contract'** a bydd ganddynt **'Gontract'** gyda'r Cyngor.

Mae Gwasanaethau Tai Môn wedi sefydlu cynllun mewnol **'Tîm Prosiect Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.** Rydym hefyd yn cydweithio ag awdurdodau yng Ngogledd Cymru sydd wedi dal gafael yn eu stoc a phartneriaid o blith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau cysondeb mewn deiliadaethau ledled y Rhanbarth pan gaiff hyn y ddeddf ei lansio'n llawn.

Mae'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid wedi cynnwys gwybodaeth am y newidiadau sydd ar y gweill yn y Cylchlythyr Tenantiaid, sy'n cael ei bostio i bob un o eiddo'r Cyngor ddwywaith y flwyddyn. Rhoddir copi o'r cylchlythyr i Aelodau Etholedig hefyd.

Draft

Mae gan aelodau o’r Tîm Prosiect gynllun ar waith i gysylltu â thenantiaid dros y misoedd nesaf i sicrhau bod manylion pwysig yn gywir ac i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr holl newidiadau sydd i ddod, a byddant hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae'n bwysig bod y Tîm Prosiect yn darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall i egluro NAD yw hyn yn rhywbeth i denantiaid boeni amdano ac NAD yw eu tenantiaeth mewn perygl oherwydd y newid hwn.

Mae'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn awyddus i recriwtio tenantiaid i gymryd rhan yn y 'Fforwm Rhentu Cartrefi' gan fod hwn yn newid sylweddol a fydd yn effeithio ar bob tenant ac mae'n bwysig bod tenantiaid yn cymryd rhan bob cam o'r ffordd. Rydym am recriwtio 10 o denantiaid brwdfrydig i weithio gyda ni fel rhan o'r 'Fforwm Rhentu Cartrefi' i'n helpu i gyflwyno a chyfleu'r newidiadau hyn. Bydd tenantiaid sy'n cymryd rhan ym mhob sesiwn yn cael eu cynnwys yn y cynllun cymhelliant.




### 3.10 Arolwg Llesiant – Tai Gwarchod a Thai Pensiynwyr

Gyda dros 3,800 o eiddo sy'n cynnwys portffolio o 1,200 o gynlluniau gwarchod a chynlluniau ar gyfer pensiynwyr, mae Tai Môn yn darparu cartrefi a gwasanaethau i nifer sylweddol o bobl hŷn ac oedolion anabl.

Fel rhan o Wasanaeth Tai Cymunedol Tai Môn, cynhaliwyd adolygiad ym mis Ionawr 2020 mewn perthynas â llesiant ac annibyniaeth ac er mwyn asesu lefel y cyswllt sydd rhwng tenantiaid a’u stadau a’u cymunedau. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn hefyd i hysbysu Tai Môn am lefelau boddhad tenantiaid o safbwynt eu llety ac er mwyn cefnogi’r broses o ddatblygu tai Cyngor yn y dyfodol fel rhan o gynlluniau tai gwarchod a thai pensiynwyr.

Anfonwyd 1,200 o arolygon at bob un o denantiaid y tai gwarchod a thai pensiynwyr ym mis Ionawr 2021. Dychwelwyd 445 o arolygon, naill ai'n llawn neu'n rhannol gyflawn. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 35% (mae cyfradd yr ymateb i’r arolwg papur cenedlaethol tua 13%).

Arweinir yr adolygiad gan dîm Cyfranogiad Tenantiaid Tai Môn ac mewn partneriaeth â myfyriwr gwaith cymdeithasol lleol fel rhan o'i lleoliad.

Cafodd unrhyw bryderon a godwyd gan denantiaid yn eu hymatebion eu dilyn i fyny a rhannwyd gwybodaeth am nifer o asiantaethau 3ydd sector er mwyn lleihau rhai o'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu *(er enghraifft, rhoddwyd gwybodaeth i'r rhai a oedd yn teimlo’n unig ac wedi eu hynysu am gynllun Cydgysylltydd Asedau Lleol Medrwn Môn)*

Nodwyd hefyd fylchau o ran darpariaeth mewn cymunedau / stadau cyfan, megis hybiau cymunedol neu grwpiau lleol eraill. Rhoddwyd gwybod i'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid hefyd am feysydd lle byddai ymyriad gan Wasanaethau Tai Môn o fudd i lesiant ein tenantiaid. Un enghraifft o hyn yw darparu sesiynau 'Coginio ar Gyllideb' mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai.

Cafodd enw pob tenant a gwblhaodd yr arolwg ei roi mewn raffl i ennill £250 o Dalebau'r Stryd Fawr.

### 3.11 DOSBARTHIADAU COGINIO CARTREF

Draft

Mae'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid wedi sefydlu perthynas waith dda gyda Choleg Menai i drefnu 'Dosbarthiadau Coginio Cartref Sylfaenol' mewn ardaloedd a nodwyd yn yr arolwg. Mae gennym 4 lleoliad: Niwbwrch, Bodedern, Moelfre a Llannerchymedd. Cawsom sesiwn gyntaf lwyddiannus yn Niwbwrch a rhoddwyd cefnogaeth i 8 o drigolion a fynychodd bob un o'r 5 dosbarth. Fel rhan o gynllun cymhelliant, cafodd y preswylwyr beiriant coginio ar wres isel (‘slow cooker’) ar y diwedd. Mae hyn yn mynd i'r afael â thlodi bwyd ac ansicrwydd ac, ar yr un pryd, yn gwella mynediad i wasanaethau ar lawr gwlad.







Mae’r sesiynau yn y 3 lleoliad nesaf yn mynd rhagddynt a byddant yn dod i ben ddechrau mis Gorffennaf 2022.  Bydd arian ar gael drwy'r CRT i gynnal y sesiynau hyn yn barhaol ar rota dreigl.

**Prosiectau Tlodi Bwyd**

Derbyniodd y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid swm o £10k o grant gan CLILC. I ddechrau, rhoddwyd £6k o’r neilltu gennym i ariannu prosiect ar gyfer teuluoedd ifanc a £4k tuag at brosiect wedi'i dargedu'n bennaf at denantiaid tai gwarchod a thai pensiynwyr.

Oherwydd Pandemig y Coronafeirws, bu'n rhaid i ni ganslo nifer o'n prosiectau arfaethedig oherwydd y lefelau uchel o Covid-19 ar yr Ynys.

**Prosiect 1 – 'Bwyd a Hwyl'**

Oherwydd cyfyngiadau Covid amrywiol, fe wnaethom droi at ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a chynnal nifer o gystadlaethau i gadw tenantiaid yn brysur ac yn rhyngweithiol. Er enghraifft, buom yn gweithio gyda chwmni smwddi lleol sy'n darparu sesiynau a gweithdai ar wneud smwddis maethlon ar gyllideb.  Creodd y cwmni smwddi fideo byr ar sut i greu eich smwddi eich hun.







**Prosiect 2 – Dawn i Dyfu Môn Green Fingers**

Oherwydd nad oedd modd i ni fwrw ymlaen â'r prosiect hwn wyneb yn wyneb, fe wnaethom droi eto at ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gofyn i denantiaid nodi ar ein tudalen Facebook a oeddent yn dymuno cael 'Pecyn tyfu eich llysiau eich hun' ‘dan do’ neu ‘awyr agored’. Fe wnaeth 427 o drigolion ryngweithio a chymryd rhan yn y gweithgaredd hwn. Dewiswyd 20 o denantiaid

Draft

lwcus gan ddefnyddio 'generadur rhif ar hap' i ennill pecyn garddio - 10 pecyn dan do a 10 pecyn awyr agored. Yn dilyn ei lwyddiant, bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn.

Gan edrych ymlaen at 2022/23, mae'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn gobeithio bod mewn sefyllfa i ail-ddechrau ein prosiectau cymunedol a cheisio sicrhau o leiaf 3 rhandir cymunedol newydd.







**Cystadlaethau eraill a hysbysebwyd gennym yn ddigidol:**

- **Cystadleuaeth Garddio**: Cynhaliodd y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid Gystadleuaeth Arddio ar-lein a oedd yn cynnwys 3 chategori – yr Ardd Orau, yr Ardd Gymunedol Orau a'r llain / rhandir ffrwythau neu lysiau gorau. Fe wnaeth 31 o drigolion ryngweithio ar y postiad Facebook drwy enwebu eu gerddi eu hunain neu erddi eu cymdogion i gystadlu. Mae hon yn gystadleuaeth flynyddol yr ydym yn ei hysbysebu.










- **Cystadleuaeth Te Prynhawn:** Dewiswyd 20 o denantiaid ar hap wedi iddynt ryngweithio ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Ar y cyfan, cawsom 44 o sylwadau/'likes' ar y postiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

Draft












### 3.12 Prosiectau Tyfu Cymunedol

Mae partneriaeth rhwng Gwasanaethau Tai Môn, Elfennau Gwyllt, Banc Bwyd Ynys Môn, Bwyd Da Môn a’r Wallich ym Mharc Mount yn Llangefni, wedi gwneud llawer iawn o waith i sefydlu prosiect tyfu cymunedol. Mae'r prosiect bron yn barod a gall unigolion sy'n derbyn cefnogaeth gan Wasanaethau Cymorth Tai y Wallich helpu i gynnal a chadw'r safle fel rhan o'r broses o wella eu lles a / neu adferiad. Ariennir y prosiect hwn drwy gyllideb Trechu Tlodi Bwyd ac Ansicrwydd Llywodraeth Cymru.

Gobeithiwn y bydd y cynhaeaf cyntaf yn barod erbyn Gorffennaf / Awst 2022. Bydd yr holl fwyd a dyfir yn cael ei roi i'r banciau bwyd a Bwyd Da Môn.

Rydym yn gweithio gyda nifer o stadau tai gwarchod er mwyn datblygu prosiectau tyfu cymunedol lleol er budd ein tenantiaid a'n preswylwyr.

Draft

**CYN Y GWAITH**



**BRON WEDI'I GWBLHAU**





### 3.13 Lolfeydd Cymunedol

Mae gennym dair ar ddeg o lolfeydd cymunedol sy'n cael eu defnyddio gan ein tenantiaid – mae saith o'r lolfeydd hyn wedi cau'n barhaol er mwyn cael eu hail-ddatblygu'n llety sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r ddwy lolfa sydd wedi cael eu trawsnewid yn llety sy'n

cydymffurfio’n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd wedi diwallu anghenion tai penodol pobl ag achosion cymhleth.

O ganlyniad i’r pandemig, fe wnaeth Gwasanaethau Tai Môn gau’r lolfeydd cymunedol am gyfnod dros dro. Bu'n rhaid gohirio pob cyswllt wyneb yn wyneb a oedd yn digwydd ar ffurf cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol. Mae ein Swyddog Iechyd a Diogelwch yn parhau i gynnal adolygiadau rheolaidd o fynediad i'n lolfeydd.

Mae ein lolfeydd cymunedol yn asedau gwerthfawr yn ein stadau tai gwarchod oherwydd maent yn cynnig cyfle i bobl fynychu digwyddiadau sydd wedi'u trefnu’n benodol ac yn annog pobl i ffurfio grwpiau cymunedol ar lawr gwlad.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2022, a chyda llacio cyfyngiadau Covid-19, rydym yn brysur yn cynllunio ein gweithgareddau er mwyn croesawu pawb yn ôl ac ail-afael yn yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Yn ystod 2022, mae Gwasanaethau Tai Môn yn gobeithio buddsoddi arian mewn tair o'n lolfeydd cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol. Bydd hyn yn cynnwys mynediad digidol.

- Ger y Graig, Llangefni
- Bro'r Ysgol, Bodedern
- Tan Capel, Llanddaniel

### 3.14 Tîm Rheoli Tai - Rheoli ein stadau a'n cymunedau

Mae'r Tîm Rheoli Tai yn cynnwys 4 Swyddog Rheoli Tai a 2 Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a reolir gan Reolwr y Tîm Cymdogaeth.

Mae'r gweithgareddau wedi parhau drwy gydol y Pandemig gyda swyddogion yn dal ati i ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd, gan gefnogi rhai o'r pobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas. Diogelu a chefnogi lles tenantiaid yw prif flaenoriaeth y tîm.

Rôl y Swyddogion Rheoli Tai yw rhoi sylw i bob agwedd ar reoli tenantiaethau, gan gynnwys cofrestru tenantiaid newydd a'u helpu i ymgartrefu, cynnal archwiliadau eiddo, delio â newidiadau i denantiaethau, cyfnewid cydfuddiannol a chwynion am sŵn a chwynion eraill sy’n gysylltiedig â niwsans. Maent hefyd yn cefnogi tenantiaid sydd mewn argyfwng ac yn mynd i'r afael â phryderon llesiant gan gynnwys hordio, sy’n digwydd yn fwy aml ers COVID. Mae Swyddogion Rheoli Tai hefyd yn mynychu cyfarfodydd diogelu a chyfarfodydd statudol ac anstatudol eraill yn rheolaidd.

Mae Swyddogion Rheoli Tai hefyd yn delio â'r rhan fwyaf o anghydfodau rhwng cymdogion hyd at gyflwyno Hysbysiad Ceisio Meddiant lle mae achosion wedyn yn cael eu huchafu i'r Swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â niwsans lefel isel gan gymdogion ac mae’r Swyddogion Rheoli Tai yn delio â’r rhain ac mae gan bob un ohonynt lwyth achosion sydd oddeutu 30 ar unrhyw adeg benodol.



Draft

Yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, sy'n hyrwyddo dull ymyrraeth gynnar o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymdrinnir ag achosion yn brydlon gan ddefnyddio ystod o ddulliau sydd ar gael, gan gynnwys llythyrau rhybudd, cyfryngu, Contractau Ymddygiad Derbyniol (ABC) a dulliau cyfiawnder adferol lle y bo'n briodol.

Gwaith y Swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Swyddogion ASB) yw cymryd drosodd achosion lle nad yw ymyriadau lefel is wedi arwain at welliant yn yr ymddygiad troseddol, neu lle mae achosion, er nad ydynt mor ddifrifol, yn digwydd yn gyson, ac yn cael effaith barhaus a niweidiol ar y dioddefwyr, tra hefyd yn effeithio ar y swyddogaeth rheoli tai ac, yn aml, ar adnoddau'r Heddlu. Bydd yr ymyriad a weithredir yn dibynnu ar natur pob achos unigol a'r gosb uchaf y gellir ei gweithredu pan fydd popeth wedi methu yw troi person allan o'i gartref.

**Bydd gan swyddogion ASB lwyth gwaith o tua 15-20 o achosion ar unrhyw adeg benodol. Maent yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o:**

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Prawf
- Tîm Troseddu Ieuenctid
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Addysg

Yn aml, mae swyddogion ar draws y tîm yn dyst i wybodaeth sy'n peri pryder ac sy'n hynod gyfrinachol ac mae'n hanfodol eu bod yn gallu meithrin perthynas waith agos nid yn unig â'r dioddefwyr ond hefyd ag asiantaethau partner er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr.

Mae dulliau o reoli tenantiaethau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn newid yn gyson i gymryd i ystyriaeth y cynnydd yn nifer y tenantiaid sy'n dioddef iechyd meddwl gwael, materion camddefnyddio sylweddau, camdriniaeth ddomestig, tlodi, gweithgareddau llinellau cyffuriau sirol a chogio ('cuckooing').

O ystyried natur a chymhlethdodau rhai achosion, mae Gwasanaethau Tai Môn wedi comisiynu gwasanaethau Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol allanol i sicrhau gwell mynediad at fentora proffesiynol a gall swyddogion tai atgyfeirio eu hunain ato/ati os oes angen cymorth ychwanegol arnynt.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae Swyddogion Tai yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol fel Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân, Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, Gwasanaethau Cymorth Tenantiaeth a Chymorth Hyblyg i enwi ond ychydig ac yn mynychu nifer o gyfarfodydd ble rhennir gwybodaeth sydd, heb os, yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall pob asiantaeth fynd i'r afael mewn modd cyfannol â throseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a materion cymunedol cyn gynted â phosibl:-

- MARAC – Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol – Camdriniaeth Ddomestig
- MAPPA – Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd – rheoli troseddwyr rhyw cofrestredig / troseddwyr treisgar yn y gymuned.
- OCG – Cyfarfod Troseddu Cyfundrefnol – Llinellau Cyffuriau Sirol / cogio

Draft

- VARM – Rheoli Risg i Oedolion Bregus
- IOM – Cyfarfod Integredig ar gyfer Rheoli Troseddwyr – y rhai sy'n gadael y carchar.
- PAC – Cyfarfod y Cynllun Gweithredu Cymunedol
- ‘Frequent Flyers’ – pobl sy’n cael eu cludo i Adrannau Argyfwng a Brys dro ar ôl tro
- Hyb Cymorth Cynnar – achosion lleol nad ydynt efallai'n agored i wasanaethau fel arall ond sydd angen rhyw lefel o ymyrraeth
- POVA – Amddiffyn Oedolion Bregus
- Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant
- Cyfarfodydd ailsefydlu carcharorion (cyfarfodydd mewnol sy'n canolbwyntio ar anghenion tai)
- Cyfarfodydd ailsefydlu carcharorion traws-sirol – rhannu arfer da.
- Asesiadau Digartrefedd a Chymorth sy'n cael eu cynnal yn y carchardai i baratoi troseddwyr cyn iddynt gael eu rhyddhau.

### 3.15 Cofrestr Tai

Mae'r Gwasanaethau Tai yn gweinyddu'r Polisi Gosod Cyffredin ar ran Landlordiaid Cymdeithasol sy'n gweithredu ar yr Ynys – Grŵp Cynefin, Clwyd Alyn a Thai Gogledd Cymru.

Mae'r polisi Gosod Tai Cyffredin (CHAP) wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2019. Isod ceir tabl yn dangos nifer yr ymgeiswyr sydd ar ein cofrestr gan gynnwys y math o eiddo a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen.

| | 1 Ystafell Wely | 2 Ystafell Wely | 3 Ystafell Wely | 4+ Ystafell Wely | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anghenion Cyffredinol** | 269 | 166 | 77 | 54 | 566 |
| **Llety i Bobl Hŷn** | 120 | 27 | 1 | 1 | 149 |
| **Cyfanswm** | 389 | 193 | 78 | 55 | 715 |
| % | 54% | 27% | 11% | 8% | |

**Gosodiadau a chyfnodau yr oedd eiddo yn wag 2021-2022 - Penawdau**

- Mae 201 o eiddo gwag wedi cael eu prosesu drwy'r Uned Cynnal a Chadw Tai ers Ebrill 1 2021. Roedd 48 o'r eiddo hyn yn rhai a oedd yn wag am gyfnodau maith oherwydd cyfyngiadau covid.

- Yn achos 27 o eiddo a adeiladwyd o’r newydd a rhai a brynwyd yn ôl, mae’r gwiriadau ardystio wedi cael eu cynnal, y mân broblemau wedi cael eu datrys ac maent wedi cael eu glanhau’n barod ar gyfer eu gosod.



Drafft

- Mae gwaith cyfalaf sylweddol wedi'i gwblhau mewn eiddo nad oeddynt wedi cael eu gosod, gan gynnwys cael gwared ag asbestos, gosod ystafelloedd gwlyb mynediad gwastad, adnewyddu boeleri ac uwchraddio systemau gwresogi tra bod yr eiddo'n wag.

- Ar hyn o bryd, mae gennym dros 40 eiddo gwag y bwriedir cwblhau gwaith ynddynt o fewn blaenoriaethau a bennwyd gan y tîm datrysiadau.

- Ein nod yw lleihau nifer yr eiddo gwag o 40 i tua 20 ar unrhyw un adeg sef y nifer arferol pan fydd tenantiaid yn gadael/symud i mewn.

### 3.16 Gwneud y defnydd gorau o'n stoc

Draft

Mae'r cynllun cymhelliant i symud i eiddo llai wedi cael ei gyflwyno i annog tenantiaid sy'n byw mewn tai 4-5-6 ystafell wely sy'n rhy fawr iddynt i symud i eiddo llai, yn seiliedig ar eu hanghenion presennol a'u hanghenion yn y dyfodol.

Ers mis Ionawr 2020, mae 9 tŷ gyda 4 ystafell wely wedi dod yn wag ac rydym wedi ail-osod 1 tŷ gyda 5 ystafell wely. Mae un eiddo 5 ystafell wely wedi cael ei addasu'n arbennig i ddiwallu anghenion teulu lleol.

**Nifer y ceisiadau cyfredol ar gyfer teuluoedd sydd angen eiddo 4, 5 a 6 ystafell wely.**

| | Chwefror 2019 | Data Medi 2021 | Data Rhagfyr 2021 |
|---|---|---|---|
| **Rhestr aros ar gyfer eiddo 4 ystafell wely** | 18 | 44 | 48 |
| **Rhestr aros ar gyfer eiddo 5 ystafell wely** | Dim data wedi'i gofnodi | Dim data wedi'i gofnodi | 7 |
| **Rhestr aros ar gyfer eiddo 6 ystafell wely** | Dim data wedi'i gofnodi | Dim data wedi'i gofnodi | 2 |

Bwriedir adeiladu 18 eiddo gyda 4 ystafell wely dros y 3 Blynedd nesaf. Rydym hefyd yn ymchwilio i eiddo 5 ystafell wely mewn rhai ardaloedd**.**

Mae Swyddogion Rheoli Tai (Ôl-ddyledion) wedi bod yn cysylltu â thenantiaid yn yr ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt i drafod y syniad o symud i eiddo llai. Cymysg fu'r atborth ar y cyfan gyda thenantiaid yn dwyn ein sylw at y pryderon canlynol:

- Maent wedi byw yn yr eiddo ers blynyddoedd ac wedi magu eu teuluoedd yno.
- Mae'r eiddo'n ddelfrydol pan mae teulu, yn enwedig wyrion ac wyresau, yn dod i aros dros nos
- Nid yw'r dreth ystafell wely yn berthnasol iddynt oherwydd eu hoedran ac mae Budd-dal Tai yn talu'r rhent gofynnol
- Nid ydynt eisiau'r helbul o symud tŷ

- Pryderon y byddant, os yn cytuno i drosglwyddo, yn symud i stad nad ydynt yn dymuno byw ynddi
- Pan weithredwyd y cynllun cymhelliant i symud i eiddo llai ym mis Chwefror 2019, roedd 18 o deuluoedd ar y rhestr a oedd angen eiddo 4 gwely. Asesir bod y cynnydd yn nifer y teuluoedd sydd angen eiddo 4 ystafell wely rhwng Chwefror 2019 a Rhagfyr 2021 yn sylweddol.
- Oherwydd effeithiau Covid-19, mae eiddo gwag wedi'u blaenoriaethu ar gyfer y rhai sydd mewn mwy o frys o ran eu hanghenion am dai (er enghraifft, preswylwyr sy'n byw mewn llety brys)

Mewn cydweithrediad â darparwyr tai cymdeithasol eraill ar draws Gogledd Cymru, cynhaliwyd dadansoddiad cynhwysfawr gennym *(gan gynnwys arolwg o 300+ o denantiaid o bob rhan o Ogledd Cymru)* i gael gwybod am y rhwystrau sy'n bodoli er mwyn helpu pobl i symud tŷ a'r pethau a allai wneud gwahaniaeth - gyda phwyslais ar helpu pobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n rhy fawr, neu dai gorlawn.

https://www.cih.org/publications/right-place-right-home-right-sizeeur

### 3.17 Therapydd Galwedigaethol Opsiynau Tai

Mae'r Therapydd Galwedigaethol a benodwyd yn ddiweddar i'r Gwasanaethau Tai yn rhan o'r Tîm Opsiynau Tai. Mae'r Therapydd Galwedigaethol yn sicrhau bod anghenion tenantiaid sydd â gofynion cymhleth o ran addasiadau yn cael eu cydlynu mewn ffordd ymatebol tra'n sicrhau bod ein tenantiaid yn gallu byw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi.

Draft

## 4.0 TACLO TLODI

### 4.1 PENAWDAU TLODI AR YNYS MÔN

- Mwy o bwysau ar ein banciau bwyd ers mis Hydref 2021. Roedd hyn o bosib i'w briodoli i'r ffaith fod y codiad i Gredyd Cynhwysol wedi dod i ben a bod costau tanwydd domestig wedi cynyddu. Wythnos cyn y Nadolig yn 2020, dim ond yr hamperi bwyd Nadolig a ddosbarthwyd gan Fanc Bwyd Ynys Môn.
- Mae'r tâl CC ychwanegol wedi dod i ben, gan effeithio oddeutu 5,500 o aelwydydd a phobl a oedd yn ei dderbyn ar Ynys Môn. Daeth i ben ym mis Hydref 2021.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd £100 ar gael tuag at gostau tanwydd yr aelwydydd hynny sy'n derbyn budd-daliadau penodol.
- Mae tlodi oherwydd eithrio digidol yn cael sylw drwy ddull amlasiantaethol rhwng Gwasanaethau Oedolion CSYM, Tai, Medrwn Môn ac Age Cymru Gwynedd a Môn er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn cael mynediad a mwy yn gallu defnyddio'r cyfrwng hwn. Dylai'r canlyniadau olygu y gall mwy o breswylwyr gael mynediad i'w biliau ar-lein, chwilio am dariffau gwell a, chyda gobaith, siopa ar-lein ac archebu meddyginiaethau ar-lein.
- Mae Bwyd Da Môn wedi rhoi cymhorthdal i 40 o drigolion Ynys Môn dros gyfnod o 8-12 wythnos gyda'r nod y bydd pob unigolyn sy'n derbyn y cymhorthdal yn dod yn aelod sy'n talu'n llawn ar ddiwedd y cyfnod cymhorthdal (mae aelodau'n talu £5 yr wythnos yn gyfnewid am fwyd sy'n werth hyd at £25 yr wythnos)
- O ran digartrefedd ar Ynys Môn (a phob ardal arall yng Nghymru), gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n byw mewn lleoliadau llety brys. Ar 14.01.2022, roedd 56 o bobl yn byw mewn llety brys. Cyn Covid, roedd y ffigwr rhwng 13-20 ar unrhyw un adeg.

### 4.2 Yn 2021-22, llwyddwyd i gyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cronfeydd tlodi bwyd ac ansicrwydd** | Cafwyd £100,000 drwy gyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru<br><br>**Mae'r gwariant yn cynnwys:**<br>- Cyrsiau sgiliau coginio cymunedol<br>- Prosiectau tyfu cymunedol – Caergybi, Llangefni a Biwmares<br>- Rheolwr Prosiect drwy CAB Ynys Môn i ddatblygu 4 o swyddfeydd lloeren Bwyd Da Môn<br>- Mae cynllun cymhorthdal Bwyd Da Môn wedi mynd yn fyw |
| **Prosiect hamper bwyd Nadolig** | £13,000 wedi'i godi drwy ffynonellau cyllid amrywiol<br><br>Dros 300 o hamperi bwyd wedi'u dosbarthu cyn yr ŵyl gan gynnwys hamperi i 70 o breswylwyr sy'n byw mewn llety brys |
| **Cronfeydd tlodi bwyd CLILC** | Yn sgil yr atborth rheolaidd a roddwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch y lleihad yn y rhoddion i fanciau bwyd a'r cynnydd yn y pwysau arnynt, rhyddhawyd swm o £500,000 ar gyfer Cymru gyfan.<br><br>Mae Ynys Môn wedi derbyn £11,500 o'r cyllid hwn a chaiff ei wario'n uniongyrchol gan y |

Draft

| | |
|---|---|
| | banciau bwyd i gwrdd â chostau refeniw. Bydd hyn golygu y gellir cadw dau aelod allweddol o staff ym Manc Bwyd Ynys Môn a phrynu bwyd oherwydd y lleihad yn y rhoddion y maent yn eu derbyn. |
| **Tlodi tanwydd** | Mae cronfa cartrefi bregus Llywodraeth Cymru wedi cael ei lansio. Mae hyn yn ychwanegol at y cynllun disgownt Cartrefi Cynnes arferol. I dderbyn yr arian hwn, rhaid i hawlwyr wneud cais erbyn canol mis Chwefror 2022.<br><br>Mae'r gronfa tlodi tanwydd fewnol (rhodd preifat o £8000 yn 2020) yn dal i fodoli ac mae wedi'i thargedu at aelwydydd sydd angen cymorth i dalu am LPG / olew. Er enghraifft, byddai'n rhaid i denant newydd sy'n symud i eiddo gyda gwres olew dalu o leiaf £200 ymlaen llaw i lenwi'r tanc olew. Mae hon yn her i nifer o aelwydydd ar Ynys Môn.<br><br>Mae cronfa galedi'r DAF yn parhau i fodoli ac mae wedi'i hymestyn tan 31.03.2022 i gefnogi aelwydydd ag anghenion tlodi brys. Gall ein Swyddogion Cynhwysiant Ariannol, y tîm yng Nghanolfan O'Toole a CAB Ynys Môn roi cymorth gyda'r ceisiadau hyn.<br><br>Mae gan fanciau bwyd dalebau cymorth tanwydd sy'n werth hyd at £50 fesul aelwyd pan gânt eu cyfeirio am barsel bwyd.<br><br>Mae gan nifer eithaf uchel o bobl sy'n derbyn cymorth gan fanc bwyd Amlwch beiriannau trydanol a weithredir gyda darnau arian. |
| **Hyb cymorth Covid-19** | Yr asiantaeth arweiniol yw CAB. Ariennir yr hyb drwy gronfa galedi Covid-19. Mae'n gweithredu yng Nghaergybi ac yn agored i bawb ar Ynys Môn.<br><br>Cynhwysiant Ariannol / atgyfeiriadau cymhorthdal LFT a Bwyd Da Mon. |

Draft

## 4.3 GWASANAETHAU HAWLIO LLES MEWNOL – CANOLFAN YR O'TOOLE

Mae Gwasanaeth Hawliau Lles Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn a leolir yng Nghanolfan J.E. O'Toole wedi bod yn mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau megis Eithrio Cymdeithasol ac Ariannol ers 1983 drwy ddarparu **cyngor a chynrychiolaeth annibynnol a chyfrinachol am ddim** mewn perthynas â budd-daliadau, credydau treth a chyfraith cyflogaeth i bobl sy'n byw yn y Sir.

Mae'r Ganolfan yn helpu pobl ddi-waith, pobl sy'n sâl ac yn anabl, rhieni sengl, pensiynwyr, gofalwyr a'r rhai sydd ar gyflogau isel drwy roi cyngor a chymorth iddynt hawlio'r budd-daliadau, credydau treth a thaliadau dewisol cywir, cynyddu incwm, esbonio yr effaith ar fudd-daliadau pan fydd amgylchiadau'n newid, gwneud cais am grantiau, taliadau dewisol a gostyngiadau, helpu cleientiaid i apelio yn erbyn penderfyniadau anghywir ynghylch budd-daliadau a delio â phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â budd-daliadau.

**Gweithio fel gwasanaeth hanfodol yn ystod Pandemig Covid:**


Mae ein hadeilad mewn lleoliad canolog ac mae ei ddrysau ar agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd Gwener 9-5. Gall y galw am ein gwasanaethau olygu ei fod yn lle prysur iawn gyda nifer uchel o ymwelwyr, a dyma ble mae llawer o'n Cyngor ar Hawliau Lles yn cael ei ddarparu drwy apwyntiadau wyneb yn wyneb. Fel arfer, rydym hefyd yn cynnal nifer o gymorthfeydd Allgymorth mewn lleoliadau o amgylch yr Ynys, ac i'r rhai nad ydynt yn gallu teithio oherwydd salwch corfforol/meddyliol neu fregusrwydd, rydym yn cynnig ymweld â nhw yn eu cartrefi.

Rydym wedi gweld newidiadau eraill yn ystod y flwyddyn ariannol hon gydag Uwch Ymgynghorydd Hawliau Lles yn cael ei benodi i'r tîm. Bydd cyfrifoldebau ychwanegol yr Uwch Swyddog Hawliau Lles yn cynnwys hyfforddi a mentora ymgynghorwyr newydd, gan ein galluogi i fwrw ymlaen i recriwtio ar gyfer swydd yr Ymgynghorydd Cynorthwyol i helpu i leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth. Mae'r Arweinydd Tîm wedi ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol hefyd a'i rôl bellach yw 'Cydgysylltydd Hawliau Lles'. Gyda'r ffocws ar Drechu Tlodi, mae rhai o'i dyletswyddau newydd yn golygu ei bod yn gweithio ar brosiectau a ariennir gan grant gan gynnwys Tlodi Misglwyf a Hylendid, Tlodi Bwyd, ac aelodaeth â chymhorthdal ar gyfer Bwyd Da Môn.

**Ystadegau Defnyddwyr Hawliau Lles**
**Adroddiad hyd at ddiwedd 3ydd Chwarter 2021-22**

Cofnodir ystadegau defnyddwyr yn ôl y math o ymholiad – mewn un apwyntiad gall ein Ymgynghorwyr ddelio â mwy nag un mater sy'n gysylltiedig â budd-daliadau. Yn nhrydydd chwarter blwyddyn ariannol 2021/22, derbyniodd yr Ymgynghorwyr 1091 o ymholiadau, sy'n mynd â'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ariannol hon hyd yma i 3059.
Er mai gan denantiaid Awdurdodau Lleol y daw'r nifer fwyaf o ymholiadau, mae'r Ganolfan yn gweithio ar ran holl drigolion Ynys Môn o bob math o ddeiliadaethau, gan ddarparu gwasanaeth am ddim sy'n cynorthwyo unigolion i sicrhau eu bod yn cael yr incwm mwyaf posib a bod modd iddynt aros yn eu cartrefi. Yn y siart isod, ceir manylion am nifer yr ymholiadau fesul deiliadaeth hyd at ddiwedd y 3ydd chwarter eleni.

Draft




**Herio penderfyniadau anffafriol mewn perthynas â budd-daliadau**

**3ydd chwarter 2021/22** *(bydd y cofnod ar gyfer y 12 mis llawn ar gael ym mis Ebrill 2022)*

**Enillion**

Pan fydd ein hymgynghowyr yn nodi fod gan ddefnyddiwr gwasanaeth hawl i fudd-dal, caiff yr enillion ariannol ar gyfer y cyfnod o 12 mis (neu gyfnod llai os yw cyfnod y dyfarniad yn fyrrach) eu cofnodi fel 'Enillion a Nodwyd'. Pan gawn gadarnhad bod y budd-dal yn cael ei dalu, gallwn ei gofnodi fel 'Enillion a Gadarnhawyd'; yn anffodus, ni fydd pob defnyddiwr gwasanaeth yn darparu'r wybodaeth ddilynol hon. Yn y 3ydd chwarter yn unig (Hydref-Rhagfyr 21) cofnododd yr Ymgynghorwyr:

- £747,793.25 o Enillion a Nodwyd, gan fynd â'r cyfanswm hyd yma eleni i £2,007,614.44 *yn ogystal â*
- £31,405.85 o Daliadau a Gadarnhawyd sy'n cynnwys cyfandaliadau 'unwaith ac am byth' neu daliadau dyfarniad wedi'u hôl-ddyddio sy'n mynd â'r cyfanswm hyd yma eleni i £51,356.81

**Ar gyfer y 3ydd chwarter, mae ein hystadegau'n dangos:**

- Roedd 481 o'r ymholiadau ynghylch budd-daliadau a gafodd sylw gan ein hymgynghorwyr yn rhai a wnaed ar ran Tenantiaid Awdurdodau Lleol, sy'n brawf pellach o'r fantais o gydweithio â Swyddogion sy'n gyfrifol am gadw golwg ar gyfrifon rhent, gan fynd â'r cyfanswm blynyddol hyd yma i 1382.

**Yn yr un chwarter:**

- Roedd £291,915.63 o gyfanswm ein holl enillion a nodwyd, (£214,924.61 ohonynt wedi'u cadarnhau), ar gyfer tenantiaid Awdurdodau Lleol, sy'n golygu bod cyfanswm yr enillion a


Draft

nodwyd i denantiaid hyd yma yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn £855,467.09, sy'n ffigwr trawiadol.

**Helpu'r rhai mwyaf anghenus**

Mae Canolfan O'Toole wedi ymrwymo i gynorthwyo trigolion mwyaf bregus Ynys Môn gan gynnwys yr henoed a phobl ag anableddau ac anawsterau iechyd. Rydym wedi ein dynodi'n **Swyddfa Amgen gan yr Adran Gwaith a Phensiynau**, sy'n golygu y gall ein hymgynghorwyr bennu dyddiadau ar gyfer cychwyn hawlio rhai hawliadau penodol sy'n golygu y gellir gwneud taliadau ôl-ddyddiedig lle mae hynny'n gymwys, a gallwn dderbyn a gwirio dogfennau gan osgoi'r angen i anfon dogfennau pwysig drwy'r post at yr Adran Gwaith a Phensiynau.

- Mae 50% o'r holl ymholiadau hyd yma eleni wedi dod gan drigolion Ynys Môn sy'n 55 oed ac yn hŷn, gyda dros chwarter ohonynt o oedran pensiwn.




**Enillion a nodwyd ar gyfer budd-daliadau salwch ac anabledd (gan gynnwys cyfandaliadau unwaith ac am byth) yn y 3ydd chwarter:**

- £82,484.00 mewn Lwfansau Cyflogaeth a Chymorth/CC LCW, sy'n mynd â'r cyfanswm hyd yma eleni i £142,131.12
- £229,306.56 mewn Taliadau Annibyniaeth Bersonol, sy'n mynd â'r cyfanswm hyd yma eleni i £546,977.60
- £143,986.80 mewn Lwfansau Byw i'r Anabl a Lwfansau Gweini sy'n mynd â'r cyfanswm hyd yma eleni i £295,066.02
- £8,972.60 mewn Lwfansau Gofalwyr sy'n mynd â'r cyfanswm hyd yma eleni i £33,823.40

**Paratoi ar gyfer y dyfodol**

Ym mis Mawrth 2020, ymrwymodd y Llywodraeth i gynnydd o £1000 y flwyddyn, neu £20 yr wythnos yn yr elfen sylfaenol o'r Credyd Treth Gwaith a lwfans safonol CC.  I ddechrau, roedd hyn i bara am flwyddyn ond cafodd ei ymestyn i flwyddyn ariannol 21/22, gan ddod i ben ym mis Medi



Draft

2021 pan gadarnhaodd y Llywodraeth na fyddai'r cynnydd yn cael ei ymestyn ymhellach. Cafodd y cyhoeddiad hwn ei feirniadu’n helaeth ymysgu pryderon y byddai lefelau tlodi’n cynyddu.

Pan gaewyd yr ysgolion a phlant yn cael eu ‘haddysgu gartref’, a theuluoedd yn gorfod hunanynysu, gwnaed taliadau o £19.50 yr wythnos i'r teuluoedd hynny a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a chafodd y taliad ei ymestyn i wyliau ysgol hefyd fel cydnabyddiaeth bod angen i rieni ddarparu pryd o fwyd ar gyfer eu plant yr un modd.  Yn anffodus, ni fydd y taliadau hyn ond yn parhau hyd at wyliau'r Pasg 2022.

Gwnaed cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn 4 i 11 oed, gyda'r nod o gyflwyno'r cynllun i’r disgyblion ieuengaf yn y lle cyntaf ar ddechrau blwyddyn academaidd 22/23, gan ei ymestyn i bob plentyn ysgol gynradd ym mis Medi 2023. Byddwn yn parhau i geisio annog rhieni i fanteisio ar y cynllun prydau ysgol am ddim.

Gydag effaith Covid ar gyflogaeth, iechyd meddwl a chorfforol a chwyddiant cynyddol, costau ynni a fydd yn cynyddu ar raddfa frawychus ym mis Ebrill a'r cynnydd i gyfraniadau Yswiriant Gwladol, rydym yn paratoi ar gyfer blwyddyn brysur iawn. Mae darparu gwasanaeth Hawliau Lles yn *hanfodol* i unigolion a theuluoedd sy'n wynebu argyfyngau ariannol; gall ein hymgynghorwyr ddwyn sylw at arian nad yw’n cael ei hawlio a sicrhau fod pobl yn cael yr incwm mwyaf posib a chynorthwyo'r rhai sy'n llai abl i hawlio drostynt eu hunain a herio penderfyniadau anghywir.

Weithiau, gall nodi bod gan rywun hawl i un budd-dal a'u helpu i’w hawlio amlygu eu hawl i fod yn gymwys ar gyfer taliadau eraill; er enghraifft, gall nodi hawl i Gredyd Pensiwn (credyd gwarant) hefyd olygu y gallent hawlio Budd-dal Tai, Gostyngiad y Dreth Gyngor, Gostyngiad Cartrefi Cynnes, ynghyd â hawl i gymorth ychwanegol efallai os ydynt yn ofalwyr, yn ddifrifol anabl, neu'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc. Hyd at ddiwedd Rhagfyr 2021, **nododd ein hymgynghorwyr £54,390.02 o hawliau Credyd Pensiwn** a fyddai wedi arwain at wiriadau cymhwysedd ar gyfer y budd-daliadau ychwanegol hyn a'r cymorth i’w hawlio.

Yn 2022, byddwn yn recriwtio i swydd wag y Swyddog Hawliau Lles Cynorthwyol, a bydd hyn yn dod â phedwerydd ymgynghorydd atom i’n helpu i gwrdd â’r galw. Gan ragweld y bydd cyfyngiadau’n codi, rydym hefyd yn paratoi ac yn cynllunio ar gyfer dychwelyd i wasanaeth drws agored a wyneb yn wyneb ond fel tîm, rydym wedi cael cipolwg gwerthfawr ar ffyrdd newydd o weithio a byddwn yn datblygu’r rhain a bydd hynny, gyda gobaith, yn rhoi mwy o opsiynau i ni a'n cleientiaid.

Draft

## 5.0 Cynnal a Chadw

### 5.1 Rhaglen Cynnal a Chadw wedi'i Chynllunio ar gyfer 2022-23

Mae'r Rhaglen Cynnal a Chadw wedi'i Chynllunio ar gyfer 2022/23 a ddangosir yn y tabl isod, sy'n werth £9.555 miliwn (ac eithrio datblygiadau newydd) yn clustnodi'r adnoddau cyfalaf sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Busnes. Yn sail i'r rhaglen mae data cyflwr stoc a gasglwyd yn annibynnol a fydd yn cyfrannu at ein Strategaeth Rheoli Tai a'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae'r Rhaglen Buddsoddi Sector Cyhoeddus hon yn rhan o'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2022/23.

Draft

| ***Cynllun*** | **2022/23 (£ '000)** |
|---|---|
| | |
| *Gwaith Mewnol SATC ac Asbestos* | 1,900 |
| *Ymrwymiadau ar gontractau presennol a’r Rhaglen Cynnal a Chadw Traddodiadol* | 3,955 |
| *Rheoli risg tân* | 600 |
| *Gwaith Gwres Canolog* | 800 |
| *Gwaith Amgylcheddol* | 900 |
| *Gwaith Perfformiad Ynni* | 1,000 |
| *Addasiadau Sector Cyhoeddus* | 400 |
| | **9,555** |

| ***Cyllido:*** | **2022/23 (£ '000)** |
|---|---|
| | |
| *Lwfans Atgyweiriadau Mawr* | 2,660 |
| *Cyfraniadau Refeniw* | 6,895 |
| *Grant GTA* | |
| *Benthyca* | |
| | **9,555** |

### 5.2 Rheoli risg tân

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Gorchymyn Diwygio Diogelwch Tân 2005 rydym wedi clustnodi swm o £600,000 ar gyfer diweddaru a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau darganfod tân er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg tân. Yn ystod 2021/22, mae ein contractwr arbenigol wedi parhau i gynnal asesiadau risg tân blynyddol sydd yn sail i gynlluniau gwariant ar gyfer 2022/23.

Yn ystod 2021/22 adnewyddwyd dros 100 o ddrysau tân mewn fflatiau yn llwyddiannus. Roedd y fanyleb ar gyfer gosod drysau sydd yn gwrthsefyll tân am 1 awr (FD60). Yn ystod 2022/23 rydym yn cynnig dyfarnu contract pellach i barhau â'r gwaith hwn.

Mae cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2022/23 yn darparu ar gyfer gosod systemau llethu tân mewn 2 o'n blociau fflatiau uchder canolig yn Llangefni a Phorthaethwy Bydd cwblhau'r cynnig hwn yn llwyddiannus yn sicrhau bod systemau chwistrellu diogelwch tân wedi cael eu gosod yn ein pedwar bloc fflat uchder canolig.

### 5.3 Cynllun Buddsoddi Mewnol

Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £1.9 miliwn er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf sy'n cael eu huwchraddio ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer y gwaith parhaus o osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwneud gwaith ail-wifro wrth iddynt ddod i ddiwedd eu cylch bywyd.

Bydd y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y methiannau derbyniol yr adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r gyllideb yn dyrannu arian tuag at adnewyddu 100 o geginau nad oeddent yn rhan o'r rhaglen graidd SATC wreiddiol. Mae'r ceginau hyn yn dynesu at ddiwedd cylch bywyd disgwyliedig yr elfen.

### 5.4 Gwaith Gwres Canolog

Yn ystod 2016/17 rydym wedi dechrau ar raglen i osod boeleri newydd i uwchraddio ein hen foeleri sydd yn gynyddol annibynadwy. Cafodd y rhaglen ei hatal yn ystod 2020/21 oherwydd y pandemig coronafeirws.

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhelir arolwg o'r system wresogi bresennol ac os oes angen rheiddiaduron newydd byddant yn cael eu gosod fel rhan o'r rhaglen adnewyddu boeleri. Bydd hyn yn caniatáu i ni sicrhau bod y systemau a osodir yn addas i'r pwrpas, o'r maint cywir a'u bod mor effeithlon â phosib ar gyfer ein tenantiaid. Ar ôl cwblhau'r gwaith byddem yn disgwyl gweld gostyngiad yn y gost o alw allan ein peirianwyr gwresogi.

Ar gyfer 2022/23, rydym wedi clustnodi cyllideb o £800,000 i barhau â'r rhaglen hon a byddwn yn ceisio gosod oddeutu 400 o foeleri nwy newydd.

### 5.5 Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol a Gynlluniwyd

Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw Traddodiadol a Gynlluniwyd yw £3.955m sy'n cynnwys ymrwymiad a ddygwyd ymlaen ar gynlluniau sydd ar y safle ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaethau Tai yn cadarnhau bod y pandemig coronafeirws

Draft

a’r cyfnod clo gorfodol wedi hynny wedi effeithio ar 2 gontract a ddyfarnwyd yn ystod hanner olaf 2019/20 yn cynnwys 120 eiddo.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn parhau i dargedu gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi gan ganolbwyntio'n benodol ar eiddo nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad nwy. Mae cynllun cynnal a chadw newydd wedi'i raglennu’n wreiddiol ar gyfer 2021/22 ar gyfer Maes Cynfor, Bae Cemaes yn awr am gael ei gaffael dros ddau gam yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae cwmpas cyffredinol y gwaith sydd i'w wneud neu ar y safle ar hyn o bryd yn nodweddiadol yn cynnwys ail-doi i gynnwys gosod paneli solar ffotofoltaig, defnyddio system rendro wedi'i inswleiddio, ffenestri a drysau newydd lle bo hynny'n briodol, gwaith allanol i gynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn.

Bydd y gwelliannau cartref ym mhob un o’r cynlluniau y cyfeirir atynt uchod yn gwella cyfforddusrwydd ac edrychiad y cartrefi yn sylweddol a, lle bo’n berthnasol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i’w gwresogi.  Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol a gynlluniwyd yn parhau i ffurfio sail ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol.

Mae rhaglenni buddsoddi Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru ac mae’n cyfrannu at gydymffurfio’n barhaus â SATC.

### 5.6 Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus

Mae’r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swm o £400,000 ar gyfer gwaith addasu sylweddol ar gyfer yr anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o’r gwaith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, cawodydd mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau.

### 5.7 Gwaith Perfformiad Ynni

Er mwyn rhoi sylw i fethiannau derbyniol mewn perthynas â pherfformiad ynni, rydym yn targedu buddsoddiad mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy, sef Solar Ffotofoltäig (PV), mewn nifer sylweddol o’n heiddo nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy. Ar gyfartaledd eiddo sydd â systemau gwresogi LPG a systemau storio trydan sydd â’r sgôr SAP isaf o blith ein stoc tai.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â’r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth (DNO) i gael caniatâd i osod systemau Solar PV niferus ar nifer o stadau nad ydynt wedi eu cysylltu â’r grid. Yn anffodus, oherwydd problemau maint y rhwydwaith, nid yw derbyn caniatâd y DNO yn broses rhwydd ac yn ystod 2021/22 cawsom ein cyfyngu i osod 80 o sustemau Solar PV newydd.

Rydym yn bwriadu parhau â’r rhaglen hon yn ystod 2022/23 a chlustnodwyd £1 miliwn yn y gyllideb i dargedu 250 o osodiadau pellach a fyddai’n gwneud cyfraniad cadarnhaol o ran targedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon.



Draft

## 5.8 Gwaith Amgylcheddol

Mae Safon Amgylcheddol SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gael eu lleoli mewn “amgylcheddau deniadol a diogel y gall trigolion uniaethu â hwy ac y gallant fod yn falch o fyw ynddynt”.

Er mwyn cyflawni gwelliannau amgylcheddol, bydd y Gwasanaethau Tai yn parhau i ariannu’r Gronfa Wella Amgylcheddol a Chymunedol lle gwahoddir tenantiaid i gyflwyno ceisiadau am arian tuag at welliannau cymunedol o’u dewis.

Neilltuir cyfanswm o £900,000 tuag at welliannau amgylcheddol yn 2022/23. Bydd cyfran sylweddol o’r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau â’r rhaglen dymchwel garejys nad ydynt bellach yn ymarferol i’w cynnal. Bydd y rhaglen hon yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn ymwneud â pharcio, gwella diogelwch a gwella edrychiad ardaloedd penodol yn gyffredinol. Yn ogystal, defnyddir y gyllideb i wneud gwelliannau a dargedir ar stadau ac uwchraddio gweithfeydd trin y mae’r Gwasanaethau Tai yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

## 5.9 Cydymffurfio â SATC a’r Strategaeth Fuddsoddi

Rydym yn fodlon bod yr holl eiddo, lle bynnag y bo hynny’n ymarferol bosibl, yn cwrdd â SATC ac eithrio’r rhai sy’n cael eu gwrthod neu rai sy’n cwrdd â meini prawf methiant derbyniol. Bydd gwaith gwella ar eiddo a wrthodwyd yn y gorffennol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg newid Tenantiaeth. Ni allwn ystyried nodi methiant derbyniol oni bai bod cost y gwaith i'w unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Mae’r tabl canlynol (nad yw’n cynnwys unrhyw ddatblygiadau newydd nac eiddo a brynwyd yn ôl) yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol o ran adnewyddu’r elfennau craidd:

| Elfen | Niferoedd a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol | Cyfanswm a gwblhawyd yn ystod y Cynllun SATC (Hydref 2008 – Rhagfyr 2012) | Cwblhawyd ar adeg newid Tenantiaeth (Ionawr 2013 – Ionawr 2021) | Tenantiaid wedi gwrthod (methiant derbyniol) | Cyfanswm eiddo na chafodd eu nodi ar gyfer gwaith adnewyddu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cegin** | 3073 | 3123 | 409 | 126 | 113 |
| **Cyfanswm ystafelloedd ymolchi/cawodydd mynediad gwastad** | 2271 | 3071 | 387 | 76 | 237 |
| **Ail-wifro** | 1543 | 2728 | 407 | 83 | 553 |

Drafft

## 5.10 Cylliso Gwaith Cyfalaf a Gynlluniwyd 2022-23

Mae ein rhaglenni buddsoddi yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn derbyn Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) yn flynyddol sydd yn cyfrannu tuag at gyrraedd a chynnal SATC. Yn ystod 2021-22 roedd cyfanswm y Lwfans Atgyweiriadau Mawr yn cyfrannu £2.67 miliwn tuag at ein rhaglen buddsoddi cyfalaf.

## 5.11 Trosolwg o gynlluniau cyfalaf 2021-22

### Aberffraw a Rhosneigr

Gwaith cyfalaf yn cynnwys toeau newydd, ail rendro gyda system insiwleiddio allanol yn ogystal â ffenestri a drysau allanol newydd a gwaith amgylcheddol sy'n cynnwys llwybrau concrit, ffensys, waliau terfyn newydd a gosod mynediad ar gyfer pobl anabl ym mhob byngalo. Yn ogystal â'r gwaith traddodiadol hwn, roedd y cynllun yn cynnwys gosod paneli solar PV ac unedau storio batri yn Awel y Mor ac mae cynlluniau tebyg wedi eu rhaglenni ar gyfer Trem y Mor a Min y Mor.

Mae'r rhaglen yn cynnwys 53 eiddo yn y stadau isod:

- Min y Môr, Aberffraw
- Awel y Môr, Rhosneigr
- Trem y Môr, Rhosneigr

**Min y Môr, Aberffraw**



Draft

## Awel y Môr, Rhosneigr



Cwblhawyd y cynllun ar 31 o Orffennaf 2021

## Llangoed a Llanddona

Gwaith cyfalaf yn cynnwys toeau newydd, ail rendro gyda system insiwleiddio allanol yn ogystal â ffenestri a drysau allanol newydd a gwaith amgylcheddol sy'n cynnwys llwybrau concrit, ffensys, waliau terfyn newydd a gosod mynediad ar gyfer pobl anabl ym mhob byngalo. Yn ogystal mae’r cynllun yn cynnwys gosod paneli solar PV ar bob eiddo.



Yn ychwanegol, hyd heddiw ym Mhont y Brenin a Maes Gwyn rydym wedi gosod 24 o sustemau pwmp gwres ffynhonnell aer hybrid.

Drafft



**Tawelfan, Llangoed**

Yn ddiweddar rydym wedi dechrau gyda chynllun cynnal a chadw traddodiadol arall ar 11 eiddo yn Tawelfan Llangoed. Mae'r gwaith yn cynnwys ail-doi llawn, gosod system inswleiddio waliau allanol gyda gorffeniad rendro. Bydd y cynllun hwn hefyd yn cynnwys ffenestri a drysau allanol newydd, gwaith amgylcheddol llawn sy'n cynnwys ffensys newydd a waliau ffiniau, llwybrau concrid newydd gyda mynediad anabledd i bob byngalo. Mi fydd paneli Solar PV yn cael eu gosod ar bob eiddo.



**Maes Cynfor, Cemaes**

Yn wreiddiol cynigiwyd i'r cynllun hwn ddechrau ar safle yn ystod rhan olaf 2021/22. Fodd bynnag, oherwydd profiadau a ganfuwyd ar gynlluniau eraill sy'n ymwneud â Covid ynghyd â phrinder defnyddiau, mi fydd cynllun Maes Cynfor yn awr yn cael ei gaffael dros ddau gam hefo gwaith i gychwyn yn ystod 2022/23..

**Solar Ffotofoltäig (PV)**

Yn ystod 2021/22 byddwn wedi gosod cyfanswm o 77 o systemau Solar PV i wahanol eiddo ar draws Ynys Môn sydd heb eu cysylltu I’r rhwydwaith nwy naturiol.

### Cynllun Dymchwel Garejys

Yn dilyn arolwg strwythurol annibynnol, nodwyd bod nifer o garejys ar draws Ynys Môn y tu hwnt i waith atgyweirio economaidd. Roedd Cam 3 y Rhaglen Dymchwel Garejys yn cynnwys y garejys a leolir yn Thomas Close Biwmares a Hampton Way Llanfaes i gael eu dymchwel a'u gwneud wedyn i fannau parcio ceir.

### Uwchraddio drysau tân

Yn ystod 2021/22 rydym wedi bod wrthi'n gosod drysau gwastad mynediad blaen ar eiddo ar draws Ynys Môn er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfredol y rheoliadau tân. Cynigir y caiff y ffrwd waith hon barhau yn ystod 2022/23.




Draft

### Gwaith Y Gronfa Gofal Integredig wedi ei gwblhau yn Waun Dirion, Benllech

Mi oedd y gwaith yn cynnwys adnewyddiad llawn tu mewn a thu allan i hen lolfa gymunedol Waun Dirion, Benllech. Pwrpas y cynllun oedd creu uned breswyl sy'n cwrdd â gofynion DDA yn llawn. Mi oedd y gwaith yn cynnwys gosod cegin newydd, cawod mynediad isel ac adnewyddu holl fannau mewnol arall gan gynnwys gosod sustem llethu tan.

Mi oedd y gwaith allanol yn cynnwys ail rendro gyda system insiwleiddio yn ogystal â ffenestri a drysau allanol newydd.  Yn ogystal, mi oedd gwaith amgylcheddol yn cynnwys llwybrau concrit hefo mynediad ar gyfer pobl anabl a gosod paneli solar PV.

### 5.12 Gwaith Cynnal a Chadw Ymatebol

Mae'r canlyniadau ar ddiwedd Chwarter 3, 2021 wedi dangos cynnydd yn nifer yr eitemau gwaith o'i gymharu â Chwarter 3, 2020.

| Chwarter 3 – 2020 | Chwarter 3 - 2021 |
|---|---|
| 17,610 o eitemau gwaith | 24,522 o eitemau gwaith |

Mae'r cynnydd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith fod tenantiaid wedi dal yn ôl eu ceisiadau am waith atgyweirio oherwydd y pandemig. Nid yw'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am waith wedi bod yn gyson, ac mae'r gwasanaeth wedi cael ei herio i addasu ac ymateb yn hyblyg i waith y mae ei faint yn newid barhaus oherwydd cyfyngiadau ysbeidiol drwy gydol y flwyddyn.

Rydym hefyd wedi nodi materion sydd wedi gwaethygu o ran eu maint/difrifoldeb a oherwydd y posibilrwydd fod gwaith atgyweirio dros dro neu rannol wedi cael ei wneud yn ystod cyfyngiadau Covid. Mae'r ddau ffactor hyn wedi cyfrannu at gynnydd yn y gwariant rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn.

### 5.13 Accuserve Mobile Working

Cwblhawyd y gwaith o weithredu Accuserve Mobile Working yn ystod mis Rhagfyr 2021.

Roedd gosod y system newydd ar gyfer Rheoli Cynnal a Chadw Tai a brynwyd yn ddiweddar yn brofiad cadarnhaol at ei gilydd. Gwnaed y trosglwyddiad i'r caledwedd newydd yn ddidrafferth ac ni fu'r system i lawr fawr ddim yn ystod y broses o drosglwyddo tasgau byw i dabledi'r gweithlu. Mae atborth gan y staff cynnal a chadw wedi bod yn gadarnhaol – mae'n yn well ganddynt y dechnoleg newydd sy'n syml ac yn effeithiol.

Mae'r tîm IS a chynnal a chadw ar hyn o bryd yn adolygu gallu Accuserve i alinio â'r rhaglen gwaith cylchol a newid tenantiaeth er mwyn sicrhau ei bod mor effeithiol ag sy'n ymarferol bosib.

Yn ystod 2022, byddwn yn ymchwilio ymhellach i fanteision y system well y gall Accuserve ei chynnig ar gyfer rheoli data.

### 5.14 Effeithlonrwydd Ynni

Yn ystod 2022, bydd yr Uned Cynnal a Chadw Tai yn ystyried opsiynau Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer adnewyddu'r system bresennol ar gyfer Gwres a Dŵr Poeth yn ein swyddfa yn Gaerwen.

Rydym am osod system Gwres Ffynhonnell Aer y gellir, gobeithio, ei chefnogi gan baneli solar.

Rydym hefyd wedi cael 2 fan drydan fach yn Gaerwen yn ddiweddar, ac yn asesu dichonoldeb ychwanegu at y pwyntiau gwefru trydan yn y depo.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rheolwr y fflyd a Menter Môn i archwilio ymhellach yr opsiynau i gyflwyno cerbydau Hydrogen yn lle rhai o'r cerbydau sy'n rhan fflyd ar hyn o bryd a hynny ochr yn ochr â'r datblygiadau ynni gwyrdd newydd yng Nghaergybi.

Draft

### 5.15 Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor/Cynyddu'r cyflenwad tai

Ers cyflwyno trefniadau hunan-ariannu ar gyfer y CRT yn 2015, mae cynghorau'n cael eu hannog i adeiladu tai unwaith eto. Hyd yma rydym wedi gwireddu'r canlynol ac mae cyfanswm o 188 o unedau newydd wedi eu prynu neu eu cychwyn.

| | Prynu tai yn ôl | Cychwyn adeiladu |
|---|---|---|
| **2015/16** | 10 | - |
| **2016/17** | 13 | 3 |
| **2017/18** | 13 | - |
| **2018/19** | 12 | 19 |
| **2019/20** | 17 | 26 |
| **2020/21** | 7 | 34 |
| **2021/22** | 10 | 24 |
| **Cyfanswm** | 82 | 106 |

Yn ystod 2020/21 buom yn ffodus i dderbyn dyraniadau gwahanol grantiau gan Lywodraeth Cymru, grant o £1.0m o’r Gronfa Digartrefedd Cam 2, £500,000 o arian IHP4 yn ogystal a £450,000 o'r Gronfa Rhyddhau Tir.  Yn 2021/22 rydym wedi derbyn £2.0m i brynu ac adnewyddu tai gwag a chyn dai cyngor yn ogystal â £200,000 o raglen Trawsnewid Trefi, sydd wedi cyfrannu cyfanswm o £4,150,000 tuag at ein rhaglen datblygu tai newydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Draft







Rydym wedi nodi cyfleoedd a safleoedd ar gyfer yr isod fel ein rhaglen ddatblygu dros y 3 blynedd nesaf a fydd yn ychwanegu cyfanswm o 315 o unedau at ein stoc dai:

| | Prynu tai yn ôl (targed) | Adeiladu o'r Newydd |
|---|---|---|
| **2022/23** | 10 | 74 |
| **2023/24** | 10 | 63 |
| **2024/25** | 10 | 42 |
| **Cyfanswm** | 30 | 285 |

Er mwyn diwallu anghenion tai y triglion hynny nad ydynt yn gymwys am dai rhent cymdeithasol, mae'n fwriad gennym adeiladu mwy o dai rhent canolraddol ac rhannu ecwiti ac mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi mabwysiadu Polisi Rhannu Ecwiti.  Ar Stad Marcwis, Rhosybol, rydym wedi gosod 10 tŷ ar rent cymdeithasol a'n 5 tŷ cyntaf ar rent canolraddol, ac ymddengys fod cael stad â deiliadaethau cymysg wedi bod yn llwyddiannus.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu tai newydd mewn ardaloedd ble mae eu hangen, rydym yn aelod o'r gwasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig ac yn eu defnyddio i gynnal arolygon o anghenion tai yn yr ardaloedd hynny ble nodwyd cyfleoedd i godi tai.

Draft

## 6.0 Gwasanaethau Tai sydd wedi ennill sawl gwobr

Rydym yn Wasanaeth Tai sydd wedi ennill sawl gwobr gyda nifer o enwebiadau a chyflawniadau llwyddiannus yn ystod y Flwyddyn ariannol hon.

### 6.1 Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 2021

Cafodd ein datblygiad yn Nhre Ifan, Caergeiliog a'r tîm datblygu lwyddiant yn y categorïau canlynol ledled Cymru;

- Gwobr Cynaliadwyedd – Clod Uchel
- Gwobr am y prosiect gorau mewn perthynas â gweithgynhyrchu oddi ar y safle
- Gwobr Arloesedd Gorau

https://www.cewales.org.uk/cew-awards/awards-2021/

### 6.2 Gwobrau'r Sefydliad Tai Siartredig (CIH) 2021

Roedd y Gwasanaethau Tai ar y rhestr fer ar gyfer un neu ddau o gategorïau yng Ngwobrau Tai Cymru 2021.

Rydym yn falch o'n Tîm Tai Gwag a'u llwyddiant yng Ngwobrau Tai CIH Cymru 2021. Llwyddiant aruthrol a da iawn i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r llwyddiant hwnnw.

https://www.anglesey.gov.uk/en/newsroom/news/first-time-buyer-support-scheme-wins-welsh-housing-award

https://www.cih.org/media/2jaj41x1/0359-wha-gpc21-english-v3.pdf

### 6.3 Rhwydwaith Tai Gwag

Enillodd Trystan, Gwenda ac Osian wobr gydnabyddiaeth gan y Rhwydwaith Tai Gwag am weithio mewn partneriaeth, gweler y lluniau isod:



**Dyma'r lluniau o'r cynllun yn Stryd Vulcan, Caergybi cyn ac ar ôl y gwaith**

Draft





Draft

### 6.4 Staffio – Ein pobl

- Y Sefydliad Tai Siartredig – Dechreuodd pedwar aelod o staff weithio at gael eu cymwysterau CIH yn ystod 2021-22
- Cynllun datblygu'r gweithlu i gael ei sefydlu a bydd yn canolbwyntio ar barhau i wella sgiliau a gwybodaeth o fewn yr adran. Dadansoddiad i'w gynnal ar gynllunio olyniaeth ar gyfer staff a fydd yn ymddeol o fewn y 5-10 mlynedd nesaf. Canolbwyntio hefyd ar staff sydd â'u bryd ar rolau rheoli.
- Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau cyrsiau e-ddysgu yn y meysydd diogelu, Atal, Seiberddiogelwch, CSE a Gofyn a Gweithrdu.
- Cylchlythyr staff – bob mis, mae'r holl staff tai yn derbyn bwletin misol sy'n cael ei baratoi gan y Tîm Rheoli er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am y datblygiadau presennol. Mae themâu eraill yn cynnwys negeseuon ynghylch llesiant staff, hyfforddiant a datblygiad, canmoliaeth a chydnabyddiaeth ynghyd â diweddariadau o ran recriwtio. Mae staff wedi dweud eu bod yn mwynhau cael gwybod am ddatblygiadau yn y gwasanaethau tai ac ymddengys eu bod yn gwerthfawrogi'r darn hwn o waith sy'n arwydd o gyfathrebu parhaus.

### 6.5 2021/22 (Ebrill – Hydref 2021) – trosiant staff

| Gwasanaeth | Nifer y Staff 01/04/21 | Nifer y Staff 31/10/21 | Nifer y Staff ar Gyfartaledd | Nifer y Rhai a adawodd rhwng 01/04/21 - 31/10/21 | Trosiant |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai | 146 | 155 | 151 | 4 | 3% |

### 6.6 Hyfforddiant Rheoli

Yn 2021, croesawyd yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan ein tîm Adnoddau Dynol Corfforaethol o ddarparu hyfforddiant parhaus i swyddogion yn y maes arweinyddiaeth a rheoli.

Mae gennym 4 o Arweinyddion Tîm sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr ac un cais gan swyddog sy'n dymuno cael i mewn i'r maes Rheoli.

Rydym yn annog Rheolwyr i fynychu'r holl gyrsiau hyfforddi a drefnir gan yr Adain Adnoddau Dynol Corfforaethol a fydd yn gwella ymhellach eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder.

Rydym yn mynd ati i hyrwyddo Academi Cymru fel dull arall o gefnogi'r Rheolwyr.

https://academiwales.gov.wales/

### 6.7 Prentisiaid

Oherwydd prinder cenedlaethol o weithwyr â sgiliau technegol, rydym yn parhau i wynebu heriau wrth recriwtio gweithredwyr cymwys, ac o ganlyniad bu mwy o ddibyniaeth ar is-gontractwyr i gefnogi ein gweithlu mewnol.



Draft

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen prentisiaethau ac wedi cymryd 5 prentis arall ymlaen yn ystod 2021, gan ddod â chyfanswm ein hyfforddeion i 9 prentis amser llawn.

Ym mis Medi 2022, bydd ein carfan gyntaf yn cwblhau eu cyfnod hyfforddiant 3 blynedd gan olygu y byddant yn gwbl gymwys o fewn eu crefftau.



**Chelsea Hagan, prentis paentio ac addurno**




**Bydd ein prentisiaid yn cymhwyso yn 2023**

Draft



**Tomos Roberts-** Prentis Plastro / *Plastering apprentice*

**Hayden Bentley –** Prentis Gwresogi a Phlymio / *Heating and Plumbing Engineer apprentice*

**Rhys Pugh –** Prentis Saer Coed / *Joinery Apprentice*

**Jacob Harper –** Prentis Gwresogi a Phlymio / *Heating and Plumbing Engineer apprentice*



**Ioan Evans –** prentis Tai Cymunedol

Draft

## 7.0 RHEOLI PERFFORMIAD

Mae ein gweithgareddau'n cynnwys dangosyddion rheoli perfformiad statudol ac anstatudol. Adroddir ar y rhain i'n Huwch Dîm Rheoli bob mis ac yn chwarterol o safbwynt Corfforaethol ehangach.

Drafft

| | 2020-21 | 2021-22 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Canlyniad** | **Chwarter 1** | **Chwarter 2** | **Chwarter 3** | **Targed 2021-22** | **Perfformiad** |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid presennol fel canran o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 2.62% (£492,413.54) | 2.90% (£559,072.46) | 2.94% (£566,421.56) | 2.76% (£533,972.34) | **3.25%** | ↑ |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid fel canran o'r cyfanswm rhent a gesglir am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 1.40% (£264,195.91) | 1.32% (£255,567.46) | 1.41% (£271,681.12) | 1.46% (£281,553.60) | **1.75%** | ↓ |
| Cyfran y tenantiaid sydd â ôl-ddyledion dros naw wythnos | 4.64% | 4.55% | 4.36% | 5.28% | **6.00%** | ↓ |
| Cyfartaledd ôl-ddyledion | £426.55 | £319.64 | £316.92 | £447.35 | **£400.00** | ↓ |
| Cyfartaledd ôl-ddyledion tenantiaeth pan ddaeth i ben | £569.48 | £465.30 | £546.99 | £514.97 | **£570.00** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol | 54.4 | 47.7 | 43.9 | 40.3 | **50** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol (heb gynnwys DTL) | 45.6 | 41.8 | 34.6 | 27.9 | **40** | ↑ |
| Nifer y Tai sy'n cael ei derbyn ar y cynnig cyntaf | 74.03% | 75.32% | 75.56% | 77.57% | **80%** | ↑ |
| % o atgyweiriadau arferol a gwblhawyd o fewn amserlen | 97.91% | 98.76% | 98.49% | 97.36% | **95%** | ↓ |
| % atgyweirio wedi cwblhau mewn un ymweliad | 97.93 | 96.18% | 98.84% | 95.93% | **95%** | ↓ |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau atgyweiriadau ymatebol nad ydynt yn rhai brys (Dyddiau Calendr) | 8.90 | 8.87 | 12.76 | 14.41 | **18** | ↓ |
| Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | 74.74% | 85.71% | 83.33% | 85.00% | **70%** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) | 169.00 | 178.54 | 177.00 | 188.0 | **170** | ↓ |

Draft

**Cynllun Ariannol CRT**

**Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol**

Mae rhagdybiaethau ariannol ar gyfer y Cynllun Busnes yn seiliedig ar y wybodaeth ganlynol

- Caiff chwyddiant ei weithio allan gan ddefnyddio cyfradd darged y Llywodraeth o 2% y flwyddyn.
- Tybir y bydd gwariant ar gynnal a chadw ac adeiladu newydd yn cynyddu 1% yn uwch na'r targed chwyddiant bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd y rhent targed yn cynyddu 1% yn uwch na chwyddiant bob blwyddyn o 2023/24.
- Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% yn 2022/23 (pan ddisgwylir i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn), gan ostwng 0.1% bob 2 flynedd nes bod y lefel yn dychwelyd i'r lefel 0.6% a gyrhaeddwyd cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol.
- Disgwylir i golledion oherwydd cyfnodau pan mae tai yn wag fod yn 1.5% y flwyddyn.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar yr Arolwg newydd o Gyflwr y Stoc, gyda chydrannau'n cael eu hadnewyddu yn unol â'r rhestr o gylchoedd bywyd cydrannau penodol.
- Tybir y bydd y rhaglen ar gyfer codi tai o'r newydd a phrynu cyn dai cyngor yn parhau. Yn 2022/23, disgwylir i 45 o unedau gael eu datblygu a 45 uned bob blwyddyn, yn cael eu datblygu wedi hynny. Bydd cynllun tai gofal ychwanegol 40 uned yn cael ei ddatblygu ar gost o £14.75m ac yn cael ei gwblhau yn 2024/25.
- Ac eithrio'r grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd yn ystod 2022/23 a'r dyraniad grant ICF ar gyfer y Cynllun Tai Gofal Ychwanegol, tybir y bydd y CRT yn ariannu'r rhaglen ddatblygu yn llawn drwy gydol y cynllun.
- Tybir mai 0.2% y flwyddyn fydd y cyfradd y llog ar falansau credyd. Tybir y bydd cyfradd y llog ar fenthyciadau newydd yn 2% dros gyfnod o 50 mlynedd.
- Tybir na fydd dyledion yn cael eu talu'n ôl yn gynnar
- Mae incwm arall yn cynnwys incwm tariff cyflenwi trydan (Grid Cenedlaethol), comisiwn o werthu yswiriant, taliadau carthffosiaeth a gwaith atgyweirio y codir amdano.

**Polisi Rheoli'r Trysorlys**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull un cronfa ar gyfer benthyciadau sy'n golygu bod costau benthyca rhwng y gronfa gyffredinol a'r CRT yn gymesur ar gyfartaledd â'u gofynion ariannu cyfalaf priodol.

Draft

## Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd

### Cyllidebau Refeniw

| | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | 2026/27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli | 3,698 | 3,772 | 3,847 | 3,924 | 4,002 |
| Cynnal a Chadw | 5,288 | 5,478 | 5,736 | 6,004 | 6,253 |
| Costau Eraill | 500 | | | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 3,664 | 4,359 | 5,634 | 6,757 | 7,770 |
| Cyfraniad I'r Rhaglen Cyfalaf | 16,628 | 6,987 | 6,391 | 5,999 | 5,574 |
| Cyfanswm Gwariant | 29,778 | 20,596 | 21,608 | 22,684 | 23,599 |
| Incwm Rhent | 19,148 | 19,847 | 20,783 | 22,206 | 22,684 |
| Incwm Arall | 640 | 655 | 670 | 687 | 702 |
| Grant AHG | 116 | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Cyfanswm Incwm | 19,904 | 20,618 | 21,569 | 23,009 | 23,502 |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | (9,874) | 22 | (39) | 325 | (97) |
| Balansa Ddygwyd Ymlaen | 10,481 | 607 | 629 | 590 | 915 |
| Balans a Gariwyd Drosodd | 607 | 629 | 590 | 915 | 818 |

**Cyllideb Gyfalaf**

| | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 | 2024/25 £'000 | 2025/26 £'000 | 2026/27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau a Cynnal a Chadw SATC | 9,555 | 7,712 | 10,490 | 10,805 | 11,129 |
| Adeiladu o'r Newydd | 10,183 | 15,125 | 15,361 | 8,354 | 8,605 |
| Di Garboneiddio | - | 8,500 | 8,500 | 8,500 | 8,500 |
| Gwariant Arall | - | 510 | - | - | - |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 19,738 | 31,847 | 34,351 | 27,659 | 28,234 |
| Cyllid Cyfalaf | | | | | |
| Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Benthyca | 450 | 19,700 | 25,300 | 19,000 | 20,000 |
| Gwariant Cyfalaf a Ariennir o'r CRT | 16,628 | 6,987 | 6,391 | 5,999 | 5,574 |
| Grant IHG | - | 2,500 | - | - | - |
| Cyfanswm y Cyllid Cyfalaf | 19,738 | 31,847 | 34,351 | 27,659 | 28,234 |

Draft

Drafft

Drafft

Draft

This page is intentionally left blank

F7 [16/10/17]



| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **7 Mawrth ,2022** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I sgrwtineiddio y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai (GCT) ac argymell ei gymeradwyaeth** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Aled M Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llŷr, Rheolwr Polisi, Comisiynu a Strategaeth<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor :<br>**A1 i argymell cymeradwyo Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26 a'r Cynllun Cyflawni i'r Pwyllgor Gwaith**<br><br>**A2 – y dylai'r Pwyllgor Gwaith gytuno i'r Cynllun Gwariant arfaethedig yn unol â Chanllawiau a gofyniad GCT Llywodraeth Cymru (a gynhwysir yn Atodiad B o fewn y Cynllun Cyflawni)**<br><br>**A3 – argymell cymeradwyo'r Cynllun Gwaith Pontio Ailgartrefu Cyflym Ebrill 2022- Mawrth 2027 i'r Pwyllgor Gwaith** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

- I ba raddau'r mae'r Strategaeth Digartrefedd yn ein paratoi i ymateb i'r galw am wasanaethau dros y 4 mlynedd nesaf?
- Sut mae'r Strategaeth arfaethedig yn cynnwys sylwadau rhanddeiliaid allweddol?
- Pa heriau a risgiau sy'n wynebu'r Cygnor?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

a) **Rôl y Strategaeth**

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac y'n cael ei harwain a'i rheoli gan Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth â'r gwasanaethau Iechyd a Phrawf. Mae'n darparu gwasanaethau cymorth tai i bobl o amrediad o grwpiau cleient. Nod y rhaglen yw darparu cymorth tai i bobl fel y gallant wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth ac er mwyn eu cefnogi a'u cynnal drwy ddarparu ystod o wasanaethau a phrosiectau cymorth tai arloesol sy'n helpu i atal digartrefedd. Mae'n ymgorffori'r rhaglen flaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sef:

- Cefnogi Pobl
- Atal Digartrefedd
- Rhaglenni Rhentu Doeth Cymru

Mae'r Strategaeth hon yn ofyniad ar Wasanaethau Tai gan Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai yn Ynys Môn. Mae'r Strategaeth hefyd yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014. Bydd y Strategaeth hon yn cael ei sefydlu ar gyfer y pedair blynedd nesaf gydag adolygiad canol tymor o fewn 2 flynedd ac yn ategu'r dogfennau allweddol canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Cynllun Gweithredu Digartrefedd 2021-26

- Dogfen Templed Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai
- Canllawiau ar gyfer Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (Hydref 2021)
- Canllawiau Grant Cymorth Tai (Mawrth 2021)

Fel rhan o'r Canllawiau grant Cymorth Tai, mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod bob Awdurdod Lleol yn llunio Asesiad Anghenion manwl bob 4 blynedd (gydag adolygiad ysgafn, bob 2 flynedd) sy'n sail i'n Strategaeth GCT a Chynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai cylchol 3 blynedd, y mae'n rhaid ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn amlinellu sut rydym yn bwriadu gwario ein dyraniad refeniw o £3,571,720.50, ar gyfer 2022-23 yr ydym wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

- Cymorth Tai (Cefnogi Pobl gynt) £3,417,363.49
- Atal Digartrefedd £ 140,000.00
- Rhentu Doeth Cymru £ 6,209.00
- Heb ei neilltuo £ 8,148.01
- Cyfanswm y Dyraniad £3.571,720.50

Rhagwelir y bydd y dyraniad uchod yn ein galluogi i ddarparu cymorth tai i hyd at 834 o'n dinasyddion a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dioddefwyr / goroeswyr cam-drin domestig,
- pobl ag anghenion iechyd meddwl,
- anableddau dysgu,
- pobl â chamddefnyddio sylweddau,
- pobl sy'n gadael y carchar, pobl ifanc a bregus rhwng
- 16-24 oed,
- pobl 55+ oed
- teuluoedd sy'n agored i niwed a
- Pobl sengl 25-54 oed.

Bydd cymorth yn cael ei ddarparu ar draws pob deiliadaeth ar gyfer y rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

**b) Y Sefyllfa Bresennol**

Bydd y Strategaeth yn disodli Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol Gogledd Cymru 2018-22 gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo Cynghorau i fabwysiadu Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai erbyn 31 Mawrth 2022. Cyflwynwyd adroddiad sefyllfa'r Strategaeth Ddigartrefedd bresennol ym Mhwyllgor Craffu mis Mehefin 2021 fel rhan o adroddiad Ymateb Covid a Digartrefedd.

Mae Strategaeth Rhaglen GCT yn rhan o Gynllun Gwaith Ataliol ehangach y Bwrdd Ymyrraeth Gynnar ac Atal.

Yn ystod 2020-21, cysylltodd 782 o aelwydydd â'r Gwasanaethau Tai am gyngor a chymorth, o gymharu â 652 yn 2019-20. O'r niferoedd hyn, roedd mwyafrif y rhai a oedd yn datgan eu bod angen cymorth (66%) yn aelwydydd un oedolyn

sengl a 27% yn aelwydydd â phlant. Mae yna 550 o gyflwyniadau wedi bod hyd ganol Chwefror, 2022.

Mae’r cynnydd o ran aelwydydd sy’n datgan eu bod yn ddigartref, ynghyd â’r cynnydd mewn niferoedd sydd angen llety brys, wedi golygu bod cynnydd o ran y llwyth achosion i swyddogion. Maent yn ysgwyddo nifer uwch o lwythi achosion oherwydd nad ydynt yn gallu terfynu’r ddyletswydd ddigartrefedd gan na fu llety ar gael, neu fod y ddyletswydd wedi dod i ben ond nad yw’r aelwyd yn gallu symud ymlaen, er enghraifft, gan nad oes unrhyw unedau rhent preifat neu gymdeithasol ar gael ac yn parhau i fod angen cefnogaeth tai.

Mae’r Timoedd Asesu (Digartref) a Chefnogaeth Tai wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, pobl hŷn, aelwydydd sy’n profi trais domestig a phobl ifanc yn cael eu heithrio o blith eu teuluoedd neu ffrindiau. Mae atgyfeiriadau i’r Grant Cymorth Tai yn cefnogi’r wybodaeth o ran y data hwn, gyda phroblemau iechyd meddwl trais domestig a chwalu perthnasau’n brif resymau dros gael mynediad i gymorth. Yn aml, mae pobl sy’n datgan bod arnynt angen cymorth mewn cyflwr bregus iawn, gyda darpariaeth yn cael ei wneud o ran bwyd, pecynnau cychwyn tenantiaeth, dodrefn sylfaenol a phecynnau i gynorthwyo os oes angen hunanynysu o ganlyniad i Covid.

## 2. Amcanion Allweddol

Nod strategol cyffredinol Strategaeth Dai 2022-27 yw sicrhau bod trigolion Ynys Môn

**yn cael lle y gallant ei alw’n gartref, yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu at eu cymuned leol**

Mae'r Strategaeth hon yn manylu ar y modd y byddwn yn mynd i'r afael â'r themâu canlynol fel y'u cynhwysir yn ein Strategaeth Dai o dan:

- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cymorth i hyrwyddo annibyniaeth yn y maes tai

Yn seiliedig ar y weledigaeth uchod, mae y Strategaeth Grant Cymorth Tai 2022-26 yn cydnabod 5 Colofn Atal, fel a ganlyn:-

1. **Atal Cyffredinol** drwy atal neu leihau'r risg o ddigartrefedd ar draws y boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a themâu allweddol eraill fel y nodwyd yn ein Strategaeth Dai 2022-27
2. **Gwaith Atal Wedi’i Dargedu** sy'n canolbwyntio ar grwpiau risg uchel neu'r rhan fwyaf o gleientiaid sydd wedi'u heithrio a bydd yn cynnwys llwybrau wedi'u targedu a llwybrau pontio i dai â chymorth i bobl ifanc, achosion cymhleth, pobl â phroblemau iechyd meddwl

3. **Atal Argyfwng** sy'n anelu at atal digartrefedd o fewn 56 diwrnod a allai gynnwys adolygiadau achos amlasiantaethol a mynediad i'r Gronfa Atal a chronfeydd eraill
4. **Atal Argyfwng** lle mae angen ymateb ar unwaith, er enghraifft drwy ddarparu cymorth neu lety brys i'r rhai sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref
5. **Atal Adferiad** lle darperir cymorth i gynorthwyo i gefnogi tenantiaeth ac i leihau'r tebygolrwydd y bydd person yn dod yn ddigartref eto

Yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Digartrefedd Lefel Uchel Llywodraeth Cymru a'r 5 Colofn Atal, yr isod fydd ein blaenoriaethau ni. Ymdrinnir â phob cam gweithredu dros gyfnod byr o flwyddyn, tymor canolig o 2 flynedd a thymor hir dros oes y Strategaeth.

- Maes blaenoriaeth 1 **Anfynych** – mae sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anfynych yn golygu bod angen atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf
- Maes blaenoriaeth 2 **Cyfnod byr** – bydd canolbwyntio ar ailgartrefu cyflym yn golygu y bydd cyfnodau digartrefedd yn fyr
- Maes blaenoriaeth 3 **Digartrefedd mynych** – sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu
- Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni hyn

### 3. Ymgynghori

Rhoddwyd y Strategaeth ar wefan y Cyngor ar gyfer ymgynghori ar gyfer sylwadau yn rhwng 5 Ionawr a 1 Chwefror, 2022. Cafwyd 17 o ymatebion drwy'r cwestiynau ymgynghori, gyda'r ymatebion a gafwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn aelodau o'r cyhoedd yn byw ar Ynys Môn.

Gofynnodd yr ymgynghoriad:

- A yw Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26 wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf y mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn fynd i'r afael â hwy yn ystod cyfnod y Strategaeth?
- Oes yna unrhyw faterion eraill sydd angen sylw gan Gyngor Sir Ynys Môn?
- Mae Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i ni eu cymryd yn ystod y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Ydych chi'n cytuno â'r rhain?
- A oes gennych unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26?

Roedd 88% yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf ond nid oedd y ddau a oedd yn anghytuno wedi gadael sylwadau ynglŷn â'r rhesymau pam eu bod yn anghytuno.

Adolygwyd y sylwadau a gafwyd yn yr ymatebion sgwennu rhydd ac mae'r holl sylwadau perthnasol wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Derfynol y Grant Cymorth Tai 2022-26.

Roedd 82% o'r farn bod y Strategaeth yn nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd yn y tymor byr, canolig a hir. O'r 3 ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd mai eu sylwadau wedi'u hymgorffori, lle bo hynny'n briodol, yn y fersiwn diwygiedig.

Mae Atodiad 1 yn dangos adroddiad o'r ymatebion a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad.

Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori ar-lein a fynychwyd gan 35 o randdeiliaid ar draws y sesiynau gyda chyfle i gwblhau pleidlais, y cwestiynau a ofynnwyd oedd;

- Ydych chi'n cytuno â'r 5 colofn atal?
- Ydych chi'n cytuno â'r 3 thema ar gyfer y cynllun gweithredu?
- Ydych chi'n teimlo'n hyderus wrth ymateb i'r ymgynghoriad?
- Nid fi fydd yn ymateb

Canlyniadau'r arolwg oedd bod y rhai a ymatebodd 100% yn cytuno â'r 5 Colofn Atal a'r tair thema ar gyfer y cynllun gweithredu.

- Roedd 17 (61%) yn teimlo'n hyderus wrth ymateb i'r ymgynghoriad;
- Nid oedd 0 (0%) yn teimlo'n hyderus wrth ymateb i'r ymgynghoriad;
- Roedd 6 (21%) yn ansicr a oeddent yn gallu ymateb;

Mae Atodiad 2 yn dangos adroddiad o'r ymatebion yn dilyn y polau ar-lein

**4. Cynllun Cyfathrebu**

Nod yr ymgynghoriad oedd uchafu cyfleoedd i roi adborth gan amrywiaeth o rhanddeiliaid sydd wedi ei grynhoi isod.

Gwnaed cyflwyniad ar y Strategaeth ddrafft yn y cyfarfodydd canlynol:

| | |
|---|---|
| 8 Hydref 2021 | Partneriaeth Dai Ynys Môn |
| 11 Ionawr 2022 | Fforwm Darparwyr GCT |
| 24 Ionawr 2022 | Sesiwn galw heibio i Landlordiaid Preifat |
| 24 Ionawr 2022 | Sesiwn Wybodaeth ar gyfer Staff y Gwasanaethau Tai |
| 25 Ionawr 2022 | Tîm Asesu Tai |

Roedd angen i LLC dderbyn copi drafft o'r Strategaeth erbyn 31.12.21 ac mae eu sylwadau wedi'u hymgorffori yn y drafft terfynol.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda dolen i gwblhau'r holiadur ymgynghori ar 'Smart Survey'. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy'r dulliau canlynol:

- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr staff wythnosol)
- E-bost staff tai misol

Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n rheolaidd i aelodau'r cyhoedd drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnwys yng nghylchlythyr staff wythnosol Cyngor Môn (Medra Môn).
Anfonwyd dolen i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Darparwyr GCT
- Partneriaeth Tai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIBC, GCMaG, HGC, NRLA)
- Medrwn Môn
- Landlordiaid Preifat
- Iechyd
- Gwasnaethau Cymdeithasol
- Canolfan Gynghori
- Linc Cymunedol Môn
- Llwybr Mynediad Iechyd Meddwl

Yn ogystal, bu nifer o ddulliau eraill o ymgysylltu mewn perthynas â'r Gwasanaethau GCT gan gynnwys:

- Holiadur parhaus ar-lein Eich Gwasanaeth, Eich Dweud.
- Holiadur Ymgynghori Ailgartrefu Cyflym Ynys Môn
- Holiadur Darparwyr Rhanbarthol
- Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth Rhanbarthol
- Ymateb Defnyddwyr Gwasanaeth Ynys Môn
- Canlyniadau Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae atodiad 3 yn dangos adroddiad cryondeb o ymgysylltu gyda rhanddeiliwyr.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| --- |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC |

| 6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol) |
|---|
| Bydd yn cynnig cyfle i bobl fyw a chyfrannu at eu cymunedau lleol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AE |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae adnoddau wedi cael ei dyrannu / adnabod ar gyfer y gwahanol fentrau a gynhwysir yn y Strategaeth |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26<br>Atodiad 1,2,3 Ymatebion i Ymgynghoriadau<br>Atodiad 4 Cynllun Cyflawni 2022-23<br>Atodiad 4.1 Cynllun Gwariant 2022-23<br>Atodiad 5 Cynllun Gwaith Trosiannol Ailgartrefu Cyflym 2022-27<br>Atodiad 6 Asesiad o Angen<br>Atodiad 7 Datganiad Angen<br>Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>Asesiad Effaith Iaith Gymraeg |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

**Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Ynys Môn 2022-26**

## 1. Pwrpas y Strategaeth

Pwrpas y ddogfen hon yw:

- **Cysylltu themâu Strategaeth Dai 2022-27 â'r Strategaeth hon**
- **Rhoi trosolwg o'r materion sy'n ymwneud â digartrefedd ac atal digartrefedd**
- **Sut mae'r Strategaeth yn mynd i atal digartrefedd a darparu cymorth tai**
- **Beth sydd angen ei wneud o fewn tymor byr, canolig a hir yn ystod cyfnod y Strategaeth**
- **Darparu sail i ddatblygu Cynllun Gweithredu gyda'n partneriaid allweddol**

Mae ein Strategaeth Tai 2022-26 yn datgan mai ein nod yw

| |
|---|
| **Sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallent alw'n gartref wedi eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu tuag at eu cymuned leol** |

Bydd y Strategaeth hon yn helpu i atal pobl sydd yn ddigartref ac yn darparu cymorth tai i gefnogi hyn.

## 2. Ar gyfer pwy mae'r Strategaeth?

Ar gyfer unrhyw berson a allai fod yn ddigartref neu ddod yn ddigartref sydd angen cefnogaeth a llety i atal hyn rhag digwydd. Gall hyn gynnwys pobl sengl, teuluoedd, pobl ag anghenion cymorth tai, pobl ag anghenion meddygol a grwpiau cleientiaid sydd ag anghenion cymorth tai.

## 3. Sut rydyn ni'n mynd i gyflawni hyn?

Er y derbynnir y gall unrhyw berson ddod yn ddigartref, mae'r Strategaeth hon yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau cyffredinol wedi'u targedu o dan dwy thema sydd wedi'u cynnwys yn ein Strategaeth Tai. Rhain yw:

| |
|---|
| • Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai<br>• Thema 4 – Cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth tai |

Mae'r ddwy thema yn darparu sail ar gyfer beth yw'r materion a sut mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn y tymor byr o 1 i 2 flynedd, tymor canolig i dymor hir yn ystod y Strategaeth.

Mae'r Strategaeth hon yn ofyniad ar Wasanaethau Tai gan Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai yn Ynys Môn. Mae'r Strategaeth hefyd yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014. Bydd y Strategaeth hon yn cael ei sefydlu ar gyfer y pedair blynedd nesaf gydag adolygiad canol tymor o fewn 2 flynedd ac yn ategu'r dogfennau allweddol canlynol gan Lywodraeth Cymru:

- Cynllun Gweithredu Digartrefedd 2021-26
- Dogfen Templed Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai
- Canllawiau ar gyfer Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (Hydref 2021)
- Canllawiau Grant Cymorth Tai (Mawrth 2021)

Mae'n bwysig datgan na all y Gwasanaeth Tai gyflawni hyn ar ei ben ei hun ac mae'n ofynnol ein bod yn

**gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill fel y gallwn wella ansawdd bywyd, sicrhau'r dewis mwyaf posibl a sicrhau gwerth am arian**

Mae'r Strategaeth hon yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth o:

- Asesiad cynhwysfawr o anghenion a amlygwyd fel rhai allweddol yn y Datganiad o Angen
- Adolygiad o gyflawniadau a phwyntiau gweithredu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol 2017-2021 y mae angen eu cario drosodd
- Adolygiad o'r Gwasanaeth Digartrefedd
- Atborth gan randdeiliaid a chleientiaid

## 4. Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae Cynllun y Cyngor yn darparu fframwaith gwaith ar gyfer pob gwasanaeth y Cyngor ac mae'r Gwasanaeth Tai yn alluogwr blaenllaw ar gyfer ei gyflawni. Mae'r ddogfen hon hefyd yn darparu fframwaith i'r holl wasanaethau gydweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau ac amcanion cyffredin. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar gyfer y cyfnod nesaf 2022 ymlaen.

Atgyfnerthir y Strategaeth gan y Ddeddfwriaeth, y Strategaethau a'r Fframweithiau Cenedlaethol canlynol a fydd yn cael effaith ar Wasanaethau Digartrefedd a'r rhaglen Grant Cymorth Tai:

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a rheoliadau Safonau'r Gymraeg
- Canllawiau Grant Cymorth Tai 2020
    - Bwrdd Cynghori Gweinidogol Cymorth Tai
    - Rhwydwaith Cymorth Tai
    - Grŵp Gweithredu Digartrefedd

### Deddf Tai (Cymru) 2014

Nod y Ddeddf hon yw gwella'r cyflenwad o dai yng Nghymru, eu hansawdd a'u safon ac mae'n rhoi dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Mae'r Grant Cymorth Tai yn gwneud cyfraniad sylweddol at weithredu rhan 2 y Ddeddf hon, oherwydd mae'n rhoi ffocws ar atal digartrefedd, ac yn lleihau neu'n atal yr angen am ymyrraeth sydd, yn aml, yn fwy costus i wasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae Deddf Tai Cymru yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio Strategaeth Digartrefedd. Fel sy'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth, mae'r Asesiad o Anghenion yn cynnwys gwybodaeth am yr adolygiad ac mae'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer symud ymlaen.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy roi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy wrth wraidd yr holl benderfyniadau a wneir.

Un elfen allweddol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yw canolbwyntio ar atal, sy'n cyd-fynd yn agos ag amcanion canolog y Grant Cymorth Tai.

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gyrff cyhoeddus wneud yr hyn a wnânt mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy. Mae'n rhoi rheidrwydd arnynt i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud eu penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallai'r penderfyniadau hynny eu cael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**
Bydd y Ddeddf hon yn ei gwneud yn symlach ac yn haws i rentu cartref, gan ddisodli darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd gydag un fframwaith cyfreithiol clir.

Bydd pobl sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd hefyd yn elwa o'r Ddeddf. Bydd yn helpu i atal sefyllfaoedd sy'n codi ar hyn o bryd mewn perthynas â digartrefedd lle mae cyd-denant yn gadael y denantiaeth a, thrwy hynny, yn dod â'r denantiaeth i ben i bawb arall. Ymdrinnir hefyd ag anhydraddoldebau o ran sut y gall rhywun gael olyniaeth i denantiaeth, gyda hawl olyniaeth newydd i ofalwyr yn cael ei sefydlu.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
Ei nod yw gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i annog cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n rhoi dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu â'r Awdurdodau Lleo, a darparu gwybodaeth iddynt at ddibenion cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Rhan 9 y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfun) a byrddau partneriaeth.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal asesiad ar y cyd o'r boblogaeth o ran anghenion gofal a chymorth i oedolion, plant a gofalwyr. Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr asesiad poblogaeth drwy [Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru – Cydweithredfa Gogledd Cymru] a chyfeirir ato yn ein Hasesiad o Anghenion.

**Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**
Nod y Ddeddf hon yw gwella'r ymateb o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i wella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig, trais rhywiol a chaethwasiaeth fodern, ac atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr.

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys y cyngor, fynd i'r afael â gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da. Cynhaliwyd asesiad o'r

effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw anghydraddoldebau posibl sy'n deillio o ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth.

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg**
Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi i'r Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Yr un modd, disodlwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor gyda Safonau'r Gymraeg 2015. Mae asesiad effaith wedi'i atodi fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**Deddf Hawliau Dynol 1998**
Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau sylfaenol sydd gennym i gyd oherwydd ein bod yn ddynol. Mae'n helpu i amddiffyn pobl drwy roi dyletswydd gyfreithiol ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, i drin pobl â thegwch, cydraddoldeb, urddas, parch ac annibyniaeth.

**Canllawiau Grant Cymorth Tai (GCT)**
Cyhoeddwyd y Canllawiau Grant Cymorth Tai ym mis Ebrill 2020. Dosberthir y grant i awdurdodau lleol i ddarparu, gweinyddu a chomisiynu gwasanaethau i gyflawni gweledigaeth a phwrpas craidd y grant.

Mae GCT yn fecanwaith grant sy'n ariannu rhan o Raglen Cymorth Tai gyffredinol sy'n cwmpasu'r ddyletswydd digartrefedd statudol a ariennir drwy'r setliad refeniw a'r gwasanaethau cymorth tai ataliol ac anstatudol a ariennir drwy'r GCT. Gyda'i gilydd, mae'r ddau yn caniatáu i Gymru fabwysiadu dull systematig o leihau digartrefedd ac effaith digartrefedd a thai ansefydlog.

Mae GCT yn rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, i sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu i helpu pobl a allai gael eu hunain yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Mae GCT yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau – niferus weithiau - y maent yn eu hwynebu, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, a materion iechyd meddwl a amlygir yn ein Hasesiad Anghenion.

## 5. Gweledigaeth ac Egwyddorion

Ein gweledigaeth yn y Strategaeth Dai, 2022-27, yw bod trigolion Ynys Môn

**yn cael lle i alw'n gartref, yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu at eu cymuned leol**

Mae'r Strategaeth hon yn manylu ar y modd y byddwn yn mynd i'r afael â'r themâu canlynol fel y'u cynhwysir yn ein Strategaeth Dai o dan:

- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cymorth i hyrwyddo annibyniaeth yn y maes tai

Yn seiliedig ar y weledigaeth uchod, ceir yn y 5 Golofn ganlynol drosolwg o'r gwasanaethau a gynigiwn:-

| Atal Cyffredinol | Gwaith Atal wedi'i dargedu | Atal Argyfwng | Atal Argyfwng | Atal Adferiad |
|---|---|---|---|---|
| • Tai Fforddiadwy<br>• Budd-daliadau a Chyngor | • Llwybrau ar gyfer grwpiau cleient | • cronfa atal<br>• cymorth lefel uwch | • Llety Argyfwng | • cymorth parhaus |

1. [i]**Atal Cyffredinol** drwy atal neu leihau'r risg o ddigartrefedd ar draws y boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a themâu allweddol eraill fel y nodwyd yn ein Strategaeth Dai 2022-27
2. **Gwaith Atal Wedi'i Dargedu** sy'n canolbwyntio ar grwpiau risg uchel neu'r rhan fwyaf o gleientiaid sydd wedi'u heithrio a bydd yn cynnwys llwybrau wedi'u targedu a llwybrau pontio i dai â chymorth i bobl ifanc, achosion cymhleth, pobl â phroblemau iechyd meddwl
3. **Atal Argyfwng** sy'n anelu at atal digartrefedd o fewn 56 diwrnod a allai gynnwys adolygiadau achos amlasiantaethol a mynediad i'r Gronfa Atal a chronfeydd eraill
4. **Atal Argyfwng** lle mae angen ymateb ar unwaith, er enghraifft drwy ddarparu cymorth neu lety brys i'r rhai sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref
5. **Atal Adferiad** lle darperir cymorth i gynorthwyo i gefnogi tenantiaeth ac i leihau'r tebygolrwydd y bydd person yn dod yn ddigartref eto

Gweler *Atodiad 1* am ragor o wybodaeth am ba wasanaethau sydd wedi'u cynnwys o dan bob un o'r 5 Colofn sydd yn greiddiol i gyflawni y Strategaeth.

**6. Asesiad Anghenion**

Defnyddiwyd gwybodaeth a setiau data cenedlaethol a lleol i gynnal yr Asesiad Anghenion gyda hynny'n ei dro yn llywio ein Datganiad o Angen (atodiad 2) sy'n mynd i'r afael â'r canlynol:

- Gofynion y presennol a'r dyfodol
- Anghenion rhanbarthol
- Sut y caiff anghenion statudol eu diwallu

**7. Blaenoriaethau a Gweithredu'r Strategaeth**

Yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Digartrefedd Lefel Uchel Llywodraeth Cymru a'r 5 Colofn Atal, yr isod fydd ein blaenoriaethau ni. Ymdrinnir â phob cam gweithredu dros gyfnod byr o flwyddyn, tymor canolig o 2 flynedd a thymor hir dros oes y Strategaeth.

**Anfynych – mae sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anfynych yn golygu bod angen atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf**

| Pam mae hyn yn bwysig? | Beth ydym ni'n mynd i'w wneud? | Sut ydym ni'n mynd i wneud hyn? |
|---|---|---|
| Mae cynorthwyo pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn allweddol i atal argyfwng | Cynnig cyngor a chymorth cyffredinol i unrhyw un sy'n cysylltu â ni am gyngor opsiynau tai<br>Dywed Cleintiaid nad ydynt yn siwr sut i gael mynediad i wasanaethau | Ein hamrywiaeth o wasanaethau drwy ein gwasanaethau tai a nodi pobl sydd fwyaf mewn perygl drwy ein gwasanaeth brysbennu<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus* |
| Nodi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy ymyrraeth gynnar gyda chymorth i sicrhau nad yw digartrefedd yn digwydd yn fynych | Cynnig amrywiaeth o wasanaethau a llwybrau i grwpiau cleientiaid sydd mewn perygl o fod yn ddigartref | Gweithredu a datblygu ein llwybrau at lety ar gyfer grwpiau cleientiaid penodol<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus* |
| Gan fod y Grant Atal a ddarperir yn uniongyrchol i ddarparwyr cymorth yn dod o dan y GCT (sy'n helpu i ddarparu cymorth i sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anfynych) bydd angen i ni weithio ar fodel cynaliadwy wrth symud ymlaen | Gweithio gyda'r tri darparwr cymorth dros y ddwy flynedd nesaf | Edrych ar gyfuno a chytuno ar yr elfennau hynny y mae angen eu hariannu drwy'r GCT wrth symud ymlaen<br><br>*Mae hon yn weithred a gyflawnir dros y tymor hir* |

**Cyfnod byr – bydd canolbwyntio ar ailgartrefu cyflym yn golygu y bydd cyfnodau digartrefedd yn fyr**

| Pam mae hyn yn bwysig? | Beth ydym ni'n mynd i'w wneud? | Sut ydym ni'n mynd i wneud hyn? |
|---|---|---|
| Bydd datblygu Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn helpu i sicrhau y bydd cyfnodau digartrefedd yn fyr | Bydd Cynllun Ailgartrefu Cyflym yn cael ei fabwysiadu erbyn mis Medi 2022 | Datblygu'r cynllun yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor byr* |
| Mae'n rhaid i ni allu ymateb yn briodol wrth i anghenion cymorth newid | Cyflwyno ein hasesiad anghenion cymorth isel/ canolig ac uchel | Ar hyn o bryd, mae dau ddarparwr cymorth wedi bod yn profi'r model hwn cyn ei gyflwyno'n llawn yn ystod 2022-23<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor byr* |
| Mae bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth rywiol | Gan fod hwn yn wasanaeth arbenigol, byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd i nodi gwasanaethau ymhellach | Bydd hyn yn cael ei ystyried gan ein tîm GCT<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor byr* |
| Delio â chleientiaid mewn PIE mewn ffordd wybodus gyda chymorth i fynd i'r afael ag achos sylfaenol digartrefedd | Bydd staff a darparwyr cymorth yn cael cynnig hyfforddiant arbenigol | Bydd hyfforddiant Iechyd Meddwl a LGBTQ+ yn cael ei ddarparu yn ystod 2021-22<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor byr* |
| Hwyluso mynediad cyflymach lle bo'n bosibl i drefniadau symud ymlaen o lety â chymorth ac atal gwasanaethau rhag siltio | Byddwn yn sicrhau gweithio agosach rhwng darparwyr gwasanaethau y Gwasanaethau Tai yn gyffredinol (gan gynnwys SPoA, Datrysiadau Tai a Chomisiynwyr) yn gyffredinol i hwyluso symud ymlaen yn gyflymach lle bo hynny'n bosibl a lle ceir mynediad i eiddo fforddiadwy sydd ar gael | Byddwn yn monitro'n ofalus gyfnodau o aros mewn llety â chymorth gan ystyried y canlyniadau a gyrhaeddwyd a lefel y cymorth sydd ei angen. yn unol â'n dull asesu a ddatblygwyd yn ddiweddar Byddwn yn cysylltu'n rheolaidd â darparwyr gwasanaethau yn ogystal ag ymarferion monitro ddwywaith y flwyddyn a byddwn yn defnyddio'r Adnodd Hyb Ailgartrefu Cyflym gan gynnwys y Swyddog Symud Ymlaen a Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus* |
| Hwyluso mynediad cyflymach at gymorth wedi'i dargedu gan ddarparwyr gwasanaethau dynodedig ar gyfer y rhai a leolir mewn llety brys a chymorth ar wasgar | Sicrhau bod yr holl ddarparwyr a gomisiynir yn cadw at amserlenni atgyfeirio y cytunwyd arnynt | Blaenoriaethu atgyfeiriadau mewn llety brys gan sicrhau bod darparwyr wedi cysylltu'n gychwynnol â defnyddwyr gwasanaeth o fewn 48 awr ac wedi cynnal asesiad o angen a risg o fewn 5 diwrnod o leoliad, gyda chymorth wedi'i dargedu wedi dechrau o fewn 7 diwrnod gwaith, gan ddisodli'r ymyriad a |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddarparwyd yn flaenorol gan y Swyddog Ymateb Cyflym<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus*<br><br>Darparu'r un amserlen ar gyfer y rhai sydd angen cymorth tai, er na fydd hyn yn cynnwys ymyrraeth gan y swyddog ymateb cyflym<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus* |
| Lleihau nifer y bobl sy'n ail-gyflwyno am gefnogaeth a llety | Ystyried darparu amrywiaeth o opsiynau llety a chymorth ar gyfer achosion cymhleth gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n gadael carchar er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n cynrychioli fel rhan o broses drws troi | Gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i edrych ar nifer yr eiddo sydd ar gael drwy amrywiaeth o fentrau gan gynnwys trefniadau lesu ac ati<br>Defnyddio ein staff ailgartrefu cyflym i hwyluso mynediad cyflymach i gymorth a llety<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor canol* |
| Pennu anghenion ac opsiynau llety ymhlith y grŵp oedran 55+ | Byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl o anghenion y boblogaeth 55+ o ran gofynion cymorth ac ystod y llety sydd ei angen ar gyfer tymor byr a thymor hirach ar gyfer y degawd nesaf. Bydd hyn yn llywio sail Strategaeth Llety Pobl Hŷn a bydd yn allweddol i'r broses dendro ar gyfer y grŵp defnyddwyr gwasanaeth penodol hwn a gynhelir yn ystod Chwarter 2 2022/23 | Byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Gwasanaethau i Oedolion, Darparwr Cefnogaeth Tai dynodedig ar gyfer Pobl Hŷn, rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned ehangach i sefydlu amrywiaeth o opsiynau tai a fydd yn cynnwys llety dynodedig o oedran gwarchod, Gofal Ychwanegol a modelau hyfyw eraill, gan ddarparu Cefnogaeth Tai i rai ag anghenion wedi ei asesu<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor hir*<br><br>Bydd y Gwasanaeth Peripatetig Cymorth Tai presennol ar gyfer pobl 55+ oed yn cael ei ail-wneud yn ystod 2022 a bydd angen i'r gwasanaeth ystyried newidiadau a disgwyliadau demograffig tan 2028 |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor byr* |

**Digartrefedd mynych – sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu**

| **Pam mae hyn yn bwysig?** | **Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?** | **Sut ydym ni'n mynd i wneud hyn?** |
|---|---|---|
| Dengys y tueddiadau a'r rhagolygon presennol y bydd digartrefedd yn parhau i godi dros y ddwy flynedd nesaf a bydd yn parhau ar lefel uwch na'r ffigurau presennol | Cyflwyno achos busnes i gynyddu lefelau staffio o fewn y Tîm Asesu | Bydd staff ychwanegol yn golygu cynnydd yn y gyllideb staff a'r angen am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor byr* |
| Mae cyflenwi tai fforddiadwy yn thema allweddol yn ein Strategaeth Dai ar gyfer 2022-27 | Darparu cartrefi cymdeithasol | Mae ein Grant Tai Cymdeithasol a'n Prosbectws yn dangos y llety sydd wedi ei gynllunio a'r llety sydd ei angen ar yr Ynys<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus* |
| Mae mynediad i'r Sector Rhentu Preifat yn helpu i atal digartrefedd | Cynyddu'r opsiynau i Landlordiaid Sector Preifat | Cynnig cymhellion i landlordiaid preifat weithio gyda ni<br><br>Mae hon yn weithred barhaus Yn ogystal, cymryd rhan yn y Cynllun Prydlesu Preifat Cenedlaethol<br><br>*Mae hon yn weithred barhaus* |
| Adolygu'r ddarpariaeth o oriau cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl ag anableddau dysgu | Byddwn yn sicrhau cysondeb â phob grŵp defnyddwyr gwasanaeth arall a hefyd ystyried darpariaeth ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu nad ydynt yn bodloni'r trothwy statudol ar gyfer ymyrryd e.e. awtistiaeth gweithredu lefel uchel | Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol i Oedolion (Anableddau Dysgu) a'r Darparwyr Cymorth Tai dynodedig ar gyfer y grŵp defnyddwyr gwasanaeth hwn i ystyried dichonoldeb lleihau'r uchafswm o 15 awr yr wythnos ar bob achos, gan ryddhau cyllid ychwanegol i'w ledaenu ar draws unedau mwy cymwys o anableddau dysgu neu i'w defnyddio ar gyfer grwpiau defnyddwyr gwasanaeth eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor canol*<br><br>Byddwn yn ymgysylltu â'r holl ddarparwyr a'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i oedolion i ganfod nifer y bobl ag anawsterau dysgu sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd ar draws gwahanol grwpiau defnyddwyr gwasanaeth cymwys a phennu hyfywedd sefydlu gwasanaeth pwrpasol<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor canol* |
| Ceisio lleihau nifer y bobl sydd angen cymorth ac yn ail gyflwyno am gymorth tai sydd hefo anghenion lefel uchel sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl | Monitro'n agos y cynnydd diweddar yn nifer yr achosion o bobl ag anghenion iechyd meddwl sydd angen lefel uchel o ymyrraeth o gymorth tai, (dros 3 awr yr wythnos) gyda'r nod o hyrwyddo ymyrraeth gynharach a newid i lawr tuag at lefelau canolig ac is o gymorth i hyrwyddo annibyniaeth | Gweithio mewn partneriaeth â'n gwasanaeth cymorth iechyd meddwl i sicrhau mynediad amserol at gymorth drwy gynyddu ymwybyddiaeth a chynnal gweithgareddau marchnata a hyrwyddo drwy ddarparu cyngor a chymorth amserol ar wybodaeth a chyfeirio'n briodol at wasanaethau arbenigol. Gallai hyn gynnwys taflenni, taflenni, radio lleol ac ati. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill fel Cyswllt Cymunedol Môn i sicrhau mynediad cyflym ac amserol at ystod o gymorth, gwybodaeth, cyngor a chymorth<br><br>*Mae hon yn weithred ar gyfer y tymor canol* |

**Gweithio mewn partneriaeth â'n holl ddarparwyr a rhanddeiliaid i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn gryno ac yn ddigartref mynych yn gyffredinol ar draws yr holl grwpiau defnyddwyr gwasanaeth cydnabyddedig, sy'n gymwys i gael cymorth sy'n gysylltiedig â thai**

**Pam mae hyn yn bwysig?**
Mae'r Grant Cymorth Tai yn seiliedig ar yr egwyddor o weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid fel y gallwn wella ansawdd bywyd, gwneud y mwyaf o ddewis a sicrhau gwerth am arian.

**Beth ydym ni'n mynd i'w wneud?**

Gweithio mewn partneriaeth â'n holl ddarparwyr a gomisiynwyd a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y broses o asesu anghenion am gymorth tai yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus er mwyn pennu trwygyrch o angen isel, canolig ac uchel ac felly'n llywio blaenoriaethau comisiynu presennol ac yn y dyfodol.

Comisiynu a darparu cymorth tai fel rhan greiddiol annatod o'n dull corfforaethol o ymdrin â gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r sector statudol a gwirfoddol.

Gweithio gyda LlC i hyrwyddo'r Gwasanaethau Cymorth Tai fel cyfle gyrfa.

*Mae hwn yn weithred barhaus.*

**Byddwn yn gweithio gyda'r canlynol:**

**Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai**
Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai yn cynghori'r Gweinidog ar ddatblygu polisi mewn perthynas â'r sector Atal Digartrefedd a Chymorth Tai a barn y sector ynghylch effeithiolrwydd yr arian grant sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd o ran cyflawni yn erbyn eu hamcanion.

**Rhwydwaith Cymorth Tai**
Cefnogir gwaith y Rhwydwaith Cymorth Tai gan Lywodraeth Cymru. Ei brif ddiben yw galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu ymatebion effeithiol i ddigartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ogystal â chefnogi'r gwaith o weithredu'r GCT i fynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion ac amcanion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd**
Grŵp gorchwyl Llywodraeth Cymru yw'r grŵp hwn, a bydd yn adrodd i Weinidogion Cymru. Bydd y grŵp yn gweithio'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru i ddarparu argymhellion polisi ar y camau gweithredu a'r atebion sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r y math o fframwaith, polisïau a dulliau gweithredu sydd eu hangen i roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

**Strategaeth Ddigartrefedd Gogledd Cymru**
Mabwysiadwyd Strategaeth Ranbarthol gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gyda'r nod o leihau digartrefedd ar draws Gogledd Cymru dan y penawdau Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau ac yn y strategaeth, nodwyd themâu cyffredin i bob Awdurdod Lleol yn eu hadolygiadau unigol. Byddai camau gweithredu rhanbarthol a lleol wedyn yn ymgorffori'r materion a'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen. Y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2020-21 oedd ein hymateb i bandemig y Coronafeirws.

**Gweithio / Tirwedd Rhanbarthol**
Mae'r trefniadau rhanbarthol a sefydlwyd drwy'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol wedi helpu i godi proffil y Rhaglen Grant Cymorth Tai ar draws nifer o'r fforymau, byrddau a mentrau rhanbarthol sydd wedi cael eu sefydlu yng Ngogledd Cymru.

**Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol**
Mae Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithredu fel y grŵp cyffredinol sy'n dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i ddarparu fforwm ar gyfer cydweithio rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru ac mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter.

Mae'r GCCTRh yn gyfrifol am lunio datganiad blynyddol a dyma'r cynllun gwaith ar gyfer y GCCTRh sy'n amlinellu'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn honno. Mae gan y GCCTRh is-grŵp allweddol, sef y grŵp Arweinwyr Rhanbarthol GCT sy'n gyfrifol am ddatblygu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y datganiad blynyddol ac sy'n cael ei gefnogi drwy'r Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol.

**Grŵp Arweinwyr Grant Cymorth Tai Rhanbarthol**
Cyfarfod Arweinwyr y GCT yw'r grŵp sylfaenol ar gyfer comisiynu trefniadau rhanbarthol ar gyfer y rhaglen GCT ledled Gogledd Cymru. Mae'r grŵp wedi gweithio ar ddatblygu sawl blaenoriaeth a amlinellir yn natganiad blynyddol y GCCTRh; ceir y manylion am hyn drwy fynd i [amcanion grŵp GCCTRh ar gyfer 2021-22 (conwy.gov.uk)]

Y grŵp hwn yw'r fforwm sy'n cael cyfarwyddyd gan y GCCTRh mewn perthynas â datblygu gwasanaethau lle nad oes màs critigol yn lleol, datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle gellir cyfiawnhau hynny gan arbedion maint a pharhau i ddatblygu a gwella'r modd y darperir y Grant Cymorth Tai ar draws Gogledd Cymru.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**
Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i fodloni Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Cydweithredfa Gwella Gofal a Llesiant Cymdeithasol Gogledd Cymru yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid eraill. Y nod yw gwella gwasanaethau, manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael, lleihau dyblygu a gwneud gwasanaethau'n fwy cyson ar draws Gogledd Cymru.

Cyflwynir y datganiad blynyddol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob blwyddyn. Y BPRh yw'r bwrdd a all ddarparu'r mecanwaith ar gyfer datblygu cydweithio rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Mae gan GCCTRh Gogledd Cymru gysylltiadau cadarn o ran aelodaeth o'r BPRh – mae dau gyn-aelod o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cynrychioli tai ar y BPRh a chynrychiolydd y penaethiaid tai lleol yw is-gadeirydd y GCCTRh sydd hefyd yn aelod o grŵp Penaethiaid Tai Gogledd Cymru.

**Grŵp Arweinwyr Celloedd Gogledd Cymru**
Roedd sefydlu cyfarfod rhwng Arweinwyr Celloedd Gogledd Cymru yn weithred a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod anterth pandemig Covid-19 i sefydlu cyfarfodydd celloedd cydgysylltiedig canolog fesul rhanbarth. Mae Arweinwyr Celloedd Gogledd Cymru yn parhau i gyfarfod a bwydo i mewn i'r GCCTRh. Rhennir materion sy'n ymwneud â themâu a thueddiadau cyfredol gyda'r GCCTRh fel y gall awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol gymryd rhan a thrafod gyda'i gilydd y modd y gallant sicrhau gwelliannau ar y cyd mewn perthynas â'r materion a godwyd.

**Grŵp Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru**
Ym mis Mehefin 2017, gwnaeth y Grŵp Digartrefedd Rhanbarthol, ynghyd â Sefydliad Tai Siartredig Cymru, ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ddigartrefedd ranbarthol ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 ar gyfer ei gweithredu tan 2022. Mae llawer o'r materion allweddol a amlinellwyd yn y strategaeth 2018-22 hon sef digartrefedd ymhlith pobl ifanc, anghenion cymhleth, pobl sy'n gadael y carchar a phobl sy'n cysgu allan yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Rydym wedi gweithio'n eithriadol o galed yn ystod y pandemig i sicrhau bod pawb yn cael llety. Felly, er nad yw nifer ein pobl sy'n cysgu allan mor uchel, y flaenoriaeth o hyd yw sicrhau y gallwn eu cefnogi i gael allan o lety brys ac i mewn i lety â chymorth.

Mae atal ac ymyraeth yn ganolog i'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol ac mae'n elfen allweddol sylfaenol yn ein Strategaeth ac yn y ddogfen ymgynghori hon, byddir yn ymhelaethu ar y 5 prif gonglfaen sy'n gysylltiedig ag atal.

Bydd gwell mynediad at lety a'r modelau darparu amgen a amlygir yn y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol i gyd yn parhau i gael blaenoriaeth yn y Strategaeth hon a'n Cynllun Ailgartrefu Cyflym. Mae'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol wedi canolbwyntio ei hadnoddau eleni ar dynnu sylw at yr effaith y mae pandemig Covid-19 wedi'i chael ar ein gwasanaethau Tai a Digartrefedd.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)**
Mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Diben y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru. Paratôdd pob BGC asesiad llesiant ochr yn ochr â'r asesiad poblogaeth ar gyfer y BPRh.

**Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru**
Pwrpas Bwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru yw darparu arweinyddiaeth, llywodraethiant a chyfeiriad strategol i fodloni, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, flaenoriaethau sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed a chamfanteisio. Sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael eu cyflawni'n effeithiol ar gyfer diogelu ac atal bregusder a chamfanteisio.

Mae'r Bwrdd hwn hefyd yn ceisio nodi cyfleoedd i alinio gweithgarwch â threfniadau partneriaeth eraill ar draws Gogledd Cymru er mwyn darparu dull ar y cyd o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a chyflawni blaenoriaethau'n effeithiol. Yn rhanbarthol drwy'r grŵp Arweinwyr Grant Cymorth Tai, mae'r rhaglen GCT yn darparu cyllid rhanbarthol ar gyfer y gwasanaeth IDVA ac offer gwella diogelwch.

Mae'r Bwrdd hwn â'r flaenoriaeth o ddatblygu trosolwg strategol mewn perthynas â chamfanteisio, gan gefnogi partneriaeth ragweithiol lle caiff y rhai sydd mewn perygl eu nodi a'u diogelu a throseddwyr eu hamharu arnynt a'u herlyn, a galluogi ymateb effeithlon ac effeithiol i gam-drin domestig, trais rhywiol a niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn menywod.

**Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau**
Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel fforwm sy'n dwyn ynghyd yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â gwaith cynllunio, comisiynu a darparu mewn perthynas â materion camddefnyddio sylweddau ar lefel ranbarthol. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefel ranbarthol i asesu'r angen ar draws pob cymuned, cyfuno arbenigedd ac adnoddau, monitro effaith y strategaeth genedlaethol a gwella a chryfhau'r gwaith o gynllunio, comisiynu a rheoli perfformiad mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn cyfrannu at gynorthwyo pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yng Ngogledd Cymru drwy ddarparu cynlluniau tai â chymorth a gwasanaethau cymorth hyblyg. Yn rhanbarthol, drwy grŵp arweinwyr y Grant Cymorth Tai, mae'r grant yn darparu cyllid ar gyfer Prosiect Allgymorth Pendant/Grymuso y Bwrdd Cynllunio Ardal.


**Tasglu Atal Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru**


Drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, mae Tasglu Atal Digartrefedd wedi'i sefydlu ym mhob ardal gwasanaeth prawf i nodi carcharorion sy'n cael eu rhyddhau dan amodau safonol ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy weithio gyda'r timau cymorth a'u cefnogi i gael llety sefydlog.


Mae'r Tasglu hefyd yn nodi anawsterau o ran symud ymlaen o safleoedd cymeradwy (SC) a Llety â Chymorth Mechnïaeth (BASS) yn ystod COVID ac yn cefnogi SC yn eu hymgysylltiad ag Awdurdodau Lleol a'r llwybrau atal digartrefedd. Yn ogystal, bydd y Tasglu'n sicrhau dull strategol o atal digartrefedd ac yn sicrhau ymagwedd cydgysylltiedig.

**Atodiad 1**


Mae'r canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am ba wasanaethau sydd wedi'u cynnwys o dan bob un o'r 5 Colofn




Iechyd Meddwl
LGBTQ+
Pobl Ifanc
Gwaith Atal wedi'i Dargedu
Pobl sy'n gadael y carchar
Cleientiaid sydd ag achosion cymhleth


Mynediad i Lety Argyfwng a Llety Dros Dro
Rhoi'r gorau i droi pobl allan a'u gwneud yn ddigartref
Argyfwng (debygol o fod yn ddigartref ymhen 56 diwrnod)
Mynediad i'r Gronfa Atal Digartrefedd
Cyfryngu


Llety â Chymorth
Brysbennu/SPoA
Llety Dros Dro
Atal Argyfwng
Ymateb Cyflym ac Achosion Cymhleth
Llwybrau gwaith atal wedi'i dargedu


Darpariaeth Cyswllt Cymunedol by Medrwn Mon
Gwasanaethau sy'n seiliedig ar Drawma
Llety â Chymorth
Atal drwy Adferiad
Cymorth Hyblyg
Cyllideb Bersonol

**Atodiad 2**

1. **Atal Cyffredinol** er mwyn mae atal neu leihau'r risg o ddigartrefedd ar draws y boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a themâu allweddol eraill fel y nodwyd yn ein Strategaeth Dai ar gyfer 2022-27.

| | |
|---|---|
| **Cyflenwi tai fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu gan y Cyngor a phartneriaid ymysg Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** | Mae'r Prosbectws Tai yn rhoi gwybodaeth am lefel yr angen am dai fforddiadwy a nodwyd ar yr Ynys<br><br>Isle of Anglesey Prospectus 2021 dra<br><br>Gwybodaeth i Denantiaid yn y Sector Rhent Preifat<br><br>Private-Rented-Sector-Tenants-Informat     Taflen-Wybodaeth-Tenantiaid-Sector-Rl<br><br>Mae Timau Asesiadau Tai ac Opsiynau Tai yn gallu cynnig cyngor neu fynediad mewn perthynas â'r canlynol<br>• Fforymau Landlordiaid (wedi'u cydgysylltu ar y cyd â'n Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd)<br>• Mynediad at flaendal a rhent ymlaen llaw<br>• Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi<br>• Grantiau i Landlordiaid sydd am weithio gyda'r Gwasanaethau Tai<br>• Cynhwysiant Ariannol i Denantiaid<br>• Mynediad ac atgyfeiriadau i denantiaid mewn perthynas â chyngor tenantiaeth<br>• Mynediad at Wasanaethau Cyfryngu<br>• Mynediad at gyngor ar Droi Allan yn Anghyfreithlon<br>• Digartrefedd ac atal digartrefedd<br>• Polisi Gosod Tai Cyffredin<br>• Cyngor cyffredinol ynghylch tenantiaid i'r Landlord a'r Tenant<br>• Ymyrraeth gynnar i geisio datrys anghydfodau ac anghydfodau tenantiaeth<br>• Cynlluniau cymhelliant i landlordiaid |
| **Mynediad at gyngor a chymorth - budd-daliadau, cynhwysiant ariannol, opsiynau tai** | Gellir cael mynediad at gyngor a chymorth ar faterion ariannol yn yr isod:<br><br>Canolfan JE O'Toole<br><br>Canolfan Cyngor ar Bopeth<br><br>Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol |

| | |
|---|---|
| | Shelter Cymru<br>Gellir cael gwybodaeth am ar gynhwysiant ariannol i Denantiaid y Cyngor drwy e-bostio: [financialinclusion@ynysmon.gov.uk](mailto:financialinclusion@ynysmon.gov.uk) |
| **Ymagwedd at Wasanaethau sy'n Seiliedig ar Wybodaeth ynghylch Trawma** | Mae Manylebau Gwasanaeth CRT yn cynnwys egwyddorion Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol PIE) yn ogystal â hyfforddiant a ddarperir i Swyddogion Asesu Tai<br><br>Mae cynllun cymorth diwygiedig wedi'i ddatblygu ar gyfer Darparwyr Ymateb Cyflym a GCT<br>Housing Related Support Outcomes ! Housing Related Support Outcomes !<br><br>Datblygwyd asesiad digartrefedd diwygiedig ac asesiad o'r cynllun diogelwch ar gyfer y Tîm Asesu Tai yn seiliedig ar egwyddorion PIE |

2. **Gwaith Atal** wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar grwpiau risg uchel neu'r rhan fwyaf o gleientiaid sydd wedi'u heithrio a bydd yn cynnwys llwybrau wedi'u targedu a llwybrau pontio i dai â chymorth i bobl ifanc, achosion cymhleth, pobl â phroblemau iechyd meddwl a'r rhai sy'n gadael carchardai.

| | |
|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | Mae gan IoACC Lwybr Iechyd Meddwl i sicrhau bod pobl ag anghenion iechyd meddwl sy'n defnyddio gwasanaethau naill ai drwy Ofal Sylfaenol neu Eilaidd yn cael cymorth i ddod o hyd i lety a'i gynnal. |
| **Pobl Ifanc** | Mae gan IoACC lwybr llety a chymorth i bobl ifanc i sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu'n gadael gofal yn cael cymorth i ddod o hyd lety addas a'i gynnal. |
| **Achosion Cymhleth** | Mae'r cydgysylltydd achosion cymhleth yn arwain y gwaith o ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl ag achosion cymhleth sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sydd wedi'u lleoli mewn llety brys a / neu dros dro ac sydd angen gwell cymorth fel y nodwyd hynny drwy'r broses sgorio RAG. |

| | |
|---|---|
| **Y sawl sy'n gadael Carchardai** | Mae Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i blant, pobl ifanc ac Oedolion yn yr Ystâd Ddiogel.<br>Mae gan Gyngor Ynys Môn ddau Swyddog Adsefydlu Carcharorion<br><br>https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Tai/Digartref-neu-mewn-risg/Cefnogi-Pobl-atal-digarefedd/Gwasanaeth-Cefnogaeth-Tai.aspx |
| **LGBTQ+** | Darperir hyfforddiant ar gyfer Staff Tai a Darparwyr Cymorth yn ystod 2021-22 |
| **Cronfa Caledi Tenantiaeth** | Grant Caledi Tenantiaeth ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat |
| **Darparwyr Grantiau Cymorth Tai** | Ceir gwybodaeth yma am y Grant Cymorth Tai<br><br>Gellir gweld Cyfeiriadur Gwasanaethau Grant Cymorth Tai CSYM yma |

**3.** **Atal argyfwng** sy'n ceisio atal digartrefedd o fewn 56 diwrnod a allai gynnwys adolygiadau achos amlasiantaethol a mynediad i'r Gronfa Atal a chronfeydd eraill.

| | |
|---|---|
| **Mynediad i Lety Brys a Dros Dro** | Mynediad i gyngor ynghylch digartrefedd<br>Ffoniwch (01248) 750 057 neu e-bostiwch tai@ynysmon.gov.uk<br>os ydych mewn perygl neu'n ddigartref |
| **Mynediad i'r Gronfa Atal Digartrefedd** | Mae'r Gronfa Atal Digartrefedd ar gael i'r rhai yr ystyrir eu bod yn ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref yn unol â Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014.<br>Cysylltwch â **tai@ynysmon.gov.uk** am ragor o wybodaeth |
| **Cyfryngu** | Mae Digartref yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Atal Digartrefedd. Fodd bynnag, mae'r cyllid hwn yn bennaf ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sy'n agored i niwed, ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer ymgeiswyr sy'n 25 oed neu'n hŷn ac sy'n agored i niwed. Dylai pob atgyfeiriad ar gyfer darparu gwasanaethau cyfryngu gael ei gyflwyno'n uniongyrchol i Digartref yn y lle cyntaf, a byddant wedyn yn asesu ac yn cynnig eu gwasanaethau ar gyfer achosion a ystyrir yn rhai cymwys.<br>Dylid anfon atgyfeiriadau'n electronig at mediation@digartref.co.uk |

| | |
|---|---|
| **Rhoi diwedd ar droi pobl allan a'u gwneud yn ddigartref** | Rydym yn gweithio gyda Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru a Clwyd Alyn ar fater troi pobl allan o'u tai gyda hynny'n gwneud aelwydydd yn ddigartref |

4. **Atal Argyfwng** lle mae angen ymateb ar unwaith megis cynnig cymorth neu lety brys i'r rhai sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref.

| | |
|---|---|
| **Brysbennu/ SPoA** | Cynigir brysbennu ar y pwynt cyswllt cyntaf a chesglir gwybodaeth gychwynnol gan yr ymgeisydd.<br>Os nodir anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai, bydd y SPoA yn cyfeirio'r ymgeisydd at wasanaeth cymorth<br><br>Ffoniwch (01248) 750 057 neu e-bostiwch housing@anglesey.gov.uk os ydych mewn perygl neu'n ddigartref<br><br>Dylid anfon unrhyw ymholiad am wasanaethau cymorth at SPOA@ynysmon.gov.uk |
| **Swyddog Ymateb Cyflym** | Ar gyfer pob person a leolir mewn llety dros dro, bydd y Swyddog Ymateb Cyflym yn darparu cymorth ymyrraeth ar unwaith hyd nes y bydd y darparwr cymorth SpoA yn cymryd yr awenau. Bydd y Swyddog yn gweithio gyda chynllun cymorth Canlyniadau HRS a bydd yn nodi y gwaith cyflym y mae angen ei wneud o ran anghenion tai. |
| **Cydlynydd Achos Cymhleth** | Os nodir achos cymhleth ar adeg brysbennu, bydd y SpoA yn hysbysu'r Swyddog |

5. **Atal drwy adferiad** lle rhoddir cefnogaeth i gynorthwyo gyda chymorth tenantiaeth ac i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn wynebu digartrefedd eto

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau Grant Cymorth Tai** | Gellir gweld ein Darparwyr Grant Cymorth Tai yma |
| **Cyllideb Unigol** | Gellir defnyddio cyllidebau unigol i gynorthwyo rhywun i ddiwallu eu hanghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai. |

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth Cyswllt Cymunedol** | Mae Cyswllt Cymunedol Môn yn rhedeg gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol i bobl dros 18 oed a theuluoedd sy'n byw ar Ynys Môn. |

[i] Map Ffordd i Roi Terfyn ar Ddigartrefedd Ymysg Pobl Ifanc yng Nghymru

**Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth Grant Cymorth Tai 2022-26**

**Ionawr 2022**

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26.

1. **Cefndir:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o 4 wythnos ar y Strategaeth Grant Cymorth Tai drafft ar gyfer 2022-26.

Nod strategol gyffredinol y Strategaeth yw sicrhau fod gan bobl Ynys Môn le y gallant ei alw'n gartref, a'u bod yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu at eu cymuned leol.

Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y tymor byr, canolig a'r tymor hir trwy'r themâu allweddol a ganlyn:

- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cymorth i hyrwyddo annibyniaeth yn y maes tai

Mae'r ddwy thema yma'n darparu sylfaen ar gyfer nodi beth yw'r prif faterion a sut mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn yn y tymor byr o un i ddwy flynedd, y tymor canol a'r tymor hir yn ystod cyfnod y Strategaeth.

Yn seiliedig ar y weledigaeth uchod, mae'r Strategaeth Grant Cymorth Tai 2022-26 yn nodi pum colofn allweddol atal fel a ganlyn;

| Atal Cyffredinol | Gwaith Atal wedi'i Dargedu | Atal Argyfwng | Atal Brys | Atal Adferiad |
|---|---|---|---|---|
| • Tai Fforddiadwy<br>• Budd-daliadau a Chyngor | • Llwybrau ar gyfer grwpiau cleient | • atal twyll<br>• cymorth uwch | • Llety argyfwng | • cymorth parhaus |

Bydd y Strategaeth hon ar waith am y pedair blynedd nesaf a chynhelir adolygiad tymor canol ymhen 2 flynedd.

Mae'n bwysig datgan na fydd y Gwasanaeth Tai yn gallu cyflawni hyn ar ei ben ei hun a bydd angen i wasanaethau eraill

Weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill fel y gallwn wella ansawdd bywyd, sicrhau'r dewis mwyaf posib a sicrhau gwerth am arian

Yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Digartrefedd Lefel Uchel Llywodraeth Cymru a'r 5 Colofn Atal, bydd ein blaenoriaethau fel a ganlyn:

- **Anfynych** – mae sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anfynych yn golygu atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf

- Maes blaenoriaeth 2 = **Byrhoedlog -** bydd canolbwyntio ar ailgartrefu cyflym yn golygu y bydd cyfnodau digartrefedd yn fyr
- **Ddim yn digwydd eto –** sicrhau fod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu.

## 2. Methodoleg:

Rhoddwyd cyflwyniad ar y Strategaeth ddrafft yn y cyfarfodydd a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 8 Hydref 2021 | Partneriaeth Dai Ynys Môn |
| 11 Ionawr 2022 | Fforwm Darparwyr GCT |
| 24 Ionawr 2022 | Sesiwn galw heibio i Landlordiaid Preifat |
| 24 Ionawr 2022 | Sesiwn Wybodaeth ar gyfer Staff y Gwasanaethau Tai |
| 25 Ionawr 2022 | Tîm Asesu Tai |

Roedd yn ofynnol darparu copi drafft o'r Strategaeth i Lywodraeth Cymru erbyn 31.12.21 ac ymgorfforwyd y sylwadau a dderbyniwyd yn y drafft terfynol.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gorfforaethol y Cyngor, gyda dolen i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar *'Smart Survey'*. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy'r dulliau canlynol:

- Cyfryngau cymdeithasol corfforaethol
- Y Ddolen (cylchlythyr wythnosol staff)
- E-bost misol staff tai

Hyrwyddwyd yr holiadur yn rheolaidd ymysg y cyhoedd trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Cynhwyswyd yr ymgynghoriad yng nghylchlythyr wythnosol staff Cyngor Môn (Medra Môn).

Anfonwyd dolen i'r holiadur ar-lein at:

- Aelodau Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Darparwyr Grant Cymorth Tai
- Partneriaeth Dai Ynys Môn (yn cynnwys Cymdeithasau Tai, BIPBC, Uned Strategol Polisi Cynllunio ar y Cyd, Heddlu Gogledd Cymru, NRLA)
- Medrwn Môn
- Landlordiaid Preifat
- Darparwyr Grant Cymorth Tai
- Gwasanaeth Prawf
- Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cyngor Ar Bopeth (CAB)
- Linc Cymunedol Môn
- Llwybr Iechyd Meddwl


Yn ogystal, defnyddiwyd nifer o ddulliau ymgysylltu eraill mewn perthynas â Gwasanaethau Grant Cymorth Tai, yn cynnwys:

- Holiadur ar-lein parhaol, Eich Gwasanaeth, Eich Barn
- Holiadur Ymgynghoriad Ailgartrefu Cyflym Ynys Môn
- Holiadur Darparwyr Rhanbarthol
- Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth Rhanbarthol
- Ymateb Defnyddwyr Gwasanaeth Ynys Môn
- Canlyniadau Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth

Gwnaed sylwadau am ddiffyg trafnidiaeth / anhawster i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd gwybodaeth am ddiffyg mynediad / rhwystrau i drafnidiaeth cyhoeddus yn cael ei rannu hefo'r Gwasanaeth perthnasol.

### 3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad:

Derbyniwyd 17 o ymatebion i'r holiadur ar-lein. Mae *Siart 1* yn dangos i ba grŵp y mae pob ymatebydd yn perthyn.




(Siart 1: Grwpiau)


Roedd y rhai a oedd yn dymuno datgan ar ran pa sefydliad yr oeddent yn ymateb fel a ganlyn:

- Staff Tai
- Asiant/Landlord
- Elusen Gynghori
- Darparwr Gwasanaeth
- Opsiynau Tai
- Tîm Asesu Tai

Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur isod.

**Ydi'r Strategaeth Grant Cymorth Tai 2022 -2026 wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf y mae angen i Gyngor Sir Ynys Môn fynd i'r afael â nhw yn ystod cyfnod y strategaeth?**

Roedd 88% o ymatebwyr o'r farn bod y Strategaeth GCT 2022-26 wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer cyfnod y strategaeth.





(Siart 2: mynd i'r afael â'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf)

**A oes unrhyw faterion eraill y mae angen i Gyngor Sir Ynys Môn roi sylw iddynt?**

Mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymatebion testun rhydd wedi cael eu hadolygu ac ymgorfforwyd yr holl sylwadau perthnasol yn fersiwn diwygiedig y Strategaeth Grant Cymorth Tai derfynol ar gyfer 2022-26.

**Mae'r Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022 – 2026 yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd yn ystod y tymor byr, canolig a'r tymor hir. Ydych chi'n cytuno â'r rhain?**

Fel y gwelir yn y siart isod, barn y mwyafrif o ymatebwyr, 82%, oedd bod y Strategaeth yn nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd yn y tymor byr, canolig a hir.




(Siart 3: camau gweithredu tymor byr, canolig a hir)

Ymgorfforwyd yr holl sylwadau eraill yn fersiwn diwygiedig y Strategaeth Tai derfynol ar gyfer 2022-26.

**Mae'n ofynnol i ni ystyried a cheisio barn ar effaith ein cynlluniau ar y Gymraeg ac rydym wedi cwblhau asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac iaith. Pa effeithiau allai'r Strategaeth Grant Cymorth Tai 2022-2026 gael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Sut ydych chi'n meddwl y gellir hyrwyddo effeithiau cadarnhau neu liniaru effeithiau negyddol?**

Roedd sylwadau yn yr ymateb testun rhydd yn cynnwys;

Annog twf y Gymraeg ar Ynys Môn, cadw cymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Rhannwyd ymateb gan Iechyd ar wahân;

O safbwynt iechyd, diolch i chi am y ddogfen strategaeth gynhwysfawr - gyda manylion cynhwysfawr am fframwaith deddfwriaethol a'r amrywiaeth o fforymau strategol sy'n ymwneud â'r gwaith. Ymddiheuraf nad yw canllawiau'r strategaeth genedlaethol, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, yn gallu llywio o'n safbwynt strategol, ond byddwn yn gobeithio y gallwn, ymhen amser, gynnig rhywbeth mwy arwyddocaol a strwythuredig i gefnogi'r gwaith a wnewch.

Yr wyf yn falch o weld nad yw'r meysydd strategol yr ydych yn tynnu sylw atynt yn annhebyg i'r rhai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn enwedig o ran anghenion cymhleth a sut yr ydym yn cydweithio i fynd i'r afael â hyn.

Mae ein strategaeth MH wrthi'n cael ei hail-ysgrifennu ac rwyf am eich sicrhau y bydd anghenion ein poblogaeth sy'n ddigartref yn cael eu hamlygu a'u cysylltu â'r gwaith a wneir gan wasanaethau Tai Ynys Môn.

**Casgliad:**

Derbyniwyd 17 o ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad, a derbyniwyd ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid.

Roedd 88% yn cytuno bod y Strategaeth wedi nodi'r materion a'r blaenoriaethau pwysicaf ond nid oedd y ddau a oedd yn anghytuno wedi gadael sylwadau ynglŷn â'r rhesymau pam eu bod yn anghytuno.

Roedd 82% o'r farn bod y Strategaeth yn nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd yn y tymor byr, canolig a hir. O'r 3 ymatebydd nad oedd yn cytuno â'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir a nodwyd mae eu sylwadau wedi'u hymgorffori, lle bo hynny'n briodol, yn y fersiwn diwygiedig.

**Appendix 2**

**Polls held during the HSG Provider Forum and IoACC Housing Staff Consultation meetings**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yda chi yn cytuno hefo y 5 colofn atal / Do you agree with the 5 pillars of prevention? | | | | |
| | | | | |
| | IoACC Staff | | Provider Forum | |
| Ydwyf / Yes | 14 | 100% | 14 | 100% |
| Na / No | 0 | | 0 | |
| | | | | |
| Yda chi yn cytuno hefo y 3 destun y cynllun gwaith? / Do you agree with the 3 themes for the action plan? | | | | |
| | | | | |
| Ydwyf / Yes | 12 | 100% | 14 | 100% |
| Na / No | 0 | | 0 | |
| | | | | |
| Yda chi yn teimlo yn hyderus i ymateb i'r ymgynghoriad? / Do you feel confident in responding to the consultation? | | | | |
| | | | | |
| Ydwyf / Yes | 8 | 50% | 9 | 75% |
| Na / No | | 0% | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod/ Do not know | 5 | 31% | 1 | 8% |
| Nid fi fydd yn ymateb/It will not be me who will be responding | 3 | 19% | 2 | 16% |
| | | | | |

Two meetings were held to provide a presentation on the Draft Housing Support Grant Strategy 2022-2026, the first; held on the 11th January 2022 was for the HSG Provider Forum. This meeting includes HSG providers and third sector agencies. The second meeting provided the same presentation to the IoACC Housing Department staff on the 24th January 2022.

A poll was conducted during both of these meetings with the results shown in the chart above.

As can be seen; for the first two questions, of those responding to the poll, there was 100% agreement with the '5 pillars of prevention' and the '3 themes for the action plan'.

For the third question;

- 17 (61%) felt confident in responding to the consultation;
- 0 (0%) did not feel confident in responding to the consultation;
- 6 (21%) were unsure whether they were able to respond

3 (18%) would not be the person responding to the consultation.

## Crynodeb o'r Atborth a gafwyd o'r Ymgysylltiad â Rhanddeiliaid

**Diffiniadau:**

*Llety Argyfwng- stafell hefo cyfleusterau yn cael eu rhannu neu hunan gynwysol mewn adeilad*

*Dros dro - hunan gynhwysol mewn fflat neu dy*

Roedd y dulliau cyfathrebu yn cynnwys:

| Pwy | Dull a Ddefnyddiwyd | Crynodeb o'r Atborth |
|---|---|---|
| Defnyddwyr Gwasanaeth GCT | Holiadur Parhaus<br>○ Eich Gwasanaeth, Eich Barn Ebrill – Medi 2021 – 6 mis | • Cwblhawyd cyfanswm o 155 o arolygon<br>• 18 (13.24%)% mewn llety â chymorth, 118 (86.78%) yn derbyn cymorth hyblyg<br>• Atebodd 85% fod ansawdd y gwasanaeth yn dda iawn, atebodd 27 ei fod yn dda, 4 ei fod yn gyffredin ac 1 yn wael. 6 yn dewis peidio ag ateb<br>• Dim pryderon ynglŷn â'r gwasanaeth<br>• Dywedodd 97% (150) y byddent yn argymell y gwasanaeth i eraill a dywedodd 4 na fyddent yn ei argymell. |

| | | |
|---|---|---|
| Tenantiad sydd wedi bod:<br>○ yn ddigartref o fewn y 12 mis diwethaf,<br>○ defnyddwyr gwasanaeth cyfredol sydd mewn llety dros dro;<br>○ defnyddwyr gwasanaeth mewn llety â chymorth. | Datblygwyd Holiadur ar ffurf ffurflen Microsoft a gwnaed galwadau ffôn i gasglu canlyniadau ac, yn ogystal, rhannwyd y linc;<br><br>○ Holiadur Ymgynghori Ailgartrefu Cyflym Ynys Môn Hydref 2021 | • Dywedodd 9 o'r 34 o bobl a ymatebodd eu bod yn ar hyn o bryd yn byw mewn Llety Argyfwng.<br>• O'r 34 o ymatebodd, dywedodd 10 o bobl eu bod wedi bod yn byw mewn llety dros dro am gyfnod dan y categori 'arall' sy'n golygu dros flwyddyn<br>• Y peth pwysicaf i bobl sy'n byw mewn Llety Argyfwng yw eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael cefnogaeth ac â mynediad i gyfleusterau megis cyfleusterau fel coginio.<br>• Roedd yr atborth cyffredinol am ansawdd y llety dros dro yn gadarnhaol gyda'r mwyafrif o'r farn ei fod rhwng boddhaol a rhagorol.<br>• Roedd y gwelliannau y gellid eu gwneud i Llety Argyfwng yn ymwneud â lleoliad, diffyg gwres, methu storio bwyd mewn oergell a diffyg cyfleusterau coginio.<br>• Nododd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd eu bod yn cael cymorth am oddeutu 1-2 awr yr wythnos ac roeddynt yn teimlo'n hapus ynghylch lefel y cymorth a ddarperir. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Roedd y cymorth mwyaf defnyddiol/cynorthwyol yn ymwneud â materion ariannol megis hawlio budd-daliadau a thrin arian ynghyd â'r cymorth a gafwyd mewn perthynas ag anghenion iechyd meddwl a chymorth ar sut i gynnal llety.<br>• Roedd y pryderon mwyaf yn ymwneud â diffyg llety addas i symud ymlaen iddo. |
| Darparwyr GCT | Holiadur Darparwyr Rhanbarthol;<br><br>○ Ymatebion i'r Holiadur ar gyfer Darparwyr GCT – Rhanbarthol 2021 | • Gellid ei gwneud yn haws i bobl gael at y cymorth y maent ei angen<br>• Galluogi cwsmeriaid i ddewis y modd y maent yn derbyn cymorth |
| Defnyddwyr Gwasanaeth yn Cyfrif - Wedi'i gasglu'n rhanbarthol | Cyfrif Holiadur Defnyddwyr Gwasanaeth Rhanbarthol; | • 57 o ymatebion gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth Ynys Môn<br>• 42 yn derbyn cymorth hyblyg a 12 mewn llety â chymorth<br>• Dywedodd 27 ohonynt eu bod wedi'u cyfeirio gan feddyg teulu/gweithiwr cymorth/swyddog digartref a |

| | | |
|---|---|---|
| | ○ Cyfrif ymatebion Defnyddwyr Gwasanaeth Gogledd Cymru i'r Grant Cymorth Tai | dywedodd 18 eu bod wedi cysylltu â'r ALl a dywedodd 3 fod yr ALl wedi dod o hyd iddynt yn cysgu allan<br>• Dywedodd 27 (47%) o bobl nad oeddent yn gwybod ble i gael ffurflen gymorth a dywedodd 28 (49%) eu bod yn gwybod<br>• Dywedodd 26 o bobl eu bod o'r farn bod eu llety yn dda a 17 ei fod yn foddhaol<br>• Dywedodd 38 (66%) o bobl fod trafnidiaeth gyhoeddus yn eu rhwystro rhag cael mynediad at gymorth<br>• Dywedodd 37 o bobl eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu llety a dywedodd 7 (12%) nad oeddent yn teimlo'n ddiogel<br>• Dywedodd 42 o bobl nad oeddent yn teimlo'n ynysig ond dywedodd 8 eu bod yn teimlo'n ynysig<br>• Dywedodd 56 o bobl eu bod yn teimlo bod y darparwr cymorth yn gwrando arnynt a dywedodd 1 eu bod yn gwrando weithiau |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Dywedodd 22 (21%) o bobl y gallant fforddio prisiau rhent cyfredol a dywedodd 22(36%) nad oeddent yn gallu gyda hynny'n gadael 23 yn y categori 'efallai' |
| Defnyddwyr Gwasanaeth | Holiadur rhanbarthol<br><br>○ Ymatebion Defnyddwyr Gwasanaeth Ynys Môn i'r Holiadur Ymgynghori ar y Strategaeth Grant Cymorth Tai 2021 | • Roedd y ganran ar gyfer Ynys Môn yn uwch nag unrhyw awdurdod arall o ran nifer y defnyddwyr gwasanaeth o oedd yn gwybod ble i gael gafael ar gymorth<br>• Dywedodd 98% o'r defnyddwyr gwasanaeth fod gan eu gweithiwr cymorth y dechnoleg gywir i ddarparu cymorth ar eu cyfer<br>• Dywedodd dros hanner y bobl a ymatebodd nad oedd unrhyw beth yn rhwystro defnyddwyr gwasanaeth rhag cael mynediad i'r rhyngrwyd na chael mynediad at rwydweithiau cymorth a chymorth ar-lein. Fodd bynnag, yn achos yr hanner arall, roedd hynny'n golygu:<br>○ nad oedd gan 12 ohonynt ryngrwyd<br>○ nad oedd 11 yn gallu fforddio 'top up' ar eu ffôn<br>○ bod 8 yn ei chael hi'n anodd defnyddio dyfais<br>○ bod 7 ddim yn gallu fforddio'r rhyngrwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Dywedodd 100% o bobl a ymatebodd eu bod yn gallu derbyn cymorth yn eu dewis iaith. |
| Defnyddwyr gwasanaeth | ○ Ymateb defnyddiwr Gwasanaeth Ynys Môn? Covid? | • Mewn perthynas â'r pandemig, mae o wedi teimlo'n ddiogel yn y llety a ddarparwyd ar ei gyfer<br>• Mewn perthynas â'r pandemig, mae o wedi teimlo'n ddiogel yn y gwesty a'r llety â chymorth.<br>• Disgrifiodd y gwasanaeth gan y Cyngor fel un rhagorol, nad oedd yn gweld unrhyw ddiffyg ynddo. Mae'r gwasanaeth gan CAIS hefyd wedi bod yn wych, ac ni fyddai'n petruso cyn cysylltu â nhw eto pe bai angen mwy o help arno. Gan fod ganddo ei lety ei hun, roedd yn teimlo'n ddiogel yn ystod y pandemig.<br>• Disgrifiodd y gwasanaeth y mae wedi'i dderbyn gan y Cyngor fel un da iawn. Mae ei gweithiwr cymorth Layla wedi bod yn anhygoel. |
| Canlyniadau'r Ymgysylltiad â Defnyddwyr Gwasanaeth GCT | Ymatebion Defnyddwyr Gwasanaeth | • Holiadur ar effaith covid<br>• Cyfarfodydd Zoom<br>• Ymgynghoriadau Adolygu Gwasanaethau<br>• Grwpiau llywio |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Holiaduron ymadael |

Yn gyffredinol, bu llawer o gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y gwasanaethau a ddarperir drwy'r Grant Cymorth Tai ac i sicrhau canlyniadau ystyrlon yn ogystal â chynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a'r trawsnewidiad i ailgartrefu cyflym.

Y themâu allweddol ar draws yr holl ddulliau ymgysylltu yw:

**O ran gwasanaethau:**

- Mae ansawdd y gwasanaethau yn dda/da iawn a byddai'r rhan fwyaf o bobl yn argymell y gwasanaeth i eraill
- Dywedodd 27 (47%) o bobl nad oeddent yn gwybod ble i gael ffurflen gymorth a dywedodd 28 (49%) o bobl eu bod yn gwybod ble i gael un
- Roedd y ganran ar gyfer Ynys Môn yn yr holiadur rhanbarthol o ran nifer y defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn gwybod ble i gael gafael ar gymorth yn uwch nag unrhyw awdurdod arall
- Dywedodd y sawl a ymatebodd eu bod yn gallu derbyn cefnogaeth yn eu dewis iaith
- Dywedodd pobl eu bod yn teimlo bod y darparwr cymorth yn gwrando arnynt

**O ran Llety:**

- Y peth pwysicaf i bobl sy'n byw mewn llety gwely a brecwast yw eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac â mynediad i gyfleusterau megis cyfleusterau coginio.
- Dywedodd 22 (21%) o bobl y gallant fforddio prisiau rhent cyfredol a dywedodd 22 (36%) nad ydynt yn gallu eu fforddio sy’n gadael 23 yn y categori ‘efallai’

**O ran Covid:**

- Mewn perthynas â'r pandemig, roedd defnyddwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu llety

**Rhwystrau**

- Dywedodd 38 (66%) o bobl fod trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwystr iddynt rhag cael mynediad at gymorth
- Roedd y pryderon mwyaf yn ymwneud â diffyg llety addas i symud ymlaen iddo.

# Cynllun Cyflawni Blynyddol Ynys Môn ar gyfer y Grant Cymorth Tai

## Ebrill 2022- Mawrth 2025

Draft

## Cynnwys


| Tabl o'r Cynnwys | |
|---|---|
| **Adran** | **Tudalen** |
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Asesiad o Anghenion | 4-6 |
| 3. Blaenoriaethau Cyflawni | 7-28 |
| 4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 29-32 |
| Atodiadau<br><br>A. Asesiadau Effaith<br>B. Cynllun Gwario<br>C. Cynllun Comisiynu Lleol<br>D. Dyletswyddau Statudol mewn perthynas â Digartrefedd | 33 |


Draft

..........................................................................................................

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei harwain a'i rheoli gan Awdurdodau Lleol mewn partneriaeth â'r gwasanaethau Iechyd a Phrawf. Mae'n darparu gwasanaethau cymorth tai i bobl o amrediad o grwpiau cleient. Nod y rhaglen yw darparu cymorth tai i bobl fel y gallant fod mor annibynnol ag sy'n bosibl ac er mwyn eu cefnogi a'u cynnal drwy ddarparu ystod o wasanaethau a phrosiectau cymorth tai arloesol sy'n helpu i atal digartrefedd. Mae'n ymgorffori'r rhaglen flaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sef:

- Cefnogi Pobl
- Atal Digartrefedd
- Rhaglenni Rhentu Doeth Cymru

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio Cynllun Cyflawni 3 blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2002. Cynhelir adolygiad blynyddol hefyd fel y nodir yn Nogfen Canllawiau Cymorth Tai Llywodraeth Cymru.

Mewn llythyr dangosol dyddiedig 20 Rhagfyr 2021, cafodd CSYM wybod gan Lywodraeth Cymru y bydd ein dyraniad ar gyfer y 3 blynedd nesaf hyd at a chan gynnwys 31.3.2025 yn aros fel y mae, sef £3,571.720.50 y flwyddyn.

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â:

- Strategaeth Cymorth Tai 4 blynedd CSYM ar gyfer 2022 - 2026 (https://www.anglesey.gov.uk/documents/Docs-en/Council/Consultations/2022/Housing-Support-Strategy/Consultation-document.pdf)

- Cynllun Gweithredu Digartrefedd 2021-26
- Canllawiau Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (Hydref 2021)
- Canllawiau Grant Cymorth Tai (Mawrth 2021)

Diben a chwmpas y ddogfen hon yw
- Nodi sut y bydd blaenoriaethau strategol HSP a gofynion cyflawni parhaus y GCT yn cael eu cyflawni drwy'r GCT ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Rhoi trosolwg o fwriadau gwario a chomisiynu'r GCT ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Crynhoi'r asesiad o anghenion a'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd a chanfyddiadau sydd wedi llywio blaenoriaethau strategol y GCT a blaenoriaethau cyflawni'r GCT.

## 2. Asesiad o Anghenion

Cynhaliwyd Asesiad Anghenion cynhwysfawr i danategu'r Strategaeth 4 Blynedd ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae Datganiad Angen yn crynhoi'r canfyddiadau a'r negeseuon allweddol sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Anghenion ac yn sail i'n cyfeiriad strategol a'n bwriadau comisiynu ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Cynhelir adolygiad ysgafn o'r asesiad anghenion bob dwy flynedd yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r canlynol yn cynnwys canfyddiadau allweddol ein Hasesiad Anghenion Cynhwysfawr a'n Datganiad Angen.

- Yn ystod y blynyddoedd cyn pandemig COVID-19, gwelwyd nifer y lleoliadau llety dros dro yn cynyddu'n barhaus, gyda chyfanswm y lleoliadau'n codi 24% rhwng 2016 a 2020. Mae'r cynnydd llawer mwy sydyn a welwyd yn ystod 2020/21 yn adlewyrchu rhaglen tai brys Llywodraeth Cymru i ddarparu llety diogel i'r rhai sydd mewn perygl o orfod cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig
- Oherwydd y pandemig, mae'r diffygion yn y Lwfans Tai Lleol a'r gystadleuaeth yn sgil y galw am lety gwyliau wedi dwysáu
- Mae ymyriadau argyfwng gan Awdurdodau Lleol yn parhau i gynyddu gyda chynnydd mawr yn yr achosion Adran 75s yn ogystal â chynnydd yn y camau gweithredu i gynorthwyo ymgeiswyr o dan A66 (cymorth atal) ac A73 (cymorth rhyddhad)
- Yn gyson â phatrwm yr ymatebion ar raddfa newidiol y galw o safbwynt ddigartrefedd, nododd llawer o gyfranogwyr fod y cydbwysedd rhwng teuluoedd a phobl sengl wedi newid yn sylweddol yn 2020/21
- I'r rhan fwyaf o awdurdodau, roedd cyflawni eu dyletswydd drwy'r Sector Rhentu Preifat wedi mynd yn anodd iawn
- Ar hyd a lled Cymru, dywedwyd yn llai aml ei bod yn anodd cael gafael ar denantiaethau cymdeithasol i bobl ddigartref o gymharu â cheisio canfod lleoliadau mewn tai rhent preifat
- Mesur hirsefydlog arall o ddigartrefedd yw'r boblogaeth o bobl ddigartref a leolir mewn llety dros dro gan Awdurdodau Lleol yn ystod y broses o asesu digartrefedd ac ailgartrefu.
- Bydd cynnydd yn yr Aelwydydd Digartrefedd Craidd tan 2023 gyda nifer uwch o bobl yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref o 2023 ymlaen o gymharu â'r lefel bresennol.

O ran y Gwasanaethau Cymorth Tai, mae gwybodaeth o'n Hasesiadau Statudol, y Gronfa Atal Digartrefedd a Darparwyr Cymorth yn dangos:

- Derbynnir yn gyffredinol gan ddarparwyr gwasanaethau arbenigol a'r Heddlu, a'i gofnodi hefyd yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol, nad oedd y lefel wirioneddol o gamdriniaeth ddomestig yn cael ei chofnodi'n ystod y cyfnod

Draft

clo. Roedd llawer o deuluoedd wedi'u cyfyngu i'w heiddo a hynny'n lleihau'n sylweddol y cyfleon a oedd ar gael iddynt roi gwybod am achosion o gamdriniaeth a digwyddiadau mynych gyda hynny felly'n arwain at gynnydd yn yr angen nad oedd yn cael ei ddiwallu.

- Mae bwlch penodol yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth rywiol ar yr Ynys, a dylid ystyried rhoi arian i'r darparwr arbenigol yn y maes hwn - darparwr sy'n annibynnol ar y math mwy traddodiadol o wasanaethau VAWDASV a ddarperir ar hyn o bryd
- Mae cynnydd yn yr anghenion lefel uchel o fewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl
- Mae cynnydd yn nifer y bobl sydd mewn perygl o ladd eu hunain a niweidio eu hunain
- Mae tua hanner y bobl sy'n cael eu cydnabod fel rhai ag Anableddau Dysgu yn derbyn gwasanaethau cymorth tai (Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gwariant GCT)
- Erys lefel anghymesur o gymorth sy'n cael ei chapio ar uchafswm o 15 awr y pen yr wythnos i bobl ag Anableddau Dysgu. Mae hyn yn cymharu ag uchafswm o 5-8 awr ar gyfer y rhai ag anghenion heriol sy'n anhrefnus, yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd angen y lefel uchaf o ymyrraeth ac eithrio cymorth 24/7 mewn llety o fath hostel
- Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Cymorth Tai ar gyfer y grŵp cleientiaid Anableddau Dysgu yn rhai o fath nifer isel, cost uchel
- Mae nifer y bobl ag Anawsterau Dysgu nad ydynt yn bodloni'r diffiniad statudol o Anabledd Dysgu yn uchel ar Ynys Môn. Felly, mae angen cymorth tai parhaus ar y grŵp cleientiaid hwn i'w galluogi i reoli eu tenantiaethau
- O ystyried proffil demograffig rhagamcanol Ynys Môn ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, mae nifer y bobl hŷn sydd angen gwasanaethau cymorth tai yn debygol o gynyddu
- Mae proffil demograffig poblogaeth Ynys Môn yn awgrymu bod angen ychwanegu at yr amrywiaeth a'r cyflenwad o fathau penodol o opsiynau llety sydd ar gael i bobl hŷn
- Nid oes cymorth penodol sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl ag anghenion sy'n gysylltiedig ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig
- Mae angen gweithio'n agosach a sicrhau gwell trefniadau pontio a chynllunio ar gyfer y cymorth tai sydd ar gael i'r glasoed wrth iddynt ddod yn oedolion
- Mae nifer y carcharorion o Ogledd Cymru fel arfer rhwng 760 ac 850, ac o'r nifer hwnnw, mae 40-50 ohonynt yn fenywod, 60-70 yn droseddwyr ifanc a 50-60 yn rhai y mae'n rhaid cymryd mesurau diogelwch lefel uchel yn eu cylch
- Mae nifer y bobl a gedwir yn y carchar wedi bod yn cynyddu
- Mae nifer yr achosion o salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anableddau dysgu yn uwch ymhlith oedolion sydd yn y carchardai o gymharu â nifer yr oedolion yn y boblogaeth gyffredinol
- Yn ôl cyfran, mae poblogaeth y carchardai sy'n cynnwys troseddwyr sy'n 50 oed neu'n hŷn wedi cynyddu'n fwy nag unrhyw grŵp oedran arall sy'n golygu bod goblygiadau o ran gofal cymdeithasol



Draft

- Mae plant sydd â rhiant yn y carchar ddwywaith mor debygol â phlant eraill o fod â phroblemau ymddygiad ac iechyd meddwl a thair gwaith yn fwy tebygol o droseddu eu hunain
- Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, bydd yr Astudiaeth o'r Prosiect Cyflymu yng Ngharchar y Berwyn yn cael ei hystyried fel rhan o flaenoriaethau RHSGC wrth symud ymlaen
- Mae nifer yr ail-gyflwyniadau o fewn y Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai wedi cynyddu
- Ymddengys bod gan bobl sy'n cyflwyno eu hunain ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Tai ag anghenion cymhleth lluosog a ffactorau risg cynyddol

Draft

........................................................................................................

## 3. Blaenoriaethau Cyflawni

**Gweledigaeth ein Strategaeth Dai ar gyfer 2022-27 yw bod trigolion Ynys Môn**

yn cael lle y gallant ei alw'n gartref, yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gyfrannu at eu cymuned leol

Mae'r Strategaeth hon yn manylu ar y modd y byddwn yn mynd i'r afael â'r themâu canlynol fel y'u cynhwysir yn ein Strategaeth Dai o dan:

- Thema 3 – Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 – Cymorth i hyrwyddo annibyniaeth tai

Yn seiliedig ar y weledigaeth uchod, mae'r 5 Colofn ganlynol yn rhoi trosolwg o'r math o wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar yr ydym yn eu cynnig:-

**Mae Strategaeth pedair blynedd CSYM ar gyfer Grant Cymorth Tai 2022-26 yn cydnabod y pum colofn allweddol o atal fel a ganlyn.**

1. **Atal Cyffredinol** drwy atal neu leihau'r risg o ddigartrefedd ar draws y boblogaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a themâu allweddol eraill fel y nodwyd yn ein Strategaeth Dai ar gyfer 2022-27.

2. **Gwaith Atal Wedi'i Dargedu** sy'n canolbwyntio ar grwpiau risg uchel neu'r rhan fwyaf o gleientiaid sydd wedi'u heithrio a bydd yn cynnwys llwybrau wedi'u targedu a llwybrau pontio i dai â chymorth i bobl ifanc, achosion cymhleth gan gynnwys pobl â chanddynt broblemau iechyd meddwl.

3. **Atal Argyfwng** sy'n anelu at atal digartrefedd o fewn 56 diwrnod a allai gynnwys adolygiadau achos amlasiantaethol a mynediad i'n Cronfa Atal Digartrefedd a'r cronfeydd eraill sydd ar gael.

4. **Atal Argyfwng** lle mae angen ymateb ar unwaith, er enghraifft drwy ddarparu cymorth neu lety brys i'r rhai sydd mewn perygl uniongyrchol o fod yn ddigartref.

5. **Atal Adferiad** lle darperir cymorth i gynorthwyo i gefnogi tenantiaethau ac i leihau'r tebygolrwydd y bydd person yn dod yn ddigartref eto.

Yn seiliedig ar Gynllun Gweithredu Digartrefedd Lefel Uchel Llywodraeth Cymru a'r 5 Colofn Atal, dyma fydd ein blaenoriaethau ni:


- Maes Blaenoriaeth 1 = **Anfynych –** mae sicrhau bod digartrefedd yn digwydd yn anfynych yn golygu bod angen atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf
- Maes Blaenoriaeth 2 = **Cyfnod Byr -** bydd ein ffocws ar ailgartrefu cyflym yn golygu mai am gyfnodau byr yn unig y bydd pobl yn ddigartref
- Maes Blaenoriaeth 3= **Dim yn digwydd eto –** sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn eu galluogi i lwyddo a ffynnu.

## Atal ac Ymyrraeth Gynnar ar lefel Gorfforaethol

Mae ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Atal ac Ymyrryd yn Gynnar yn cydnabod bod gan Gymorth Tai rôl annatod i'w chwarae o ran sicrhau ein bod yn cyflawni'r ddau nod corfforaethol canlynol sef:

- creu'r amodau i bawb gyflawni eu potensial tymor hir
- cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl

Yn ystod 2022-2025, byddwn yn datblygu ymhellach ein model cyflawni a ddangosir isod, a byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr o fewn y Cyngor, cyrff statudol eraill a'r Trydydd Sector, cyrff yr ydym wedi dod yn fwyfwy dibynnol arnynt at ddibenion cymorth tai.




Wrth atgyfnerthu'r model uchod a ddechreuodd yn ystod 2021/22, byddwn yn tanategu ymhellach y berthynas gref sydd gennym eisoes â Medrwn Mộn (Corff Ymbarél 3ydd Sector Ynys Môn) i ddatblygu a gwella ymhellach y trefniadau llwybr ffurfiol i'n galluogi i ddyrannu'r hyn a ystyriwn yn atgyfeiriadau sy'n addas ar gyfer cymorth tai (anghenion uchel a chanolig) drwy ein Swyddog SPoA. Fodd bynnag, bydd cymorth lefel isel i'r rhai sy'n parhau i fod yn fregus ac sy'n methu ymdopi wedi i gymorth tai wedi'i dargedu ddod i ben, yn parhau i gael ei gyfeirio at wasanaeth Cyswllt Cymunedol Mộn. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi sicrwydd i'r rhai sydd efallai wedi'u hynysu neu sydd heb yr hyder neu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i reoli eu bywydau bob dydd a byw'n annibynnol e.e. y rhai sydd ag iechyd meddwl gwael neu bobl nad ydynt yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer anabledd dysgu. Bydd y cymorth sydd ar gael yn cynnwys help i lenwi ffurflenni, esbonio cynnwys unrhyw ohebiaeth a dderbynnir, cyfeirio at wasanaethau arbenigol a phwyslais ar gynyddu cynhwysiant cymdeithasol gan rymuso pobl i deimlo'n rhan o'r gymuned drwy ragnodi cymdeithasol. Ein barn ni o brofiad yw y byddai methu â mynd i'r afael â rhai o'r lefelau angen is a grybwyllir yn arwain at gynnydd yn yr angen am haen uwch o ymyrraeth, boed ar ffurf cymorth wedi'i dargedu neu gymorth statudol hyd yn oed. Rydym yn rhagweld y bydd y gwasanaeth hwn yn costio

£20,622.36 y flwyddyn (gweler tudalen 26). Wrth ffurfioli'r trefniant uchod, rhagwelir y byddwn yn:

- Gwahanu achosion yn unol â lefelau angen, a'u cyfeirio neu eu cyfeirbwyntio at y gwasanaeth mwyaf priodol drwy'r Pwynt Mynediad Sengl (SPoA) perthnasol.

- Osgoi dyblygu diangen, oni bai bod angen mynediad i'r ddau wasanaeth ar yr un pryd.

- Cau achosion perthnasol yn gynharach.

- Lleihau nifer yr achosion lefel isel yn llwythi achosion Gweithwyr Cymorth Tai; a

- Ymrwymo mwy o amser ac adnoddau tuag at dargedu achosion canolig i lefel uchel, fel yr ymddengys yn angenrheidiol o'r data uchod.

**Proses Asesu Lefel Anghenion Cymorth Tai – Maes Blaenoriaeth Cymorth Tai** (**1,2,3) / Maes Atal (4,5)**

Dros y misoedd diwethaf, mae Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'n darparwyr gwasanaeth i ddatblygu offeryn ar gyfer asesu lefel anghenion a fydd yn penderfynu a fydd angen lefel isel, lefel ganolig neu lefel uchel o ymyrraeth ar rywun sy'n cyflwyno eu hunain am gymorth sy'n gysylltiedig â thai.


Mae'r broses eisoes wedi'i threialu gan ddau ddarparwr ac ers hynny, rydym wedi cynnal digwyddiad penodol gyda'r holl ddarparwyr yn bresennol i adrodd yn ôl ar ein canfyddiadau a'r modd yr ydym yn bwriadu cyflwyno'r system i bawb o 1.4.2022. Ers y digwyddiad, rydym hefyd wedi cynnal cyfarfodydd ar wahân gyda'n holl ddarparwyr i drafod ein bwriadau a datrys unrhyw rwystrau megis cydnawsedd TG ac ati.

Bydd pennu lefel y cymorth a dwyster y ddarpariaeth yn seiliedig ar fatrics asesu Llywodraeth Cymru, a ryddhawyd i ddechrau yn y Canllawiau Cynllunio Cam 2 ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth sy'n Gysylltiedig â Thai (gweler y matrics isod). Drwy gymhwyso'r broses asesu hon yn gyffredinol ar draws yr holl ddarparwyr, disgwylir hefyd y bydd yn ategu ein dull o Ailgartrefu Cyflym ac yn sicrhau dull o ddarparu gwasanaethau sy'n amserol, yn gyson ac o safon uchel.

**Support Matrix – Assessment Template**

| Intensity | Duration: Long term (12m+) | Duration: Medium term (3 – 12m) | Duration: Short term (<3m) |
|---|---|---|---|
| V high 24/7 | Supported housing | Supported housing | Supported housing |
| High 3+ pw | Housing First | CTI | CTI (+Rapid re-housing) |
| Medium 1 – 2 pw | Housing First | CTI | Rapid Re-housing |
| Low < 1 pw | Rapid Re-housing (+floating support) | Rapid Re-housing (+floating support) | Rapid Re-housing |

Byddwn hefyd yn atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed yn ystod 2021/22 a oedd yn cynnwys recriwtio staff ychwanegol ar draws y Sector Cymorth Tai a datblygu prosesau a gweithdrefnau i hwyluso a chyflwyno ein Hyb Ailgartrefu Cyflym (gweler y diagram isod sy'n amlinellu'r broses).



Mae'r Grant Cymorth Tai yn ariannu swyddi Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat, Swyddog SPoA, Swyddog Achosion Cymhleth, Swyddog Ymateb Cyflym a'r Swyddog Symud Ymlaen ac mae'r cyfan ohonynt â rôl annatod yn ein Hyb Ailgartrefu, ac maent yn ategu at yn hytrach na disodli rôl y swyddogion digartrefedd statudol gan olygu bod ganddynt fwy o amser i ddelio â cheisiadau digartrefedd a phrosesau asesu.

**Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat -** Mae'r swyddog yn darparu, yn datblygu ac yn hyrwyddo cyngor cynhwysfawr i landlordiaid yn y sector preifat. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â lletya unigolion bregus ac atal digartrefedd ynghyd â chefnogi gwaith statudol y Cyngor mewn perthynas ag opsiynau tai. Mae dyletswyddau ychwanegol yn cynnwys mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu nifer y landlordiaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor a datblygu ffyrdd o gefnogi'r sector rhentu preifat drwy'r fforwm landlordiaid, diweddariadau newyddion a gwefan tai Ynys Môn. Mae Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat yn gyfrifol am reoli'r swyddi canlynol.

Mae'r **Swyddog SPoA** a'r **Cynorthwy-ydd** yn bennaf gyfrifol am

- Derbyn, cynnal archwiliadau fetio a gwiriadau risg cychwynnol a gwerthuso'r holl atgyfeiriadau am wasanaethau cymorth hyblyg sy'n gysylltiedig â thai ledled Ynys Môn a hynny ar gyfer yr holl ystod o grwpiau cleient cymwys h.y. pobl ddigartref, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ifanc, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu ac ati.

- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau (gan weithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd) mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chymorth tai.

- Sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf priodol o ran cymorth tai yn cael ei neilltuo i bob atgyfeiriad.

- Mae'r Cydlynydd SPoA a'r Cynorthwy-ydd yn derbyn ac yn delio ag oddeutu 1,250 o atgyfeiriadau bob blwyddyn.

Mae'r **Swyddog Achosion Cymhleth** yn gyfrifol am gydlynu gwasanaethau ar gyfer unigolion a gânt eu nodi fel rhai ag anghenion cymhleth megis pobl sy'n cyflwyno eu hunain (fwy nag unwaith) yn ddigartref ac sydd â mwy nag un o'r anghenion a nodwyd megis camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl ac sydd ddim yn dymuno ymgysylltu â gwasanaethau ac sydd ddim ychwaith yn ymddwyn yn heriol.

Mae rôl y Swyddog Anghenion Cymhleth yn cynnwys:

- asesu lefel y cymorth sydd ei angen, yn unol â'n system RAG a ddatblygwyd yn lleol,
- asesu sefyllfa bresennol yr unigolyn; a

Draft

- gwneud penderfyniadau drwy gysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn sicrhau bod y person yn cael cynnig tŷ a chymorth priodol i'w helpu naill ai i gynnal eu llety presennol neu i symud i dŷ mwy priodol.
- Mynychu cyfarfodydd panel / llwybr ar gyfer pobl ifanc fregus, pobl sy'n gadael carchardai a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl er mwyn dyrannu llety i'r rhai sydd ei angen fwyaf.

Mae'r **Swyddog Ymateb Cyflym** yn gyfrifol am

- Ymgymryd â darn mwy manwl o waith gyda'r rhai sy'n byw mewn llety brys.
- Mynd ar drywydd/annog unrhyw waith cyn-denantiaeth sydd wedi'i wneud gan y darparwr cymorth a chadw cofnod er mwyn paratoi'r cleient yn well ar gyfer symud ymlaen.
- Sicrhau bod gan bob cleient mewn llety brys asesiad risg cyfredol a diweddaru'r asesiad hwnnw gydag unrhyw gamau gweithredu newydd os yw'n berthnasol.
- Ymweld yn rheolaidd â llety brys fel y gellir cadw golwg ar les y cleientiaid a danfon unrhyw lythyrau gan y tîm asesu megis cynlluniau tai a llythyrau gwarchod/rhybuddio, cyn bod Darparwr Cymorth Tai dynodedig yn cael ei neilltuo iddynt gan y SPoA a chyn iddynt dderbyn pecyn cymorth sy'n fwy targed-benodol yn seiliedig ar eu hanghenion arweiniol.

**Swyddog Symud** ymlaen – mae'n gweithio'n bennaf gyda phobl fregus sy'n barod i gael eu symud ymlaen o lety dros dro /brys i drefniadau mwy sefydlog. Wrth wneud hynny, bydd deilydd y swydd yn:

- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cymorth angen arweiniol dynodedig fel y gellir symud pobl ymlaen mewn modd di-dor a sicrhau mynediad i DHP ac ati lle bo hynny'n briodol.
- Gweithio ar y cyd â Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat i sicrhau mynediad i eiddo fforddiadwy addas sy'n cydymffurfio â gofynion rhent
- Cefnogi'r panel llety i ddibenion symud ymlaen
- Cydgysylltu'r broses o symud ymlaen o lety gwely a brecwast o safbwynt DHP – gan annog y SPoA i wneud pethau'n gynt.
- Symud ymlaen o lety gweld a brecwast, pecyn cychwyn – cronfa atal wedi'i chwblhau bob tro
- Creu a diweddaru cronfa ddata'r pecynnau cychwyn
- Sicrhau bod gan bob defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael ei letya mewn llety brys gais am dŷ o fewn 14 diwrnod ar ôl eu hasesiad

Draft

## Darpariaeth Uniongyrchol y Prosiectau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai

Mae'r holl gynigion ariannu yn yr adran hon yn cynnwys cyfeiriad at golofn atal a'r maes blaenoriaeth a nodwyd yn y Strategaeth Grant Cymorth Tai a chaiff hyn ei esbonio'n fanylach yn nhudalennau 6 a 7 uchod. Caiff y golofn gyfeirio briodol o Gynllun Gwariant HRS 2022/23 hefyd ei chynnwys, yn unol â gofyniad dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar lunio'r Cynllun Cyflawni.

**Meysydd Blaenoriaeth y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai –**
**1 = Anfynych**
**2 = Cyfnod Byr**
**3 = Ddim yn digwydd eto**

**Colofn Atal (Gweler Atodiad 1 Strategaeth HSG)**
**1 = Cyffredinol**
**2 = Wedi'i dargedu**
**3 = Argyfwng**
**4 = Brys**
**5 = Adferiad**

**Cynlluniau Mynediad HRS - Cymorth Tai**

**a) Maes Blaenoriaeth (2) / Colofn Atal (1) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Swydd Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat + Ystod o Fentrau | £140,000 | £140,000 | £140,000 |
| Rhes 12 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae'r swm o £140,000 yn talu costau swydd Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat a llu o fentrau atal digartrefedd megis blaendaliadau a thaliadau rhent ymlaen llaw fel bod pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn gallu cael mynediad i lety sefydlog.

**b) Ailgartrefu Cyflym / Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan Dai –**

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (1) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Tai yn Gyntaf (Heb ei ddilysu) | £233,870.58 | £233,870.58 | £233,870.58 |
| Cam Wrth Gam | * £43,283.31 | Yn amodol ar dendr 2022/23 | Yn amodol ar dendr 2022/23 |
| Cyfanswm | £277153.89 | | |
| Rhes 16 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Draft

Mae'r gwasanaeth Tai yn Gyntaf (heb ei ddilysu) wedi bod yn cael ei ddarparu ar Ynys Môn ers 2014, ac ar ôl dechrau gyda 10 uned, gyda'r pwyslais ar ddigartrefedd hisefydlog a'r rhai a oedd yn y perygl mwyaf o golli eu cartref, mae wedi esblygu'n wasanaeth sy'n cynnig cyfanswm o 29 (o leiaf) i 33 uned o gymorth yr wythnos, gan ddibynnu ar lefel yr angen. Mae o leiaf 5 o'r unedau hyn wedi'u targedu'n benodol ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl.

Comisiynwyd gwasanaeth camu i lawr ychwanegol ar gyfer pobl sydd angen llety tymor byr e.e. pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gan gynnwys pobl ag iechyd meddwl acíwt nad oes llety amgen ar eu cyfer ar y pryd. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth camu i lawr wedi'i gyfyngu i hyd at 12 wythnos o gymorth, ac eithrio mewn achosion lle nad oes modd darparu math mwy sefydlog o lety. Disgwylir i'r contract presennol ar gyfer y gwasanaeth camu i lawr ddod i ben ym mis Mehefin 2022, ac mae penderfyniad ar fin cael ei wneud ynghylch a fydd y gwasanaeth yn cael ei ailgomisiynu neu o bosib ei gyfuno â'r prif Wasanaeth, sef Tai yn Gyntaf.

Mae gwaith hefyd yn parhau rhwng y Wallich fel y darparwr gwasanaeth dynodedig a Cymorth Cymru i sicrhau statws wedi'i ddilysu ar gyfer darparu Tai yn Gyntaf ar Ynys Môn. Disgwylir y bydd cais y Wallich yn cael ei gadarnhau'r naill ffordd neu'r llall erbyn canol Chwarter 1 2022/23.

**c) Darparu Llety Brys (Cyffredinol)**

**Maes Blaenoriaeth (2) / Colofn Atal (4) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Swyddog Achosion Cymhleth | £42,590.00 | £42,590.00 | £42,590.00 |
| Swyddog Ymateb Cyflym | £32,327.00 | £32,327.00 | £32,327.00 |
| Swyddog Symud Ymlaen | £32,327.00 | £32,327.00 | £32,327.00 |
| Cyfanswm | £107,253.00 | £107,253.00 | £107,253.00 |
| Rhes 17 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Fel y soniwyd uchod, mae swyddi'r staff dynodedig a restrir uchod yn rhan allweddol o'r Hyb Ailgartrefu Cyflym ar gyfer Ynys Môn. Mae'r costau cyflog a ddangosir yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog ar gyfer y flwyddyn gyfredol a bydd angen talu am unrhyw addasiadau ar gyfer codiadau blynyddol o'r cronfeydd presennol sydd heb eu hymrwymo o gyllideb 2022/23 neu o ffynhonnell arall o gyllid.

**d) Allgymorth Pendant ar gyfer Pobl sy'n Cysgu Ar y Stryd**

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allgymorth Pendant Rhanbarthol** | **£19,662** | **£19,662** | **£19,662** |
| **Rhes 21 Cyllun Gwariant HRS 22/23** | | | |

Mae pob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn defnyddio'r GCT i ariannu Gwasanaeth Allgymorth Pendant i bobl sy'n cyflwyno gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau ac sy'n anodd eu cyrraedd a/neu mewn perygl o fod yn ddigartref am gyfnod maith a hynny ddim yn debygol o newid. Comisiynir y gwasanaeth ei hun gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, sy'n gweithredu fel fforwm sy'n dwyn ynghyd yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â chynllunio, comisiynu a rhoi sylw i faterion camddefnyddio sylweddau ar lefel ranbarthol

### e) Gorfodi a Chydymffurfio â Rhentu Doeth Cymru

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (1) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| **Gorfodi Rhentu Doeth Cymru** | **£6,029** | **£6,029** | **£6, 029** |
| **Rhes 26 Cyllun Gwariant HRS 22/23** | | | |

Defnyddir y swm o £6,029 gan ein cydweithwyr yn yr Uned Gwarchod y Cyhoedd i dalu am y gost o gyhoeddi rhybuddion i, a delio â landlordiaid ac asiantiaid rheoli sy'n methu â chydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Rhentu Doeth Cymru sy'n rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

## Cymorth Hyblyg

### f) VAWDASV

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| **Cymorth Hyblyg** | **£113,139.68** | **£113,139.68** | **£113,139.68** |
| **Rhes 28 Cyllun Gwariant HRS 22/23** | | | |


O ddata a gasglwyd o'r Porth Mynediad Sengl ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, cofnodwyd 314 (12.4%) o achosion o angen a oedd yn ymwneud â chamdriniaeth ddomestig o gyfanswm o 2,541 ar gyfer pob grŵp defnyddwyr gwasanaeth. O gymharu â'r cyfnod rhwng 1.4.2021 a 30.9.2021, cofnodwyd 137 achos (10.7%) o angen o gyfanswm o 1,282.

Er gwaethaf gostyngiad ymddangosiadol yn y data uchod, mae pryderon yn parhau ar draws asiantaethau allweddol megis Gwasanaethau Plant ac Oedolion, a Heddlu Gogledd Cymru, bod nifer yr achosion gwirioneddol o gamdriniaeth ddomestig yn cynyddu'n sylweddol. Yn ôl yr asesiad o anghenion, ymddengys fod bwlch yn y ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer achosion o gamdriniaeth rywiol ac mae hwn yn faes y byddwn yn ymchwilio iddo ymhellach. Mewn adroddiad a dderbyniwyd gan

Draft

Heddlu Gogledd Cymru, nodwyd bod nifer y digwyddiadau o gamdriniaeth ddomestig ar Ynys Môn wedi cynyddu 23% hanner ffordd drwy 2021/22 o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Gweler y tabl a'r graff isod. Nodwyd hefyd bod nifer yr achosion agored y mae'r darparwr dynodedig yn rhoi sylw iddynt yn uwch na'r nifer y byddid fel rheol yn disgwyl i bob gweithiwr cymorth fod yn delio â nhw, sef 15-18 yr un.

| | Wythnos Gyfredol | Y flwyddyn hyd yma | Yr un cyfnod y llynedd | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| **Dioddefwyr Camdriniaeth Ddomestig** | **24** | **662** | **538** | **23.0%** |
| **Rhai sydd wedi dioddef fwy nag unwaith** | **3** | **92** | **93** | **-1.1%** |




- 356 o Fenywod / 55 o Ddynion sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig sydd hefyd wedi bod yn ddioddefwyr trosedd 3 gwaith neu fwy yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Roedd 135 (37%) o Fenywod yn 35-44 oed, 25.2% rhwng 25 a 34 oed a 21% yn 18-24 oed.
- Roedd y nifer uchaf o ddynion a ddioddefodd gamdriniaeth ddomestig yn y categori oedran 55-64, sef 15 (27.3%) ac yn dynn ar sodlau hynny, 13 (23.6%) yn y categori oedran 35-44. Roedd y niferoedd ym mhob un o'r 4 categori arall yn gyson ar lefelau o 5-7 (9-13%).

Mae'r Tîm Comisiynu Cymorth Tai yn parhau i gymryd rhan yn y Prosiect Un Drws Ffrynt sy'n dwyn ynghyd asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Plant, Tai, Addysg, Gorwel, Iechyd (SMS) Heddlu Gogledd Cymru (PVPU), SMS bob wythnos

drwy gyswllt electronig rhithwir, i drafod achosion a gyfeirir at y panel ac i gytuno ar y ffordd orau i ddatrys problemau o ran yr ymyriad angenrheidiol. Mae'r prosiect yn cael ei gydlynu gan y Swyddog Pwynt Mynediad Sengl Cymorth Tai ac mae'n enghraifft o arfer dda o ran cydweithio ac alinio cyllid y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau.

Ar hyn o bryd, rydym yn aros am adroddiad archwilio a gynhaliwyd gan yr Elusen Bywydau Diogel sy'n noddi'r Broses Un Drws Ffrynt ledled Cymru a Lloegr.

Nid ydym ar hyn o bryd yn rhagweld unrhyw newid yn y cyllid cymorth tai i bobl ag anghenion VAWDASV. Fodd bynnag, oherwydd y pryderon a nodwyd mewn perthynas ag achosion o gamdriniaeth rywiol, efallai y bydd angen i ni, yn dilyn trafodaethau pellach gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, ymchwilio i drefniadau ariannu amgen fel y Grant Gofal Integredig, neu'r Grant Plant a Chymunedau os nad oes gennym ddigon o arian i roi sylw i angen nad yw'n cael ei ddiwallu yn achos camdriniaeth rywiol a mathau mwy cyffredinol a gamdriniaeth ddomestig megis trais a gorfodaeth.

### g) Iechyd Meddwl

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Cymorth Hyblyg | £179,561.01 | £179,831.81 | £179,831.81 |
| Rhes 31 cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Fel y nodir yn glir yn y data gan y Pwynt Mynediad Sengl, Iechyd Meddwl yw'r maes sy'n croes-torri fwyaf ar draws pob angen. Fe'i nodwyd hefyd fel maes blaenoriaeth allweddol yn Asesiad Anghenion Lleol Gogledd Cymru 2017-22. Yn 2020/21, nodwyd iechyd meddwl fel rheswm dros geisio cymorth sy'n gysylltiedig â thai gan 507 o bobl allan o gyfanswm o 2541 (20%) o anghenion a gofnodwyd. O gymharu, y ffigwr cyfatebol rhwng 1.4.2021 a 30.9.2021 oedd 284 (22%) o bobl o gyfanswm o 1,284 o anghenion a gofnodwyd. Pery i fod yr uchaf o hyd o'r holl anghenion cymorth a gofnodwyd, gyda dim ond y categori generig yn cymharu o ran niferoedd cyffredinol. Gellid dadlau hefyd bod gan rai os nad llawer o'r achosion generig anghenion iechyd meddwl hefyd. Yn ogystal â chynnydd yng nghyfanswm nifer yr achosion sy'n nodi iechyd meddwl fel angen cymorth, bu newid sylweddol yn y niferoedd ym mhob un o'r categorïau angen lefel isel, canolig ac uchel. Soniwyd hefyd am y pryderon ynghylch y cynnydd o ran y bobl a geisiodd ladd eu hunain a'r nifer a lwyddodd yn ogystal ag achosion o hunan-niweidio.

Hanner ffordd drwy'r flwyddyn, mae nifer y bobl sy'n honni bod ganddynt anghenion iechyd meddwl lefel uchel eisoes 14 yn uwch na'r cyfanswm cyfan am y flwyddyn lawn flaenorol. Rhagwelir y bydd y nifer sy'n cyflwyno gydag anghenion cymorth iechyd meddwl lefel uchel yn cyfrif am 46.2% o'r cyfanswm sy'n cyflwyno. Mae hyn yn cymharu â 24% yn ystod 2020/21.

Draft

Bydd Contract Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd ar gyfer Cymorth Hyblyg a Thai â Chymorth yn cychwyn o 1.5.2022, ar ôl cael ei roi allan i dendr ym mis Hydref 2021. Oherwydd nad yw'r contract presennol yn dod i ben tan 30.4.2022, bydd cyfradd ranedig yn ystod 20022, gyda'r swm uwch yn daladwy am 11 mis o fis Mai ymlaen. Bydd y swm llawn yn daladwy am y ddwy flynedd ganlynol, gyda 60 o bobl yn derbyn gwasanaethau cymorth hyblyg a bydd 9 uned o lety â chymorth ar gael o dan y contract hwn a ddarperir gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Mewnol y Cynghorau sy'n rhan o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a reolir ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**H ) Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau**

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Cymorth Hyblyg | £90,581.73 | £88,149.83 | £88,149.83 |
| Rhes 32 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Yn ôl ein data SPoA, roedd 123 o achosion o gyfanswm o 2,541 (4.9%) yn ystod 2020/21, yn gysylltiedig â chyffuriau gyda 94/2,541 (3.7%) yn gysylltiedig ag alcohol. Dangosodd data cyfatebol ar gyfer 6 mis cyntaf 2021/22 ostyngiadau yn y ddau faes gyda chyffuriau yn cyfrif am 46/1,282 (3.6%) o anghenion a gofnodwyd ac alcohol yn cyfrif am 29/1282 (2.3%).

Gwahoddwyd tendrau am yr elfen cymorth tai ar gyfer pobl ag anghenion yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ym mis Hydref 2021 ac o ganlyniad bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan ddarparwr amgen o 1 Mai 2022. Yn unol â'r tendr y cytunwyd arno, bydd cost elfen cymorth hyblyg y contract yn gostwng o 1 Mai gyda nifer yr unedau yn cynyddu o 33 i 35 yr wythnos. Fodd bynnag, bydd y cyfle i ddefnyddio unedau cymorth mewn modd hyblyg yn unol â'r galw ar draws y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, troseddu a gwasanaethau generig o fewn un contract yn parhau.

**i) Hanes Troseddu**

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Cymorth Hyblyg | £47,951.49 | £50,371.33 | £50,371.33 |
| Swydd Ailsefydlu Carcharorion | £38,058.98 | £38,058.98 | £38,058.98 |
| Cyfanswm | £86,010.47 | £88,430.31 | £88,430.31 |
| Rhes 33 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Draft

Mae dwy elfen i'r modd y darperir gwasanaethau cymorth tai i bobl sydd â hanes o droseddu. Ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, ymdrinnir ag atgyfeiriadau yn gyffredinol gan Swyddog Ailsefydlu Carcharorion y Gwasanaethau Tai Mewnol, a fydd, fel arfer, yn darparu cymorth am rhwng 8-12 wythnos. Bydd y gwasanaeth hwn yn dechrau cyn rhyddhau carcharorion neu, yn achos dedfrydau byr sy'n llai nag 8 wythnos, gall ddechrau ar adeg dedfrydu neu barhau'n ddi-dor. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gweithio ar y cyd â Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat i chwilio am lety addas a fforddiadwy i'r rhai y mae angen ymyrraeth arnynt.

Yn y tymor hwy, lle mae'r rhai sy'n gadael y carchar neu'r rhai sydd â hanes o droseddu yn parhau i fod yn fregus ac angen cymorth o'r fath yn y gymuned, anfonir yr atgyfeiriad at y darparwr cymorth dynodedig fel y gall ddarparu ymyriad wedi'i dargedu am gyfnod o hyd at ddwy flynedd lle bo hynny'n briodol, boed mewn llety â chymorth dynodedig neu gymorth hyblyg.

Cofnododd ein data SPoA 88 (3.5%) o achosion o'r cyfanswm o 2541 yn 2020/21 a 45 o 1282 o 1.4.2021 i 30.9.2022, sy'n golygu na fu unrhyw newid. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gwybodaeth anecdotaidd gan gydweithwyr tai a phartneriaid allweddol fel y Gwasanaeth Prawf yn dangos bod y niferoedd sy'n cyflwyno yn uwch a bod lefelau angen yn fwy cymhleth a heriol, yn enwedig ymysg y garfan oedran 50 oed a hŷn, sydd, fe ymddengys, yn cynyddu ar gyfradd fwy anghymesur na grwpiau eraill ar hyn o bryd – rhywbeth a all fod â goblygiadau i ofal cymdeithasol.

Fel y soniwyd eisoes, darperir gwasanaethau cymorth tai i bobl â hanes o droseddu fel rhan o gontract sydd hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ag anghenion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau neu anghenion generig. Bydd y gost o ddarparu cymorth hyblyg i bobl sydd â hanes o droseddu yn cynyddu o 1.5.2022, yn dilyn yr ymarfer tendro ym mis Hydref 2021. Bydd nifer yr unedau o fewn y contract hwn hefyd yn cynyddu o 21 i 35 yr wythnos sy'n cynnwys 15 uned a ddarperir gan y Swyddog Ailsefydlu Carcharorion.

### j) Pobl Ifanc Fregus

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Cymorth Hyblyg | £115,348.03 | £115,348.03 | £115,348.03 |
| Rhes 34 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae'r gwasanaeth cymorth hyblyg ar gyfer pobl ifanc a phobl ifanc fregus wedi'i rannu'n ddau yn ddaearyddol a chaiff ei reoli gan reolwyr perthnasol y ddwy hostel yng Nghaergybi a Llangefni. Mae cyfanswm o 24 uned o wasanaethau cymorth hyblyg yn cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc, wedi'u rhannu'n gyfartal.

Mae nifer y cyflwyniadau a dderbyniwyd gan y SPoA gan bobl ifanc fregus wedi aros yn gyson dros y 18 mis diwethaf. Cofnodwyd 172 (6.8%) o 2541 yn 2020/21 ac mae 84 o anghenion eraill (6.6%) allan o 1282 wedi'u cofnodi mewn perthynas â phobl ifanc fregus 16-24 oed rhwng 1.4.21 a 30.9.21.

Ac eithrio symiau bychan a ddyrennir i gyllidebau unigol i sicrhau fod y bobl ifanc yn llwyddo i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn unol â'u cynlluniau cymorth, mae'n annhebygol y bydd y swm blynyddol yn newid yn ystod y tair blynedd nesaf. Caiff unrhyw arian nad yw'n cael ei wario dan gyllidebau unigol ei addasu o'r dyraniad a delir y flwyddyn ganlynol.

Gweler yr adran ar lety â chymorth dros dro i gael manylion am y Llety Pontio a'r arian A180 sy'n ategu Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai, ond sy'n cael eu hariannu o grantiau ar wahân.

### k) Pobl Hŷn

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Cymorth Hyblyg | £384,090.70 | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr |
| Rhes 36 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Caiff cymorth tai i bobl hŷn ei ddarparu drwy fodel peripatetig amhenodol o ran deiliadaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf 150 o bobl 55 oed a throsodd gael cymorth bob wythnos gyda 30 awr ychwanegol i'w defnyddio'n hyblyg i ddiwallu eu hanghenion. Ers dechrau'r contract hwn ym mis Medi 2016, pan ddisodlwyd y gwasanaeth wardeiniaid tai gwarchod a oedd wedi hen ddyddio ac nad oedd yn gymwys mwyach, llwyddwyd i sicrhau gwerth ychwanegol. Yn ddieithriad, mae dros 175 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cael eu cefnogi bob wythnos, gyda llawer ohonynt angen cymorth tymor byr yn unig - dan y system flaenorol, fodd bynnag, byddai defnyddwyr gwasanaeth wedi cael cefnogaeth barhaus mewn gwasanaeth a oedd yn debycach i un gofal a chyfeillio.

Comisiynwyd adolygiad annibynnol o'r gwasanaeth hwn gan y darparwr yn ystod 2020. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn hynny, rhoddwyd clod aruchel i'r cymorth a ddarparwyd a dygwyd sylw at y berthynas ragorol rhwng y darparwr a'r comisiynydd fel sy'n wir ar draws yr holl wasanaethau.

Disgwylir i'r contract presennol ddod i ben ym mis Awst 2022 ac o'r herwydd, bydd angen gwahodd tendrau am y gwasanaeth yn ystod chwarter 1 2022/23. Ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd unrhyw newidiadau sylweddol i gostau neu nifer yr unedau a ddarperir pan fydd manylion tendro'n cael eu rhannu.

### l) Gwasanaethau Cyffredinol



Draft

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Mewnol | £421,330.29 | £421,330.29 | £421,330.29 |
| Allanol | £113,964.88 | £113,335.50 | £113,335.50 |
| Cyfanswm | £535,295.17 | £534,665.79 | £534,665.79 |
| Rhes 38 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae nifer yr atgyfeiriadau sydd ag anghenion lluosog ar adeg eu cyflwyno i SPoA wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn aml felly, mae'n anodd penderfynu ar adeg cyflwyno pa un yw'r angen arweiniol ac efallai na fydd modd sefydlu hynny'n glir mewn rhai achosion cymhleth hyd oni fydd y berthynas rhwng y gweithiwr cymorth a'r defnyddiwr gwasanaeth yn datblygu a bod ymddiriedaeth a pharch yn cael eu sefydlu.

Yn 2020/21, cofnodwyd bod gan 500 (19.7%) o'r 2,541 o achosion anghenion cyffredinol. Cofnodwyd 267 arall (20.4%) o'r 1,282 fel rhai oedd ag anghenion cyffredinol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.4.2021 a 30.9.2021. Yn y categori hwn mae'r ail nifer uchaf o dipyn o anghenion cymorth, a'r categori gyda'r nifer uchaf wedyn yw digartrefedd gyda 385 (15.2%) yn 2020/21 a 208(16.2%) rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021.

Fel y nodwyd uchod, cynigir darpariaeth gyffredinol gan y darparwr cymorth tai mewnol gyda 187 o unedau'r wythnos a'r darparwr allanol presennol gyda 34 uned. Bydd y ddarpariaeth allanol a fydd yn darparu cymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau a hanes o droseddu fel rhan o'r un tendr, yn golygu y bydd darparwr newydd yn cynnig y gwasanaeth o 1 Mai 2022, a bydd bryd hynny'n cynyddu i 45 yr wythnos gyda gostyngiad bychan yn y gost. Disgwylir i'r ddau wasanaeth aros yr un fath o ran cost a nifer unedau drwy gydol y Cynllun hwn.

**m) Teuluoedd Bregus**

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Cymorth Hyblyg | £97,323.43 | £97,323.43 | £97,323.43 |
| Rhes 39 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

O'r cyfanswm o 2,541 o anghenion cymorth a gofnodwyd yn ystod 2020/21, roedd 172 (6.8%) ohonynt yn ymwneud â theuluoedd bregus ac roedd 84 arall o gyfanswm o 1,282 (6.6%) wedi'u categoreiddio o fewn y grŵp hwn rhwng Mis Ebrill 2021 a Medi 2021.

Draft

Darperir cyfanswm o 45 uned yr wythnos fel rhan o'r ddarpariaeth cymorth hyblyg, ac mae ein data monitro wythnosol yn dangos bod y gwasanaeth yn llawn drwy'r amser. Ni ragwelir y bydd y gwasanaeth yn newid yn ystod cyfnod y Cylch Cynllunio hwn.

## Llety â Chymorth Dros Dro

### n) Anableddau Dysgu

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Llawr y Dref | £11,195.11 | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr |
| Rhes 41 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae Prosiect Llawr y Dref yn golygu y gall pobl a chanddynt anableddau dysgu gael eu hasesu o ran eu gallu i fyw'n annibynnol yn y gymuned gydag ychydig o gymorth, gan wneud i ffwrdd â'r angen am lety a rennir ac ynddo gymorth 24/7 neu ofal preswyl. Mae'r prosiect yn darparu 2 uned o gymorth sy'n gysylltiedig â thai ac yn darparu 1 awr y dydd o gefnogaeth ar gyfartaledd. Mae'r ddau ddefnyddiwr gwasanaeth presennol bellach yn barod i symud ymlaen a'r gobaith yw y gellir dod o hyd i lety addas a fforddiadwy yn eu hardaloedd o ddewis yn fuan, gan olygu y bydd modd i ddefnyddwyr gwasanaeth eraill gael mynediad i'r cymorth a'r llety.

### o) Iechyd Meddwl

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Heddfan | £38,765.56 | £39,101.14 | £39,101.14 |
| Stryd Cybi / RAF Y Fali | £11,075.86 | £11,171.75 | £11,171.75 |
| Cyfanswm | £49,841.42 | £50,272.89 | £50,272.89 |
| Rhes 43 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Darperir Llety â Chymorth i bobl ag anghenion iechyd meddwl ar draws un cynllun pwrpasol (Heddfan) sy'n cynnwys 6 uned hunangynhwysol ac un ystafell byw a chysgu yn ogystal â 2 eiddo arall ar wahân yn Stryd Cybi ac RAF Y Fali. Mae 9 eiddo i gyd ar safleoedd sefydlog ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl.

Fel y soniwyd uchod, gwahoddwyd tendrau'n ddiweddar ar gyfer cymorth tai i bobl ag anghenion iechyd meddwl a bydd y contract newydd yn cychwyn o 1.5.2022. Bydd cynnydd bychan yn y costau pan fydd y contract newydd yn cychwyn, gyda'r ddwy awr o gymorth a'r niferoedd a gefnogir mewn llety ar safleoedd sefydlog yn aros yr un fath drwy gydol y cynllun hwn o 1.5.2022 ymlaen.

Draft

## p) Camddefnyddio Sylweddau

### Maes Blaenoriaeth (2,3,5) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Eilianfa | £13,665.47 | £13,954.32 | £13,954.32 |
| Yr Hen Orsaf | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Stryd Gilbert | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Tŷ'n Parc 1 | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Tŷ'n Parc 2 | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Bron Derwydd | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Cyfanswm | £47,829.12 | £47,829.12 | £47.829.12 |
| Rhes 44 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae 7 uned o gymorth tai yn cael eu darparu mewn 6 llety â chymorth dynodedig ac mae Eilianfa yn eiddo y gall dau berson ei rannu. Mae pobl yn tueddu i aros yn y llety rhwng 8 a 14 mis a gellir defnyddio'r eiddo'n hyblyg o fewn yr un contract er mwyn lletya pobl sydd â hanes o droseddu. Yn hanesyddol, roedd nifer y cyfnodau pan oedd neb yn yr eiddo yn isel ac mae galw parhaus am yr eiddo

Bydd y contract newydd a fydd yn cychwyn o 1.5.2022 yn parhau i gynnig yr hyblygrwydd hwn, er y bydd cynnydd bychan yn y gost am weddill cyfnod y cynllun hwn.

## q) Troseddu

### Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Maes y Brenin x 4 | £27,330.92 | £27,908.63 | £27,908.63 |
| Tŷ'n Parc | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Yr Hen Orsaf | £6,832.73 | £6,977.16 | £6,977.16 |
| Cyfanswm | £34,163.65 | £34,163.65 | £34,163.65 |
| Rhes 46 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae llety â chymorth i bobl sydd â hanes o droseddu yn rhan annatod o ailsefydlu cymunedol, yn enwedig yn syth ar ôl cyfnod o garchar. Yn ddieithriad fodd bynnag, mae'r eiddo hyn yn tueddu i fod yn llawn, gan fod y rhai sydd eu hangen yn cael cefnogaeth i gaffael y sgiliau angrheidiol nes bod y trefniadau angenrheidiol wedi eu sefydlu i'w gwneud yn fwy annibynnol ac i symud ymlaen, yn bennaf yn y sector preifat. Mae manteision amlwg o gael dull partneriaeth rhwng y swyddog ailsefydlu carcharorion sydd wedi'i leoli o fewn y gwasanaeth mewnol a'r darparwr dynodedig a bydd hyn yn parhau pan fydd darparwr gwasanaeth newydd yn darparu cymorth tai i bobl sydd â hanes o droseddu. Mae cyfanswm o 6 eiddo ar gael ar gyfer eu defnyddio gan un person, y cyfan yn ardal Caergybi, er, fel y soniwyd eisoes, gellir

Draft

eu defnyddio'n hyblyg gyda'r eiddo hynny a ddynodwyd ar gyfer pobl a phroblemau camddefnyddio sylweddau ac fel arall.

Bydd cynnydd bychan yn y gost o 1.5.2022, gyda nifer yr unedau'n aros fel ag y mae drwy gydol cyfnod y Cynllun hwn.

**r) Pobl Ifanc Fregus**

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Coedlys / Llys Y Gwynt / Gilfach a Llety ar Wasgar x 7 | 411,733.77 | 411,733.77 | 411,733.77 |
| Rhes 47 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae'r ddwy hostel ar gyfer pobl ifanc a bregus yn Llangefni (Coedlys) a Chaergybi (Llys y Gwynt) yn lletya 7 a 9 o bobl yn y drefn honno. Yn ogystal, mae 4 uned symud ymlaen yn Y Gilfach, Caergybi sy'n gweithio ochr yn ochr â'r hostel yn ogystal â 7 eiddo ar wasgar sef 3 yng Nghaergybi, 2 yn Llangefni, a 2 ym Mhorthaethwy.

Yn ogystal, comisiynir Digartref drwy'r Grant Arloesi Tai i gyflawni'r prosiect Llety Pontio ar gyfer pobl ifanc. Er nad yw'n cael ei gomisiynu a'i ddarparu'n uniongyrchol drwy'r Grant Cymorth Tai, mae'r ddwy rhaglen yn ategu ei gilydd, gyda'r Llety Pontio yn darparu model ailgartrefu cyflym (camu i lawr) ar gyfer pobl ifanc ddigartref am hyd at 3 mis. Ystyrir bod yr holl bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at y prosiect Llety Pontio yn barod i reoli eu tenantiaethau eu hunain, yn wahanol i rai sy'n cael eu cefnogi yn y ddwy hostel a weithredir gan Digartref.

Mae Digartref hefyd yn derbyn arian grant Adran 180 yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau atal digartrefedd megis cyfryngu, Achrediad Dysgu am Oes a'r Ganolfan Galw Heibio, sydd i gyd yn ategu'r cymorth hyblyg a'r ddarpariaeth llety â chymorth sydd eisoes ar gael.

Fel y soniwyd eisoes o dan yr adran cymorth hyblyg (sy'n rhan o'r un contract), mae'n annhebygol y bydd y dyraniad blynyddol yn newid yn ystod y tair blynedd nesaf ac eithrio dyraniadau bychan i gyllidebau unigol er mwyn galluogi'r bobl ifanc i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn unol â'u cynlluniau cymorth. Bydd unrhyw ddyraniad i gyllidebau unigol nad yw'n cael ei wario yn cael ei addasu o'r dyraniad a delir y flwyddyn ganlynol.

**s) Teuluoedd Bregus**

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Llety â Chymorth | £45,114.53 | £45,114.53 | £45,114.53 |
| Rhes 53 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |



Draft

# Llety â Chymorth Parhaol

## t) Anableddau Dysgu

### Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Prosiect 1 | £160,038.65 | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr |
| Prosiect 2 | £266,637.63 | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr |
| Prosiect 3 | £53829.94 | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr | I'w gadarnhau yn amodol ar dendr |
| Cyfanswm | £480,506.22 | [redacted] | |
| Rhes 56 Cynllun Gwarant HRS 22/23 | | | |

Yn wahanol i'r holl Wasanaethau Cymorth Tai eraill sy'n cael eu comisiynu, prin iawn yw lefel y trosiant ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Mae 42 o bobl ag anghenion sy'n gysylltiedig ag anableddau dysgu yn derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar hyn o bryd; er bod nifer wirioneddol y bobl sy'n cael eu lletya mewn amgylcheddau byw â chymorth yn sylweddol uwch. Yn hanesyddol, mae cymorth tai i bobl ag anableddau dysgu wedi bod yn isel o ran maint ac yn uchel o ran cost. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'n buddsoddiad yn 2015, gwelwyd bod y gyfran o'r Grant Cefnogi Pobl fel yr oedd ar y pryd, a wariwyd ar gymorth i bobl ag anableddau dysgu, wedi gostwng o 33% o'r cyllid grant a dderbyniwyd i 18%,(13.8% o'r Dyraniad HRS ar hyn o bryd) gyda'r holl gleientiaid a oedd yn derbyn cymorth tai yn cael eu capio ar uchafswm o 15 awr yr wythnos. Wrth i ni aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru yn dilyn adolygiad cenedlaethol o effaith a chost cymorth tai i bobl ag anableddau dysgu, efallai y bydd gostyngiadau pellach yn y dyfodol. Bydd hyn yn peri risgiau anochel i'r Gwasanaethau Oedolion oherwydd byddai eu costau o gefnogi'r grŵp bregus hwn o bobl yn cynyddu'n sylweddol a hynny ar adeg pan mae'r niferoedd sydd angen gofal a chymorth yn cynyddu, tra bod angen, ar yr un pryd, sicrhau arbedion ar lefel leol.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r Gwasanaethau Oedolion fel y prif gomisiynydd ar gyfer pobl ag anghenion anableddau dysgu yn disgwyl am adroddiad gan ymgynghorydd allanol sy'n argymell opsiynau ar gyfer darparu llety â chymorth ar draws ei ddarparwyr mewnol ac allanol. Disgwylir hefyd y bydd yr adroddiad terfynol yn cynnwys rhyw gyfeiriad at ddiffyg darpariaeth wedi'i ddadgyfuno mewn perthynas â'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl ag anghenion sy'n ymwneud ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ar Ynys Môn.

Gallai'r argymhellion yn yr adolygiad a gomisiynwyd fod yn bellgyrhaeddol ar gyfer darparu cymorth tai i bobl ag anableddau dysgu yn y dyfodol ac mae'r angen i ystyried ymhellach y trefniadau ariannu yn parhau, a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y tendrau'n cael eu gwahodd am y gwasanaeth tua mis Hydref 2022.

Draft

Fel mae pethau ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i gadarnhau unrhyw drefniant ariannu, y tu hwnt i'r cytundeb presennol, ac mae unrhyw addasiad i elfen Cymorth Tai y contract yn debygol o fod ar ffurf gostyngiad.

**u) Llochesau**

**Maes Blaenoriaeth (2,3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Lloches 1 | £89,565.51 | £89,565.51 | £89,565.51 |
| Lloches 2 | £18,592.20 | £18,592.20 | £18,592.20 |
| Cyfanswm | £108,157.71 | £108,157.71 | £108,157.71 |
| Rhes 65 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Mae'r grant cymorth tai yn ariannu'r gost o ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai mewn dwy loches. Gall y cyntaf letya hyd at 4 teulu (menywod yn unig ar wahân i blant hyd at 16 oed) a lloches ar wasgar i un person sydd ar gael i ddynion neu fenywod sydd wedi dioddef, neu sydd wedi goroesi, camdriniaeth ddomestig.

Mae data monitro am y 12 mis diwethaf wedi dangos bod y ddau fath o loches a ddarperir wedi bod yn llawn y rhan fwyaf o'r amser, gyda cyfnodau gwag ond yn digwydd pan fydd un person neu deulu wedi gadael a phan fydd angen gwneud gwaith rheoli/cynnal a chadw angenrheidiol cyn i'r cleientiaid nesaf symud i mewn.

Fel y soniwyd yn yr adran ar gymorth hyblyg, sy'n rhan o'r un contract, nid ydym ar hyn o bryd yn rhagweld unrhyw newid o ran yr arian cymorth tai a ddarperir ar gyfer pobl ag anghenion VAWDASV dros y tair blynedd nesaf, ond gellid ymchwilio i drefniadau ariannu amgen megis y Grant Gofal Integredig, neu'r Grant Plant a Chymunedau pe bai'r galw yn cynyddu ymhellach.

**v) Gwella Diogelwch**

**Maes Blaenoriaeth (3) / Colofn Atal (2,3,5) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Gwella Diogelwch Cymunedol | £2,066.00 | £2,066.00 | £2,066.00 |
| Rhes 68 Cynllun Gwariant HRS 22/23 | | | |

Gwneir cyfraniad o £2,066 o gyllideb y Grant Cymorth Tai i alluogi Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn i brynu a gosod offer gwella diogelwch ac ati i gadw dioddefwyr a goroeswyr yn saff yn eu cartrefi. Nid ydym yn rhagweld unrhyw newid yn y swm a ddyrannwyd yn ystod y tair blynedd nesaf.

**X) Swyddi nad ydynt yn Rhai Statudol a Chyllid Arall**

**Maes Blaenoriaeth (1,2,3) / Colofn Atal (1,2,3,4) y Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai)**



Draft

| Enw'r Prosiect | Cyllid Blynyddol Arfaethedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/2024 | 2024/2025 |
| Swydd Cydlynydd SPoA * | £38,059 | £38,059 | £38,059 |
| Swydd Cynorthwy-ydd SPoA* | £32,327 | £32,327 | £32,327 |
| Rheoli Prosiectau ac Adnoddau Strategol* | £42,590 | £42,590 | £42,590 |
| Cyswllt Cymunedol Môn | £20,622.36 | £20,622.36 | £20,622.36 |
| Ymchwil* | £21,295 | £21,295 | £21,295 |
| Cyfraniad Rhanbarthol (0.5%) ** | £17,859 | £17,859 | £17,859 |
| Cyfraniad IDVA ** | £10,000 | £10,000 | £10,000 |
| Hyfforddiant ** | £10,000 | £10,000 | £10,000 |
| Cyfanswm | £192,752.64 | £192,752.64 | £192,752.64 |
| Cynllun Gwariant HRS 22/23 - Cyfanswm Cyfunol * Rhes 69<br>Cynllun Gwariant HRS 22/23 - Cyfanswm Cyfunol ** Rhes 72 | | | |

Mae'r tabl uchod yn ymwneud â chostau amrywiol eraill nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag unrhyw grŵp defnyddwyr gwasanaeth dynodedig yng Nghynllun Cymorth Tai 2022/23. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnydd mewn costau ar gyfer y ddwy rôl, ac nid ydym wedi cynnwys unrhyw gynnydd blynyddol. Os bydd unrhyw newid yn digwydd, byddwn yn adolygu'r sefyllfa bryd hynny ac, ar yr un pryd, yn ystyried sut y bydd hyn yn cael ei ariannu, gan gynnwys defnydd posibl o unrhyw gyllid GCT sydd heb ei neilltuo a grantiau a ffynonellau ariannu mewnol eraill yn y Cyngor.

**Cydlynydd a Chynorthwy-ydd SPoA** - Mae disgrifiad byr o rôl y Cydgysylltydd SPoA wedi'i gynnwys ar dudalen 6 y ddogfen hon. Cost y ddwy swydd ar hyn o bryd yw £70,386.

**Rheoli Prosiectau ac Adnoddau Strategol –** Croesawyd y penderfyniad i ymestyn y cyfnod ariannu cychwynnol ar gyfer rheoli prosiectau ac Adnoddau Strategol o 12 mis am 3 blynedd arall. Edrychwn ymlaen at atgyfnerthu a datblygu ymhellach yr Hyb Ailgartrefu Cyflym, y Cynllun Trosiannol a'r broses o Asesu Anghenion Defnyddwyr Gwasanaeth a rheoli data yn ystod y cyfnod hwn. Penodwyd swyddog ar sail dros dro i'r rôl hon ym mis Ebrill 2021, a'n bwriad yw gwneud defnydd llawn o'r trefniant ariannu hwn o fewn y Grant Cymorth Tai am 3 blynedd arall. Ar hyn o bryd, mae'n costio £42,590.00 i ariannu hyn.

**Cyfraniad Rhanbarthol (0.5%) -** Mae gan holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gytundeb sefydlog i gyfrannu at Gronfa Ranbarthol a reolir gan y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol (RHSG). Y grŵp hwn yw'r fforwm a gyfarwyddir gan y RHSCG i ddatblygu gwasanaethau lle nad oes màs critigol yn lleol, datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir eu cyflawnhau gan arbedion maint a pharhau i ddatblygu a gwella'r modd y darperir y Grant Cymorth Tai ar

Draft

draws Gogledd Cymru. Mae wedi cydnabod y meysydd gwasanaeth a restrir isod fel rhai y mae angen eu datblygu.

1. Comisiynu darpariaeth LGBTQ+ bellach ar gyfer y rhanbarth
2. Comisiynu Hyfforddiant pwrpasol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a Thai
3. Ymchwilio i'r cyfle i gomisiynu darpariaeth bellach ar gyfer dynion sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig
4. Comisiynu cyllid ar gyfer lloches diagnosis deuol (Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau) i bobl sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig.
    a. Dyfarnwyd cyllid i'r Bwrdd VAWDASV ac mae'r flaenoriaeth hon wedi'i gweithredu.
5. Ariannu'n rhannol wasanaeth hordio rhanbarthol mewn cydweithrediad â'r Grŵp Hordio Rhanbarthol.
6. Ymchwilio i'r cyfle i dreialu ymagwedd Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol.

**Cyfraniad y Gwasanaeth Ymgynghorol Annibynnol ar Gamdriniaeth Ddomesig (IDVA)**. Gwneir cyfraniad blynyddol o £10,000 i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at ddibenion gwasanaeth IDVA, a ddarperir ar y cyd ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Er ei fod wedi'i gomisiynu ar wahân, darperir y gwasanaeth hwn gan yr un darparwr a gomisiynir at ddibenion VAWDASV. Mae IDVA yn cefnogi dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd sy'n profi trais a chamdriniaeth ddomestig ac sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd mewn perygl mawr o niwed difrifol a dynladdiad. Mae'r cymorth yn cynnwys:

**Cynllunio diogelwch** - mabwysiadu ymagwedd lleihau niwed o fewn cynllun y cytunwyd arno.

**Gwybodaeth am yr opsiynau sifil sydd ar gael** - gall rhan o'r cynllun edrych ar orchmynion gan y llys sifil i atal y sawl sy'n cam-drin rhag cysylltu â'r dioddefwr/goroeswr a/neu blant.

**Gwybodaeth am yr opsiynau troseddol sydd ar gael** - gellir darparu cymorth os yw'r dioddefwr/goroeswr wedi adrodd am y drosedd i'r heddlu neu os oes angen help arno/arni i wneud hynny a bydd yr IDVA yn eu cefnogi drwy'r broses hon, ac yn y llys lle bydd angen hynny.

**Cyngor/asesiad noddfa** - Cynllun yw hwn i wneud i unrhyw un sy'n profi VAWDASV, i deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi drwy ddarparu mesurau diogelwch ychwanegol - newid cloeon, cloeon ffenestri, cadwyn ar y drws a mwy.

**Cyngor ar opsiynau tai** - Bydd yr IDVA hefyd yn trafod opsiynau tai os nad yw'r dioddefwr/goroeswr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain mwyach.

**Asesiad Risg Tân yn y Cartref** – gan gynnwys cyfeiriad at y gwasanaeth tân.

**Cymorth pellach** - Gall y gwasanaeth IDVA gyfeirio i asiantaethau eraill os bydd angen cymorth tymor hir ar y dioddefwr/goroeswr neu angen addysg ynghylch VAWDASV neu gymorth emosiynol.



Draft

**Hyfforddiant** – Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglen hyfforddi a chymorth therapiwtig i staff a rheolwyr a ariennir gan y GCT, i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys Dulliau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol fel yr amlinellir yn Atodiad 1 ein Strategaeth CGT sy'n cyd-fynd â'n model Blaenoriaeth 2 (cyfnod byr) o atal cyffredinol o fewn y model 5 colofn.

**Tanwariant** – Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, amcangyfrifir bod gennym danwariant posibl o £8,148.01. Mae'n debygol y bydd unrhyw danwariant yn cael ei ddefnyddio i ariannu unrhyw swyddi nad oes unrhyw ychwanegiad wedi ei gynnwys ar eu cyfer ym mlwyddyn ariannol 2022/23.


..........................................................................................................................

## 4. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae cynnwys rhanddeiliaid wedi bod yn flaenoriaeth a y bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, er gwaethaf heriau diamheuol Covid-19.
Rydym wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'n holl ddarparwyr, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y flwyddyn, yn bennaf drwy ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir ar MS Teams a Zoom, a rhannu gohebiaeth yn rheolaidd dros e-bost.

Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar-lein mewn perthynas â'n Strategaeth Cymorth Tai fel y gwelir o'r dolenni isod.

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022 i 2026: ymgynghoriad (anglesey.gov.uk)




Gellir gweld yr ymarferion ymgynghori canlynol o'r eicon hyperddolen isod.

- Eich Gwasanaeth, eich Barn - Holiadur Ar-lein ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth – arolwg parhaus drwy gydol y flwyddyn i mofyn barn ar y modd y darperir gwasanaethau, ansawdd y gwasanaethau hynny, unrhyw fylchau ynddynt ac unrhyw fodd o'u gwella.

- Adroddiad ar Ganlyniadau Ymgynghori Lleol CSYM ar Ailgartrefu Cyflym – ennyn dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'n defnyddwyr gwasanaeth wrth wynebu digartrefedd. Roedd yr holiadur wedi ei anelu at denantiaid sydd wedi bod yn ddigartref o fewn y 12 mis diwethaf, defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd a defnyddwyr gwasanaeth mewn llety â chymorth.
- Atborth Rhanbarthol mewn perthynas â'r Holiadur i Ddarparwyr Gwasanaethau ar Wasanaethau GCT.
- Adborth Rhanbarthol mewn perthynas â'r Holiadur i Ddefnyddwyr Gwasanaethau ar Wasanaethau GCT.
- Astudiaethau Achos GCT Ynys Môn

Summary of feedback received fr

| Enw'r Rhanddeiliad | Swyddogaeth | Math o Ymgysylltu a Gynhaliwyd |
|---|---|---|
| Defnyddwyr Gwasanaeth | | Derbyn cymorth, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, a gwella drwy gwblhau Eich Gwasanaeth Eich Barn. Cynrychiolaeth ar baneli gwerthuso tendrau. |
| **Darparwyr Gwasanaethau**<br><br>**Camdrniaeth Ddomestig** – Gorwel<br><br>**Anabledd Dysgu**<br>Cartrefi Cymru- Tyddyn Môn – Gofal Môn<br><br>**Camddefnyddio Sylweddau a Throseddu**<br>CAIS<br><br>**Iechyd Meddwl**<br>CSS<br><br>**Pobl Ifanc Fregus**<br>Hafan Cymru<br><br>**Pobl Sengl 25-54**<br>Y Wallich<br><br>**Pobl Hŷn**<br>Gorwel | Darparwyr Gwasanaethau | • Adolygiadau Gwasanaeth,<br>• Monitro, (ddwywaith y flwyddyn fesul darparwr)<br>• Canlyniadau<br>• Dau ddarparwr â chynrychiolaeth ar y Grŵp Cynllunio<br>• Fforwm Darparwyr ( Pob Chwarter)<br>• Grwpiau Rhanddeiliaid ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a Throseddu<br>• Paneli Llwybr ar gyfer Pobl Ifanc Fregus, Iechyd Meddwl, Troseddu. |

Draft

| | | |
|---|---|---|
| **Cyffredinol ac Ailsefydlu Carcharorion**<br>Gwasanaethau Tai | | |
| Gwasanaethau i Oedolion | Darparwr Gwasanaeth, Cyd-Gomisiynwyr | Mae’r Darparwr Gwasanaeth, y sawl sy’n gwneud cyfeiriadau i SpoA a’r Rheolwr Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu yn aelod o Grŵp Cynllunio GCT. Atgyfeiriadau a dderbyniwyd i SPoA. Fel rhanddeiliaid, gwneir cyfraniadau at Adolygiadau Gwasanaeth Darparwyr. Aelod o Baneli Gwerthuso Tendrau ar gyfer caffael Gwasanaethau GCT |
| Gwarchod y Cyhoedd CSYM | | Darparu Elfen Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru o'r Grant Cymorth Tai, Cydlynu’r Fforwm Landlordiaid Preifat |
| Gwasanaethau Plant | | Mae’r Rheolwr Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf / Atal ac Ymyrraeth Gynnar a Rheolwr y Rhaglen Dechrau’n Deg yn aelodau o Grŵp Cynllunio GCT. Mae’r swyddog sy’n gwneud cyfeiriadau i SpoA yn aelod o’r Panel Un Drws Ffrynt. Fel rhanddeiliad, maent yn cyfrannu at Adolygiadau Gwasanaeth Darparwyr. |
| Gwasanaethau Prawf | | Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn aelod o Grŵp Cynllunio GCT. Aelod o Baneli Gwerthuso Tendrau ar gyfer caffael GCT, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Gwasanaethau Troseddu. Atgyfeiriwr i SpoA |
| BIPBC | | Mae’r Rheolwr Llety â Chymorth Iechyd Meddwl a’r Rheolwr Camddefnyddio Sylweddau yn aelodau o Grŵp Cynllunio GCT. Fel rhanddeiliaid, maent yn cyfrannu at Adolygiadau Gwasanaeth Darparwyr. Aelod o Baneli Gwerthuso Tendrau ar gyfer caffael Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Throseddau GCT. Cyfeirio i SPoA drwy Ymwelwyr Iechyd, Meddygon Teulu, Gweithwyr Dechrau'n Deg, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol SMS ac ati. |
| Heddlu Gogledd Cymru (PVPU | | Aelod o’r Panel Un Drws Ffrynt. Wedi arwain ar Brosiect ACEs diweddar yr oedd y GCT yn aelod allweddol ohono |
| Gwasanaethau Tai | | Mae’r Pennaeth Gwasanaeth (Cadeirydd) a’r Rheolwr Strategaeth, Polisi a Chomisiynu Tai yn aelodau o Grŵp Cynllunio GCT ac fel rhanddeiliad, maent yn cyfrannu at Adolygiadau Gwasanaeth Darparwyr. Aelod o'r Panel Tendr. Gweithio'n agos |

Draft

| | | |
|---|---|---|
| | | gyda Swyddog Cyswllt y Sector Rhentu Preifat. Paneli Gwerthuso ar gyfer caffael Gwasanaethau GCT. Anfon cyfeiriadau i SPoA drwy Swyddog Opsiynau Tai, Swyddog Datrysiadau Tai, Atal Digartrefedd CSYM, Swyddogion Rheoli Stadau, gan gynnwys Swyddog Ôl-ddyledion ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | | Mae Hyfforddwyr Gwaith yn cyfeirio at SpoA |
| Grŵp Cynefin | Cymdeithasau Tai | Landlord Cymdeithas Tai |
| Tai Gogledd Cymru | | Landlord Cymdeithas Tai |
| Clwyd Alyn | | Landlord Cymdeithas Tai |
| Canolfan Cyngor ar Bopeth | Sefydliadau Partner | Yr Asiantaeth Ddynodedig ar gyfer Cyngor Arbenigol ar Ddyledion i Ddefnyddwyr Gwasanaeth. |
| Hafal | | Darparwr Cymorth Llwybr Iechyd Meddwl |
| Shelter | | Cyngor arbenigol ar Dai/ Digartrefedd ac eiriolwr dros Ddefnyddwyr Gwasanaeth |
| Medrwn Mộn | | Sefydliad Ymbarél y Trydydd Sector ac aelod o Grŵp Cynllunio GCT. Darparu gwasanaethau atal a chyfeirio lefel isel ar gyfer dinasyddion bregus. Ceir manylion uchod am y Llwybr Gwasanaeth sy'n cael ei ddatblygu rhwng Cyswllt Cymunedol Mộn a GCT. Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Grŵp Cynllunio GCT. |

Fel sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi parhau i gynnal ymarferion monitro ddwywaith y flwyddyn yn ystod misoedd Ebrill / Mai a Hydref /Tachwedd, ac adolygiadau gwasanaeth bob 3 blynedd. Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn ar ôl cwblhau ffurflen hunanasesu, yn ogystal ag ymgynghori ar faterion eraill megis hyfforddiant, diogelu a chanlyniadau. Cynhyrchwyd adroddiadau manwl, ac mae dau Swyddog Adolygu Contractau a Datblygu'r Tîm hefyd wedi mofyn barn y staff, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid partner allanol yn ogystal â barn rheolwyr sy'n cwblhau'r hunanasesiad. Ar ôl ei gwblhau, rhennir yr adroddiadau monitro gyda'r rheolwyr gwasanaeth dynodedig ar gyfer sylwadau ac ymgynghori pellach, a chaiff y cynllun gweithredu o'r adolygiad gwasanaeth cychwynnol ei ddiweddaru yn unol â hynny.

Mae'r ymarferion monitro a'r adolygiadau gwasanaeth yn ddulliau hanfodol o gyfathrebu ac ymgysylltu â darparwyr, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, ac yn rhoi'r dystiolaeth a'r wybodaeth ofynnol i ni wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â blaenoriaethau allweddol.

SU Interview questions Summary.

Monitoring Report Template English.dc

Draft

Ceir tystiolaeth glir o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y ddogfen hon e.e. datblygu'r Asesiad o Lefelau Angen, Gweithio gyda Chyswllt Cymunedol Môn i weithredu'r ymyriad lefel isel, paneli gwerthuso tendrau, paneli llwybr ac ati.

Byddwn yn parhau i bwysleisio'r angen i weithio mewn partneriaeth wrth i ni geisio gweithredu ein blaenoriaethau cyflawni yn y ddogfen hon a thrwy hynny, fodloni'r nodau a'r amcanion sydd yn ei Strategaeth GCT 4 blynedd.

..................................................................................................................

## Atodiadau

### Atodiad A - Asesiadau effaith – Wedi ei gwblhau

### Atodiad B – Cynllun Gwariant y Grant Cymorth Tai


Final Copy of HSG - Spend plan templat

### Atodiad C - Cynllun Comisiynu – Gweler yr Adran ar Flaenoriaethau Cyflawni

### Annex D- Dyletswyddau Statudol o ran Digartrefedd –

Dangosir strwythur y Tîm Asesu isod sy'n cynnwys y swyddi a ariennir drwy'r GCT. Mae ymarfer brysbennu cychwynnol yn ymrwymo i sefydlu materion allweddol a'r risg o ddigartrefedd, gan sicrhau ein bod yn targedu gwasanaethau gystal ag y gallwn i sicrhau nad oes neb mewn perygl o orfod cysgu ar y stryd. Gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau GCT bryd hynny hefyd er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu cyn gynted â phosibl.

Draft




Gall swyddogion gyfeirio unrhyw achos y maent yn gweithio arno i'n trefniant gyda Shelter Cymru, sy'n arbenigo mewn cyfraith a pholisi tai yng Nghymru, gyda gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chyfredol o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Shelter yn darparu gwasanaeth cynghori annibynnol ac yn cynorthwyo'r Cyngor yn eu huchelgais i wella gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Maent wedi bod yn darparu'r Gwasanaeth Cymorth Atal Digartrefedd yn llwyddiannus ers mis Medi 2018 drwy ddarparu Ymgynhorydd Atal Digartrefedd Annibynnol sefydledig. Mae'r ymgynghorydd yn gallu cynorthwyo gyda:

- achosion a'r mathau o gyngor a gynigir
- sesiwn fentora un-i-un
- sesiynau hyfforddi/briffio
- adolygiadau digartrefedd

Gall aelodau'r Tîm Asesu hefyd gysylltu ag Asesydd Iechyd Meddwl, a ddarperir gan Adferiad, a fydd yn cynorthwyo gyda chleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl ac y gall yr Asesydd Iechyd Meddwl roi arweiniad a chyngor iddynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi gwybodaeth a cipolwg ychwanegol i swyddogion ar effeithiau cyflyrau a meddyginiaethau penodol a sut orau i ddarparu cymorth.

Gall rheolwyr gael mynediad at a chyfeirio at fenter Mentora Proffesiynol y Gwasanaethau Tai sy'n darparu cymorth hyfforddi a mentora penodol ar achos / mater penodol i staff y Gwasanaethau Tai. Ar adegau, efallai y bydd angen cymorth

a gwrandawiad ychwanegol ynghylch materion cymhleth a / neu faterion sydd wedi cael mwy o effaith ar eu lles *(mae'n bwysig peidio â bod yn rhy benodol oherwydd bydd sefyllfaoedd a senarios penodol yn effeithio'n wahanol ar swyddogion)*

Mae'r Rheolwr Llinell yn gallu cyfeirio ac yn cael cymorth a chyngor mentora ychwanegol.

Mae'r Goleudy, sy'n cael ei redeg gan Digartref, yn cynnig cymorth i unigolion sy'n mynd at eu gwasanaethau am gymorth a chyngor sy'n ychwanegol at y cymorth a gynigir gan y Tîm Asesu. Gall hyn gynnwys pobl sy'n mynd at eu gwasanaethau yn y lle cyntaf neu bobl sy'n hysbys i'r Tîm Asesu. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol yma i gynnig atebion i helpu i ddelio ag amrywiaeth o faterion a chymhlethdodau.

Draft

.

**Cynllun Gwaith Pontio Ailgartrefu Cyflym Ebrill 2022- Mawrth 2027**

Mae'r Cynllun Gwaith Pontio Ailgartrefu Cyflym yn nodi'r modd y bydd Cyngor Ynys Môn yn trosglwyddo i fodel Ailgartrefu Cyflym o ddarparu gwasanaethau digartrefedd. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar 6 thema a chamau allweddol y bydd angen eu gweithredu i gyflawni'r Cynllun yn ystod y cyfnod 2022-27.

| | **Themâu Allweddol** | **Camau Gweithredu'r Cynllun Pontio** |
|---|---|---|
| **1.** | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, data digartrefedd a dadansoddi angen | Bydd y dull gweithredu yn nodi'r bwlch rhwng y galw a'r cyflenwad yn ogystal â'r galw rhagweledig am wasanaethau yn awr ac yn ystod y 5 mlynedd nesaf.<br><br>Cynhelir dadansoddiad fel y gellir cael darlun clir o'r sefyllfa erbyn mis Medi 2022. |
| **2.** | Asesu Anghenion Cymorth | Mae angen cynnal asesiad eang a systematig o anghenion fel y gellir casglu gwybodaeth gywir mewn perthynas â'r gofynion o safbwynt cymorth a'r dull o'u cyflenwi.<br><br>Mae angen dau beth:<br><br>• Dadansoddiad o nifer y cleientiaid presennol ym mhob un o'r pedwar categori; a<br>• Amcangyfrif o'r cymarebau o ran y cyflwyniadau sy'n debygol ar sail flynyddol wrth symud ymlaen.<br><br>Bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus.<br><br>Erbyn mis Ebrill 2022, bydd pob Darparwr Cymorth GCT wedi nodi pob defnyddiwr gwasanaeth trwy ddefnyddio pecyn asesu angen ar sail Isel/Canolig/Uchel, a bydd yn rhoi atborth bob wythnos i SPoA y GCT. Darparwyd hyfforddiant ar gyfer yr holl Ddarparwyr yn 2021.<br><br>Caiff lefelau'r anghenion cymorth eu hystyried yn ofalus ac ochr yn ochr â hynny, rhoddir ystyriaeth i am ba hyd y mae cleientiaid yn debygol o fod angen y cymorth.<br><br>Er budd cysondeb a thryloywder, mae CSYM wedi sefydlu Asesiad o'r Cynllun Cymorth GCT sy'n cael ei ddefnyddio'n fewnol ac yn allanol ac sy'n nodi'r tair carfan (I/C/U) yn ogystal ag achosion cymhleth. O'r herwydd, bydd modd cefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth sydd angen cymorth arbenigol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd asesiadau angen yn cefnogi ac yn cynorthwyo pobl i symud ymlaen a chynnal eu llety yn y tymor hir. Defnyddir y 4 maes cymorth isod;<br><br>• Ymarferol<br>• Penodol/arbenigol<br>• Ymgysylltu a sefydlogi<br>• Dilyniant<br>Bydd gofynion llety yn cael eu hystyried rhag ofn eu bod yn effeithio ar lefel y cymorth sydd ei angen.<br>• Lleoliad<br>• Deiliadaeth<br>• Fforddiadwyedd<br>• Hygyrchedd<br>• Cyfarpar<br>Datblygu ymhellach yr Hyb Ailgartrefu Cyflym ar gyfer Ynys Môn sy'n cynnwys;<br>• Swyddog Ymateb Cyflym<br>• Swyddog Achosion Cymhleth<br>• Swydddog Symud Ymlaen<br>• Ailsefydlu carcharorion<br>• Gweithiwr Cymorth Iechyd Meddwl<br>• Llety Camu i Lawr<br>• Swyddog Cymorth Pontio i bobl ifanc<br>Y Swyddog achosion cymhleth sy'n bennaf gyfrifol am gydlynu gwasanaethau.<br><br>Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwaith datblygu i ychwanegu Grant Atal Digartrefedd at y ddarpariaeth GCT a'r Hyb Ailgartrefu Cyflym. Bydd angen i hyn gael ei weithredu'n llawn erbyn 2024 |
| **3.** | Deall y Cyflenwad o Lety Dros Dro sydd ar gael yn lleol | Ennyn dealltwriaeth o raddfa ac ansawdd y llety dros dro sydd ar gael. Sicrhau darpariaeth gyflawn a chyfredol ar gyfer pob un o'r lleoliadau llety canlynol:<br>• Llety Dros Dro<br>• Llety â Chymorth<br>• Arall (gan gynnwys gwely a brecwast, lloches ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth ddomestig ac ati)<br>Gan gynnwys gwybodaeth am:<br>• Capasiti<br>• Nifer yr aelwydydd sy'n byw yn y llety ar 31 Mawrth, a llif net i mewn/allan yn y flwyddyn<br>• Math o aelwydydd<br>• Lefel y cymorth a ddarperir<br>• Am ba hyd ar gyfartaledd y mae pobl yn aros ym mhob un o'r lleoliadau (ar gyfer 2020/21 a 2019/20) |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Taliadau wythnosol, gan gynnwys yr holl renti a thaliadau gwasanaeth<br>Bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2022 |
| **4.** | Cynllunio'r trawsnewidiad mewn perthynas â Llety Dros Dro | Darparu llety dros dro fydd yn cydymffurfio â'r safonau ansawdd ac a fydd yn seiliedig ar sicrhau urddas a pharch i'r defnyddwyr gwasanaeth. Bydd Cyngor Ynys Môn yn edrych ar:<br>• Addasu llety at ddibenion gwahanol<br>• Edrych ar y cyflenwad presennol a'r cyflenwad yn y dyfodol<br>• Datblygu Hyb Ailgartrefu Cyflym |
| **5.** | Datblygu'r Cynllun | Bydd y cynllun yn rhoi sylw i'r pwyntiau allweddol sylfaenol canlynol<br>• Cefnogi<br>• Cyflenwi a Thrawsnewid<br>• Atal<br>• Model Llety<br>• Cynyddu effeithlonrwydd<br>• Ymgysylltu<br>• Staffio<br>• Ymateb i'r Pandemig<br>• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>Bydd Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r cynllun hwn |
| **6.** | Cynllunio Adnoddau | Mae angen gwneud mwy o waith yn ystod y 12 mis nesaf i ddeall sut y bydd y model Ailgartrefu Cyflym yn gweithio o safbwynt ariannol. Er bod y model o symud pobl yn gyflym drwy lety dros dro i lety sefydlog yn ddrutach i ddechrau, deëllir yn gyffredinol y bydd, yn y tymor hir, o fantais o ran arbed costau a'r disgwyliad yw y gellir symud i Ailgartrefu Cyflym o sail cost niwtral.<br>Ar hyn o bryd, mae gennym 23 o unedau a nodwyd o dan Grant Cam 2 Llywodraeth Cymru a fydd yn mabwysiadu egwyddorion Ailgartrefu Cyflym. Bydd hyn yn cychwyn ym mis Chwefror 2022. |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Grant Cymorth Tai
Housing Support Grant

# ASESIAD O ANGHENION GRANT CYMORTH TAI YNYS MÔN 2022-2024

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Pwrpas yr Asesiad o Anghenion
3. Datganiad Angen
4. Diffinio'r boblogaeth darged
5. Grwpiau angen blaenoriaethol Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:-
   a) Tai a Digartrefedd
   b) VAWDASV
   c) Iechyd Meddwl
   d) Anableddau Dysgu
   e) Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys Dementia
   f) Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig
   g) Plant a Phobl Ifanc
   h) Cyn-filwyr
   i) Iechyd ac Anabledd
   j) Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc
   k) Lleoliadau Diogel
6. Gwasanaethau Generig
7. Camddefnyddio Sylweddau
8. Teuluoedd sy'n Agored i Niwed
9. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)
10. Blaenoriaethau Cymorth Tai Rhanbarthol fel y nodwyd gan y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol
11. Mynediad i Wasanaethau Goleudy
12. Cwnsela, Cyfryngu a Gwasanaethau Therapiwtig Eraill
13. Data Allweddol ynghylch Tai a Digartrefedd
14. Fforddiadwyedd
15. Adolygiad Digartrefedd
16. Atal Digartrefedd
17. Data Amddifadedd
18. Porth Mynediad Sengl i Wasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai
19. Ymgynghoriad gyda Defnyddwyr / Rhanddeiliaid Gwasanaethau Lleol (Eich Gwasanaeth Eich Barn)
20. **20.** Ymgynghoriadau â Defnyddwyr Gwasanaeth / Rhanddeiliaid

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Asesiad o Anghenion hwn yn amlinellu'r galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol am wasanaethau cymorth tai a digartrefedd ar gyfer Ynys Môn ac mae'n ofynnol o dan ganllawiau'r Grant Cymorth Tai (HSG) 2021.

Dan y telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â derbyn arian grant HSG, rhaid cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion bob pedair blynedd, ynghyd ag adolygiad ysgafn bob 2 flynedd.

Bydd canfyddiadau'r ddogfen hon yn llywio ein Strategaeth Cymorth Tai 4 Blynedd, ein Cynllun Ailgartrefu Cyflym a'n gwaith comisiynu strategol ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Tai yn ystod y cylch cynllunio a chomisiynu 26/27 – 29/30.

## 2. Diben yr Asesiad o Anghenion

Bydd yr Asesiad o Anghenion hwn yn:

- Diffinio'r boblogaeth darged
- Asesu'r anghenion gan ddefnyddio data allanol
- Asesu'r anghenion gan ddefnyddio data mewnol
- Asesu'r anghenion drwy gasglu gwybodaeth o atborth gan gleientiaid
- Nodi bylchau yn y ddarpariaeth o gymorth
- Hysbysu'r Datganiad o Angen
- Nodi blaenoriaethau sy'n bwydo i mewn i'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu

## 3. Datganiad o Angen

Mae ein datganiad o angen yn seiliedig ar ein canfyddiadau allweddol o'r Asesiad o Anghenion.

## 4. Diffinio'r boblogaeth darged

Cam cyntaf a phwysicaf yr asesiad o anghenion yw penderfynu pwy yw'r boblogaeth darged mewn perthynas â Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai.

Mae papur academaidd sy'n ceisio nodi pwy sydd yn y pergygl mwyaf o fod yn ddigartref yn y DU, 2017 yn dangos bod ffactorau economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd person yn ddigartref ac yn nodi:

- Os yw tlodi'n ffactor canolog, yn enwedig tlodi ymysg plant, gall hynny gynyddu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael profiad o ddigartrefedd
- Bod y cyd-destunau ehangach o ran y farchnad dai yn cael effaith ar ddigartrefedd
- Y gall dylanwad rhai nodweddion demograffig, personol a chymorth chymdeithasol gael effaith ar y tebygolrwydd o ddigartrefedd

Gall trawma hefyd gael effaith ar unigolyn a dywedodd Sefydliad Lanlkey Chase 2015 fod 85% o'r rhai sydd â chyswllt â'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol, camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau digartrefedd wedi profi trawma fel plant.

Gall y profiad o ddigartrefedd gael effaith sylweddol ar iechyd, gydag unigolion yn aml yn dioddef iechyd meddwl gwael, salwch corfforol, dibyniaeth ar sylweddau, disgwyliad oes is, a nifer uwch o farwolaethau y gellid bod wedi eu hatal. O ganlyniad, bydd gan unigolion angen anghymesur o uchel am wasanaethau gofal iechyd, ond byddant yn aml yn ei chael yn anodd cael gafael ar ofal iechyd, a chyda pandemig COVID-19, mae'n debygol y bydd y sefyllfa wedi gwaethygu. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn adroddiad gan GIG Cymru, 2021 Iechyd Unigolion sydd â phrofiad byw o

ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod ystod pandemig Covid-19 ac yn nodi bod 'Iechyd gwael yn digwydd oherwydd, ac o ganlyniad i ddigartrefedd'. Mae'r modd y darperir gwasanaethau hefyd wedi gorfod newid, gyda'r angen i fod yn fwy arloesol o ran sut y caiff cymorth ei ddarparu yn wyneb y gofynion i lynu wrth fesurau pellter cymdeithasol, yr angen i wisgo masgiau ac ati. Dywedwyd hefyd bod newidiadau o'r fath wedi cael effaith amrywiol ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gyda'r sawl sydd yn eu llety eu hunain neu lety hunangynhwysol dros dro yn fwy cyndyn i ymgysylltu, efallai oherwydd mesurau pellter cymdeithasol yn y gorffennol, dim yn teimlo'n ddiogel ac ati. O ganlyniad, daeth nifer hyd yn oed yn fwy anodd i'w cyrraedd nag o'r blaen gyda hynny'n eu gwneud yn fwy bregus.

## 5. Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid cynnal Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, gyda'r asesiad hwnnw'n darparu gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru ac anghenion cymorth gofalwyr. Cynhaliwyd Asesiad o Anghenion Poblogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn 2017 ac mae'n sail i Gynllun Rhanbarthol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod 2018 - 2023. Mae'r Asesiad o Anghenion hwn yn dilyn yr 11 grŵp blaenoriaeth fel y cawsant eu nodi yn y Cynllun Rhanbarthol, sef:

a) Tai a Digartrefedd
b) VAWDASV
c) Iechyd Meddwl
d) Pobl ag anableddau dysgu
e) Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
f) Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig
g) Plant a phobl ifanc
h) Cyn-filwyr
i) Iechyd ac Anabledd
j) Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
k) Mannau Diogel

Mae'r adran nesaf (a-k) yn dilyn yr 11 grŵp blaenoriaeth fel y cawsant eu nodi gan y Bwrdd Rhanbarthol gyda thystiolaeth bellach yn cael ei darparu o ddata'r Gwasanaethau Cymorth Tai ar dueddiadau cyfredol ac anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu.

### a) Tai a Digartrefedd

Yn y Cynllun, ystyrir mai Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai sy'n arwain drwy'r Strategaethau Tai a bod y Bwrdd yn gweithio gyda'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol.

### b) VAWDASV

Amcangyfrifir bod 1 o bob 4 menyw ac 1 o bob 6 dyn yn profi camdriniaeth ddomestig yn ystod eu hoes (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014) ac amcangyfrifir y bydd nifer sy'n cyfateb i 16,000 o fenywod ac 8,000 o ddynion yn dioddef yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn. Nodwyd yng Nghynllun Rhanbarthol y Bartneriaeth fod angen:-

- Cymorth ar blant a phobl ifanc sy'n dyst i drais a chamdriniaeth ddomestig
- Digon o ddewisiadau o safbwynt tai ar gyfer dioddefwyr trais a chamdriniaeth ddomestig sydd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol y byddai angen darparu staff 24 awr ar eu cyfer

- Cael mwy o wybodaeth am y galw am gymorth arbenigol, fel cymorth hyblyg, ar gyfer pobl BAME yng Ngogledd Cymru

Mae atgyfeiriadau i Wasanaethau Cymorth Tai ar gyfer cymorth mewn perthynas â Chamdriniaeth Ddomestig yn ystod ac ar ôl Covid-19 wedi cynyddu - cafwyd cyfanswm o 118 o atgyfeiriadau yn ystod 2020/21. Nid yw hyn yn cynnwys camdriniaeth ariannol, emosiynol a rhywiol oherwydd nid oedd y rhain yn cael eu categoreiddio fel trais.

Derbynnir yn gyffredinol gan ddarparwyr gwasanaethau arbenigol, yr Heddlu a'i gofnodi hefyd yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol nad oedd y lefel wirioneddol o gamdriniaeth ddomestig yn cael ei chofnodi'n gyson yn ystod y cyfnod clo. Roedd llawer o deuluoedd wedi'u cyfyngu i'w heiddo a hynny'n lleihau'n sylweddol y cyfleon a oedd ar gael iddynt roi gwybod am achosion o gamdriniaeth a digwyddiadau mynych gyda hynny'n arwain at gynnydd yn yr angen nad oedd yn cael ei ddiwallu.

Mae bwlch penodol yn y ddarpariaeth ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth rywiol ar yr Ynys, a dylid ystyried rhoi arian i'r darparwr arbenigol yn y maes hwn - darparwr sy'n annibynnol ar y math mwy traddodiadol o wasanaethau VAWDASV a ddarperir ar hyn o bryd.


**c) Iechyd Meddwl**

Yn ôl yr adroddiadau a gafwyd, mae pobl yng Ngogledd Cymru ag iechyd meddwl sydd ychydig yn well na'r cyfraddau ar lefel Cymru gyfan ond cydnabu'r Bwrdd:


- Bod nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu
- Yr afiechydon meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd yw gorbryder ac iselder
- Mae ymchwil yn awgrymu nad yw nifer uchel o bobl â phroblemau iechyd meddwl yn chwilio am gymorth
- Mae nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i gyfleusterau iechyd meddwl yn lleihau
- Mae nifer y bobl ag anghenion mwy cymhleth yn cynyddu
- Mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o fod ag iechyd corfforol gwael.

Mae gan tua 9,400 o bobl sy'n byw yn Ynys Môn un o'r anhwylderau iechyd meddwl cyffredin. (Gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru). Yn seiliedig ar wybodaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, amcangyfrifir bod gan 10% o blant 5 i 16 oed yn Ynys Môn (840 o blant) anhwylder iechyd meddwl; sydd yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Gwelwyd symudiad sylweddol o ran atgyfeiriadau i Wasanaethau Cymorth Tai ar gyfer iechyd meddwl dros y 18 mis diwethaf. Yn 2020/201, cyflwynodd 38% (237) o bobl ag anghenion lefel isel, 40% (257) ag anghenion lefel ganolig a 22% (137) ag anghenion lefel uchel. O gymharu â chwe mis cyntaf 2021/22, mae 15% (49) wedi cyflwyno ag anghenion lefel isel, 58% (127) ag anghenion lefel ganolig a 46% (151) ag anghenion lefel uchel. Cyflwynodd cyfanswm o 631 o bobl ag anghenion iechyd meddwl yn 2020/21, ac rydym yn rhagweld y bydd 654 wedi cyflwyno yn 2021/22. Mae'r graff bloc isod yn dangos y data a grybwyllir uchod ar gyfer y ddwy flynedd.




Fel rhan o'r asesiad ar gyfer cymorth iechyd meddwl, rydym yn gofyn beth yw'r risgiau i'r unigolyn. Nodir yn y graff isod y mathau o risg ar adeg cyflwyno drwy ein Gwasanaeth SPoA, ac mae'n cyfeirio at 2021/22 a 6 mis cyntaf 2021/22.




Mae anghenion fel hunanladdiad, teimlo i fyny ac i lawr, hunan-niweidio ac ymddygiad i gyd yn gysylltiedig â chyflyrau iechyd meddwl. Mae'r graff bar uchod yn dangos cynnydd sylweddol yn ystod 2021/22 yn nifer y bobl sydd mewn perygl o ladd eu hunain a hunan-niweidio.

**Bylchau a phroblemau a nodwyd yn y gwasanaethau i Bobl ag Anghenion Iechyd Meddwl**

- Gwelwyd cynnydd yn yr anghenion lefel uchel o fewn y gwasanaethau cymorth iechyd meddwl

- Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sydd mewn perygl o ladd eu hunain neu niweidio eu hunain

**d) Pobl ag Anableddau Dysgu**

Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn cydnabod bod y cyfnod trosiannol pryd bydd defnyddwyr gwasanaeth yn symud o ofal y gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion yn allweddol i sicrhau bod gan bobl ag Anableddau Dysgu y sgiliau a'r gallu angenrheidiol i fyw'n annibynnol gyda chymorth priodol o ran tai. Mae angen annog pobl ifanc sydd ar fin symud o'r naill wasanaeth i'r llall, ynghyd â'u teuluoedd, i roi ystyriaeth cyn gynted ag y bo modd i drefniadau byw â chymorth i'w galluogi i gyflawni eu potensial, drwy fyw'n annibynnol gyda chymorth tai priodol, gan atal felly yr angen iddynt fynd i lefydd mwy sefydliadol yn ddiweddarch yn eu bywydau.

Mae'r manylion chwarterol y mae Gwasanaethau Oedolion yn eu hanfon i Lywodraeth Cymru yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl ag anableddau dysgu lle mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau gofal ar eu cyfer. O'r un data, rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer uchel o bobl ag anableddau dysgu yn byw yng nghartref y teulu, yn aml nes bydd eu rhiant/rhieni yn oedrannus ac ddim yn gallu gofalu amdanynt a rhoi cymorth iddynt mwyach.

Mae lefel y cymorth a ddarperir drwy GCT i bobl ag anableddau dysgu yn uchel. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasabaethau Oedolion yn adolygu eu darpariaeth byw â chymorth a rhagwelir y bydd tendrau ar gyfer gwasanaethau ar y cyd mewn perthynas â gofal a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael eu gwahodd oddeutu canol i ddiwedd 2022.


**Bylchau a phroblemau o nodwyd yn y gwasanaethau i Bobl ag Anableddau Dysgu**

- Mae tua hanner y bobl sy'n cael eu cydnabod fel rhai ag Anableddau Dysgu yn derbyn gwasanaethau cymorth tai (Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gwariant HSG)
- Mae prinder llety unllawr priodol wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. (Adran Gwasanaethau Oedolion CSYM - Dadansoddiad o'r Llety sydd ar gael ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol – Ynys Môn)
- Erys lefel anghymesur o gymorth sy'n cael ei chapio ar uchafswm o 15 awr y pen yr wythnos i bobl ag Anableddau Dysgu. Mae hyn yn cymharu ag uchafswm o 5-8 awr ar gyfer y rhai ag anghenion heriol sy'n anhrefnus, yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd angen y lefel uchaf o ymyrraeth ac eithrio cymorth 24/7 mewn hostel
- Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Cymorth Tai yn rhai nifer isel, cost uchel o ran y grŵp cleientiaid hwn
- Anaml y bydd pobl ag anableddau dysgu sy'n byw mewn llety â chymorth a llety a rennir yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol
- Mae nifer y bobl ag Anableddau Dysgu nad ydynt yn bodloni'r diffiniad statudol o Anabledd Dysgu yn uchel ar Ynys Môn. Felly, mae angen cymorth tai parhaus ar y grŵp cleientiaid hwn i'w galluogi i reoli eu tenantiaethau

**e) Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia**

Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio gyda 18,639 (26.5%) yn 65 oed neu'n hŷn ac o'r grŵp oedran hwn, mae'r rhai sy'n 85+ oed yn cyfrif am 3.4% o'r boblogaeth ac mae 9% rhwng 75-84 oed a 14.1% rhwng 65 a 74 oed.

Rhagwelir y bydd y garfan oedran 65+ yn cynyddu o 30.3% i 31.6% erbyn 2035. Disgwyliad oes dynion a menywod ar Ynys Môn yw 78.5 ac 83 oed yn y drefn honno. Mae'r cynnydd a ragwelir yn y grŵp oedran 65+ ac yn arbennig y garfan 85+, yn debygol o roi mwy o bwysau ar y sectorau gofal a chymorth. Mae pobl sy'n byw i fod yn hŷn angen gwasanaethau fel gofal cymdeithasol, (gan gynnwys gofal personol), amrywiaeth o opsiynau llety megis tai gwarchod a gofal ychwanegol, cartrefi wedi'u haddasu gyda chawodydd mynediad gwastad ac ati drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a mynediad i leoliadau cartrefi gofal preswyl a nyrsio.




Mae'r nifer uchaf o bobl sy'n cael cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ei dderbyn dan y gwasanaeth peripatetig yr ydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd ar gyfer pobl hŷn (pobl sy'n 55+ yn ôl diffiniad Lywodraeth Cymru).

**Bylchau a phroblemau a nodwyd yn y gwasanaethau i Bobl Hŷn**

- O ystyried y proffil demograffig rhagamcanol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, mae nifer y bobl hŷn sydd angen gwasanaethau cymorth tai yn debygol o gynyddu
- Mae proffil demograffig poblogaeth Ynys Môn yn awgrymu bod angen ychwanegu at yr amrywiaeth a'r cyflenwad o fathau penodol o opsiynau llety sydd ar gael i bobl hŷn

**f) Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig**

Mae'r Bwrdd yn adrodd bod Plant a Phobl Ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) yn nodi anghenion nad ydynt wedi eu diwallu mewn perthynas â:

- cymorth ymddygiadol/emosiynol;
- materion sy'n benodol i ASD a sgiliau bywyd; a
- mynediad at wasanaethau cymdeithasol a hamdden a chyfleoedd yn y gymuned.

Er bod gan Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru gategori penodol ar gyfer Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, cofnodir y grŵp defnyddwyr gwasanaeth hwn yn lleol o dan y categori Pobl ag Anableddau Dysgu, lle mae eu IQ yn llai na 70. Cefnogir pobl ar y Sbectrwm Awtistig sydd ag IQ o 70 neu uwch drwy'r gwasanaeth generig neu o dan unrhyw angen arweiniol arall os bydd hyn yn cael blaenoriaeth dros eu ASD fel angen e.e. iechyd meddwl, pobl hŷn ac ati.

**Bylchau a phroblemau a nodwyd yn y gwasanaethau i Bobl ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig.**


- Nid oes cymorth penodol sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl ag anghenion sy'n gysylltiedig ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig
- Mae angen gweithio'n agosach a sicrhau gwell trefniadau pontio a chynllunio ar gyfer y cymorth tai sydd ar gael i'r glasoed wrth iddynt ddod yn oedolion

## g) Plant a phobl ifanc

Mae Ynys Môn wedi gweld gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw ar yr Ynys ers troad y mileniwm. Ar hyn o bryd, mae poblogaeth 0-17 oed Ynys Môn fel a ganlyn:

| **Grŵp Oedran** | **Cyfanswm fesul Grŵp Oedran** | **% o gyfanswm y boblogaeth 0-24 oed** |
|---|---|---|
| **0-4** | 3,323 | 18.5% |
| **5-15** | 8,598 | 48.0% |
| **16-24** | 6,000 | 33.5% |
| **Cyfanswm** | 17,921 | 100% |

Mae Asesiad Anghenion Gogledd Cymru 2018-23 yn canolbwyntio'n bennaf ar blant 0-15 ond nid yw'r gwasanaeth Cymorth Tai yn cael cyswllt uniongyrchol ag unrhyw berson ifanc sydd dan 16 oed. Mae nifer y bobl ifanc 16-19 oed sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth tai yn uchel ar hyn o bryd. Mae'r graff isod yn dangos bod nifer y rhai 16-19 oed sy'n cael mynediad i lety â chymorth wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




*Atgyfeiriadau i Lety â Chymorth*

| **Ystod Oedran** | **Ebrill 2020- Mawrth 2021 %** | **Ebrill 2020- Mawrth 2021 Nifer** | **Mawrth 2021- Medi 2021 %** | **Mawrth 2021- Medi 2021 Nifer** |
|---|---|---|---|---|
| **16- 24** | **24.6%** | **278** | **21%** | **113** |
| **25-34** | **26.0%** | **293** | **26%** | **138** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **35-44** | **16.1%** | **182** | **19%** | **102** |
| **45-54** | **13.1%** | **148** | **17%** | **91** |
| **55-65** | **8.8%** | **99** | **9%** | **47** |
| **65 +** | **11.2%** | **126** | **8%** | **43** |
| **Cyfanswm** | **1126** | | **534** | |

Gellir gweld o'r data uchod fod pobl ifanc 16-24 oed gan gynnwys y rhai sy'n gadael lleoliadau gofal angen cymorth a llety.

**Bylchau a phroblemau yn y gwasanaethau i Bobl Ifanc (ac yn arbennig y rhai a ystyrir yn Ifanc ac yn Agored i Niwed 16-25).**

- Mae tystiolaeth a gasglwyd o adolygiadau gwasanaeth ac adroddiadau monitro 6 misol wedi tynnu sylw at y prinder o eiddo fforddiadwy yn y sector rhentu preifat. Roedd y broblem hon yn cael ei dwysáu ymhellach gan faterion fforddiadwyedd a'r diffyg rhwng rhent y farchnad a chyfraddau Lwfans Tai Lleol sy'n penderfynu sut y caiff budd-dal tai ei rannu
- Diffyg eiddo symud ymlaen sydd yn ei dro yn golygu bod llai o le ar gael mewn hosteli a llety â chymorth dynodedig i'n pobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref
- Mae data a ddarparwyd gan Digartref, y darparwr cymorth tai dynodedig ar gyfer pobl ifanc ddigartref a bregus yn dangos bod rhwng 1 o bob 4 o bobl ifanc y mae angen cymorth hostel arnynt yn dod o'r gymuned LGBTQ+. Mae hyn ar adegau, wedi creu anawsterau i rai o'r bobl ifanc hyn sy'n byw mewn hosteli. Cydnabyddir ar draws Gogledd Cymru bod diffyg yn bodoli mewn perthynas â phobl ifanc LGBTQ+ sydd angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac mae'r angen hwn yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth ranbarthol

**h) Cyn-filwyr**


Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru yn nodi y dylai pob darparwr gwasanaeth wella'r broses o nodi cyn-filwyr a chofnodi data ar eu defnydd o wasanaethau (yn enwedig gofal sylfaenol ac eilaidd y GIG a gwasanaethau gan gynghorau lleol).

Nid ydym yn comisiynu darpariaeth bwrpasol ar gyfer Cyn-filwyr o dan GCT, yn hytrach, gwneir atgyfeiriadau yn seiliedig ar yr angen arweiniol a nodwyd gan yr unigolyn.

**i) Iechyd ac Anabledd**

Ar y cyfan, mae gan 25,430 (39% o gleifion sydd wedi'u cofrestru gan feddygon teulu) gyflwr/salwch cronig ar Ynys Môn yn ôl GIG Cymru (2019).

Mewn adroddiad gan ICC '[Health of individuals with lived experience of homelessness in Wales, during the Covid -19 Pandemic]' yn nodi bod unigolion sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd yn fwy tebygol o fod yn rheoli dibyniaeth ar sylweddau ac iselder a hefyd yn fwy tebygol o fod yn rheoli nifer o gyflyrau iechyd hirdymor o gymharu â'r grwpiau cyffredinol yn y boblogaeth.




**I) Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc**

Daeth asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru i'r casgliad

- Bod gofalwyr yn cyflawni rôl hanfodol o ran darparu gofal a chymorth, ac yn darparu rhwng 70% a 95% o ofal, gan arbed £7.72 biliwn bob blwyddyn yng Nghymru. Felly, mae achos dros ddatblygu a pharatoi gwasanaethau ar gyfer gofalwyr yn gyntaf
- Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn cynyddu, yn arbennig yn y gogledd-orllewin
- Pobl rhwng 50 a 64 oed yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddarparu gofal di-dâl
- Mae hanner yr holl ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn gweithio: i ofalwyr sy'n gweithio, mae cefnogaeth eu cyflogwr a'u cydweithwyr yn hanfodol i'w helpu i barhau yn eu rôl fel gofalwyr

Mae'r Grant Cymorth Tai yn darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a heb sôn am yr angen am ofal iechyd a gofal personol, bydd gan rai ohonynt ofalwyr hefyd. Er nad oes darpariaeth uniongyrchol ar gyfer gofalwyr yn y Rhaglen GCT, does fawr o amheuaeth bod gofalwyr mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig o fewn y meysydd sy'n gysylltiedig â phobl hŷn a'r gwasanaeth iechyd meddwl, yn elwa o'r cymorth sydd ar gael mewn perthynas â thai.

**j) Lleoliadau Diogel**

Mae lleoliadau diogel yn cynnwys carchardai, safleoedd cymeradwy, llety mechnïaeth a llety cadw ieuenctid. Yn yr Asesiad Anghenion, nodwyd

- Bod nifer y carcharorion o Ogledd Cymru fel arfer rhwng 760 ac 850, ac mae 40-50 ohonynt yn fenywod, mae 60-70 yn droseddwyr ifanc ac mae 50-60 yn rhai y mae'n rhaid cymryd mesurau diogelwch lefel uchel yn eu cylch

- Mae nifer y bobl a gedwir yn y carchar wedi bod yn cynyddu
- Mae nifer yr achosion o salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anableddau dysgu yn uwch ymhlith oedolion sydd yn y carchardai o gymharu â nifer yr oedolion yn y boblogaeth gyffredinol
- Yn ôl cyfran, mae poblogaeth y carchardai sy'n cynnwys troseddwyr sy'n 50 oed neu'n hŷn wedi cynyddu'n fwy nag unrhyw grŵp oedran arall sy'n golygu bod goblygiadau o ran gofal cymdeithasol
- Mae plant sydd â rhiant yn y carchar ddwywaith mor debygol â phlant eraill o fod â phroblemau ymddygiad ac iechyd meddwl a thair gwaith yn fwy tebygol o droseddu eu hunain

Mae gan y Grant Cymorth Tai rôl allweddol i'w chwarae o ran darparu mesurau cymorth, ymyrraeth ac adsefydlu priodol pan gânt eu rhyddhau o'r lleoliadau diogel ac i atal aildroseddu lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth drwy ein proses Llwybr Carchardai.

Mae tystiolaeth yn dangos y bydd gan bobl sy'n gadael y carchar broblemau gyda sylweddau, iechyd meddwl a phroblemau eraill.

**Pobl sydd â hanes o droseddu**
Mae data gan y Swyddfa Gartref a'r Gwasanaeth Prawf yn awgrymu bod nifer y bobl o Ynys Môn a ddedfrydwyd i gyfnod o garchar neu sydd â hanes blaenorol o droseddu ond sydd ddim yn y carchar ar hyn o bryd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Bylchau a Phroblemau a nodwyd mewn perthynas â Phobl â Hanes o Droseddu**
- Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, bydd yr Astudiaeth o'r Prosiect Cyflymu yng Ngharchar y Berwyn yn cael ei hystyried fel rhan o flaenoriaethau RHSGC wrth symud ymlaen

**Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaeth Allweddol Eraill**

Yn ogystal â'r mwyafrif helaeth o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, mae'r Grant Cymorth Tai hefyd yn darparu ymyriad wedi'i dargedu ar gyfer nifer o grwpiau defnyddwyr gwasanaethau eraill sy'n agored i niwed, sef:

**6. Gwasanaethau Generig**
Mae atgyfeiriadau i Wasanaethau Generig yn ymwneud ag anghenion cymorth tai lefel ganolig i lefel uchel yn bennaf, gyda'r anghenion wedi datblygu i fod yn rhai mwy cymhleth a dwys o ran adnoddau ers y Pandemig.

O'r data SPoA a gasglwyd ac a ddadansoddwyd, mae'n amlwg, o'r 1,660 o atgyfeiriadau, bod cyfanswm o 3,823 o anghenion wedi'u cofnodi rhwng 1.4.2020 a 30.9.2021. Felly, mae'n rhesymol tybio y byddai pob atgyfeiriad yn cynnwys 2.3 o anghenion gwahanol ar adeg cyflwyno. Fodd bynnag, roedd graddfa wirioneddol yr achosion generig yn cyfrif am 20% (767) o'r holl anghenion a gyflwynwyd i SPoA dros y 18 mis diwethaf.

Yn seiliedig ar y cynnydd mewn atgyfeiriadau yn y maes gwasanaeth hwn, ynghyd â ffactorau economaidd-gymdeithasol, megis y gostyngiad yn y Codiad i'r Credyd Cynhwysol, dwyn y cynllun Furlough i ben a rhagolygon gwael o safbwynt swyddi, rhagwelir y bydd y maes gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth yn y tymor byr i'r tymor canolig.

**7. Camddefnyddio Sylweddau**

Mae ein data SPoA yn awgrymu ein bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cyflwyno gydag anghenion sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol ers mis Ebrill 2021. Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cofnodwyd 123 o gyflwyniadau gan bobl a oedd yn camddefnyddio cyffuriau a 94 o anghenion eraill a oedd yn gysylltiedig ag alcohol. Mewn cymhariaeth, mae'r ddwy garfan wedi gostwng yn sylweddol ers 1.4.21 gyda 46 o gyflwyniadau'n gysylltiedig â chyffuriau a 29 yn gysylltiedig ag alcohol.

Fodd bynnag, yn ôl darparwyr gwasanaethau ac asiantaethau eraill fel Iechyd, mae cymhlethdodau fel diagnosis deuol a phroblemau sy'n digwydd ar yr un pryd wedi dod yn fwy cyffredin ers y pandemig, ac fe amlygwyd cydberthynas gref ag iechyd meddwl. Amlygwyd camdriniaeth ddomestig hefyd fel mater sy'n cyd-ddigwydd â chamddefnyddio sylweddau.

Mae darparwyr hefyd wedi cyflwyno atborth sy'n nodi fod camddefnydd o sylweddau wedi cynyddu ymhlith pobl ifanc 16-25 oed gyda phryder hefyd fod y dewis o sylweddau wedi newid gydag unigolion yn defnyddio sylweddau gwahanol nad ydynt yn gwybod fawr ddim amdanynt.

**8. Teuluoedd Bregus**


Yn hanesyddol, mae'r Gwasanaethau Cymorth Tai wedi bod yn gysylltiedig â phobl sengl. Fodd bynnag, mae cyflwyniadau diweddar drwy ein gwasanaethau SPoA a Brysbennu yn dangos bod cynnydd wedi bod yn nifer y teuluoedd, rhieni sengl a chyplau â phlant sy'n cyflwyno. Mae hyn yn debygol o gynyddu ymhellach o ystyried y materion economaidd presennol y mae llawer yn eu hwynebu oherwydd gostyngiadau mewn budd-daliadau, incwm isel a'r posibilrwydd o gael eu troi allan o'r cartrefi oherwydd methiant i dalu rhent neu gynnydd yn yr ad-daliadau morgais.

O gymharu â gwasanaethau eraill, mae nifer yr unedau sydd ar gael i deuluoedd yn isel ac os bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach, gall hwn fod yn faes y bydd angen gwneud mwy o ddarpariaeth ar ei gyfer yn y dyfodol.

**9. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)**

Gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) fod yn ddigwyddiadau trawmatig sy'n digwydd yn ystod plentyndod. Gall ACEs gynnwys trais, camdriniaeth, a thyfu i fyny mewn teulu sydd â phroblemau iechyd meddwl neu phroblemau gyda defnyddio sylweddau. Gall y straen gwenwynig a achosir ACEs newid datblygiad yr ymennydd ac effeithio ar sut mae'r corff yn ymateb i straen. Mae cyswllt rhwng ACEs a phroblemau iechyd cronig, salwch meddwl, a chamddefnyddio sylweddau pan yn oedolyn.

Yr unig ddata sydd ar gael ar ACEs yw astudiaeth beilot a gynhaliwyd yn ystod 2017/18 gan GIG Cymru a gasglodd ddata o 3 tref drwy feddygfeydd teulu. Mae'r data isod yn dangos bod 20.5% o'r bobl a holwyd yn Amlwch wedi profi ACE, 20.9% o'r cyfranogwyr yn Llangefni, ond roedd gan Gaergybi ganran llawer uwch o achosion, sef 49%.




**10. Blaenoriaethau Cymorth Tai Rhanbarthol**

Mae'r RHSCG yn gyfrifol am gynhyrchu datganiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer y flwyddyn honno, sef:

1. Comisiynu darpariaeth bellach ar gyfer LGBTQ+ yn y rhanbarth
2. Comisiynu Hyfforddiant pwrpasol mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a Thai
3. Ymchwilio i'r cyfle i gomisiynu darpariaeth bellach ar gyfer dynion sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig
4. Comisiynu cyllid ar gyfer lloches diagnosis deuol (Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau) i bobl sy'n dianc rhag camdriniaeth ddomestig.
   a. Dyfarnwyd cyllid i Fwrdd VAWDASV ac mae'r flaenoriaeth hon wedi'i gweithredu.
5. Ariannu'n rhannol wasanaeth celcio rhanbarthol mewn cydweithrediad â'r Grŵp Celcio Rhanbarthol.
6. Archwilio'r cyfle i dreialu dull Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol (PIE).

Y grŵp hwn yw'r fforwm a gyfarwyddir gan y RhSCG i ddatblygu gwasanaethau lle nad oes màs critigol yn lleol, datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle gellir eu cyfiawnhau gan arbedion maint a pharhau i ddatblygu a gwella'r modd y darperir gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ar draws Gogledd Cymru.

**11. Mynediad i Wasanaethau'r Goleudy**

Mae'r Goleudy yn darparu cymorth o ganolfan galw heibio yn ystod y dydd yng Nghaergybi. Ariennir y prosiect hwn drwy Grant Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru. Mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn gyda thraean yn fwy yn gofyn am gymorth o gymharu data o 2019-20 a 2020-21. Mae gan lawer o gleientiaid anghenion cymhleth ac mae angen lefel uchel o gymorth arnynt i ddod o hyd i lety.

**12. Cyfryngu a Chwnsela a Gwasanaethau Therapiwtig Eraill**

Mae'r Grant Atal Digartrefedd Adran 180 a geir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar hyn y o bryd yn ariannu gwasanaethau cyfryngu ar gyfer pob oedran ac wedi atal yr angen i ddarparu llety â chymorth neu wasanaethau cymorth hyblyg yn uniongyrchol. Yr un modd, mae wedi arwain at ganlyniadau da i bobl ifanc a oedd mewn llety brys neu lety â chymorth o ran caniatáu iddynt ddychwelyd adref. Mae darparwyr yn ddiweddar wedi rhoi atborth fel rhan o'r broses ymgynghori yn dweud bod y galw am wasanaethau cyfryngu wedi cynyddu.

Mae Covid-19 wedi achosi i bobl deimlo'n fwy ynysig ac unig gyda llai o gyswllt gyda ffrindiau a theulu sydd wedi cael effaith ar lesiant corfforol a meddyliol. O ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sydd angen ymyriadau therapiwtig megis cwnsela.

Er na fedrir ariannu cwnsela neu fathau eraill o ymyriadau therapiwtig yn uniongyrchol o'r Grant Cymorth Tai, mae darparwyr yn dwyn sylw'n gyson at y niferoedd cynyddol sy'n cael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio ar gyfer ymyriadau o'r fath.

## 13. Data Tai a Digartrefedd Allweddol

Mae ein Strategaeth Dai Ddrafft ar gyfer 2022-27, sydd allan i ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn nodi bod diffyg tai fforddiadwy yn cael effaith andwyol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Dengys Ystadegau Cymru mai perchentyaeth yw'r ddeiliadaeth fwyaf cyffredin ar yr Ynys gyda'r rhai sy'n rhentu gan Landlord Cymdeithasol ychydig yn uwch na'r rhai sy'n rhentu'n breifat. Rhentu yn y sector rhentu preifat yw'r unig opsiwn sydd ar gael i rai pobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar dai cymdeithasol. Mae llawer o landlordiaid yn codi rhent sy'n uwch na'r Lwfans Tai Lleol ac mae'n rhaid i aelwydydd dalu'r gwahaniaeth ac felly mae ganddynt lai o incwm i'w wario ar filiau a chostau eraill.

**Yr Angen, Y Galw a'r Blaenoriaethau o ran Tai**

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon yn cofnodi'r data sy'n ymwneud â'r angen am dai ar gyfer yr Ynys, ac roedd yn gywir ym mis Gorffennaf 2021.


**Gwybodaeth am y Gofrestr Tai Cymdeithasol:**

Yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ym mis Gorffennaf 2021, roedd 408 o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cymdeithasol gyda'r mwyafrif yn gofyn am lety cyffredinol 1 a 2 ystafell wely ac am lety i bobl hŷn.


| | 1 gwely | 2 wely | 3 gwely | 4+ gwely | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anghenion Cyffredinol** | **85** | **74** | **33** | **43** | **235** |
| **Llety i Bobl Hŷn** | **136** | **32** | **4** | **1** | **173** |
| **CYFANSWM** | **221** | **106** | **37** | **44** | **408** |
| **%** | **54%** | **26%** | **9%** | **11%** | |

*Rhestr Aros y Gofrestr Tai Cymdeithasol yn ôl math a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen*

Gellir gweld y galw am dai cymdeithasol ar y map isod, gyda'r galw ar ei uchaf yng Nghaergybi, Llangefni, Porthaethwy, Llanfairpwll, Amlwch, Y Fali, Llanfair ME, Llanfihangel Ysgeifiog a Biwmares. Noder fod rhai ymgeiswyr ar y rhestrau aros mewn mwy nag un ardal.




Gellir gweld y galw am lety rhent cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yn y map isod a Caergybi, Llangefni, Llanfairpwll a Phorthaethwy hefyd yw'r dewisiadau mwyaf poblogaidd.




**Gwybodaeth o Gofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg:**


Mae Tai Teg yn gofrestr tai ar-lein ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn perchentyaeth cost isel. Mae gan Tai Teg ymagwedd bartneriaethol amlasiantaethol, ac mae'n cynnwys holl Awdurdodau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a chwe ch o Gymdeithasau Tai.

Ar hyn o bryd, mae 311 o ymgeiswyr ar Gofrestr Tai Teg, gyda'r mwyafrif angen eiddo rhent canolraddol 2 a 3 ystafell wely ac eiddo fforddiadwy i'w prynu. Noder fod rhai ymgeiswyr yn gymwys ar gyfer mwy nag un o'r opsiynau – rhent, prynu a hunanadeiladu.

| | Heb nodi | 1 gwely | 2 wely | 3 gwely | 4+ gwely | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhent** | 7 | 6 | 81 | 89 | 11 | 194 |
| **Prynu** | 9 | 4 | 71 | 95 | 11 | 190 |
| **Hunanadeiladu** | 0 | 1 | 6 | 5 | 2 | 14 |
| **CYFANSWM** | 13 | 7 | 125 | 150 | 16 | 311 |
| **%** | 4% | 2% | 40% | 48% | 5% | |


*Cofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg yn ôl deiliadaeth a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen*

Mae'r map isod yn dangos ym mha ardaloedd y mae'r ymgeiswyr ar gofrestr Tai Teg yn dymuno prynu eiddo fforddiadwy ynddynt, gyda'r galw ar ei uchaf yng Nghaergybi, Y Fali, Porthaethwy, Llanfairpwll, Bae Trearddur, Llangefni a Llanfihangel Ysgeifiog.




---

Mae'r map isod yn dangos bod y galw am eiddo rhent canolradd ar ei uchaf yng Nghaergybi, y Fali, Bae Trearddur, Llangefni, Porthaethwy a Llanfairpwll.




---

**14. Fforddiadwyedd**

Mae ymchwil gan [Sefydliad Bevan yn 2021] wedi datgelu bod llawer o aelwydydd Cymru yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gartref a thalu eu rhent oherwydd diffyg yn y Lwfans Tai Lle ol.

Y Lwfans Tai Lleol yw'r uchafswm y gall pobl sy'n rhentu eu cartref gan landlord preifat ei hawlio drwy Fudd-dal Tai neu elfen dai y Credyd Cynhwysol. Mae'r Lwfans Tai Lleol wedi'i gynllunio i roi digon o gymorth i bobl fforddio'r 30% o'r tai rhataf mewn ardal, wedi'i addasu ar gyfer cyfansoddiad yr aelwydydd. Mae ymchwil ar y 10 awdurdod lleol yng Nghymru (mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn Ardal Marchnad Rentu Eang Gogledd Orllewin Cymru) wedi datgelu bod hyn ymhell o fod yn gywir.

Yn ystod 2021, nid oedd y gyfradd Lwfans Tai Lleol ond yn talu am gost rhent llawn 4.8% o gartrefi a hysbysebwyd ar y farchnad ar draws 10 awdurdod lleol yng Nghymru. Gyda chyn lleied o ddewis ar y farchnad, mae aelwydydd incwm isel yn wynebu dewis o symud i lety y maent yn ei chael yn anodd ei fforddio, symud i dai o ansawdd isel neu wynebu'r risg o ddigartrefedd.

Ar gyfartaledd, mae bwlch o £133.53 y mis rhwng y gyfradd Lwfans Tai Lleol a'r 30% o'r rhenti rhataf a hysbysebir ar gyfer llety a rennir, a bwlch o £308.71 ar gyfer cartrefi pedair ystafell wely.

Mae'r broblem hon yn cael ei dwysáu oherwydd bod rhai landlordiaid yn mynnu bod tenantiaid yn cael sawl geirda, yn codi blaendal sy'n rhy uchel neu'n mynnu bod gan ddarpar denantiaid isafswm penodol o incwm. Mae'r gofynion hyn i bob pwrpas yn rhwystro pobl sy'n cael cymorth gyda'u costau tai drwy Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i gael cartrefi. Pan gymerir i ystyriaeth y llety sydd â'r cyfyngiadau hyn, dim ond 2.7% o'r cartrefi a hysbysebwyd ar y farchnad yr haf hwn oedd ar gael i rentwyr incwm isel.


Mae pryderon y gall y sefyllfa ddirywio ymhellach oherwydd bod cyfradd y Lwfans Tai Lleol wedi'i rhewi ar lefelau 2020/21. Gallai hyn olygu lleihad pellach yng nghyfran y cartrefi y gellir talu

amdanynt yn llawn o'r Lwfans Tai Lleol, gyda hynny'n rhoi pwysau ychwanegol ar aelwydydd yn ystod cyfnod sydd am fod yn heriol i lawer o aelwydydd.

Gellir gweld y cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely mewn eiddo yn y tabl isod. (Adran Budd-daliadau Tai CSYM).

| **Cyfraddau Lwfans Tai Lleol** | **Llety a Rennir** | **Eiddo 1 Ystafell Wely** | **Eiddo 2 Ystafell Wely** | **Eiddo 3 Ystafell Wely** | **Eiddo 4 ystafell wely** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Orllewin Cymru (BRMA) | £75.00 | £80.55 | £103.56 | £120.82 | £149.59 |

**Incwm Cymedr Cyfartalog o gymharu â Phrisiau Tai Cymedr Cyfartalog**




Biwmares yw'r ardal lleiaf fforddiadwy ar yr ynys, gyda'r gwahaniaeth rhwng incwm a phris yn 9.1, sy'n golygu y byddai'n ofynnol i aelwyd ag incwm canolraddol dalu £158,691 er mwyn lleihau'r gwahaniaeth rhwng incwm a morgais i lefel fforddiadwy.

Llanfair-yn-Neubwll 2 yw'r unig ardaloedd ar yr Ynys ble mae'r gwahaniaeth rhwng incwm a phris dan 3.5 (2.8).

Mae'r gallu i fedru fforddio i fod yn berchen ar eiddo yn Ynys Môn yn parhau i fod yn her i lawer o aelwydydd.

## 15. Adolygiad Digartrefedd

**Adolygiad (Tachwedd 2021):**

Cefndir

Mae'n bwysig cynnal adolygiad o'n gwasanaethau digartrefedd cyfredol er mwyn nodi'r materion hynny y bydd angen rhoi sylw iddynt drwy'r Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Digartrefedd. O ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad pen desg cyffyrddiad ysgafn gan ddefnyddio adroddiadau ac arolygon a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a ddygodd sylw at nifer o faterion a oedd yn codi dro ar ôl tro, megis cynnydd ym maich gwaith y staff, cynnydd yng nghymhlethdod yr achosion digartrefedd a diffyg llety. Isod, ceir crynodeb llawn o'r materion a'r arferion da a nodwyd.

**Materion/themâu sy'n codi dro ar ôl tro:**

- Cynnydd yn y galw am wasanaeth digartrefedd gyda hynny'n arwain at gynnydd yn nifer yr achosion yn llwyth gwaith y staff.
- Diffyg llety:
    - Diffyg llety dros dro
    - Diffyg llety rhent cymdeithasol un ystafell wely
    - Diffyg llety fforddiadwy yn y sector rhentu preifat
- Cynnydd yng nghymhlethdod achosion digartrefedd, yn enwedig o safbwynt iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamdriniaeth ddomestig. Angen sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant cywir i ddelio â'r materion hyn, a bod y Gwasanaethau Cymorth cywir ar gael i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth.
- Angen i unigolion fedru dewis sut maen nhw'n cwblhau asesiad digartrefedd h.y. wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo
- Nid oedd nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn defnyddio gwasanaethau digartrefedd yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael a sut i gael gafael ar wasanaethau. Angen hyrwyddo'r negeseuon hyn.

Llwyth Gwaith a Lles: cipolwg ar brofiad staff gweithredol yn ystod Covid-19

(Elin Howard a Joy Williams, Y Rhwydwaith Cymorth Tai, Hydref 2021)

- Llwyth achosion uwch oherwydd Covid-19
    - Dywedodd 90.9% o'r staff a holwyd fod eu llwyth achosion wedi codi yn ystod cyfnod Covid-19
    - Dywedodd nifer o staff fod eu llwyth achosion yn fwy na 100 a bod eu llwyth achosion ddwywaith os nad dair gwaith yn fwy nag y dylai fod.
- Newid mewn deddfwriaeth
    - Newid i angen blaenoriaethol wedi achosi cynnydd mawr yn y ceisiadau digartrefedd
    - Roedd y defnyddwyr gwasanaeth yr oedd ein dyletswydd iddynt yn cael ei rhyddhau oherwydd eu bod wedi colli eu llety dros dro yn fwriadol yn gallu ailymgeisio am gymorth. Roedd yr achosion hyn yn aml yn fwy heriol ac o'r herwydd, roeddent yn parhau i fod ar agor am gyfnodau hirach gyda hynny'n cael effaith bellach ar y cynnydd yn y llwyth achosion.
- Cyfnod Clo

- Cynnydd yn nifer y perthnasau a oedd yn chwalu ac adroddiadau cynyddol am gamdriniaeth ddomestig, gyda hynny'n arwain at fwy o bobl yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref.
- Effaith ariannol Covid-19, er enghraifft colli swyddi a'r cynllun ffyrlo yn cyfrannu at y cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref.

- **Diffyg llety**
  - Staff yn methu cyflawni eu dyletswydd drwy ddod o hyd i lety sefydlog, gyda hynny'n cyfrannau at y llwyth achosion.
  - **Llety dros dro yn cael ei ddisgrifio fel peth 'eithriadol o brin'**
  - **Diffyg tai cymdeithasol – yn enwedig llety un ystafell wely**
  - **Llai o lety ar gael yn y Sector Rhent Preifat** – landlordiaid yn gwerthu oherwydd y cynnydd ym mhrisiau eiddo a'r egwyl o orfod talu treth stamp. Defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn dibynnu ar y Lwfans Tai Lleol yn methu fforddio'r eiddo a oedd ar gael yn y Sector Rhent Preifat
- **Cynnydd yng nghymhlethdod achosion**
  - Dywedodd 62.4% o'r staff fod natur y rhan fwyaf o achosion y maent yn delio â hwy wedi newid dros y 18 mis diwethaf – cynnydd yng nghymhlethdod achosion, yn enwedig mewn perthynas â **chyflyrau iechyd meddwl difrifol a chamddefnyddio sylweddau.**
  - **Staff yn mynegi pryder am nad oedd ganddynt yr hyfforddiant meddygol i roi'r cymorth gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl**
  - **Mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth 'risg uchel'** – mwy o broblemau mewn llety dros dro, ac o ganlyniad mwy o lwyth gwaith.
  - **Cynnydd yn nifer y cyflwyniadau'n ymwneud â thrais yn y cartref**.
  - **Cynnydd yn nifer y bobl sengl, yn enwedig dynion sengl, sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref**
- Rheoli Llwyth Achosion
  - Dywedodd 53.7% o'r staff eu bod yn gallu ymdopi gyda'u llwyth achosion – roedd hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r cymorth a gawsant gan eu timau a chan rheolwyr.
  - **Roedd symud o gyfweliadau wyneb yn wyneb i geisiadau dros y ffôn** yn golygu bod staff yn gallu ymdopi â mwy o achosion.
  - Yn achos staff a oedd yn teimlo eu bod yn cael anhawster delio gyda'u llwyth achosion, **nid oeddent ond yn gallu cwblhau gwaith adweithiol neu reoli argyfwng yn hytrach na gweithio'n ataliol a chynnig cyngor ac atebion.**
  - Nododd y rhan fwyaf o staff y byddai llwyth o rhwng 10-40 o achosion yn ddelfrydol
- Darparu gwasanaeth effeithiol
  - Roedd 53.4% o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu darparu gwasanaeth effeithiol
  - Chwaraeodd cefnogaeth gan gydweithwyr, rheolwyr a thimau ran fawr yn hyn o beth
  - Hyfforddiant a phrofiad da o ddeddfwriaeth tai
  - Arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu swyddog digartrefedd ychwanegol, swyddog brysbennu a swyddog symud ymlaen

  - Mae'r rhwystrau'n nifer uchel o achosion, diffyg llety yn y sector rhentu preifat a llety dros dro.
- Lles Staff
  - Dywedodd 88.9% o'r staff a holwyd eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth, gyda 71% yn dweud bod y gefnogaeth yn ddigonol.

Dadansoddiad o Wasanaethau Atal Gogledd Cymru yng Ngogledd Cymru (Hydref 2021) – Crynodeb o adroddiad Laura Patterson

Beth oedd yn gweithio'n dda a ddim yn gweithio cystal yn ystod y pandemig:

- **Cyflwynwyd dulliau newydd o gynnal asesiadau digartrefedd**
- Cafodd Awdurdodau Lleol gydnabyddiaeth am ddarparu arweiniad rhagorol i staff a rhanddeiliaid allweddol
- Atebion arloesol i ddod o hyd i nifer uchel o unedau llety (fel 'bunkabins')
- Roedd gan y gweithlu y sgiliau a'r wybodaeth gywir
- Addasodd swyddogion yn dda i weithio o gartref
- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i gwsmeriaid newydd a'r rhai cyfredol heb unrhyw amhariad
- Cydweithio rhanbarthol.

Heriau cyfredol:

- **Cynnydd yn y galw** a'r effaith ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.
- Cynnydd yn y galw a'r effaith ar les staff.
- Cynnydd yn y galw yn gyffredinol.
- **Cyflenwad isel o lety parhaol, dros dro a llety symud ymlaen**.
- **Newid mewn anghenion cymorth**, gan gynnwys cynnydd yn yr achosion o gamdriniaeth ddomestig
- Cleientiaid newydd yn defnyddio'r gwasanaeth sydd ddim yn **ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael** a sut i gael gafael ar wasanaethau.
- Argaeledd gweithwyr medrus yn y farchnad lafur.

Ymatebion Defnyddwyr Gwasanaeth Ynys Môn i'r Strategaeth GCT:

- **Nid oedd 27 (allan o 57) o ymatebwyr yn gwybod ble i fynd am help.** 47%. Y ganran yn uwch ar gyfer Ynys Môn nag unrhyw Awdurdod arall yng Ngogledd Cymru.
- Mae awgrymiadau ar gyfer gwella cyhoeddusrwydd yn cynnwys hysbysebu drwy ddarparwyr eraill neu yn y cyngor, Canolfan Cyngor ar Bopeth a'r ganolfan waith, Canolfan Ddydd Caergybi (Goleudy), y coleg lleol, posteri, rhyngrwyd.
- **Hoffai 51 o ddefnyddwyr gwasanaeth barhau i dderbyn cymorth wyneb yn wyneb, 30 dros y ffôn a 10 drwy alwadau rhithwir.**
- **Dim ond 12 (allan o 57) o ymatebwyr ddywedodd eu bod yn gallu fforddio prisiau rhentu cyfredol**

Ymatebion Darparwyr i'r Holiadur GCT

- Dywedodd 11 o'r 13 a ymatebodd fod **cynnydd mewn achosion cymhleth gyda hynny'n arwain at ymyriadau argyfwng.**
- Dywedodd nifer o ddarparwyr y dylai'r ALl **roi blaenoriaeth i ddarparu llety addas.**

**Digartrefedd**
Daw'r nifer uchaf o gyflwyniadau am wasanaethau cymorth tai gan aelwydydd un person. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o gyfansoddiad aelwydydd.

| Cyfansoddiad Aelwyd | Cyfanswm Nifer 2020/21 1.4.2020 - 31.3.2021 | Cyfanswm 2021/22 (1.4.2021 i 1.12.20211) | % 2020/21 | % 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Person Sengl Dim Plant** | 665 | 441 | 59.1.% | 61.3% |
| **Person Sengl heb Blant ond Oedolyn Dibynnol dros 16 oed)** | 27 | 15 | 2.4% | 2.1% |
| **Person Sengl gyda Phlant** | 236 | 163 | 21.0% | 22.7% |
| **Cyplau heb blant** | 113 | 52 | 10% | 7.2% |
| **Cyplau â Phlant** | 55 | 40 | 4.9% | 5.6% |
| **Cwpl heb blant ond oedolyn dibynnol (dros 16 oed)** | 25 | 6 | 2.2% | 0.8% |
| **Cyplau â phlant ac oedolyn dibynnol (dros 16 oed)** | 5 | 2 | 0.4% | 0.3% |
| Cyfanswm | 1126 | 719 | 100% | 100% |

Mae nifer yr aelwydydd oedolion/rhieni sengl neu'r rhai ag oedolyn dibynnol sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth tai yn uchel iawn, gyda'r data diweddaraf yn dangos bod canran yr holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd ers 1.4.21 yn 86.1% o gymharu ag 82.5% ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol lawn.

**16. Atal Digartrefedd**

Bu gostyngiad yn nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod yn 2020-21 o gymharu â 2019-20 (57 a 153 yn y drefn honno) sy'n debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

Yn ystod 2020-21, llwyddwyd i atal digartrefedd am o leiaf 6 mis mewn 55% o achosion o gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. Y cyfanswm ar gyfer Cymru yw 65%.

| Blwyddyn | Aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod -Nifer (Adran 66) | Aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod - Cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd (Adran 66) | Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag Digartrefedd – Nifer (Adran 66) | Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag Digartrefedd – Canran (%) (adran 66) | Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag Digartrefedd – Cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd (Adran 66) |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **153** | **49** | **87** | **58** | **28** |
| **2020-21** | **57** | **19** | **33** | **55** | **10** |

***Atal Digartrefedd yn ôl Ardal a Mesur (Adran 66) (llyw.cymru)***

**Rhyddhad o'r Ddyletswydd Ddigartrefedd fesul Ardal a Mesur (Adran 73)**
Bu gostyngiad o 8.7% yn nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref a bod dyletswydd ar yr awdurod i sicrhau llety ar eu cyfer 2020-21 o gymharu â 2019-20. O safbwynt y duedd genedlaethol, mae'r ddyletswydd i sicrhau llety dan Adran 73 ar gynnydd.

| Blwyddyn | Aelwydydd a aseswyd yn ddigartref a bod dyletswydd i sicrhau llety ar eu cyfer - Nifer (Adran 73) | Aelwydydd a aseswyd yn ddigartref a bod dyletswydd i sicrhau llety ar eu cyfer – Cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd (Adran 73) | Cartrefi y llwyddwyd i'w rhyddhau o Ddigartrefedd – Rhif (Adran 73) | Cartrefi y llwyddwyd i'w rhyddhau o Ddigartrefedd – Canran (%) (Adran 73) | Cartrefi y llwyddwyd i'w rhyddhau o Ddigartrefedd - Cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd (Adran 73) |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **309** | **99** | **135** | **44** | **43** |
| **2020-21** | **282** | **90** | **138** | **49** | **44** |

***Rhyddhau rhag bod yn Ddigartref yn ôl Ardal a Mesur (Adran 73) (llyw.cymru)***

**Aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd ac mewn angen blaenoriaethol yn ôl Ardal a Mesur (Adran 75)**
Yn 2020-21, roedd cynnydd o 8% yn nifer yr aelwydydd a oedd yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol ac yn gymwys dan y ddyletswydd i sicrhau llety ar eu cyfer o gymharu â 2019-20. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 24% yn genedlaethol.

| Blwyddyn | Aelwydydd yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol - Rhif (Adran 75) | Aelwydydd yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol - Cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd (Adran 75) | Aelwydydd yn cael eu rhyddhau'n gadarnhaol - Rhif (Adran 75) | Aelwydydd a ryddhawyd yn gadarnhaol o Ddigartrefedd - Canran (%) (Adran 75) | Aelwydydd yn cael eu rhyddhau'n gadarnhaol o Ddigartrefedd - Cyfradd fesul 10,000 o aelwydydd (Adran 75) |
|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **9** | **0** | **3** | **50** | **0** |
| **2020-21** | **36** | **11** | **18** | **54** | **6** |

***Aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd ac mewn angen blaenoriaethol yn ôl Ardal a Mesur (Adran 75) (llyw.cymru)***

**Pobl sy'n Cysgu Allan**
Mae cyfrif blynyddol yn digwydd ond cafodd ei ohirio am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r wybodaeth olaf ar gyfer Ynys Môn fel a ganlyn.

**2019-20**

| Cyfanswm nifer y bobl sy'n cysgu allan | Cyfanswm nifer yr unedau gwely brys | Nifer a oedd ar gael ar noson y cyfrif | Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n cysgu allan |
|---|---|---|---|
| **1** | **0** | **0** | **5** |

***Cyfrif Cenedlaethol Cysgu Allan, Llywodraeth Cymru***

**Aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ôl canlyniad a math o aelwyd**

Wrth gymharu'r data ar gyfer 2020-21 a 2019 -2020, aelwydydd sengl yn bennaf sy'n cysylltu gyda'r Gwasanaethau Tai i ofyn am gymorth.
Roedd nifer uwch o ganlyniadau ar gyfer aelwydydd cymwys, aelwydydd a oedd dan fygythiad o fod yn ddigartref, a'r rhai a gafodd gymorth i atal digartrefedd dan A66 yn 2019-20 o gymharu â 2020-21.
Roedd gostyngiad yn nifer yr aelwydydd cymwys, a oedd yn ddigartref ond ddim mewn angen blaenoriaethol yn 2020-21, cyfanswm o 3 o'i gymharu â 15 yn 2019-20.
Rhoddwyd cymorth atal / rhyddhad i 189 o aelwydydd yn 2020-21 o gymharu â 228 o aelwydydd yn 2019-20

Gellir gweld effaith pandemig COVID-19 yn y tabl isod gyda 63 o benderfyniadau ychwanegol i'r nifer a wnaed yn y flwyddyn flaenorol ar geisiadau digartrefedd wedi'u gwneud yn y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 – Mawrth 2021. At hynny, roedd 27 o aelwydydd ychwanegol yn gymwys i gael tai oherwydd angen blaenoriaethol a chafwyd cynnydd o 28 yn nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 48 o aelwydydd.

| | Reference to the data item | April 2019 - March 2020 data | April 2020 - March 2021 data | Difference between the two years |
|---|---|---|---|---|
| | | a | b | |
| Total decisions | Table 1, Row 6, Column h | 593 | 656 | 63 |
| Total number of households eligible, unintentionally homeless and in priority need | Table 1, Row 5c i), Column h | 8 | 35 | 27 |
| Total number of homeless households temporarily accommodated by your authority at the end of the year | Table 6, Row 11 (Total), Column g | 28 | 48 | 20 |

**Llety Dros Dro**

Roedd 48 o aelwydydd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2021 o gymharu â 27 ar 31 Mawrth 2020 ac o gymharu â 12 yn 2019 a 15 yn 2018. Yn genedlaethol, gwelwyd cynnydd o 60% yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu lleoli mewn llety dros dro, dyma'r ffigwr uchaf a gofnodwyd ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol ym mis Ebrill 2015.

Mae gwybodaeth am nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2019-20 a 2020-21 yn dangos bod nifer uchel iawn o oedolion ifanc sy'n dod ymlaen am eu bod angen cymorth o dan 25 oed sy'n arwydd pellach o'r problemau sy'n wynebu pobl ifanc ar yr Ynys.

## 17. Data Amddifadedd

Mae data a gasglwyd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, 2019 yn fodd i sefydlu proffiliau clir o wardiau lleol o fewn siroedd ac etholaethau a chymharu ardaloedd daearyddol ledled y wlad.

Yn gyntaf, mae data ynghylch manylion incwm yn dangos bod y mwyafrif llethol o Ynys Môn ymlith y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru, gydag ardaloedd gwledig yng nhanol a De-ddwyrain yr ynys ymhlith yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru o ran eu hincwm. Yn achos wardiau lleol sydd ymhellach i'r Gorllewin, gwelir eu bod yn symud i'r 20-30% o ardaloedd lleol mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar incwm yn ôl MALlC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) 2019.

Mae'r ddwy dref fwyaf ar yr ynys yn fwy difreintiedig, gyda Chaergybi yn y categori 10-20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn seiliedig ar incwm. At hynny, mae Llangefni yng nghanol yr ynys o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yn y wlad yn seiliedig ar incwm.

Yn ail, efallai y byddai'n rhesymol tybio bod cydberthynas glir rhwng amddifadedd incwm mewn wardiau lleol a diffyg cyflogaeth ar Ynys Môn. Mae'r ddelwedd isod yn dangos sut y gellir cymharu'r ddau beth. Y prif fesurau a ddefnyddir ar gyfer maes cyflogaeth yw nifer y ceisiadau am lwfans ceisio gwaith a nifer yr unigolion mewn ward sydd yn derbyn credyd cynhwysol.

Mae wardiau a chymunedau yng nghanol a dwyrain Ynys Môn yn y 50% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n cyd-fynd â'r data ar gyfer incwm gyda wardiau o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yn y naill a hefyd o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yn y llall. Roedd wardiau tuag at y gorllewin yn disgyn i'r 30-50% mwyaf difreintiedig gyda'r incwm ar lefel o 20-30% yn yr un ardaloedd yn y ward. Yn ogystal, mae'r dref fwyaf difreintiedig (Llangefni) yn y 10-20% mwyaf difreintiedig yn y wlad, sy'n cyd-fynd â safle'r dref yn y 10% mwyaf difreintiedig o ran incwm.

Mae MALlC yn dangos lefelau amddifadedd yn y maes addysg ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru – yn achos Ynys Môn, mae'r rhan fwyaf o wardiau yn yr etholaeth yn y 50% lleiaf difreintiedig ac unwaith eto, mae wardiau yng ngorllewin yr ynys yn gostwng i'r 30-50% mwyaf difreintiedig. Y ddwy ardal sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru yw rhanbarth Llangefni a Biwmares sy'n dangos lefelau uchel o amddifadedd mewn addysg.

Mae'r manylion ynghylch mynediad i wasanaethau yn ymwneud â gwasanaethau megis siop fwyd neu ysgol. Mae pob dangosydd yn mesur yr amser a gymer ar gyfartaledd (mewn munudau) i deithio i ac o'r gwasanaeth agosaf o eiddo preswyl ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys teithio ar fws cyhoeddus, trên cyhoeddus, ar droed a choetsys cenedlaethol. Ystyrir bod trafnidiaeth breifat yn golygu teithio mewn car preifat. Y dangosydd terfynol yw gallu cartrefi neu fusnesau i gael band eang ar gyflymder o 30mbs mewn anheddau yn yr ardaloedd lleol.

Yn achos Ynys Môn, mae nifer o ardaloedd gwledig sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig (10% mwyaf difreintiedig) o ran mynediad at wasanaethau, hefyd, mae mwy o wardiau yn ne'r ynys yn cael eu rhestru o fewn y 10-20% mwyaf difreintiedig. Mae'r ardaloedd lleiaf difreintiedig o gwmpas y trefi a'r pentrefi mwyaf poblog fel Caergybi, Llangefni, Biwmares ac Amlwch a chânt eu categoreiddio yn y 50% lleiaf difreintiedig yn MALlC 2019.

Cafodd amddifadedd yn y maes tai ei fesur rhwng dau ffactor, sef y tebygolrwydd o dai o ansawdd gwael a gorlenwi mewn wardiau penodol. Mae'n mesur y tebygolrwydd y bydd tai mewn cyflwr gwael neu â pheryglon difrifol, er enghraifft, y risg o gwympo neu gartrefi oer heb wres neu ddeunydd inswleiddio. Yn ogystal, mae gorlenwi yn seiliedig ar ganran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd sy'n rhy fychan.

Yn achos Ynys Môn, mae dwy ward yn ne'r ynys (ardal Bodorgan a Niwbwrch) ymlith y 10% rhanbarth mwyaf difreintiedig o safbwynt tai. At hynny, mae wardiau i'r Gogledd Orllewin â lefelau uchel o amddifadedd acymhlith yr ardaloedd lleol mwyaf difreintiedig (10-20%) ledled y wlad.

**Data Allweddol Arall**

**18. Porth Mynediad Sengl i Wasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai**

Mae ein Gwasanaeth Porth Mynediad Sengl i Wasanaethau Cymorth Tai wedi'i sefydlu ers mis Hydref 2017. Prif rôl y Llwybr yw gwirio addasrwydd a chymhwysedd ar gyfer Gwasanaethau Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai a chyfeirio'r atgyfeiriad at y darparwr mwyaf priodol, yn unol â'r angen arweiniol a nodwyd ar adeg cyflwyno. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl neilltuo achos i ddarparwr dynodedig, dylid nodi y gall angen arweiniol newid weithiau wrth i'r berthynas rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r darparwr ddatblygu ac wrth i ymddiriedaeth gael ei sefydlu.

Dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, mae nifer yr atgyfeiriadau a gyflwynwyd i'r SPoA wedi bod fel a ganlyn.

| Blwyddyn | Cyfanswm y Cyflwyniadau | Cyflwyniadau Newydd | Cyflwyniadau Ailadroddus |
|---|---:|---:|---:|
| **2021/22 *** | 534 | 345 | 189 |
| **2020/21** | 1126 | 799 | 327 |
| **2019/20** | 1057 | 910 | 147 |

**data ar gyfer 2021/22 ar gyfer y cyfnod rhwng 1.4.21 i 30.9.2021, tra bod y data cymharol ar gyfer 2019/20 a 2020/21 am gyfnodau llawn o 12 mis.*

Er bod cyfanswm y niferoedd sy'n cyflwyno eu hunain am gymorth tai yn gymharol gyson rhwng 1.4.19 a 30.9.2021, bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyflwyniadau ers 1.4.21, gyda rhagamcanion yn dangos bod hyn yn debygol o barhau yn ystod y flwyddyn gyfredol, a c y bydd wedi mwy na dyblu ers 2019/20. Daeth bron i 2 o bob 3 cyflwyniad am Wasanaethau Cymorth Tai gan fenywod.

| | **Ebrill 2020- Mawrth 2021** | | **Mawrth 2021- Medi** | | **Cyfunol %** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anghenion Cymorth** | 407 | 36.14% | 205 | 38% | 40.66% |
| **Anghenion Llety** | 160 | 14.2% | 70 | 13% | 13.85% |
| **Y ddau** | 559 | 49.6% | 259 | 49% | 49.27% |
| | **1126** | | **534** | | **1660** |

Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae'r galw i ddiwallu anghenion cymorth tai uniongyrchol, anghenion llety neu gyfuniad o'r ddau wedi aros yn gyson ers mis Ebrill 2020.

**Lefelau Angen**

| Anghenion Cymorth | % yr Holl Anghenion a Gofnodwyd | Cyfanswm Nifer yr Achosion |
|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 20.84% | 791 |
| Generig | 20.06% | 767 |
| Digartrefedd | 15.51% | 593 |
| Camdriniaeth Ddomestig | 11.79% | 451 |
| Person Ifanc Agored i Niwed | 6.69% | 256 |
| **Cyfanswm** | **78.89%** | **2858** |

Mae ein data Pwynt Mynediad Sengl yn cael ei ystyried yn un o'n hadnoddau mwyaf dibynadwy a chadarn wrth ddadansoddi lefelau angen ar draws ein hystod amrywiol o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r tabl uchod yn rhestru'r 5 grŵp defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cyfrif am y mwyafrif helaeth o'r cyflwyniadau ar gyfer Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai, rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Medi 2021. Mae'r pum grŵp hyn wedi cyfrif am 78.9% o'r holl anghenion yn ystod y cyfnod hwn. Anghenion Iechyd Meddwl a ac Anghenion Generig oedd y ddau uchaf ar 21% ac 20% yn y drefn honno.

Mae'n amlwg o'r Dadansoddiad Data a gynhyrchwyd gan yr SPoA fod y nifer uchaf o atgyfeiriadau ar gyfer cymorth tai yn parhau yn gyson i ddod o'r trefi poblog mwyaf sef Caergybi, Llangefni ac Amlwch sydd, digwydd bod, yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn unol â data WMID. Mae cyflwyniadau o bentrefi llai, yn enwedig o leoliadau gwledig yn tueddu i amrywio o un flwyddyn i'r llall, ac felly mae'n anodd dod i gasgliadau mesuradwy ar leoliadau daearyddol y tu allan i'r trefi mwy.

**19. Ymgynghoriad â Defnyddwyr Gwasanaethau Lleol / Rhanddeiliaid (Eich Gwasanaeth Eich Barn)**

Mae gan Dîm Comisiynu Cymorth Tai Ynys Môn brosesau hirsefydlog a chadarn ar waith i fesur barn defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol ynghylch yr atborth ar geir ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau er mwyn helpu i lywio'r gwaith o wella a datblygu gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r holiadur defnyddwyr gwasanaeth ar-lein 'Eich Gwasanaethau Eich Barn' ar gael 24/7 a chaiff ei werthuso'n flynyddol. Dros y blynyddoedd, rydym wedi derbyn negeseuon pwerus gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch y Gwasanaethau Cymorth Tai sy'n cael eu darparu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi tynnu sylw at werth diamheuol y cymorth a gafwyd.
Wrth ymateb i'r cwestiwn, 'ble fyddech chi wedi bod yn awr oni bai am y cymorth hwn'; mae rhai o'r ymatebion wedi cynnwys:

- Fedra i ddim symud yn dda iawn ac rwy'n gaeth i'm cartref y rhan fwyaf o'r amser. Helpodd fy narparwr cymorth fi i gael pecyn cymorth iechyd. Heb hwn, ni fyddwn yn gallu byw'n annibynnol yn fy nghartref o gwbl.
- Ni wn a fyddwn wedi cael y cymorth neu'n gwybod i wneud cais am DHP i helpu i dalu am gost rhent a blaendal y misoedd cyntaf i'm helpu i sicrhau fy nghartref newydd
- Rwy'n credu fy mod wedi dod yn bell ers cael cymorth gan y gwasanaeth hwn. Gallaf fynd allan os oes angen i mi yn awr a chymysgu â phobl eraill
- Wedi bod yn eistedd yng nghanol yr ystafell yn crio heb wybod beth i'wneud.
- Byddwn yn dal i fod mewn lle drwg ac yn risg i'm plant

- Dwi wedi bod yn lwcus i gael lle ydw i oherwydd gyda'r gefnogaeth, rwyf newydd gael y tŷ newydd. Dyma'r tro cyntaf mewn cryn amser i mi edrych ymlaen at rywbeth
- Rwy'n credu y byddwn i ar y stryd neu mewn cartref i bobl â phroblemau iechyd meddwl, dydw i ddim yn gwybod ble fyddwn i.
- Wedi fy nghladdu, byddwn wedi cymryd gorddos.
- Byddwn wedi colli fy ffordd amser maith yn ôl heb hyn. Byddwn wedi cael problemau iechyd meddwl.
- Mewn sefyllfa waeth, yn llwglyd, yn ddigartref
- Byddwn yn yr un sefyllfa, ni fyddwn wedi dysgu am gamdriniaeth ddomestig a ddim wedi sylweddoli fy mod yn cael fy ngham-drin.
- Fyddwn i ddim yn fyw.

Yn yr un modd, pan ofynnwyd sut y gellid gwella'r gwasanaeth, mae'r ymatebion ar y cyfan wedi bod yn gadarnhaol iawn. Fodd bynnag, mae awgrymiadau ar gyfer gwella wedi cynnwys:

- Mae'n anodd symud ymlaen o fod mewn llety â chymorth oherwydd diffyg tai a diffyg opsiynau. Mae hefyd yn anodd iawn gweithio amser llawn oherwydd pris y rhent ar gyfer llety â chymorth. Rwy'n teimlo bod gweithio wedi fy helpu ond hoffwn weithio mwy ond ni allaf fforddio talu'r rhent. Dim llawer o gymhelliant i ni ddod o hyd i waith; mae'n teimlo'n ddibwrpas oherwydd y pris.
- Gallu gweithio tra'n cael cymorth, yn anodd iawn dod o hyd i waith a thalu'r rhent, mae'n wirion o ddrud os ydych am weithio gan wneud i chi deimlo na allwch fforddio i weithio.
- Cwnsela a gwasanaethau 'galw heibio' ar gyfer iechyd meddwl.
- Mae angen mwy o gymorth iechyd meddwl yn y gymuned ar ben y gwasanaeth hwn
- Na, mae'r gwasanaeth wedi bod yn wych yn enwedig yn ystod Pandemig Covid.
- Byddai'n dda petai mwy o dai ar gael ond rwy'n gwybod na all y tîm iechyd meddwl wneud i hyn ddigwydd.
- Na, rwy'n credu bod popeth yn gweithio'n dda, nid wyf yn cael fy siomi'n wythnosol gydag addewidion ffug
- Allwch chi ddim gwella ar berffeithrwydd. Doeddwn i ddim yn cysgu cyn hyn, gallaf gysgu'n dawel yn awr oherwydd y gefnogaeth. Mae angen i chi ddeall pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn i mi
- Gallu cael y cymorth am gyfnod mwy na 2 flynedd.

## 20. Holiadur Defnyddwyr Gwasanaethau a Darparwyr Gwasanaethau Rhanbarthol

Datblygwyd dau Holiadur Rhanbarthol yn ddiweddar i'w cwblhau ar wahân gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth a Darparwyr Gwasanaethau a Gomisiynwyd. Ymatebodd cyfanswm o 57 o ddefnyddwyr gwasanaeth ac o'r rheiny, roedd 42 ohonynt yn derbyn gwasanaeth ar ffurf cymorth hyblyg, ac roedd 15 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael cefnogaeth mewn llety â chymorth. Nododd 38 (67%) o'r 57 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gwblhaodd yr arolwg fod materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus yn effeithio'n negyddol ar eu gallu i gael gafael ar gymorth.

Roedd barn ynghylch ansawdd y llety sydd ar gael yn amrywio hefyd gyda 6 yn ei ddisgrifio'n rhagorol, 26 yn dda, 17 yn foddhaol, 6 yn wael a 2 yn wael iawn. Felly, dywedodd 14% o'r defnyddwyr gwasanaeth fod safon y llety sydd ar gael yn anfoddhaol.

Honnodd cyfanswm o 22 (39.6%) o ddefnyddwyr gwasanaethau yn Ynys Môn nad oedd modd iddynt fforddio prisiau rhentu, gyda 23 (40.4%) arall yn dweud mai dim ond efallai y gallent eu fforddio a dim ond 12 (21.1%) yn dweud eu bod yn fforddiadwy.

Ymatebodd pob un o'r 11 darparwr gwasanaeth a gomisiynwyd i'r holiadur. Yn gyffredinol, rhannodd y darparwyr atborth cadarnhaol gan nodi pryderon ynghylch:

- Diffyg llety addas ar gyfer cynnig eiddo sefydlog yn ogystal â phrinder tai fforddiadwy ac mewn rhai achosion, brinder eiddo ar gyfer symud ymlaen
- Nodwyd hefyd bod recriwtio a chadw staff yn destun pryder mawr
- Cynnydd yn yr anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ymhlith defnyddwyr gwasanaeth sy'n cyflwyno ar ôl Covid.

**Datganiad o Angen**

1. **Cyflwyniad**

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol lunio Datganiad o Angen yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Anghenion. Dylai'r datganiad nodi gofynion y presennol a'r dyfodol, a dylai gynnwys anghenion rhanbarthol lle mae'r anghenion yn cael eu diwallu gan yr Awdurdod Lleol. Yn y datganiad hefyd, dylid nodi sut y bydd anghenion statudol a nodwyd yn cael eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol.

2. **Canfyddiadau allweddol**

Mae ein Hasesiad Anghenion wedi canfod y canlynol:

- Mae ymchwil cenedlaethol yn dangos bod person mewn perygl o fod yn ddigartref oherwydd tlodi, llafur macro a micro a chyflwr y farchnad a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar lefel bersonol a chymdeithasol o safbwynt cymorth ac y bydd y gallu i ymdopi ag argyfwng yn cael effaith ar ddigartrefedd
- Mae cysylltiad amlwg rhwng digartrefedd a thrawma gyda 85% o'r rhai sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder troseddol, camddefnyddio sylweddau a digartrefedd wedi cael profiad o drawma pan oeddynt yn blant
- Os bydd person yn dod yn ddigartref, bydd ei iechyd corfforol a meddyliol yn dioddef

Mae adroddiad diweddar Monitor Digartrefedd Argyfwng Cymru, 2021 yn dangos y bydd digartrefedd yn cynyddu yn y tymor byr oherwydd effaith Covid a materion economaidd. Tynnwyd sylw at y materion canlynol yn ein Hasesiad Anghenion neu'n Strategaeth Dai ar gyfer 2022-27:-

- Yn ystod y blynyddoedd cyn pandemig COVID-19, gwelwyd cynnydd parhaus yn y lleoliadau llety dros dro, gyda chodiad o 24% yn nifer y lleoliadau rhwng 2016 a 2020. Mae'r cynnydd sydyn a welwyd yn ystod 2020/21 yn adlewyrchu rhaglen tai frys Llywodraeth Cymru i ddarparu llety diogel ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o fod yn cysgu allan yn ystod y pandemig
- Mae'r diffyg o ran y Lwfans Tai Lleol a'r gystadleuaeth oherwydd y galw am lety gwyliau wedi gwaethygu yn ystod y pandemig
- Mae ymyriadau argyfwng gan Awdurdodau Lleol yn parhau i gynyddu gyda chynnydd sydyn yn yr achosion Adran 75s yn ogystal â chynnydd o ran y camau gweithredu i gynorthwyo ymgeiswyr o dan A66 (cymorth atal) ac S73 (cymorth rhyddhad)
- Yn gyson â phatrwm yr ymatebion ynghylch graddfa newidiol y pwysau sy'n gysylltiedig â digartrefedd, nododd llawer o'r cyfranogwyr fod y cydbwysedd rhwng teuluoedd a phobl sengl wedi newid yn sylweddol yn 2020/21
- I'r rhan fwyaf o awdurdodau, roedd cyflawni eu dyletswydd drwy'r Sector Rhent Preifat wedi mynd yn anodd iawn
- Ar hyd a lled Cymru, dywedwyd yn llai aml ei bod yn anodd cael gafael ar denantiaethau cymdeithasol i bobl ddigartref o gymharu â cheisio cael lleoliadau mewn tai rhent preifat
- Dull hirsefydlog arall o fesur digartrefedd yw'r boblogaeth o bobl ddigartref sy'n cael eu lleoli mewn Llety Dros Dro gan Awdurdodau Lleol yn ystod y broses o gynnal asesiad digartrefedd ac ailgartrefu pobl.
- Bydd cynnydd yn yr Aelwydydd Digartrefedd Craidd tan 2023 ac o 2023 ymlaen, bydd mwy o bobl na'r nifer presennol yn cyflwyno eu hunain fel pobl sy'n ddigartref

Mae gwybodaeth o'n Hasesiadau Statudol, y Gronfa Atal Digartrefedd a Darparwyr Cymorth yn dangos y bydd yr isod yn berthnasol i'r Gwasanaethau Cymorth Tai:

- Yn gyffredinol, derbynnir gan ddarparwyr gwasanaethau arbenigol a'r Heddlu, gyda hynny yn cael ei gofnodi hefyd gan y cyfryngau lleol a chenedlaethol, nad oedd y lefel wirioneddol o gamdriniaeth ddomestig yn cael ei chofnodi'n gyson yn ystod y cyfnodau clo. Roedd llawer o deuluoedd wedi'u cyfyngu i'w heiddo a hynny'n golygu bod llai o gyfle iddynt roi gwybod am achosion o gam-drin ac achosion mynych, gyda hynny felly'n golygu cynnydd yn nifer yr anghenion nad oeddynt yn cael eu diwallu
- Mae bwlch penodol yn y ddarpariaeth ar gyfer y sawl sy'n dioddef camdriniaeth rywiol ar yr Ynys, a dylid ystyried y ddarpariaeth ar gyfer ariannu'r darparwr arbenigol yn y maes hwn, sy'n annibynnol ar y math mwy traddodiadol o wasanaethau VAWDASV a ddarperir ar hyn o bryd
- Gwelwyd cynnydd o ran anghenion lefel uchel o fewn y gwasanaethau cymorth iechyd meddwl
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sydd mewn perygl o ladd eu hunain neu niweidio eu hunain
- Mae tua hanner y bobl sy'n cael eu cydnabod fel rhai ag Anghenion Dysgu yn derbyn Gwasanaethau Cymorth Tai (Cynllun Gwariant Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Grant Cymorth Tai Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru)
- Erys lefel anghymesur o gymorth sy'n cael ei gapio ar uchafswm o 15 awr y pen yr wythnos i bobl ag Anableddau Dysgu. Mae hyn yn cymharu ag uchafswm o 5-8 awr ar gyfer y rhai ag anghenion heriol sy'n anhrefnus, yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd angen y lefel uchaf o ymyrraeth ac eithrio cymorth 24/7 o fewn amgylchedd o fath hostel
- Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaethau Cymorth Tai o fewn y grŵp cleientiaid Anableddau Dysgu yn rhai cost uchel, nifer isel
- Mae nifer y bobl ag Anabledd Dysgu nad ydynt yn bodloni'r diffiniad statudol o Anabledd Dysgu yn uchel ar Ynys Môn. Felly, mae angen cymorth tai parhaus i alluogi'r grŵp cleientiaid hwn i reoli eu tenantiaethau
- Mae'r proffil demograffig rhagamcanol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yn awgrymu bod nifer y bobl hŷn sydd angen gwasanaethau cymorth tai yn debygol o gynyddu,
- Mae'r proffil demograffig o boblogaeth Ynys Môn yn awgrymu bod angen sicrhau cynnydd yn ystod a chyflenwad y mathau penodol o opsiynau llety sydd ar gael i bobl hŷn
- Nid oes cymorth penodol sy'n gysylltiedig â thai yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl ag anghenion sy'n gysylltiedig ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig
- Mae angen gweithio'n agosach a sicrhau gwell trefniadau pontio a chynllunio ar gyfer y cymorth tai sydd ar gael i'r glasoed wrth iddynt ddod yn oedolion
- Mae nifer y carcharorion o Ogledd Cymru fel arfer rhwng 760 ac 850, ac mae 40-50 ohonynt yn fenywod, mae 60-70 yn droseddwyr ifanc ac mae 50-60 yn rhai y mae'n rhaid cymryd mesurau diogelwch lefel uchel yn eu cylch
- Mae nifer y bobl a gedwir yn y carchar wedi bod yn cynyddu
- Mae nifer yr achosion o salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau ac anableddau dysgu yn uwch ymhlith oedolion sydd yn y carchardai o gymharu â nifer yr oedolion yn y boblogaeth gyffredinol
- Yn ôl cyfran, mae poblogaeth y carchardai sy'n cynnwys troseddwyr sy'n 50 oed neu'n hŷn wedi cynyddu'n fwy nag unrhyw grŵp oedran arall sy'n golygu bod goblygiadau o ran gofal cymdeithasol
- Mae plant sydd â rhiant yn y carchar ddwywaith mor debygol â phlant eraill o fod â phroblemau ymddygiad ac iechyd meddwl a thair gwaith yn fwy tebygol o droseddu eu hunain

- Bydd yr adroddiad a gyhoeddwd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Ngharchar y Berwyn sef yr Astudiaeth o'r Prosiect Cyflymu yn cael ei ystyried fel un o flaenoriaethau'r RHSGC wrth symud ymlaen
- Mae nifer y bobl sy'n ail-gyflwyno eu hunain i'r Gwasanaethau Digartrefedd a Chymorth Tai wedi cynyddu

Mewn ymateb i holiadur ymgynghori a rannwyd ar draws Gogledd Cymry, mae darparwyr gwasanaeth yn nodi'r isod ar gyfer Ynys Môn:-

- Ymddengys bod gan y bobl sy'n cyflwyno eu hunain ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Tai nifer gynyddol o anghenion cymhleth a ffactorau risg
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sydd eisiau mynediad at gwnsela a therapïau eraill, pethau na fedr y GCT eu hariannu
- Mae Covid-19 wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sydd wedi eu hynysu ac sy'n unig ac mae cael llai o gyswllt gyda ffrindiau a theulu wedi cael effaith ar les corfforol a meddyliol. Mae'r modd y darperir gwasanaethau wedi gorfod newid gyda'r angen i yn fwy arloesol o ran y modd y rhoddir cymorth a hynny oherwydd pellhau cymdeithsol, yr angen i wisgo mwgwd ac ati sydd oll yn gallu cael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth
- Mae canolfan ddydd Y Goleudy yng Nghaergybi wedi cofnodi cynnydd mawr yn nifer y cleientiaid sy'n cyflwyno gyda phroblemau Iechyd Meddwl difrifol, gyda rhai'n peri risg uchel i staff a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Gall ymyriadau a chymorth gan sefydliadau arbenigol fod yn brosesau araf a maith. Mae llawer sy'n defnyddio canolfannau dydd mewn llety ansefydlog, yn cysgu ar soffas, yn cysgu ar y stryd, neu mewn llety gwely a brecwast.
- Gwelwyd cynnydd yn yr atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau Cyfryngu
- Mwy o achosion o bryder, cynnydd o ran hunan-niweidio, bygythiadau o hunanladdiad, teimladau o fod yn ynysig ac yn unig. Mae'r rhai sydd yn eu llety eu hunain neu lety hunangynhwysol dros dro yn llai parod i ymgysylltu a hynny o bosib oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y gorffennol, teimlo'n anniogel ac ati.
- Mae gwybodaeth o SPOA yn dangos bod menywod sy'n cyfrif am bron i 2 o bob 3 chyflwyniad ar gyfer gwasanaethau Cymorth Tai
- Mae nifer y bobl sengl/rhieni sengl neu'r rhai ag oedolyn/aelwydydd dibynnol sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth tai yn uchel iawn, gyda'r data diweddaraf yn dangos bod canran yr holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd ers 1.4.21 yn 86.1% o gymharu ag 82.5% ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol lawn
- Mae cyflwyniadau gan deuluoedd gan gynnwys aelwydydd rhieni sengl a dau riant wedi cynyddu ers dileu'r embargo ar droi pobl o'u cartrefi a orfodwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru.
- Pan mae pobl yn cyflwyno eu hunain i'r SpoA, mae 78.89% o'r holl anghenion yn gysylltiedig ag Iechyd Meddwl, Generig, Digartrefedd, Cam-drin Domestig a Phobl Ifanc Agored i Niwed
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n honni bod ganddynt anghenion iechyd meddwl lefel uchel wrth gyflwyno eu hunain i'r SPoA/ Porth Brysbennu.
- Mae achosion o anghenion sy'n cyd-ddigwydd neu ddiagnosis deuol ar gynnydd gyda chamddefnyddio sylweddau yn cael effaith ar bobl ifanc 16-25 oed

Mae gwybodaeth o'n Hasesiadau Statudol, y Gronfa Atal Digartrefedd a Darparwyr Cymorth yn dangos bod Fforddiadwyedd a Chyflenwad yn broblem:

- Mae fforddiadwyedd a mynediad yn y Sector Rhentu Preifat yn gynyddol anodd
- Pery diffyg o ran nifer yr eiddo un ystafell wely fforddiadwy sydd ar gael
- Mae diffyg eiddo symud ymlaen yn llesteirio ein gwasanaethau llety â chymorth ac yn golygu bod pobl yn gorfod treulio mwy o amser mewn llety dros dro mwy costus, gyda hynny'n atal pobl rhag cael mynediad at lefel o gymorth mwy dwys yn gynharach

- Mae angen llety â chymorth ar 49.3% o'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain i SpoA
- Mae prinder llety unllawr priodol wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- Anaml y bydd pobl ag Anableddau Dysgu sy'n byw mewn llety â chymorth a llety a rennir yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol
- Mae tystiolaeth a gasglwyd o adolygiadau gwasanaeth ac adroddiadau monitro 6 misol wedi tynnu sylw at y prinder o eiddo fforddiadwy yn y sector rhentu preifat. Roedd y broblem hon yn cael ei dwysáu ymhellach gan faterion fforddiadwyedd a'r diffyg rhwng rhent y farchnad a chyfraddau Lwfans Tai Lleol sy'n penderfynu sut y caiff budd-dal tai ei rannu.
- Diffyg eiddo symud ymlaen sydd yn ei dro yn golygu bod llai o le ar gael mewn hosteli a llety â chymorth dynodedig i'n pobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref
- Mae data a ddarparwyd gan Digartref, y darparwr cymorth tai dynodedig ar gyfer pobl ifanc ddigartref a bregus yn dangos bod rhwng 1 o bob 4 o bobl ifanc y mae angen cymorth hostel arnynt yn dod o'r gymuned LGBTQ+. Mae hyn ar adegau, wedi creu anawsterau i rai o'r bobl ifanc hyn sy'n byw mewn hosteli. Cdynabyddir ar draws Gogledd Cymru bod bwlch yn bodoli mewn perthynas â phobl ifanc LGBTQ+ sydd angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac mae'r angen hwn yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth ranbarthol

Mae gwybodaeth o'n hadroddiad ar y gwahanol agweddau ar ddelio â Covid yn dangos:

- Cynnydd yn y llwyth achosion oherwydd Covid-19
- Roedd y defnyddwyr gwasanaeth yr oedd ein dyletswydd iddynt yn cael ei rhyddhau oherwydd eu bod wedi colli eu llety dros dro yn fwriadol yn gallu ailymgeisio am gymorth. Roedd yr achosion hyn yn aml yn fwy heriol ac o'r herwydd, roeddent yn parhau i fod ar agor am gyfnodau hirach gyda hynny'n cael effaith bellach ar y cynnydd yn y llwyth achosion.
- Dywedodd 62.4% o'r staff fod natur y rhan fwyaf o'r achosion y maent yn delio â hwy wedi newid dros y 18 mis diwethaf – cynnydd yng nghymhlethdod yr achosion, yn enwedig mewn perthynas â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a chamddefnyddio sylweddau.
- Rheoli Llwyth Achosion
    - Dywedodd 53.7% o'r staff eu bod yn gallu ymdopi gyda'u llwyth achosion – roedd hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r cymorth a gawsant gan eu timau a chan rheolwyr.
    - Roedd symud o gyfweliadau wyneb yn wyneb i geisiadau dros y ffôn yn golygu bod staff yn gallu ymdopi â mwy o achosion.
    - Yn achos staff a oedd yn teimlo eu bod yn cael anhawster delio gyda'u llwyth achosion, nid oeddent ond yn gallu cwblhau gwaith adweithiol neu reoli argyfwng yn hytrach na gweithio'n ataliol a chynnig cyngor ac atebion.
    - Nododd y rhan fwyaf o staff y byddai llwyth o rhwng 10-40 o achosion yn ddelfrydol
- Darparu gwasanaeth effeithiol
    - Roedd 53.4% o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu darparu gwasanaeth effeithiol
    - Roedd cefnogaeth gan gydweithwyr, rheolwyr a thimau â rhan fawr yn hyn o beth
    - Hyfforddiant a phrofiad da o ddeddfwriaeth tai
    - Arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu swyddog digartrefedd ychwanegol, swyddog brysbennu a swyddog symud ymlaen
    - Mae'r rhwystrau'n cynnwys nifer rhy uchel o achosion, diffyg llety yn y Sector Rhentu Preifat a llety dros dro.
- Lles Staff

- Dywedodd 88.9% o'r staff a holwyd eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth, gyda 71% yn dweud bod y cymorth yn ddigonol.

Dangosodd gwybodaeth gan gleientiaid:

- Bod y Gwasanaethau Cymorth Tai wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau
- Nid oedd cleientiaid gwybod sut i fynd ati i gael gafael ar gymorth gan y Cyngor a'r Gwasanaethau Cymorth Tai
- Nifer isel iawn o gleientiaid oedd yn gallu fforddio'r prisiau rhentu cyfredol

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (**gan gynnwys yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| V0.1 | Rhagfyr 2021 | |
| V0.2 | Ionawr 2022 | Cam 2 a 3 |
| | | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| 1 - Beth sy'n cael ei asesu? | Strategaeth Rhaglen Cymorth Grant Tai 2022-26 |
| 2 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sy'n bodoli eisoes? | Newydd |
| 3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig yma? | Mae'r Strategaeth hon yn ofyniad ar Wasanaethau Tai gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai. Mae'r Strategaeth hefyd yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 am y pedair blynedd nesaf gydag adolygiad canol pwynt o fewn 2 flynedd. |

| Cam 1: Y Cefndir | | |
|---|---|---|
| 4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu? | Gwasanaethau Tai- Uned Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma? | Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisiynu | |
| 6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma? | Elliw Llŷr - Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisiynu<br>Arwel Jones – GCT Prif Swyddog Datblygu<br>Caron Jones – Swyddog Strategol Tai<br>Lesley Thomas – GCT Swyddog Datblygu | |
| 7 - Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | Strategaeth Dai Ddrafft 2022-27<br><br>Cynllun Trosiannol Ailgartrefu Cyflym<br><br>Mae'r Strategaeth Dai yn helpu i gyflawni nodau'r Cynllun Corfforaethol | |
| 8 - Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd cyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw cynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | Ydi |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | Ydi |
| | Meithrin perthynas dda | Ydi |
| | Diogelu hyrwyddo hawliau dynol | Ydi |
| 9 - Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r Ddyletswydd | ydi | |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol - gweler atodiad 1. | |
| 10 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?<br><br>**Os yw'r penderfyniad yn un strategol,** sicrhewch eich bod yn ystyried yn benodol a fyddai'r cynnig yn effeithio mwy ar bobl sy'n byw mewn amgylchiadau economaidd gymdeithasol llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas(gweler atodiad 1). | Holl ddinasyddion Ynys Môn o bosib, ond yn enwedig y rheini sy'n fregus ac / neu sy'n cael trafferth i gwrdd â'u hanghenion tai i gael mynediad i wasanaethau cefnogi tai .<br><br>Bydd y strategaeth yn cefnogi pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol Mae partneriaid allweddol o ran darparu tai gwell yn cynnwys darparwyr tai (cymdeithasau tai, landlordiaid preifat), sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth tai a chynorthwyo'r digartref, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd lleol. |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| 11 - A yw y cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Bydd yn annog i bobl aros o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys |
| 12 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Credwn y Bydd |
| 13 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd |
| 14 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Bydd yn annog i bobl aros o fewn eu cymunedau ac ar yr Ynys |
| Er mwyn eich cynorthwyo i ateb y cwestiynau uchod, mae'r **Canllawiau Asesu Effaith** corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag:<br>• Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu<br>• Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg; | |

| Cam 2.1: Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 |
|---|
| **dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg**. Mae templed ar wahân ar gael ar MonITor. Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach . |

| Cam 2.2: Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 | |
|---|---|
| 15 - Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd? | (Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 2).<br><br>Ni fyddai'r strategaeth yn cael effaith negyddol ar hawliau dynol. |

| Cam 2.3: Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |
|---|---|---|
| 16 - Ydi cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 3) | Cymru lewyrchus | **yndi** |
| | Cymru gydnerth | **yndi** |
| | Cymru iachach | **yndi** |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | **yndi** |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | **yndi** |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | **yndi** |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | **yndi** |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 17 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma? | Cafodd Strategaeth Rhaglen GCT ei datblygu drwy drafodaethau a holiaduron gyda defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a Staff Tai a rhanddeiliaid allweddol. |

| **Cam 2.4: Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori / Tystiolaeth / Llenwi Bylchau o ran gwybodaeth**<br>Gweler y rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | |
|---|---|
| 18 – Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd yma a chynnwys y dystiolaeth berthnasol a gafwyd yn y tabl yng Ngham 3 isod. | Datganiad o Angen sydd yn seiliedig ar Asesiad o Angen |
| 19 - Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | |

**Cam 3: Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

20 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma. *Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewisiwch un o'r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| Oed | **Positif** | Gweler Asesiad Anghenion<br>Data Cyfrifiad 2011<br>Stats Cymru – yn enwedig amcanestyniadau newid poblogaeth | |
| Anabledd | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Strategaeth yn nodi dulliau o gael mynediad i gymorth fel grantiau ar gyfer pobl a theulueoedd sydd ag anabledd | |
| Rhyw | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal | |

| **Y grwp / a warchodir** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Newid Rhyw | **Positif** | Nid oes gwybodaeth sy'n benodol i'r grŵp hwn ar gyfer ardal Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal. | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | **Positif** | Nid oes gwybodaeth sy'n benodol i'r grŵp hwn ar gyfer ardal Ynys Môn ar gael ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw arwydd o effaith negyddol ar y grŵp hwn. Dylai'r ffocws ar adnabod ac ymateb i angen sicrhau cyfle cyfartal. | |
| Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd | **Positif** | Data Cyfrifiad 2011<br>Stats Cymru<br>Dim ond 1.8% o'r boblogaeth ar adeg 2011 o gefndir ethnig nad yw'n wyn. Roedd y nifer hwn wedi tyfu ers cyfrifiad 2001. | |
| Crefydd neu Gred | **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | **Positif**<br>**Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru | |
| Priodas neu bartneriaeth sifil | **Positif** | Data a ddefnyddiwyd : Cyfrifiad 2011StatsCymru | |
| | | | |
| Yr iaith Gymraeg | **Positif** | Gweler Asesiad Effaith Iaith Gymraeg | |
| Hawliau Dynol | **Positif** | Gweler c15 | |
| Unrhyw fater perthnasol arall | | | |

| Y grwp / a warchodir | *Yr effaith debygol | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os y daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' uchod. | | | |

| **Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol (gweler atodiad 1)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith** (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? | **Effaith isel** | Mae'r Strategaeth yn cefnogi fframwaith mesur Safonau Byw: Y gallu i fwynhau safon byw, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal am a cefnogi pan fo angen | |

Tudalen 140

**Cam 4 – Canlyniad yr asesiad**

Mae pedwar canlyniad posibl – cadwch y rhain mewn cof wrth gwblhau'r rhan nesaf:

- **Canlyniad 1: Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Canlyniad 2: Addasu'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswch y cynnig i oresgyn rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.
- **Canlyniad 3: Parhau â'r cynnig -** Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Amlinellwch yn glir y cyfiawnhad dros barhau ag ef. Dylai'r cyfiawnhad gael ei gynnwys yn yr asesiad a rhaid iddo fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol. Ar gyfer y cynigion perthnasol pwysicaf, bydd angen rhesymau cymhellol.

- **Canlyniad 4: Atal a dileu'r cynnig -** Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Rhaid ei atal a'i ddileu neu ei newid. (Mae'r codau ymarfer a'r arweiniad ar bob un o ddyletswyddau'r sector cyhoeddus ar wefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon)

| **Cam 4 – Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| 21 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol (sef crynodeb o'r tabl/au yng ngham 3). | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd, | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 23 - A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 24 - A oes angen edrych ar beth y gellid eu gwneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | **Dim newid mawr (fel y diffinir uchod)** |
| 25 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru? | |
| 26 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Cefnogaeth Tai a Phwyllgor Gwaith |

| Cam 4 – Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| 27 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny? | Adolygu ar ôl 2 flwyddyn |

**Cam 5 – Cynllun Gweithredu**

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Atodiad 1 - Cymru Fwy Cyfartal - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

## Beth yw'r Ddyletswydd?

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb o ran canlyniadau, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu dwysau hynny:

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion garchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lleoedd** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Croestoriad** – yn ei hanfod, mae croestoriadedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

## Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol.

**Mae canllawiau penodol o ran y Ddyletswydd hon ar gael ar wahân ar MonITor.**

**Atodiad 2 – Hawliau Dynol**

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Materion i'w hystyried o ran yr iaith Gymraeg**

Mae'r templed corfforaethol ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb yn cynnwys cwestiynau penodol ynghylch effaith penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg (cwestiynau 11 i 14). Bydd y graddau mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw.

Fodd bynnag:

- Os ydych yn edrych ar sut fyddai prif bolisïau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; neu
- Os yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg;



**dylid cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg.** Cwblhewch asesiad effaith ac atodwch y templed i'ch asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr un cynnig.

Mae **dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg** hefyd ar gael ar MonITor i'ch cynorthwyo ymhellach .

| | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | **Strategaeth Tai 2022-26** |
| **Pwy sydd yn cynnal yr asesiad yma?** | **Gwasanaeth Tai- Strategol, Comisiynu a Pholisi** |
| **Dyddiad cwblhau'r asesiad** | **Hydref 2021** |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg



| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 1.1 A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydi<br><br>Mae'r Gwasanaethau Tai yn gweithio hefo partneriaid sy'n cynnig gwasanaethau dwyieithog sy'n cynnwys comisiynu a darpariaeth amrediad eang o wasanaethau grant cymorth tai i ystod o ddinasyddion a theuluoedd bregus sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref.<br><br>Bydd holl faterion cyfathrebu, boed trwy lythyr, galwad ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus ayyb yn cydymffurfio gyda Pholisi Iaith y Cyngor ynghyd â gofynion statudol o fewn Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Mesur Iaith Gymraeg 2011.<br><br>Bydd |
| 1.2 A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br><br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Ydi<br><br>Bydd holl gyhoeddiadau ac unrhyw ddogfennau sy'n tanategu'r Strategaeth Cymorth Tai ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys dogfennau tendro.<br><br>Bydd y broses ymgynghori, ynghyd ag ymwybyddiaeth a chodi cyhoeddusrwydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â gofynion y Safonau Iaith Gymraeg a'r Mesur yr Iaith Gymraeg 2011. Bydd hysbysebion ar gyfer holl recriwtio staff yn cael eu dynodi yn hanfodol neu ddymunol yn ddibynol ar anghenion a gofynion y swydd sy'n cael ei hysbysebu |
| 1.3 A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar | Ydi. Mae contractau cyfredol a rhai newydd ynghyd â chomisiynu |

| 1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>• Sut caiff cyrhaeddiad ei fonitro a'i fesur? | gwasanaethau yn cynnig a chreu rolau newydd a chyfleoedd Hyfforddiant. Ymgymerir gydag unrhyw wasanaeth newydd trwy broses gaffael lawn, ble yr hysbysebir pob dogfen mewn fformat ddwyieithog a chynigir y cyfle i unrhyw ddarpar ymgeisydd i gyflwyno tendr trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodir yn glir ar fanylebau gwasanaeth a chontractau cyfreithiol bod yna oblygiad cyfreithiol ar yr asiantaeth sydd wedi ei hapwyntio i ddarparu gwasanaethau ar ran CSYM yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ddi-eithriad, disgwylir i ddefnyddwyr gwasnaeth allu derbyn gwasanaeth cymorth tai yn eu dewis iaith, boed o'n Gymraeg neu Saesneg, wedi ei ddarparu i'r un lefel uchel o ansawdd.<br><br>Ar hyn o bryd mae Grant Cymorth Tai yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i oddeutu 220 o aelodau staff, sy'n cynnwys cymysgedd o swyddi llawn a rhan amser. Pan yn ystyried bod y gwasanaeth o natur symudol ac yn ddarostyngedig i reolau caffael, fe fydd swyddi newydd yn cael eu creu o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw swydd newydd sy'n cael ei chreu o fewn y Cyngor ac wedi ei hariannu allan o GCT yn ddarostyngedig i broses Asesu Sgilau Ieithyddol gan Banel yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor, Darperir Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn y rhan helaeth o'r achosion. Fodd bynnag, ystyrir rhai fel meysydd 'niche', ac o ganlyniad nid yw bob amser yn bosibl I sicrhau gwasanaeth gan hyfforddwyr yn yr iaith Gymraeg. Nid yw hyn yn cynnwys Hyfforddiant penodol sy'n rheidiol I'w ddarparu yn y Gymraeg yn unol gyda safonau gweithredol 128 ac 129, megis rheoli perfformiad a Iechyd a Diogelwch ymysg eraill.<br><br>Bydd holl ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei fonitro ddwy waith y flwyddyn, pryd y bydd cydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith Gymraeg a'r Mesur Iaith yn cael ei archwilio a'i adolygu. Nid oes |

# Cyngor Sir Ynys Môn – Templed ar gyfer Asesu Effaith ar yr Iaith Gymraeg

| **1 – Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | yna unrhyw dargedau na dangosyddion penodol y tu allan i ofynion cydymffurfiaeth hefo Safonau'r Iaith Gymraeg. Rydym hefyd wedi dylunio Holiadur Iaith Gymraeg penodol yr ydym wedi bod yn ei anfon at ein holl ddarparwyr gwasanaeth ar amseroedd rheolaidd, er mwyn gallu monitro cydymffurfiaeth, cynnydd a rhwystrau yn benodol. |



| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 2.1 A fydd y maes gwaith yma'n cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Bydd – cynigir gwasanaethau trwy ddewis iaith.<br><br>Gweler uchod – Mae trefniadau comisiynu chaffael ac unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth yn sgil hyn yn cael eu darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| 2.2 Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'i gynllunio mewn i'r cynnig?<br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain | Na<br><br>Ydi – Mae holl agweddau comisiynu a'r broses gaffael yn galluogi unrhyw ddarpar ymgeisydd i gyfathrebu mewn unrhyw fformat trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn yr un modd, unwaith mae gwasanaeth wedi ei gaffael, disgwylir i'r sefydliad sydd wedi ei apwyntio ddarparu gwasanaeth ddwyieithog llawn ar ran y Cyngor ac yn unol gyda Pholisi Iaith Y Cyngor, Rheoliaethau Safonau'r |

| 2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| at oedi yn y gwasanaeth? | Iaith Gymraeg a'r Mesur Iaith Gymraeg.<br><br>Ydi – darperir yr un safon o wasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws holl fformatau cyfathrebu<br><br>Na- byddai unrhyw wasanaeth cyfieithu sydd ei angen e.e. ar gyfer dogfenau ysgrifenedig yn cael eu ffactro i mewn i'r amserlen ar gyfer cyhoeddi a rhannu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol allweddol. |
| 2.3 A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br><br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>• A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg ee busnesau? | Ydi –<br><br>Disgwylir i ddarparwyr gwasanaeth farchnata a hyrwyddo eu gwasanaethau'n ddwyieithog trwy ystod o fformatau. Trwy wneud hyn, bydd yn cynyddu'r Iaith Gymraeg yn weledol, trwy gyhoeddi taflenni, posteri, defnyddio cyhoeddusrwydd ar orsafoedd radio lleol a defnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, bydd rhai o'r gwasanaethau yn cael eu darparu trwy drefniant Grŵp, ble y gall ambell un sy'n mynychu beidio a bod yn rhugl neu fethu a deall y Gymraeg. Serch hynny ac yn unol â gofynion cydymffurfiaeth gyda Rheoliaethau'r Safonau Iaith Gymraeg a'r Mesur Iaith Gymraeg, mae'n parhau'n ofynol i ddiwallu anghenion siardwyr yr iaith Gymraeg a'u dewis iaith o gyfathrebu. Bydd hyn yn gwneud yr iaith Gymraeg yn fwy gweledol. Bydd yr un trefniant yn sefyll o ran unrhyw ddigwyddiad Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth, neu Gyfarfod Ymgynghori Cyhoeddus. Bydd disgwyl i'r holl wasanaethau sydd wedi eu comisiynu gydymffurfio gyda Rheoliaethau Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Mesur Iaith Gymraeg ac o'r herwydd rhagwelir y bydd y rhan fwyaf os nad yr holl fusnesau |

| **2 – Effaith ar ddefnyddwyr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | yn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn eu sefydliadau perthnasol. |
| 2.4 A fydd y gwasanaeth Gymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch? | Ydi |
| • A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg? | Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll uchod, bydd rhywun sy'n ceisio gwasanaeth yn derbyn yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith |
| • A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd mynediad at wasanaeth yn y ddwy iaith ar gael yn barhaus. Byddai methiant o ran cynnig y ddarpariaeth yn y ddwy iaith yn torri amodau'r cytundeb ac yn arwain at ymchwiliad llawn. |



| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| 3.1 A yw'r maes gwaith yma'n cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau?<br><br>• A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? | Mae gan Ddarparwyr Gwasanaeth sydd wedi eu comisynu i ddarparu Cymorth Tai oblygiad cyfreithiol o fewn y cytundeb gwasanaeth I sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn y ddewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu Saesneg. Yn ychwanegol, i gefnogaeth uniongyrchol i unigolion, fe gynhelir sesiynau grŵp yn ogystal o fewn y prosiectau, ynghyd â chyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill yn y gymuned, megis Grwpiau Llesiant a Hybiau Cymunedol lleol, sy'n cynnig mynediad rhithiol ac ystod eang o weithgareddau y gellir eu darparu trwy uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog. |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Trwy gyfeirio pobl ymlaen at hybiau cymunedol a gwasnaethau lleol eraill, mae'r cynllun yn grymuso pobl i gymryd rheolaeth o'u bywydau, gan eu bod yn y gorffennol wedi pofi anhawsterau a bywyd anrhefnus, ac o ganlyniad yn hybu economiau lleol. |

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| • A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Fel y cyfeirwyd uchod, gellir darparu pob gwasanaeth ar drefniant unigol neu grŵp yn y Gymraeg. |
| 3.2 A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg?<br><br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol?<br><br>• A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? Ee darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon?<br><br>• A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith - ee gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ayyb? | Ydi<br><br>Ydi – Dylid edrych ar y cyfeiriad uchod at gefnogaeth uniongyrchol a ddarperir ar gyfer unigolion neu ystod o weithgareddau / sesiynau o fewn Grwpiau Llesiant a hybiau Cymunedol.<br><br>Yn gyffredinol, dim ond rhywun sy'n 16 oed neu hŷn sy'n gallu cael mynediad at Gymorth Tai'n uniongyrchol, ac mae'r mwyafrif o'r rhai hynny sy'n ceisio gwasanaeth yn 25 oed neu hŷn. Er bod yna wasanaeth penodol ar gyfer pobl ifance bregus 16-24, mae'n rhesymol i dybio bod cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol, ond maent wedi eu cyfyngu'n sylweddol oherwydd natur y darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Bydd y gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon, ble ystyrir hyn i fod yn briodol ar gyfer diwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, fel rhan o gynllun cefnogaeth sydd gyda'r unigolyn yn ganolog.e.e. gwella llesiant meddyliol a chorfforol.<br><br>Nid oes yna unrhyw bartneriaeth uniongyrchol gyda Mentrau Iaith na'r Urdd ar hyn o bryd. Serch hynny gellir ystyried hyn ar gyfer hyrwyddo'n y dyfodol yn ogystal â gweithio ar y cyd. |

Tudalen 152

| **3 – Effaith ar gymunedau Cymraeg** | |
|---|---|
| | |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| 4.1 Polisiau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at yr uchod? | Disgwylir i bob darparwr sydd wedi ei gomisiynu i gael eu Polisiau Iaith Gymraeg sy'n cydymffurfio gyda'r gofynion cyfreithiol sydd wedi eu gosod o fewn y Safonau Iaith Gymraeg, Polisi iaith CSYM, strategaethau amrywiol a chanllawiau perthnasol arall i'r Iaith Gymraeg. Cynhwysir hyn yn y cytundeb rhwng Y Grŵp Cynllunio Cymorth Tai Lleol a'r darparywr gwasanaeth dynodedig.<br><br>Gwerthusir cydymffurfiaeth gyda'r gofynion uchod ddwy waith y flwyddyn |
| 4.2 Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu tuag at Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ym mis Medi 2016?<br><br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Cyfle i bobl gael mynediad i dai a chefnogaeth ar yr Ynys drwy nifer o ymyrraethau a thai o fewn eu cymunedaub o ddewis ar draws yr Ynys ac yn eu dewis iaith.<br><br>Ydi – Mae'r Gwasanaethau Tai yn aelodau o'r Fforwm Iaith Gymraeg,<br>Strategol, gyda thargedau blybyddol I'w cyrraedd a'u monitro gan y Fforwm,<br><br>Trwy sicrhau bod holl wasanaethau cymorth tai wedi eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg, ble y mae y Defnyddiwr Gwasanaeth wedi dewis hynny. Trwy wenud hyn, mae'n golygu bod y mwyafrif o'r staff o fewn y sector hefo'r gallu i siarad yn y Gymraeg. |

| **4 - Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisiau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| | |

| **5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| 5.1 Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (hy crynodeb o'r atebion i'r cwestiynau uchod), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith? Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol: | |
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Parhau gyda trefniadau comisiynu cadran sy'n sicrhau bod darparwyr gwasanaeth cymorth tai cyfredol ac yn y dyfodol yn gorfod cydymffurfio gyda goblygiadau contractio a deddfwriaeth berthnasol megis Safonau Iaith Gymraeg a'r Mesur Iaith. Edrychir ar gydymffurfiaeth ddwy waith y flwyddyn |
| Yr effeithiau negyddol: | Methiant gan ddarparwyr i apwyntio siaradwyr Cymraeg i mewn i swyddi gwag. Siaradwyr Cymraeg sy'n derbyn gwasanaeth unigol neu fynychu sesiynau grŵp yn peidio ac ymarfer eu hawliau i gael cyfathrebu trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg. Diffyg argaeledd o wasanaethau cyfieithu ar gyfer sesiynau grŵp ynghyd â'r gost ychwanegol. |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Gobeithir trwy adnabod yr angen i allu siarad Cymraeg fel gofyniad hanfodol ar gyfer ymgymryd â'r rhan helaeth o'r swyddi o fewn y sector, y bydd yn sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n ddigonol ac y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i gael eu cefnogi yn eu dewis iaith. |
| Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad: | Data Cydraddoldeb e.e y nifer o Staff sy'n siaradwyr Cymraeg o fewn pob darparwr gwasanaeth a'r nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth o'r cyfanswm sydd wedi eu cefnogi, sydd gyda Chymraeg fel eu dewis iaith. Bydd well gan ambell ddefnyddiwr gwasanaeth siarad Cymraeg tra'n derbyn gohebiaeth ysgrifenedig |

Tudalen 154

| **5 – Yr effeithiau sydd wedi cael eu nodi a'u hasesu** | |
|---|---|
| | yn y Saesneg. |

| **6 – Ymgynghori0** | |
|---|---|
| 6.1 Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg?<br><br>Mae canllawiau wedi'u cynnwys mewn rhestr wirio cyn ymgysylltu ac ymgynghori, sydd ar gael ar MonITor | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar yr effeithiau positif ac andwyol ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.<br><br>Mae'n ofynnol arnom ystyried a cheisio am farn am effaith ein cynlluniau ar y Gymraeg ac rydym wedi cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb a'r iaith. Pa effeithiau y gallai **Strategaeth Grant Cymorth Tai** eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Yn eich barn chi, sut y gellid hybu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol? |
| 6.2 Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Bydd yr ymgynghoriad ar gael ar lein o fewn y parth cyhoeddus ac yn gwahodd ymatebion gan:<br><br>• Defnyddwyr Gwasanaeth (Cyfredol a Chyn Ddefnyddwyr)<br>• Holl Aelwydydd Ynys Môn (deiliadaeth niwtral, sydd erioed wedi cael cyswllt gyda Gwasanaethau Cymorth Tai)<br>• Darparwyr Gwasanaeth sydd wedi eu comisiynu<br>• Rhanddeiliaid Allweddol megis Staff Iechyd a Chyfiawnder Troseddol |

| **6 – Ymgynghori0** | |
|---|---|
| 6.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Dim newidiadau wedi eu hadnabod |

| **7 – Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| 7.1 Dylech grynhoi'ch cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>**Bydd angen cyfeirio at y crynodeb yma yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb (Cam 4 – canlyniad yr asesiad).** | Dim newidiadau wedi eu hadnabod |
| 7.2 Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith? | **Dylid defnyddio'r cynllun gweithredu ar ddiwedd y templed asesu effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad.** |